

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

18/06/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Amseroedd Aros y GIG](#)
[Welsh Conservatives Debate: NHS Waiting Times](#)

[Dadl Plaid Cymru: Yr M4 o amgylch Casnewydd](#)
[Plaid Cymru Debate: The M4 around Newport](#)

[Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Ynni](#)
[Welsh Liberal Democrats Debate: Energy](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Llais—Siarad ar ran Pobl sy'n Byw gyda Chlefyd Niwronau Motor yng Nghymru](#)
[Short Debate: Voice—Speaking Up for People Living with Motor Neurone Disease in Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cyllid yr EU

13:30 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa ragamcanion y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud am fynediad Cymru at gyllid yr UE yn y dyfodol?
OAQ(4)0427(FIN)

Questions to the Minister for Finance

EU Funding

1. What projections has the Welsh Government made about Wales's future access to EU funding?
OAQ(4)0427(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance

Between 2014 and 2020, Wales has qualified for €2.4 billion from the European structural funds, with circa €2 billion allocated to west Wales and the Valleys and €400 million to east Wales.

Rhwng 2014 a 2020, mae Cymru wedi cymhwyso ar gyfer €2.4 biliwn o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, gydag oddeutu €2 biliwn wedi'i ddyrannu i orllewin Cymru a'r Cymoedd a €400 miliwn i ddwyrain Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What assessment has the Welsh Government made of the potential risks to the Welsh programme going ahead without delay, if the UK partnership agreement gets into difficulty or the English European programme falls foul of the European Commission?

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran y risgiau posibl i raglen Cymru allu mynd yn ei blaen heb oedi, os ceir anawsterau o ran cytundeb partneriaeth y DU neu fod rhaglen Ewropeaidd Lloegr yn tramgwyddo'r Comisiwn Ewropeaidd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for Cardiff Central for that question. Initial feedback from the European Commission is that the UK partnership agreement is much improved. There are some issues that remain over the England and UK chapters, and we are working not only with the UK Government, but with the Commission, through our working groups, to address the issues as well. So, we are hopeful for a speedy approval of programmes following the UK partnership agreement expected in September.
- Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd am y cwestiwn hwnnw. Adborth cychwynnol y Comisiwn Ewropeaidd yw bod cytundeb partneriaeth y DU yn gwella'n fawr. Mae rhai materion sy'n parhau ynglŷn â phenodau Lloegr a'r DU, ac rydym yn cydweithio nid yn unig â Llywodraeth y DU, ond gyda'r Comisiwn, drwy ein gweithgorau, er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn hefyd. Felly, ein gobaith yw cael cymeradwyaeth gyflym i raglenni yn dilyn cytundeb partneriaeth y DU a ddisgwyllir ym mis Medi.
- 13:31 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- The Minister for Natural Resources and Food announced a food and processing package last week, which will be underpinned by money from the rural development fund, which is obviously European based. Is the Welsh Government putting in any of its own money to complement this European money, in order to develop the strategy to increase processing and food production here in Wales, or is it solely European money that is underpinning this programme?
- Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd becyn bwyd a phrosesu, a fydd yn cael ei ategu gan arian o'r gronfa datblygu gwledig, sy'n amlwg yn seiliedig ar gyllid Ewropeaidd. A yw Llywodraeth Cymru yn cyfrannu unrhyw arian ei hun i gyfateb i'r arian Ewropeaidd, er mwyn datblygu'r strategaeth i gynyddu prosesu a chynhyrchu bwyd yma yng Nghymru, neu ai arian Ewropeaidd yn unig sy'n cynnal y rhaglen hon?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister did announce his ambitions and, indeed, they were widely welcomed in terms of those policies. The rural development programme will be widely consulted upon and we will play our part—indeed, as we have done—with partners to ensure that that is supported in due course.
- Bu i'r Gweinidog gyhoeddi ei ddyheadau ac, yn wir, cawsant eu croesawu yn eang o ran y polisiau hynny. Bydd y rhaglen datblygu gwledig yn destun ymgynghori eang a byddwn yn gwneud ein rhan—yn wir, fel y gwnaethom eisoes—gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei gefnogi maes o law.
- 13:32 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei roi i'r posibiladau o geisio defnyddio'r cronfeydd strwythurol er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r economi yn ardaloedd y de-orllewin yng Nghymru?
- Has any consideration been given to the possibilities of endeavouring to use the structural funds in order to promote the Welsh language and the economy in areas in south-west Wales?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that this will be not only possible, but welcomed in terms of the discussions that we have been holding and, indeed, in the spirit of the First Minister's statement yesterday and the Minister for Economy, Science and Transport's engagement in this.
- Rwy'n siŵr y bydd hyn nid yn unig yn bosibl, ond yn cael ei groesawu o ran y trafodaethau rydym wedi bod yn eu cynnal ac, yn wir, yn ysbryd datganiad y Prif Weinidog ddoe ac ymgysylltiad Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn hyn.
- 13:33 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of the most attractive forms of EU funding that we could have access to is the Horizon 2020 programme. Given that this stream of funding requires higher education institutions to develop deep working partnerships with businesses across Europe, as well as other higher education institutions, would it be beneficial for us to have a business presence in Wales House in Brussels?
- Weinidog, un o'r mathau mwyaf apelgar o arian yr UE y gallem gael mynediad ato yw'r rhaglen Horizon 2020. O ystyried bod y ffrwd hon o gyllid yn ofynnol i sefydliadau addysg uwch i ddatblygu partneriaethau gweithio dwys gyda busnesau ar draws Ewrop, yn ogystal â sefydliadau addysg uwch eraill, a fyddai'n fuddiol i ni gael presenoldeb busnes yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I did respond very positively to the report from the Constitutional and Legislative Affairs Committee about building on the partnership at Wales House, and, indeed, I look forward to following on those discussions.
- Bu i mi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn ag adeiladu ar y bartneriaeth yn Nhŷ Cymru, ac, yn wir, rwy'n edrych ymlaen at ddilyn ymlaen y trafodaethau hynny.

13:33	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black, to ask question 2.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black, i ofyn cwestiwn 2.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	Pwerau Newydd i Godi Treth	Tax-raising Powers	
13:33	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>2. <i>A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am y paratodau sydd ganddi ar waith ar gyfer pwerau newydd i godi trethi i'r Cynulliad yn sgil Bil Cymru? OAQ(4)0413(FIN)</i></p>	<p>2. <i>Will the Minister make a statement on the preparations she has in place for new tax raising powers coming to the Assembly as a result of the Wales Bill? OAQ(4)0413(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I have established a tax advisory group, a tax forum and a work programme, and indicated my intention to engage with the Finance Committee as soon as the Wales Bill reaches an appropriate stage.</p>	<p>Rwyf wedi sefydlu grŵp cynghori ar dreth, fforwm treth a rhaglen waith, ac wedi mynegi fy mwriad i ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid cyn gynted ag y bydd Bil Cymru yn cyrraedd cam priodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>You will be aware of the paper by Gerry Holtham, which was recently published by the Institute of Welsh Affairs and which talks about ways in which stamp duty and landfill duty could be collected by local authorities. Have you considered the contents of that paper and whether or not it is a practical way forward in terms of collecting these new taxes?</p>	<p>Byddwch yn ymwybodol o'r papur gan Gerry Holtham, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad Materion Cymreig ac sy'n sôn am sut y gallai treth stamp a threth thirlenwi gael eu casglu gan awdurdodau lleol. A ydych wedi ystyried cynnwys y papur hwnnw ac a yw'n ffordd ymarferol ymlaen o ran casglu'r trethi newydd hyn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I wish to look at all opportunities and all avenues in terms of collecting these new taxes, and I am clearly interested in Gerry Holtham's views.</p>	<p>Hoffwn edrych ar yr holl gyfleoedd a'r holl lwybrau o ran casglu'r trethi newydd hyn, ac mae'n glir bod gennyf ddiddordeb mewn clywed barn Gerry Holtham.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call Mike Hedges.</p>	<p>Galwaf Mike Hedges.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>Does the Minister agree—</p>	<p>A yw'r Gweinidog yn cytuno—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I am sorry; we have not had Peter Black's second question. I beg your pardon.</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf; nid ydym wedi cael ail gwestiwn Peter Black. Maddeuwch i mi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. I accept that you are willing to take on board that particular paper. Given that Gerry Holtham has linked this taxation to the council tax benefit, would you consider looking at that in terms of reducing the cost to the Welsh Government of paying for those benefits, given the reforms that he suggests as to how we might better move forward in a more coherent way?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n derbyn eich bod yn barod i ystyried y papur arbennig hwnnw. O ystyried bod Gerry Holtham wedi cysylltu'r trethiant hwn â'r budd-dal treth gyngor, a fydddech yn ystyried edrych ar hynny o ran lleihau'r gost i Lywodraeth Cymru o dalu am y budd-daliadau hynny, o ystyried y diwygiadau y mae'n eu hawgrymu ynghylch sut y gallem symud ymlaen yn well mewn ffordd fwy cydlynol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that the time and the opportunity for full consultation and discussion for this is ahead, as we see the Wales Bill now moving through from the Commons to the Lords. I look forward to this kind of engagement and discussion, and to looking at all the contributions that are made to it.
- Rwy'n meddwl bod yr amser a'r cyfle ar gyfer trafodaeth ac ymgynghoriad llawn ynglŷn â hyn ar y gorwel, wrth i ni weld Bil Cymru bellach yn symud ymlaen o Dŷ'r Cyffredin i Dŷ'r Arglwyddi. Edrychaf ymlaen at y math hwn o ymgysylltu a thrafod, ac at fwrw golwg ar yr holl gyfraniadau a wneir iddo.
- 13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call Mike Hedges. Galwaf Mike Hedges.
- 13:35 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Does the Minister agree that, for income tax powers to work, the lock-step has to be removed, and that it will be important to create a Welsh treasury and a methodology of setting a Welsh treasury management policy in order to make the devolution of tax-raising powers work?
- Diolch i chi, Lywydd. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid dileu'r camau-clos er mwyn i bwerau treth incwm weithio, ac y bydd yn bwysig creu trysorlys i Gymru a methodoleg o bennu polisi rheoli trysorlys i Gymru er mwyn gwneud i bwerau codi trethi datganoledig weithio?
- 13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, we accepted all of the cross-party Silk commission's recommendations. It argued that there was a convincing case for Wales to be able to vary the different rates of income tax independently, and we have supported that recommendation. So, it is disappointing that we still have the lock-step in the Wales Bill, and, of course, we continue to urge the UK Government to reconsider this issue. It is vital, of course, as I said, and preparations are under way in terms of our Welsh treasury. The Silk commission also recommended that Welsh Government should establish that new Welsh treasury function to, of course, manage the new tax and borrowing powers for Wales. As to the functions and policies that I have already outlined to committee and to this Chamber, I will be glad, of course, to report on those in due course.
- Yn amlwg, rydym yn derbyn holl argymhellion trawsbleidiol comisiwn Silk. Roedd yn dadlau bod achos diamheuol o blaid rhoi i Gymru y gallu i amrywio'r gwahanol gyfraddau treth incwm yn annibynnol, ac rydym wedi cefnogi'r argymhelliad hwnnw. Felly, mae'n siom bod y camau-clos yn parhau ym Mil Cymru, ac, wrth gwrs, rydym yn parhau i annog Llywodraeth y DU i ailystyried y mater hwn. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, fel y dywedais, ac mae paratodau ar y gweill o ran ein trysorlys yng Nghymru. Argymhellodd y comisiwn Silk hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu'r swyddogaeth newydd honno ar gyfer trysorlys Cymru, wrth gwrs, i reoli pwerau trethu a benthyca newydd i Gymru. O ran y swyddogaethau a'r polisiau hwyf eisoes wedi eu hamlinellu i'r pwyllgor ac i'r Siambr hon, byddaf yn falch, wrth gwrs, i adrodd ar hynny maes o law.
- 13:36 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the Silk commission also suggests that a new Welsh treasury should implement international best practice, which I am sure we all would agree with. Can you tell us, therefore, what analysis you have already made of international treasuries, and how has this work actually affected the implementation of a new Welsh treasury?
- Weinidog, mae'r comisiwn Silk hefyd yn awgrymu y dylai trysorlys newydd Cymru weithredu arfer gorau rhyngwladol, ac rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno â hyn. A allwch ddweud wrthym, felly, pa ddadansoddiad rydych eisoes wedi ei wneud o drysorlysoedd rhyngwladol, a sut y mae'r gwaith hwn mewn gwirionedd wedi effeithio ar roi trysorlys newydd Cymru newydd ar waith?
- 13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am certainly very interested in the international experience and evidence. Obviously, I am very aware of the evidence that the Finance Committee has been taking. I am very interested in the work that has been done by the Organisation for Economic Co-operation and Development, as far as this is concerned, and, in terms of what we need to deliver as regards our tax policy functions, I am looking specifically at that evidence, and, indeed, I will be extending my reach as far as that is concerned once we have Royal Assent for the Bill.
- Yn sicr, mae gennyf ddiddordeb mawr yn y profiad a'r dystiolaeth ryngwladol. Yn amlwg, rwy'n ymwybodol iawn o'r dystiolaeth y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn ei chymryd. Yn hyn o beth, mae gennyf ddiddordeb mawr yn y gwaith a wnaed gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac, o ran yr hyn sydd angen i ni ei gyflawni mewn perthynas â'n swyddogaethau polisi treth, rwy'n edrych yn benodol ar y dystiolaeth honno, ac, yn wir, byddaf yn estyn fy nghylch gwaith ynglŷn â hynny ar ôl inni gael Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil.

13:37	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, forecasting is a key part of the preparation and operation of tax-varying powers. I believe that you have noted previously that the Office for Budget Responsibility will begin forecasting Welsh taxes this autumn, and that the first Welsh taxes, of course—stamp duty and landfill—could be devolved in 2018. However, business rates are likely to be devolved before then and will replace part of the block grant, of course. So, could you set out whether tax forecasting will include forecasts of business rates income, so that we can understand its effects on the block grant?</p>	<p>Weinidog, mae rhagweld yn rhan allweddol o baratoi ar gyfer pwerau amrywio trethi a'u gweithredu. Rwy'n credu eich bod eisoes wedi nodi y bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dechrau rhagweld trethi yng Nghymru yr hydref hwn, ac y gallai'r trethi cyntaf yng Nghymru—treth stamp a thirlenwi—wrth gwrs, gael eu datganoli yn 2018. Fodd bynnag, mae ardrethi busnes yn debygol o gael eu datganoli cyn hynny a byddant yn disodli rhan o'r grant bloc, wrth gwrs. Felly, a allech chi nodi a fydd rhagolygon treth yn cynnwys rhagolygon o incwm ardrethi busnes, er mwyn i ni allu deall ei effeithiau ar y grant bloc?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:38	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>We certainly look forward to the start of the process, with the OBR, in the autumn. Clearly, the first real move in terms of the full devolution on domestic rates will take place next April. I certainly would want to report back to you in terms of opportunities for forecasting, and to widen that out to what the Assembly and, particularly, the Finance Committee would be seeking in terms of that forecasting. Of course, part of the Treasury function will be revenue forecasting—the production of forecasts for each devolved and assigned revenue stream.</p>	<p>Rydym yn sicr yn edrych ymlaen at ddechrau'r broses, gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn yr hydref. Yn amlwg, bydd y symudiad cyntaf go iawn o ran y datganoli llawn ar gyfraddau domestig yn digwydd fis Ebrill nesaf. Byddwn yn sicr yn awyddus i adrodd yn ôl i chi o ran cyfleoedd ar gyfer rhagolygon, ac i ehangu hynny yn ôl yr hyn y byddai'r Cynulliad, yn arbennig, a'r Pwyllgor Cyllid yn ei geisio o ran y rhagolygon hynny. Wrth gwrs, rhan o swyddogaeth y Trysorlys fydd rhagweld refereniw—cynhyrchu rhagolygon ar gyfer pob ffrwd refereniw a ddatganolwyd ac a bennwyd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Setliad Grant Bloc		The Block Grant Settlement	
13:38	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am setliad grant bloc Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU? OAQ(4)0419(FIN)</i></p>	<p><i>3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's block grant settlement from the UK Government? OAQ(4)0419(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:38	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>The cumulative impact of the UK Government's budget cuts is that, by 2015-16, our budget will be 10% lower in real terms than it was in 2010-11.</p>	<p>Effaith gronrus y toriadau yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU yw y bydd ein cyllideb erbyn 2015-16 10% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:39	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>I think that the Minister expressed very clearly the impact of UK Government cuts on our budget. Does she agree with me that, last week, the Secretary of State for Wales had the opportunity to demonstrate that he was standing up for Wales, when, in fact, what he did was develop a disgraceful and offensive attack on a constituent of my colleague, the Member for Pontypridd, a former army veteran, who has served this country with valour? Does she agree that what we need is a Secretary of State who is prepared to stand up for Wales, not to attack people who have defended our country?</p>	<p>Credaf yr eglurwyd effaith toriadau Llywodraeth y DU ar ein cyllideb yn glir iawn gan y Gweinidog. A yw hi'n cytuno â mi y bu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gael y cyfle yr wythnos diwethaf i ddangos ei fod yn sefyll dros Gymru, pan, mewn gwirionedd, yr hyn a wnaeth oedd datblygu ymosodiad gwarthus a sarhaus ar etholwr i'm cydweithiwr, yr Aelod dros Bontypridd, a oedd yn gyn-filwr yn y fyddin, ac a wasanaethodd y wlad hon gyda dewrder? A yw hi'n cytuno mai'r hyn rydym ei angen yw Ysgrifennydd Gwladol sy'n barod i sefyll dros Gymru, yn hytrach nag ymosod ar bobl sydd wedi amddiffyn ein gwlad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:39	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for Rhondda for that question. Of course, the Secretary of State for Wales last week was faced with the consequences of a decision that he made, as part of the Government that introduced the iniquitous bedroom tax, which we wish to abolish.</p>	<p>Rwy'n diolch i'r Aelod dros Rondda am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, yr wythnos diwethaf roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wynebu canlyniadau penderfyniad a wnaeth, fel rhan o'r Llywodraeth a gyflwynodd y dreth ystafell wely anghyfiawn, sef y dreth rydym yn dymuno ei diddymu.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones. Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.
- 13:40 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch yn fawr. A yw'n fwiad gan y Blaid Lafur, os bydd hi'n ffurfio Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2015, i gynyddu'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus? Thank you very much. Is it the intention of the Labour Party, should it form the UK Government in 2015, to increase expenditure on public services?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We await the opportunities in terms of the manifestos, which I know will be forthcoming from the Labour Party in due course. Rydym yn disgwyl am y cyfleoedd o ran y manifestos, a gwn y dônt i law oddi wrth y Blaid Lafur maes o law.
- 13:40 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Nid wyf yn siŵr iawn beth oedd yr ateb hwnnw. [Chwerthin]. Mae'n siŵr y byddai diwygio fformiwla Barnett yn un ffordd o amddiffyn Cymru'n rhannol rhag y toriadau sydd wedi digwydd. Yn ystod cyfnod Llywodraeth Lafur ddiwethaf y Deyrnas Unedig, ni wnaed unrhyw ddiwygio i fformwla Barnett. Pam? I am not exactly sure what the response was. [Laughter]. I am sure that reform of the Barnett formula would be one way of protecting Wales, or partially at least, from the cuts that have taken place. During the last Labour United Kingdom Government, there were no revisions to the Barnett formula. Why was that?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Of course, the opportunity and the need to reform the Barnett formula has been made very clear by this Welsh Labour Government consistently. Indeed, that was well informed by the Holtham commission and by the Silk commission. Of course, these are issues that we hope will be taken forward by all political parties in terms of the way forward. Wrth gwrs, mae'r cyfle a'r angen i ddiwygio fformiwla Barnett wedi ei fynegi'n glir iawn gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru yn gyson. Yn wir, cafodd hynny ei hysbysu'n dda gan y comisiwn Holtham a chan y comisiwn Silk. Wrth gwrs, gobeithio y bydd y rhain yn faterion a gânt eu hyrwyddo gan bob plaid wleidyddol o ran y ffordd ymlaen.
- 13:41 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Weinidog, ym mis Mehefin 2013, roedd eich cyllideb atodol yn sôn am wario £36.6 miliwn ar y grant amddifadedd. Er hynny, erbyn inni gael yr ail gyllideb atodol ym mis Chwefror, dim ond £33.8 miliwn oedd i'w wario, gyda £2.9 miliwn yn cael ei roi mewn cronfeydd wrth gefn. A wnaethoch chi ystyried ehangu darpariaeth ar gyfer y grant amddifadedd wrth wneud y newidiadau hyn? Minister, in June 2013, your supplementary budget talked about spending £ 36.6 million on the deprivation grant. However, by the time of the second supplementary budget in February, only £ 33.8 million was to be spent, with £ 2.9 million placed in reserves. Did you consider extending the provision for the deprivation grant in making these changes?
- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Clearly, we have come to a view on how we spend the pupil deprivation grant as a direct result of our budget agreement with the Welsh Liberal Democrats. Yn amlwg, rydym wedi dod i farn ar sut rydym yn gwario'r grant amddifadedd disgyblion o ganlyniad uniongyrchol i'n cytundeb cyllidebol gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Ffioedd Cyfreithiol

Legal Fees

- 13:42 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu gwariant Llywodraeth Cymru ar ffioedd cyfreithiol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0414(FIN) *4. Will the Minister outline the Welsh Government spend on legal fees during the Fourth Assembly? OAQ(4)0414(FIN)*
- 13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Our approximate spend in relation to legal fees, inclusive of VAT and disbursements, for the period 1 May 2011 to 13 June 2014 was £7.7 million. Ein gwariant yn fras o ran ffioedd cyfreithiol, yn cynnwys TAW a threuliau, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2011 i 13 Mehefin 2014 oedd £7.7 miliwn.

13:42 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your response. Are you able to tell me how that bill is split between the cost of the internal Welsh Government-run legal team and external legal advice?

Weinidog, diolch i chi am eich ymateb. A ydych yn gallu dweud wrthyf sut y rhennir y bil hwnnw rhwng cost y tîm cyfreithiol mewnol a gaiff ei redeg gan Lywodraeth Cymru a'r cyngor cyfreithiol allanol?

13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is important that there is external legal advice with regard to specific expertise or capacity that we require. In terms of that advice, we ensure that it enables us to fulfil our legislative and administrative responsibilities. It is an appropriate use of the resource. I am certainly prepared to write to the Member with that specific detail.

Mae'n bwysig bod yna gyngor cyfreithiol allanol sy'n ymwneud ag arbenigedd neu allu penodol sydd eu hangen arnom. O ran y cyngor hwnnw, rydym yn sicrhau ei fod yn ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau deddfwriaethol a gweinyddol. Mae'n ddefnydd priodol o'r adnoddau. Rwy'n sicr yn barod i ysgrifennu at yr Aelod gyda'r manylion penodol hynny.

Fframwaith Ystadegau Gwladol

The Framework for National Statistics

13:43 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. Pryd gafodd y Gweinidog gyfarfod gyda Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â newidiadau i'r fframwaith ystadegau gwladol? OAQ(4)0424(FIN)

5. When did the Minister meet with UK Government Ministers regarding changes to the framework for national statistics? OAQ(4)0424(FIN)

13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cafodd y cod ymarfer ar gyfer ystadegau swyddogol ei gyhoeddi gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig yn 2009. Nid oes cynlluniau ar y gweill i'w adolygu ar hyn o bryd.

The code of practice for official statistics was published by the UK Statistics Authority in 2009. There are no current plans to revise it.

13:43 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am y wybodaeth honno. A fyddai'n cytuno bod yr arolwg defnydd iaith sydd ar waith ar hyn o bryd gan y Llywodraeth fel rhan o arolwg cenedlaethol Cymru yn sail llawer iawn cadarnach i deall cyflwr a natur dwyieithrwydd yng Nghymru na'r defnydd aml a wneir o ystadegau'r cyfrifiad, sydd yn llawer llai dibynadwy? A all hi sicrhau o hyn ymlaen y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r arolwg defnydd iaith yn drwyadl fel sail i bolisi yn hytrach na'r holl ddefnydd camarweiniol o ystadegau'r cyfrifiad?

I thank the Minister for that information. Would she agree that the language use survey currently being undertaken by the Government as part of the national survey for Wales is a far firmer foundation for gaining an understanding of the condition and nature of bilingualism in Wales than the census statistics, which are often used and which are far less reliable? Can she ensure from now on that the Welsh Government will use the language use survey thoroughly as the basis for policy, rather than the misleading use made of the census results?

13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would agree with that. I think that the language use survey is exactly an example of how we should build on the official statistics. This has formed part of our consultation on official statistics, which is to ensure that we have statistics that are fundamental to our needs, decision making, resource allocation and planning across Wales. I welcome those views because they strengthen the impact of the Welsh language survey.

Byddwn yn cytuno â hynny. Credaf fod yr arolwg defnydd iaith yn enghraifft berffaith o sut y dylem adeiladu ar yr ystadegau swyddogol. Mae hyn wedi bod yn rhan o'n hymgyngoriad ar ystadegau swyddogol, sef sicrhau bod gennym ystadegau sy'n sylfaenol i'n hanghenion, i benderfyniadau, wrth ddyrannu adnoddau a chynllunio ar draws Cymru. Rwy'n croesawu'r safbwyntiau hynny oherwydd eu bod yn cryfhau effaith yr arolwg iaith Gymraeg.

13:44 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, will you join me in paying tribute to the work of the Office for National Statistics, which has been integral to the employment opportunities in Newport and the surrounding areas for the last 40 years? It consistently achieves its aims and is widely respected for informing debate and improving decision making through high-quality and easy-to-use statistics and analysis on the UK's economy.

Weinidog, a wnewch ymuno â mi i dalu teyrnged i waith y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sydd wedi bod yn rhan annatod o'r cyfleoedd cyflogaeth yng Nghasnewydd a'r cyffiniau dros y 40 mlynedd diwethaf? Mae'n cyflawni ei hamcanion yn gyson ac yn cael ei pharchu yn eang am lywio trafodaethau a gwella penderfyniadau o ganlyniad i ystadegau a dadansoddiadau o ansawdd uchel sy'n hawdd i'w defnyddio ar economi'r DU.

13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I not only want to join William Graham in paying tribute to the Office of National Statistics, but I have enjoyed many engagements at that office and have met with staff. The chief statistician engages regularly with us in terms of roles and responsibilities. I also recognise how important the ONS is to us because of its independence. The statistics that it produces are free from ministerial influence with a strong code of practice, which is key to the business of Government.

Yn ogystal ag ymuno â William Graham i dalu teyrnged i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, hoffwn hefyd ddweud fy mod wedi mwynhau llawer o ymweliadau â'r swyddfa honno ac wedi cyfarfod â staff. Mae'r prif ystadegydd yn ymgysylltu'n rheolaidd â ni o ran rolau a chyfrifoldebau. Rwyf hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ni oherwydd ei hannibyniaeth. Mae'r ystadegau y mae'n eu cynhyrchu yn rhydd o ddylanwad gweinidogol ac yn seiliedig ar god ymarfer cryf, sy'n allweddol i fusnes y Llywodraeth.

Rhaglenni Cyllid Ewropeaidd

Priorities for European Funding Programme

13:45 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni cyllid Ewropeaidd yng Nghymru? OAQ(4)0426(FIN)

6. Will the Minister make a statement on her priorities for European funding programmes in Wales? OAQ(4)0426(FIN)

13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf am i Gymru, ar y cyd, gyflawni rhaglenni cyllid Ewropeaidd er mwyn helpu i gyrraedd nodau 2020 yr Undeb Ewropeaidd a rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru ar dwf, swyddi a threchu tlodi.

I want Wales to deliver, in partnership, EU funding programmes that help drive the EU's 2020 goals and the Welsh Government's programme for government on growth, jobs and tackling poverty.

13:46 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n amlwg i mi fod mwy o bwyslais wedi'i roi ar ERDF, ESF ac INTERREG, ond a ydych yn cytuno y dylem roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r rhaglenni cyllid eraill, er enghraifft Erasmus+, er mwyn sicrhau ein bod ni yng Nghymru yn cael mwy o gyllid ychwanegol?

Over the last few years, it is clear to me that more emphasis has been placed on ERDF, ESF and INTERREG, but do you agree that we should give more publicity to the other funding programmes, such as Erasmus+, in order to ensure that we in Wales attract more additional funding?

13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, we have more opportunity in terms of Erasmus+—and I thank Keith Davies for that question—because we can attract more than our per-head share of other EU funding programmes. Of course, there is a boost to Erasmus+. I know that Ken Skates is working closely with his contacts and the Wales advisory group to the national agencies is advising on how we can ensure that there is better uptake of the funds.

Yn amlwg, mae gennym fwy o gyfle o ran Erasmus+—ac rwy'n diolch i Keith Davies am y cwestiwn hwnnw—oherwydd y gallwn ddenu mwy na'n cyfran y pen o raglenni ariannu eraill yr UE. Wrth gwrs, mae yna hwb i Erasmus+. Gwn fod Ken Skates yn gweithio'n agos gyda'i gysylltiadau ac mae grŵp cyngori asiantaethau cenedlaethol Cymru'n rhoi cyngor ar sut y gallwn sicrhau bod rhagor yn defnyddio'r arian.

13:47 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you fail to mention one of your key priorities for European funding programmes, namely value for money. Given past criticism by the European Union, the Wales Audit Office and the Welsh Conservatives, I am quite surprised. Could you outline how much of a return you expect from every £1 invested through a European funding programme and, more importantly, how will you monitor this expected return on future programmes?

Weinidog, nid ydych wedi sôn am un o'ch blaenoriaethau allweddol ar gyfer rhaglenni ariannu Ewropeaidd, sef gwerth am arian. O ystyried beirniadaeth yn y gorffennol gan yr Undeb Ewropeaidd, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig, mae hyn yn gryn syndod i mi. A allech amlinellu faint o elw rydych yn ei ddisgwyl am bob £1 a fuddsoddir drwy raglen ariannu Ewropeaidd ac, yn bwysicach, sut y byddwch yn monitro'r elw disgwyliedig hwn yn rhaglenni'r dyfodol?

13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, value for money is key in terms of our expectation of the outcomes from investment in European structural funds. I was responding to a direct question from Keith Davies about other funding streams, such as Erasmus+, which of course enable us to see beyond structural funds in terms of opportunities. In terms of south-west Wales—just one part of Wales—EU projects have already created some 7,000 jobs and 2,250 businesses; they have helped almost 20,000 people into work, over 14,600 into further learning and 53,700 to gain qualifications. I believe that that is value for money.

Yn amlwg, mae gwerth am arian yn allweddol o ran ein disgwyliadau o ganlyniadau buddsoddiadau mewn cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Roeddwn i'n ymateb i gwestiwn uniongyrchol gan Keith Davies am ffrydiau ariannu eraill, megis Erasmus+, sydd wrth gwrs yn ein galluogi i weld y tu hwnt i gronfeydd strwythurol o ran cyfleoedd. O ran de-orllewin Cymru—sy'n ddim ond un rhan o Gymru—mae prosiectau'r UE eisoes wedi creu tua 7,000 o swyddi a 2,250 o fusnesau; maent wedi helpu oddeutu 20,000 o bobl i mewn i waith, dros 14,600 i mewn i ddysgu pellach a 53,700 i ennill cymwysterau. Credaf fod hynny'n werth am arian.

Canolfan Cywain

Canolfan Cywain

13:48 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ganolfan Cywain a nododd ddiffygion mewn rheoli grantiau? OAQ(4)0422(FIN)

7. What actions has the Welsh Government taken following the Wales Audit Office report on Canolfan Cywain which highlighted flaws in grant management? OAQ(4)0422(FIN)

13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Welsh Government has implemented a range of measures that have improved grant management and sharing of information. These have included improved training for officials and guidance and development of systems, which enable sharing of data both within the Welsh Government and with external partners.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ystod o fesurau sydd wedi gwella'r gwaith o reoli grantiau a rhannu gwybodaeth. Mae'r rhain wedi cynnwys hyfforddiant gwell i swyddogion a chyfarwyddyd a datblygu systemau, sy'n galluogi rhannu data o fewn Llywodraeth Cymru a chyd a phartneriaid allanol.

13:49 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that encouraging answer. It is with some disappointment that I report that I am yet to receive details of the financial assessment underpinning Welsh Government support for Pinewood Studios from your Cabinet colleague. I would like to be certain that my support is not misplaced and that the assumptions made in proceeding with that investment bear scrutiny. Have any of the actions that you have just described formed any of your own work in developing the cost-benefit analysis for the Pinewood Studios investment project?

Diolch i chi, Weinidog, am yr ateb calonogol. Siom i mi yw gorfod adrodd nad chefais eto fanylion yr asesiad ariannol sy'n tanategu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Pinewood Studios gan eich cydweithiwr yn y Cabinet. Hoffwn fod yn sicr nad yw fy nghefnogaeth yn gyfeiliornus a bod y rhagdybiaethau a wnaed wrth symud ymlaen â'r buddsoddiad hwnnw yn gallu gwrthsefyll gwaith craffu. A oes unrhyw un o'r camau rydych newydd eu disgrifio'n rhan o unrhyw waith a wnaethoch eich hun i ddatblygu'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer prosiect buddsoddiad Pinewood Studios?

- 13:49 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Suzy Davies, for that wider question, which is directed to me in terms of the opportunities that we have to deliver on the initiatives. On those initiatives that we have implemented, it does mean that risks and concerns are shared internally between divisions and departments and externally with other funding streams in Wales. It is very important that we look to not only our due diligence system, which we have developed, but the good governance group and that, of course, links to all of those external funding organisations.
- Diolch i chi, Suzy Davies, am y cwestiwn ehangach hwnnw, sy'n cael ei gyfeirio ataf o ran y cyfleoedd sydd gennym i gyflawni ar y mentrau. O ran y mentrau hynny rydym wedi eu gweithredu, mae'n golygu bod risgiau a phryderon yn cael eu rhannu yn fewnol rhwng isadrannau ac adrannau ac yn allanol gyda ffrydiau ariannu eraill yng Nghymru. Mae'n bwysig iawn ein bod yn defnyddio nid yn unig y system diwydrwydd dyladwy a ddatblygwyd gennym, ond hefyd y grŵp llywodraethu da ac mae hynny, wrth gwrs, yn cysylltu â phob un o'r sefydliadau ariannu allanol hynny.
- 13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call opposition spokesperson, Paul Davies. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.
- 13:50 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the Wales Audit Office report into Canolfan Cywain is not the first report to highlight serious flaws in grants management. Indeed, poor grants management has been noted in a number of reports, including that on the All Wales Ethnic Minority Association, of course. In light of the numerous reports, can you confirm for the record that the Welsh Government has finally got a grip on grants management? Can you confirm that we will not see another audit office report criticising the Welsh Government's handling of grants management?
- Weinidog, nid adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i Ganolfan Cywain yw'r adroddiad cyntaf i dynnu sylw at ddiffygion difrifol wrth reoli grantiau. Yn wir, mae diffygion wrth reoli grantiau wedi eu nodi mewn nifer o adroddiadau, gan gynnwys y canllawiau ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru-gyfan, wrth gwrs. Yng ngoleuni'r adroddiadau niferus, a ydych chi'n gallu cadarnhau, er gwybodaeth, fod Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â rheoli grantiau o'r diwedd? A allwch chi gadarnhau na ddaw adroddiad arall i'r fei gan y swyddfa archwilio yn beirniadu dulliau Llywodraeth Cymru o reoli grantiau?
- 13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that, if you look at the Wales Audit Office report, and if you look at European funding and the implementation of 2007-13 programmes, for example, the report recognises that systems to support project development, selection and financial management have improved significantly since previous programmes. Poor performance is an exception rather than a norm. However, it is quite clear that I am committed to this and that I am delivering—I know that the Permanent Secretary and officials have been scrutinised on this—on our new grants management regime.
- Credaf, os edrychwch chi ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ac os edrychwch chi ar gyllid Ewropeaidd a rhaglenni gweithredu 2007-13, er enghraifft, y gwelwch fod yr adroddiad yn cydnabod bod systemau i gefnogi datblygiad prosiectau, dewis a rheolaeth ariannol wedi gwella'n sylweddol ers y rhaglenni blaenorol. Mae perfformiad gwael yn eithriad yn hytrach na'r norm. Fodd bynnag, mae'n eithaf clir fy mod wedi ymrwymo i hyn ac yn cyflawni—gwn fod yr Ysgrifennydd Parhaol a swyddogion wedi bod yn destun craffu ynglŷn â hyn—o ran ein trefn newydd ar gyfer rheoli grantiau.
- 13:51 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I hope that the processes have improved. This time last year, the Public Accounts Committee published a report on grants management in Wales, and you accepted all 18 recommendations. Given that it has been 12 months since then, can you tell us how many of those recommendations have been implemented?
- Weinidog, rwy'n gobeithio bod y prosesau wedi gwella. Adeg hon y llynedd, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad ar reoli grantiau yng Nghymru, ac rydych yn derbyn pob un o'r 18 o argymhellion. O gofio yr aeth 12 mis heibio ers hynny, a ydych chi'n gallu dweud wrthym faint o'r argymhellion hynny sydd wedi cael eu rhoi ar waith?
- 13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We have implemented those recommendations, and I would be very glad to give a statement to the Assembly on the delivery of those recommendations.
- Rydym wedi gweithredu'r argymhellion hynny, a byddwn yn falch iawn i roi datganiad i'r Cynulliad ar gyflawni'r argymhellion hynny.

**Rhaglen Cydweithredu Cymru Iwerddon
2014-2020**

**Ireland Wales Cooperation Programme
2014-2020**

13:51	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Raglen Cydweithredu Cymru Iwerddon 2014-2020? OAQ(4)0421(FIN)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on the Ireland Wales Cooperation Programme 2014-2020? OAQ(4)0421(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Ar 5 Mehefin, lansiais ymgynghoriad cyhoeddus ar raglen cydweithredu drafft Cymru Iwerddon 2014-20.</p>	<p>On 5 June, I launched a public consultation on a draft Ireland Wales co-operation programme 2014-20.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae gennyf gopi o'r ddogfen ymgynghorol o'm blaen; mae'n syndod, o bosibl, nad oes sôn ynnddi am Gaergybi fel y prif gyswllt ag Iwerddon. Roedd siom fawr yn ddiweddar o weld nad oedd Caergybi yn borthladd craidd yn y llwybrau Ewropeaidd am y degawdau nesaf. Mae Dulyn yn borthladd craidd, ac mae awgrym wedi bod y gallem fanteisio ar hynny oherwydd y methiant i sicrhau'r statws craidd hwnnw i borthladd Caergybi. Pa ymdrechion y byddwch yn eu gwneud, fel Llywodraeth, i sicrhau bod y manteisio pennaf yn dod i Gymru a phorthladd Caergybi oherwydd llwyddiant Iwerddon i sicrhau statws yn y fan honno?</p>	<p>I have a copy of the consultation document in front of me; it is surprising, perhaps, that it makes no mention of Holyhead as the main link with Ireland. There was great disappointment recently that Holyhead was not designated a core port in the European transport routes for the coming decades. Dublin is a core port, and there has been a suggestion that we could benefit from that, because of the failure to ensure that core status for the port of Holyhead. What efforts will you make, as a Government, to ensure that the greatest benefits come to Wales and to the port of Holyhead due to the success of Ireland in ensuring status there?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:53	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I want to assure the Member that there is a huge opportunity here with this programme for Holyhead. If you look at the programme, it is worth around €90 million; it is a significant increase on the 2007-13 programme, which was worth €70 million. It is about encouraging stakeholders across our maritime border. Clearly, very strong engagement is already taking place between the Welsh and Irish Governments, but you will now have the opportunity, as will all of those in Anglesey, to submit consultation responses by 31 July.</p>	<p>Hoffwn sicrhau'r Aelod bod yma gyfle enfawr gyda'r rhaglen hon ar gyfer Caergybi. Os edrychwch chi ar y rhaglen, mae'n werth tua €90 miliwn; mae hyn yn gynydd sylweddol ar raglen 2007-13, a oedd yn werth €70 miliwn. Mae'n ymwneud ag annog rhanddeiliaid y tu hwnt i'n ffin forol. Yn amlwg, mae ymgysylltiad cryf iawn eisoes ar waith rhwng Llywodraeth Cymru ac Iwerddon, ond bydd cyfle i chi nawr, fel pawb yn Ynys Môn, i gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 31 Gorffennaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:53	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I appreciate that the consultation is still ongoing, but I would hope that, following the conclusion of the consultation, you will ensure that key performance indicators are included in your consultation response. There are a lot of projects proposed around climate change, and if those projects receive grants, I hope that you will ensure that you have recourse to claw back that grant if project objectives are not met.</p>	<p>Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi bod yr ymgynghoriad yn mynd rhagddo o hyd, ond byddwn yn gobeithio, yn dilyn casgliad yr ymgynghoriad, y byddwch yn sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cynnwys yn eich ymateb i'r ymgynghoriad. Mae llawer o brosiectau yn yr arfaeth sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, ac os rhoddir grantiau i'r prosiectau hynny, rwy'n gobeithio y byddwch yn sicrhau bod modd i chi adennill y grant hwnnw os nad yw amcanion y prosiect yn cael eu cyflawni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:54	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Clearly, as a European Union-funded programme, they would not be able to progress without those key performance indicators. If you look at the new programme, it is going to be more tightly defined and more strategically focused, with a smaller number of priorities. Outcomes will, therefore, be very clear and transparent. However, the three priority axes focus on innovation, climate change, adaptation and utilisation of cultural and natural heritage and resources. It is very important that, this afternoon, I draw attention to the importance of this programme and the consultation.</p>	<p>Yn amlwg, fel rhaglen a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, ni fyddent yn gallu symud ymlaen heb y dangosyddion perfformiad allweddol hynny. Os edrychwch chi ar y rhaglen newydd, gwelwch y bydd wedi'i diffinio'n fwy caeth gyda mwy o ffocws strategol a llai o flaenoriaethau. Bydd canlyniadau, felly, yn glir ac yn dryloyw iawn. Fodd bynnag, mae'r tair echel blaenoriaeth yn canolbwyntio ar arloesi, newid yn yr hinsawdd, addasu a defnyddio treftadaeth ac adnoddau diwylliannol a naturiol. Mae'n bwysig iawn, y prynhawn yma, fy mod yn tynnu sylw at bwysigrwydd y rhaglen hon a'r ymgynghoriad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Adnoddau Ychwanegol

Additional Resources

- 13:54 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu adnoddau ychwanegol sydd wedi codi yn sgîl cyllideb y DU? OAQ(4)0412(FIN) *9. Will the Minister make a statement on the allocation of additional resources which have arisen as a result of the UK budget? OAQ(4)0412(FIN)*
- 13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 The additional resources from the March budget are minimal and are offset by the additional pressures of at least £70 million to fund public sector pensions. Mae'r adnoddau ychwanegol o gyllideb mis Mawrth yn fach iawn a bydd eu hangen i wneud iawn am y pwysau ychwanegol o £70 miliwn o leiaf i ariannu pensiynau'r sector cyhoeddus.
- 13:55 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Thank you for that answer, Minister. You will be aware that the Chancellor announced in the UK budget a fund for the restoration of cathedrals in England and that, as a result of that, the Barnett consequential to Wales is an additional £1.5 million. That sort of sum would go a long way to ensuring that cathedrals in Wales are able to continue to attract the very large numbers of visitors that they receive each and every year and ensure that Wales is on the international map as far as faith tourism is concerned. There is a faith tourism action plan that the Welsh Government has delivered. Will you now put the money aside to ensure that there is a similar fund for the support of cathedrals in Wales? Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol y bu i'r Canghellor yng nghyllideb y DU gyhoeddi cronfa ar gyfer adfer eglwysi cadeiriol yn Lloegr. O ganlyniad i hynny, mae £1.5 miliwn yn ychwaneg o arian canlyniadol Barnett ar gael i Gymru. Byddai swm o'r fath yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod eglwysi cadeiriol yng Nghymru yn gallu parhau i ddenu'r nifer fawr iawn o ymwelwyr y maent yn eu cael bob blwyddyn gron a sicrhau bod Cymru ar y map rhyngwladol yng nghyswllt twristiaeth ffydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun gweithredu twristiaeth ffydd. A fyddwch yn awr yn rhoi'r arian o'r neilltu i sicrhau bod cronfa debyg i gefnogi eglwysi cadeiriol yng Nghymru?
- 13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Of course, we have, as you say, a very strong faith tourism strategy led by the Minister for Economy, Science and Transport, and a very supportive Minister for Culture and Sport as well. Therefore, I have no doubt that the support for cathedrals, as well, of course, as many other church and faith buildings across Wales, will be considered. However, I have to say, Darren Millar, that this is all about priorities, is it not? This is about tough choices and priorities in terms of where we invest our money when we have, as I said in answer to a question earlier on, a 10% real cut in our budget by UK Government since 2010. Wrth gwrs, fel y bu i chi sôn, mae gennym strategaeth twristiaeth ffydd gref iawn dan arweiniad Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon cefnogol iawn hefyd. Felly, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd cymorth i eglwysi cadeiriol, yn ogystal, wrth gwrs, â llawer o adeiladau eglwysig a ffydd eraill ledled Cymru, yn cael ei ystyried. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud, Darren Millar, fod hyn i gyd yn ymwneud â blaenoriaethau, onid yw? Fel y dywedais mewn ateb i gwestiwn cynharach, mae hyn yn ymwneud â dewisiadau a blaenoriaethau anodd o ran ble rydym yn buddsoddi ein harian pan fo gennym 10% o doriad go iawn yn ein cyllideb gan Lywodraeth y DU ers 2010.
- 13:56 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Diolch i'r drefn bod yr eglwys wedi ei dadwladoli yng Nghymru, meddaf i. O sôn am y newidiadau yn y grant bloc sydd yn dod i Gymru, un o'r newidiadau y fwyddyn nesaf, wrth gwrs, fydd gostyngiad yn y grant bloc oherwydd trosglwyddo'r trethi busnes. Mae hwn yn newid ychwanegol. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd, felly, i baratoi ar gyfer y broses honno, ac yn benodol i gydweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau bod gennym becyn trethi busnes a fydd yn ychwanegu at yr economi ac nid yn draul ar y grant bloc? Thank goodness that the church is disestablished in Wales, I say. In discussing the changes to the block grant that comes to Wales, one of the changes for next year, of course, will be a reduction in the block grant because of the transfer of business rates. This is an additional change. What steps will you take, therefore, to prepare for that process, and particularly to collaborate with local authorities in Wales to ensure that we have a package of business rates that will be an addition to the economy rather than a disbenefit to the block grant?

13:57	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>These are very important issues, which we have, of course, started to engage with in terms of discussions with the Treasury. I also want to be very clear, transparent and open in engaging with the Chamber, and with the Finance Committee particularly, about the challenges in terms of prospects and also in terms of policy on non-domestic rates. That is for the Minister for Economy, Science and Transport in terms of her consultations.</p>	<p>Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn, ac rydym, wrth gwrs, wedi dechrau eu hystyried o ran y trafodaethau â'r Trysorlys. Rwyf hefyd yn awyddus i fod yn glir iawn, yn dryloyw ac yn agored wrth ymgysylltu â'r Siambr, a chyda'r Pwyllgor Cyllid yn benodol, am yr heriau o ran rhagolygon a hefyd o ran polisi ar drethi annomestig. Mater ar gyfer Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran ei hymgyngoriadau yw hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Bil Cymru		Wales Bill	
13:57	<p>Mick Antoniw Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â hynt Bil Cymru? OAQ(4)0418(FIN)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister provide an update on discussions she has had with the UK Government regarding the progress of the Wales Bill? OAQ(4)0418(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I am in regular contact with UK Government Ministers to discuss the important financial reforms being taken forward by the Wales Bill.</p>	<p>Rwyf mewn cysylltiad rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU i drafod y diwygiadau ariannol pwysig sy'n cael eu datblygu gan Fil Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Mick Antoniw Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer. There is much support across Wales for reform of stamp duty. What initial discussions have you had with house builders, developers and the CBI on the reforms that they would wish to see and that would benefit Welsh citizens and the economy?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Mae llawer o gefnogaeth ar draws Cymru i ddiwygio'r dreth stamp. Pa drafodaethau cychwynnol a gawsoch ag adeiladwyr tai, datblygwyr a'r CBI ar y diwygiadau y byddent yn dymuno eu gweld a fyddai o fudd i ddinasyddion Cymru a'r economi?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>These are new opportunities—I thank Mick Antoniw for this question—and we have had a wide range of discussions regarding the replacement of stamp duty land tax. They began last year and, of course, we engaged with not only CBI Wales and house builders, but also those in the social housing sector, the legal profession and related businesses. We have interesting ideas coming forward. One example is support for abolishing the slab element of the current tax regime. We have to look at the risks as well as the opportunities. Shortly, as the Bill progresses through to Royal Assent, this would be a real opportunity in terms of consultation, which will be widely shared.</p>	<p>Mae'r rhain yn gyfleoedd newydd—diolch i Mick Antoniw am y cwestiwn hwn—ac rydym wedi cael ystod eang o drafodaethau ynglŷn â newid treth dir y dreth stamp. Dechreuwyd y drafodaeth y llynedd, wrth gwrs, a buom yn ymwneud nid yn unig â CBI Cymru ac adeiladwyr tai, ond hefyd gyda rhai yn y sector tai cymdeithasol, y proffesiwn cyfreithiol a busnesau cysylltiedig. Mae gennym syniadau diddorol ar y gweill. Un enghraifft yw cefnogaeth i ddileu elfen slab y drefn dreth bresennol. Mae'n rhaid i ni edrych ar y risgiau yn ogystal â'r cyfleoedd. Yn fuan, wrth i'r Bil gael ei gyflwyno am Gydsyniad Brenhinol, byddai hyn yn gyfle gwirioneddol o ran ymgynghori, a fydd yn cael ei rannu yn eang.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:59	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, in response to Peter Black's earlier question, you confirmed that you are looking at all options about how taxes will be collected in Wales following the implementation of the Wales Bill. Can you give us some timescales as to when you will be in a position to update us on this matter?</p>	<p>Weinidog, wrth ymateb i gwestiwn Peter Black yn gynharach, bu i chi gadarnhau eich bod yn edrych ar bob opsiwn ynghylch sut y bydd trethi yn cael eu casglu yng Nghymru yn dilyn rhoi Bil Cymru ar waith. A allwch chi roi syniad i ni pryd y byddwch mewn sefyllfa i'n diweddarau ar y mater hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that, as I responded to the Finance Committee— Paul Davies is, of course, a member of that committee—it is at the Second Reading in the House of Lords that it is appropriate to think that a Bill is making its way through to Royal Assent. That is the stage at which I feel that I can come back to you and then engage fully in discussions in terms of those options in particular.

Fel yr ymatebais i'r Pwyllgor Cyllid—mae Paul Davies, wrth gwrs, yn aelod o'r pwyllgor hwnnw—credaf mai pan fydd y Bil ar yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi y bydd yn briodol meddwl bod Bil yn mynd i gael ei gyflwyno am Gydsyniad Brenhinol. Dyna'r cam lle rwy'n teimlo y gallaf ddod yn ôl atoch a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau o ran y dewisiadau hynny yn benodol.

13:59 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, what type of borrowing will the Welsh Government need to seek if planned improvements to the M4 get the go-ahead? I will take the opportunity to plug the sensible blue route again, if I may.

Weinidog, pa fath o fenthycy y bydd angen i Lywodraeth Cymru ofyn amdano os ceir cydsyniad i'r gwelliannau arfaethedig i'r M4? Manteisiat ar y cyfle unwaith eto i hyrwyddo'r llwybr glas synhwyrol, os caf.

14:00 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that the borrowing powers that we have secured are very important. Of course, those borrowing powers that are coming forward in terms of the Wales Bill, and as they progress through scrutiny and progress through to Royal Assent in the Houses of Parliament, do give us a real opportunity. What I would say in terms of borrowing powers, Lindsay Whittle, is that this is about how we can finance our infrastructure. They are not borrowing powers for borrowing powers' sake; they are about borrowing powers to finance our infrastructure. You know what our Wales infrastructure investment plan priorities are. I will be reporting next week on those.

Credaf fod y pwerau benthycy rydym wedi'u sicrhau yn bwysig iawn. Wrth gwrs, mae'r pwerau benthycy sy'n cael eu cyflwyno trwy Fil Cymru, ac wrth iddynt symud drwy broses graffu ac ymlaen i Gydsyniad Brenhinol yn y Senedd, yn rhoi cyfle go iawn i ni. Beth fyddwn i'n ei ddweud o ran pwerau benthycy, Lindsay Whittle, yw bod hyn yn ymwneud â sut y gallwn ariannu ein seilwaith. Nid ydynt yn bwerau benthycy er mwyn cael pŵer i fenthycy fel y cyfryw; maent yn ymwneud â phwerau benthycy i gyllido ein seilwaith. Gwyddoch beth yw ein blaenoriaethau o ran cynllun buddsoddi ar gyfer seilwaith Cymru. Byddaf yn adrodd yr wythnos nesaf ar y rheini.

Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

The National Procurement Service

14:00 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol? OAQ(4)0428(FIN)

11. Will the Minister make a statement on the National Procurement Service? OAQ(4)0428(FIN)

14:00 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The national procurement service plays a key role in my Wales procurement policy statement and will deliver £25 million of annual savings, once it is fully operational, for the Welsh public sector, applying a principle of buying once for Wales.

Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn chwarae rôl allweddol yn fy natganiad polisi caffael Cymru a bydd yn darparu £25, miliwn arbedion blynyddol, unwaith y bydd yn gwbl weithredol, ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddefnyddio'r egwyddor o brynu unwaith ar gyfer Cymru.

14:01 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would like to thank the Minister very much for that response. Given the times of fiscal stringency in which we live, and the need to secure value for money for the Welsh pound, will you please outline what specific measures will be put in place to ensure that the service is monitored so that it does, in fact, deliver an efficient procurement service for the whole Welsh public sector?

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw. O ystyried yr hinsawdd ariannol lem bresennol, a'r angen i sicrhau gwerth am arian ar gyfer y bunt Gymreig, a wnewch chi amlinellu pa fesurau penodol a roddir ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei fonitro er mwyn iddo, mewn gwirionedd, ddarparu gwasanaeth caffael effeithlon i'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru?

- 14:01 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is a very important point. I thank William Powell for that question. Of course, we have 73 Welsh public sector organisations signed up to this. They have given a five-year commitment to use those contracts and frameworks. Critically important, of course, is the governance of the national procurement service in terms of ensuring that we can deliver this in terms of our objectives. In terms of the governance, it is very important that we now have a new independent chair, and also that that governance is quite clear in terms of delivery and outcomes.
- Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Diolch i William Powell am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, mae gennym 73 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi ymrwymo i hyn. Maent wedi rhoi ymrwymiad pum mlynedd i ddefnyddio'r contractau a'r fframweithiau hynny. Elfen hanfodol bwysig, wrth gwrs, yw y gwaith o lywodraethu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol o ran sicrhau y gallwn gyflawni hyn o ran ein hamcanion. O ran llywodraethu, mae'n bwysig iawn ein bod yn awr yn cael cadeirydd annibynnol newydd, a hefyd fod llywodraethu yn eithaf clir o ran cyflawni a chanlyniadau.
- 14:02 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- From my discussions with small and medium-sized enterprises in my constituency, I know that they still face difficulties when they try to access public procurement contracts. They may not have the necessary soft skills, contacts or free time to apply for these opportunities, which can lead to small local businesses losing out to larger national companies. How can the Welsh Government make sure that Welsh SMEs can fully participate in the public procurement process, and what appropriate support does it make available?
- Yn sgîl fy nhrafodaethau â busnesau bach a chanolig yn fy etholaeth, gwn eu bod yn dal i wynebu anawsterau pan fyddant yn ceisio cael mynediad at gontractau caffael cyhoeddus. Efallai nad ydynt yn meddu ar y sgiliau meddal angenrheidiol, y cysylltiadau neu'r amser rhydd i wneud cais am y cyfleoedd hyn, a all arwain at fusnesau bach lleol yn colli allan i gwmnïau cenedlaethol mwy. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau y gall busnesau bach a chanolig yng Nghymru gymryd rhan lawn yn y broses gaffael gyhoeddus, a pha gymorth priodol sy'n cael ei ddarparu?
- 14:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Christine Chapman for that question because this is why we need a Wales procurement policy statement, and why we need that adoption. Just in terms of access for small and medium-sized enterprises, if you look at the volume of sub 'Official Journal of the European Union' contracts advertised on Sell2Wales, you will see that those lower contracts are continuing to increase, and are now standing at 81%. Those are vital opportunities for smaller local suppliers.
- Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn hwnnw oherwydd dyma pam y mae arnom angen datganiad ar bolisi caffael Cymru, a pham mae angen ei fabwysiadu. Dim ond o ran mynediad ar gyfer busnesau bach a chanolig, os edrychwch chi ar faint o is-gontractau 'Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd' sy'n cael eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru, gwelwch fod y contractau is hynny yn parhau i gynyddu, a bod 81% ohonynt erbyn hyn. Dyma gyfleoedd hanfodol i gyflenwyr lleol llai.
- 14:03 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yesterday, we learned, sadly, of the potential £2.5 billion funding gap for the Welsh NHS by 2025-26. The national procurement service will, it is claimed, save public bodies in Wales some £25 million per year. What role does the Minister believe that the national procurement service can play to tackle the shortfall, while identifying any potential efficiencies and waste?
- Ddoe, yn anffodus, fe'n hysbyswyd am y bwllch o £2.5 biliwn yng nghyllid y GIG yng Nghymru erbyn 2025-26. Honnir y bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn arbed £25 miliwn i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Pa rôl y mae'r Gweinidog yn ei gredu y gall y gwasanaeth caffael cenedlaethol chwarae er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg, gan nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd a gwastraff posibl?
- 14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is clearly important in terms of the £25 million annual savings for the Welsh public sector from the national procurement service. It is clearly important as well in terms of the continuum of opportunity for procurement, not only saving money to reinvest, but also to meet the needs and to ensure that there are procurement opportunities for local suppliers.
- Mae'n amlwg yn bwysig gan y bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn sicrhau arbedion blynyddol o £25 miliwn ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n amlwg yn bwysig hefyd o ran y continwwm o gyfle ar gyfer caffael, nid yn unig yn arbed arian i'w ail-fuddsoddi, ond hefyd i ddiwallu'r anghenion a sicrhau bod cyfleoedd caffael ar gael i gyflenwyr lleol.
- 14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call Rhun ap Iorwerth. I see that you do not wish to speak.
- Galwaf Rhun ap Iorwerth. Gwelaf nad ydych yn dymuno siarad.

Anghenion Plant

The Needs of Children

- 14:04 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
12. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi ei rhoi i anghenion plant o ran cyflenwi'r portffolio Cyllid? OAQ(4)0425(FIN)
- 14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We are committed to meeting our obligations under the UNCRC and, in the context of the budget for 2014-15, we considered children's rights as part of the work that we have done to consider the impact of our budgets on different age groups.
- 14:04 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Bearing in mind that the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 requires Ministers to take into account children's rights in every decision that they make, could you give us some examples of specific decisions that you have made that have made a positive and practical difference to children's lives?
- 14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank Julie Morgan for that question. Also, I was very pleased to sit in on the short debate last week, when Julie Morgan expressed the innovation that has come about as a result of devolution. I think that some of the examples that were given resonated with all of us who were there. One of the best examples of investment is extending the financing for the Flying Start programme. Of course, that is the early years programme that reaches children under the age of four in our most disadvantaged communities. That means that the programme is benefiting from a £279 million expansion between 2012 and 2016, and will benefit nearly 36,000 children in two years' time. Also, it is very important that we look at ways in which we are engaging children, and we are publishing a leaflet alongside the budget that informs people how we are developing our spending plans. At a school in Stacey Road in Cardiff on Thursday this week, I am discussing issues with the school council, to share information with it and learn from it about budget setting.
- 14:06 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
On the point of the UNCRC and the budget, in preparing future budgets, Minister, and their impact assessments and reports in particular, will you specifically reference in each budget line the implications for the UNCRC obligations, as well as for older people, now that the due regard principle has been introduced via the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014?

12. What consideration has the Minister given to the needs of children in delivering the Finance portfolio? OAQ(4)0425(FIN)

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y CCUHP ac, yng nghyd-destun y gyllideb ar gyfer 2014-15, bu i ni ystyried hawliau plant fel rhan o'r gwaith rydym wedi'i wneud i ystyried effaith ein cyllidebau ar grwpiau oedran gwahanol.

O gofio bod yr Hawliau Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ystyried hawliau plant ym mhob penderfyniad a wnânt, a allech chi roi rhai enghreifftiau o benderfyniadau penodol rydych wedi eu gwneud sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ac ymarferol i fywydau plant?

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw. Hefyd, roeddwn yn falch iawn o gael eistedd i mewn yn ystod y ddadl fer yr wythnos diwethaf, pan y disgrifiodd Julie Morgan y sefyllfa newydd a ddaeth i fod yn sgîl datganol. Rwy'n meddwl bod rhai o'r enghreifftiau a roddwyd wedi taro tant ymhlith pob un ohonom a oedd yno. Un o'r enghreifftiau gorau o fuddsoddiad yw ymestyn y cyllid ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg. Wrth gwrs, rhaglen blynnyddoedd cynnar yw honno sy'n cyrraedd plant o dan bedair oed yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae hynny'n golygu bod y rhaglen yn elwa ar gyllid ehangu gwerth £279 miliwn rhwng 2012 a 2016, gan sicrhau budd i bron 36,000 o blant ymhên dwy flynedd. Hefyd, mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar y ffyrdd rydym yn ymgysylltu â phlant, ac rydym yn cyhoeddi taflen ochr yn ochr â'r gyllideb sy'n hysbysu pobl sut rydym yn datblygu ein cynlluniau gwariant. Ddydd lau yr wythnos hon, mewn ysgol yn Stacey Road yng Nghaerdydd byddaf yn trafod materion gyda chynghor yr ysgol, er mwyn rhannu gwybodaeth gyda hwy a dysgu ynglŷn â phennu cyllideb.

Ynglŷn â'r CCUHP a'r gyllideb, wrth baratoi cyllidebau yn y dyfodol, Weinidog, a'u hasesiadau effaith ac adroddiadau yn benodol, a fyddwch yn cyfeirio yn benodol ym mhob llinell gyllideb y goblygiadau ar gyfer y rhwymedigaethau CCUHP, yn ogystal ag ar gyfer pobl hŷn, gan fod yr egwyddor sylw dyledus wedi ei chyflwyno drwy gyfrwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:06	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Certainly, that is something that we would seek to do, in terms of our commitment, building on the UN Convention on the Rights of the Child and the experience of that. However, I still feel that we have further to go in terms of engagement. This is about engagement, as well as delivering on expectations. It is about engaging with older people, as well as with children and young people, as I will be doing tomorrow.</p>	<p>Yn sicr, mae hynny'n rhywbeth y byddem yn ceisio ei wneud, o ran ein hymrwymiad, gan adeiladu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r profiad o hynny. Fodd bynnag, rwy'n dal i deimlo bod rhaid i ni fynd yn bellach o ran ymgysylltu. Mae hyn yn ymwneud ag ymgysylltu, yn ogystal â chyflawni disgwyliadau. Mae'n ymwneud ag ymgysylltu â phobl hŷn, yn ogystal â chyda phlant a phobl ifanc, fel y byddaf finnau'n ei wneud yfory.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Canolfan Forol Cymru		Marine Centre Wales	
14:07	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p><i>13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hwb o £1m gan gronfa strwythurol yr UE ar gyfer Canolfan Forol Cymru? OAQ(4)0429(FIN)</i></p>	<p><i>13. Will the Minister make a statement on the £1m EU structural fund boost for Marine Centre Wales? OAQ(4)0429(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Additional EU funds for the sustainable expansion of the applied coastal and marine sectors will enable this university business partnership to explore the opportunity for offshore renewables in the Anglesey Crown Estate marine energy demonstration zone.</p>	<p>Bydd arian ychwanegol yr UE ar gyfer ehangu'r sectorau arfordirol a morol cymwys yn galluogi partneriaeth busnes hwn y brifysgol i archwilio'r cyfle am ynni adnewyddadwy ar y môr ym mharth arddangos ynni morol Ystâd y Goron Ynys Môn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p>In your statement last week, indeed you did highlight that the money will support the mapping of Anglesey's demonstration zones for tidal stream devices. Will you please outline whether the funds could also be used to assist with the mapping of any future demonstration zones, should such zones be established, or whether a separate application and business case would need to be supplied?</p>	<p>Yn eich datganiad yr wythnos diwethaf, yn wir roeddech yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yr arian yn cefnogi mapio parthau arddangos Ynys Môn ar gyfer dyfeisiau llif y llanw. A wnewch chi os gwelwch yn dda amlinellu a ellid defnyddio'r arian hefyd i gynorthwyo gyda mapio unrhyw barthau arddangos yn y dyfodol, pe sefydlid parthau o'r fath, neu a fyddai angen cyflwyno cais ac achos busnes ar wahân?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, of course, this is a partnership between Bangor, Aberystwyth and Swansea universities. They are already benefiting from nearly £13 million in EU funds. This is very much about how that partnership moves forward—it is the HEIs and businesses working together. However, it is also about testing things out, which we and they will do, in terms of the Anglesey Crown Estate marine energy centre, and seeing then how we can apply that in the rest of Wales. So, I see it as a demonstration zone.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, dyma bartneriaeth rhwng Bangor, Aberystwyth ac Abertawe. Maent eisoes yn elwa ar bron £13 miliwn o gronfeydd yr UE. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar sut y mae'r bartneriaeth yn symud ymlaen—dyma'r sefydliadau Addysg Uwch a busnesau yn cydweithio â'i gilydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn ymwneud â rhoi pethau ar brawf, sef yr hyn y byddwn ni a nhw'n ei wneud, o ran y ganolfan ynni morol Ystâd y Goron Ynys Môn, ac yna'n gweld sut y gallwn gymhwyso hyn yng ngweddill Cymru. Felly, rwy'n ei weld fel parth arddangos.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>As the father of a Bangor University graduate and undergraduate, I welcome the European Investment Bank funding that has been received for the university in general and for Marine Centre Wales in Menai Bridge. How will you ensure that this delivers the wider community benefit approach that is now being embraced very much by Holyhead Town Council and by Ynys Môn County Council?</p>	<p>Â minnau'n dad i un o raddedigion ac israddedigion Prifysgol Bangor, rwy'n croesawu'r arian a gafwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar gyfer y brifysgol yn gyffredinol ac ar gyfer Canolfan Forol Cymru ym Mhorthaethwy. Sut y byddwch yn sicrhau bod hyn yn darparu'r agwedd o roi budd i'r gymuned ehangach sydd bellach yn cael ei groesawu yn fawr iawn gan Gyngor Tref Caergybi a chan Gyngor Sir Ynys Môn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:09	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I would hope that both of those authorities would attend a workshop that is being held by SEACAMS with SMEs. It is engaging with offshore survey companies, looking at collaborative projects in relation to how we can take this demonstration zone modelling work forward. Clearly, this is an opportunity, and I will make contact now, following this question, with those authorities regarding that workshop.</p>	<p>Byddwn yn gobeithio y byddai'r ddau awdurdod hwnnw'n mynychu gweithdy y mae'r fenter Ehangu Sectorau Arfordirol a Morol Cymwysedig mewn Dull Cynaliadwy (SEACAMS) yn ei gynnal gyda busnesau bach a chanolog. Mae'n ymgysylltu â chwmnïau archwilio'r môr mawr, gan edrych ar brosiectau cydweithredol mewn perthynas â sut y gallwn fynd â gwaith modelu'r parh arddangos hwn yn ei flaen. Yn amlwg, mae yma gyfle, a byddaf yn cysylltu yn awr, yn dilyn y cwestiwn hwn, â'r awdurdodau hynny ynglŷn â'r gweithdy.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Proses Caffael Cyhoeddus		The Public Procurement Process	
14:09	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses caffael cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0416(FIN)</p>	<p>14. Will the Minister make a statement on the public procurement process in Wales? OAQ(4)0416(FIN)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>As outlined in my oral statement on 11 March, the Wales procurement policy statement has been widely adopted, resulting in positive impacts on the Welsh economy and communities, simpler processes and more open and accessible contract opportunities.</p>	<p>Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad llafar ar 11 Mawrth, mae datganiad polisi caffael Cymru wedi cael ei fabwysiadu yn eang, gan sicrhau effeithiau cadarnhaol ar economi Cymru a chymunedau, prosesau symlach a chyfleodd contract sy'n fwy agored a hygyrch.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>Earlier this year, you announced news that Welsh companies are now winning 75% of major construction contracts through Sell2Wales, up from 30%, which is commendable. SMEs are the backbone of our economy, and they must stand a chance of winning through in the local tendering process. However, some local authorities have their own preferred contractors. What steps are you taking to ensure that your principles of strategic, professionally resourced, community benefits, open and simplified procurement, together with effective, robust governance, are applied across all public bodies in Wales?</p>	<p>Yn gynharach eleni, bu i chi gyhoeddi newyddion bod cwmnïau o Gymru yn awr yn ennill 75% o gontractau adeiladu mawr drwy GwerthwchiGymru, i fyny o 30%, ac mae hyn i'w ganmol. Busnesau bach a chanolog yw asgwrn cefn ein heconomi, a rhaid iddynt gael siawns i lwyddo yn y prosesau tendro lleol. Fodd bynnag, mae gan rai awdurdodau lleol eu contractwyr dewisol eu hunain. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod eich egwyddorion o ran manteision cymunedol sydd wedi'u hariannu'n broffesiynol a strategol, caffael agored a syml, ynghyd â llywodraethu effeithiol a chadarn, yn cael eu cymhwysio ar draws yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I am certainly very closely monitoring the adoption of the Wales procurement policy statement. As I said, there is widespread adoption, but also, of course, I would expect to be told, as I am, of any questions or doubts as to whether that adoption is in full. I think that the best way, which is how we have taken this forward, is to undertake procurement fitness checks. We have undertaken those in all 22 of our local authorities. We now have final reports and action plans to plot the way forward in terms of addressing issues and developing their procurement practices. This is the way in which we are very closely checking up on how our procurement policies are being delivered.</p>	<p>Wel, rwy'n sicr yn monitro'r gwaith o fabwysiadu datganiad polisi caffael Cymru yn agos iawn. Fel y dywedais, mae wedi'i fabwysiadu'n eang, ond hefyd, wrth gwrs, byddwn yn disgwyl cael fy hysbysu, fel sy'n digwydd, am unrhyw gwestiynau neu amheuan ynghylch a yw'r polisi wedi'i fabwysiadu'n llwyr. Rwy'n meddwl mai'r ffordd orau, a dyna sut rydym wedi bwrw ymlaen â hyn, yw cynnal gwiriadau ffitrwydd i gaffael. Rydym wedi cynnal rhai ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Erbyn hyn mae gennym adroddiadau terfynol a chynlluniau gweithredu i blotio'r ffordd ymlaen o ran mynd i'r afael â materion a datblygu eu harferion caffael. Dyma'r ffordd rydym yn gwirio'n agos iawn sut y mae ein polisiâu caffael yn cael eu cyflawni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 15, OAQ(4)0420(FIN), has been withdrawn, so, thank you, Minister.</p>	<p>Mae cwestiwn 15, OAQ(4)0420(FIN), wedi cael ei dynnu'n ôl, felly, diolch i chi, Weiniidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Tâl Uwch-Swyddogion

Questions to the Minister for Local Government and Government Business

Senior Officer Remuneration

- 14:11 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dâl uwch-swyddogion mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0432(LG)
1. Will the Minister make a statement on senior officer remuneration in local government? OAQ(4)0432(LG)
- 14:11 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business
The Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 and my guidance on local authority pay policy statements ensure that decisions relating to the remuneration of senior officers in local government are open and transparent.
Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog)(Cymru) 2006 ac mae fy arweiniad ar ddatganiadau polisi tâl awdurdodau lleol yn sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud â thâl uwch swyddogion mewn llywodraeth leol yn agored ac yn dryloyw
- 14:11 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Weinidog, rydych wedi bod yn glir iawn yn eich datganiadau bod angen i dâl uwch-swyddogion llywodraeth leol gael ei gyfeirio at fwrdd taliadau annibynnol. Beth a wnewch chi felly o benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i hysbysebu am brif weithredwr newydd a chynyddu'r tâl £11,000 y flwyddyn?
Minister, you have been very clear in your statements that there is a need for the pay of senior officers in local authorities to be referred to an independent remuneration board. What do you therefore make of Caerphilly County Borough Council's decision to advertise for a new chief executive and increase the salary by £11,000 per annum?
- 14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, I met the new leader of Caerphilly council yesterday, and I understand that the independent remuneration panel is considering the issue, but has not yet reached a decision as to whether or not it needs to intervene.
Do, bu i mi gyfarfod ag arweinydd newydd cyngor Caerffili ddoe, a deallaf fod y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol yn ystyried y mater, ond nad yw eto wedi dod i benderfyniad ynghylch a oes angen iddo ymyrryd.
- 14:12 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Clearly, we welcome the provisions of that Local Government (Democracy) (Wales) Act, particularly that chief officer pay has to be agreed by a resolution of the full council. Presumably, Minister, it will still have to happen, even when the new post is offered. Can you confirm that, because, after all, the independent remuneration panel has still to give a view?
Yn amlwg, rydym yn croesawu darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), yn enwedig fod yn rhaid i gyflog prif swyddog gael ei gytuno gan benderfyniad y cyngor llawn. Yn ôl pob tebyg, Weinidog, bydd yn rhaid i hyn ddigwydd, hyd yn oed pan gynigir y swydd newydd. A allwch chi gadarnhau hynny, oherwydd, wedi'r cyfan, mae'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol yn parhau heb roi ei farn?
- 14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, that is the case.
Ie, dyna yw'r sefyllfa.
- 14:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.
Galwaf lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:13 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, clearly, as you have said, the independent remuneration panel still has to give a view. Why is it that an authority can go ahead with an advertisement for a post at an increased salary before that view has been received? Surely, that makes the whole point of the independent remuneration panel completely pointless.
Weinidog, yn amlwg, fel rydych wedi dweud, mae'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol yn parhau heb roi ei farn. Pam y mae modd i awdurdod fwrw ymlaen â'r hysbyseb swydd ar gyflog uwch cyn derbyn y farn honno? Mae'n siŵr bod hynny'n tansellio union ddiben y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol yn gyfan gwbl.

- 14:13 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- No, I do not agree with that, and you know that I have said before that I do not think it would be appropriate for me to seek to set the pay of senior staff in authorities. I think that what we have done is to ensure that the decisions are far more open and transparent.
- Na, nid wyf yn cytuno â hynny, a ydych yn gwybod fy mod wedi dweud o'r blaen nad wyf yn credu y byddai'n briodol i mi fynd ati i bennu cyflog staff uwch mewn awdurdodau. Rwy'n meddwl mai'r hyn rydym wedi ei wneud yw sicrhau bod y penderfyniadau yn llawer mwy agored a thryloyw.
- 14:13 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, it is certainly open and transparent as to what is happening Caerphilly. However, do you not agree, Minister, that if an authority is going to increase the salary of a temporary post in such a way and by such a substantial sum, it should be required to get the independent remuneration panel's agreement before it goes ahead and does that? It is not a question of you setting the salary, but of you making sure that there is proper scrutiny of that salary by the independent panel before the advertisement goes out.
- Wel, mae'n sicr yn agored ac yn dryloyw o ran yr hyn sy'n digwydd yng Nghaerffili. Fodd bynnag, onid ydych yn cytuno, Weinidog, os yw awdurdod yn mynd i gynyddu cyflog swydd dros dro yn y fath fodd gan ychwanegu swm mor sylweddol, dylai fod yn ofynnol iddo gael cytundeb y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol cyn iddo fynd yn ei flaen i wneud hynny? Nid yw'r cwestiwn yn ymwneud â chi'n pennu'r cyflog, mae ynglŷn â chi'n sicrhau bod craffu priodol wedi'i wneud ar y cyflog hwnnw gan y panel annibynnol cyn rhyddhau'r hysbyseb.
- 14:13 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I say, I think that the guidance that I have issued and the legislation that we have brought forward ensure that these decisions are far more open and transparent than previously.
- Fel y dywedais, rwy'n meddwl bod y cyfarwyddyd a gyhoeddais a'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gennym wedi sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn llawer mwy agored a thryloyw nag oeddent cynt.

Cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol

Collaboration between Local Authorities

- 14:14 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithio rhwng awdurdodau lleol? OAQ(4)0424(LG)*
- 2. Will the Minister make a statement on collaboration between local authorities? OAQ(4)0424(LG)*
- 14:14 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Collaboration still has a place in the delivery and improvement of public services in Wales. The Welsh Government has a comprehensive programme supporting and encouraging collaboration between local authorities and with public service partners to deliver effective use of increasingly scarce resources.
- Mae lle o hyd i gydweithio wrth ddarparu a gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru raglen gynhwysfawr i gefnogi ac annog cydweithio rhwng awdurdodau lleol a chyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu defnydd effeithiol o adnoddau sy'n mynd yn fwyfwy prin.
- 14:14 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that response, Minister. You and I both agree that there needs to be more collaboration in Wales. Given that the Nuffield Trust produced its report yesterday and suggested that there needed to be much better integration of health and social care, what action are you taking, with your partners in local government, to ensure that local authorities across Wales take this issue sufficiently seriously to ensure that there is much closer working with the national health service in order to minimise the cost to taxpayers?
- Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rydych chi a minnau yn cytuno bod angen cael mwy o gydweithio yng Nghymru. O ystyried y cynhyrchodd Ymddiriedolaeth Nuffield ei adroddiad ddoe a oedd yn awgrymu bod angen integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn llawer gwell, pa gamau gweithredu rydych yn eu cymryd, gyda'ch partneriaid mewn llywodraeth leol, i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cymryd y mater hwn ddigon o ddifrif i sicrhau bod gwaith llawer agosach yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaeth iechyd gwladol er mwyn lleihau'r gost i drethdalwyr?

14:15	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Clearly, local authorities and the health service work side by side on these issues. You will be aware of the intermediate care fund, which we brought forward as part of the budget agreement this year. I had an update only yesterday regarding that. It is showing really good examples of how we need to have that further collaboration and how that collaboration is working.	Yn amlwg, mae awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd yn gweithio law yn llaw ar y materion hyn. Byddwch yn ymwybodol o'r gronfa gofal canolraddol, y bu i ni ei chyflwyno fel rhan o gytundeb y gyllideb eleni. Dim ond ddoe y bu i mi gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â hynny. Mae'n dangos enghreifftiau da iawn o sut mae angen i ni gael y cydweithrediad pellach hwnnw a sut mae'r cydweithrediad hwnnw'n gweithio.	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.	Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Weinidog, mae adroddiad comisiwn Williams yn mynd ar lwybr gwahanol i gydweithio rhwng gwahanol lywodraethau lleol; mae Williams yn sôn am gyfuno. Os mai cyfuno bydd y bwriad yn y pen draw, beth mae awdurdodau lleol i fod gwneud yn y cyfamser? Mae'n bosibl iawn y bydd eu trefniadau o ran cydweithio yn mynd ar draws y symudiadau a fydd yn dod i fodolaeth yn ddiweddarach i'w cyfuno.	Minister, the Williams commission report takes a very different tack on collaboration between various local authorities; Williams talks about amalgamation. If the ultimate intention is to amalgamate, what should local authorities do in the interim? It is possible that their collaboration plans may actually militate against plans that will come to fruition later on to combine them.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography In the interim, they should continue to collaborate. I have made it very clear that, while we are waiting for the response on the Williams commission, they should continue to look to collaborate. I hear what you are saying completely, and, certainly, that has been raised with me. As the Welsh Government brings forward its response to the commission's report before the summer and we have a map to work on, I think that that will help local authorities.	Yn y cyfamser, dylent barhau i gydweithio. Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn, tra ydym yn aros am yr ymateb ar y comisiwn Williams, y dylent barhau i fynd ati i gydweithio. Rwy'n llwyr ddeall yr hyn rydych yn ei ddweud, ac, yn sicr, mae hyn yn fater sydd wedi'i godi gyda mi. Wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei hymateb i adroddiad y comisiwn cyn yr haf a phan fydd gennym fap ar gyfer y gwaith, rwy'n meddwl y bydd hynny'n helpu awdurdodau lleol.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Felly, os yw awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn cydweithio ar wahanol brosiectau gydag ystod o awdurdodau lleol eraill, a bod y cydweithio hynny ar batrwm gwahanol i batrwm o gyfuno a allai ddod mewn yn ddiweddarach, rydych yn eu hannog yn awr i barhau â'r cydweithredu hynny yn y cyfamser, hyd nes y bydd datganiad clir yn dod o Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyfuno awdurdodau lleol yng Nghymru.	So, if local authorities at present collaborate on various projects with a range of other local authorities, and that collaboration is according to a different pattern to the pattern of amalgamation that could come in later on, you are encouraging them to continue with that collaboration in the meantime, until a clear statement comes from Welsh Government about the amalgamation of local authorities in Wales.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Yes, I am.	Ydw.	Senedd.tv Fideo Video
	Troseddu Pobl Ifanc	Youth Offending	
14:17	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography 3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i atal troseddau pobl ifanc yng Nghymru? OAQ(4)0428(LG)	3. What is the Welsh Government doing to help prevent youth offending in Wales? OAQ(4)0428(LG)	Senedd.tv Fideo Video

- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are committed to reducing the number of young people in the youth justice system and to helping them stop reoffending, working in partnership with the Youth Justice Board for England and Wales and other key partners in Wales to maximise the impact.
- Rydym wedi ymrwymo i leihau nifer y bobl ifanc o fewn y system cyfiawnder ieuencid, a'u helpu i beidio ag aildroeddu, gan weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr a phartneriaid allweddol eraill yng Nghymru i sicrhau'r effaith orau bosibl.
- 14:17 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer. As with many aspects of life, prevention is often better than cure. What is the Welsh Government doing to support the youth from falling into the trap of substance misuse, which can lead to offending behaviour in the future?
- Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Fel gyda llawer o agweddau ar fywyd, yn aml mae'n well atal na gwella. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ac atal pobl ifanc rhag disgyn i'r fagl o gamddefnyddio sylweddau, a all arwain at ymddygiad troseddol yn y dyfodol?
- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We continue to invest over £2 million a year in the all-Wales school liaison core programme. You will be aware of that programme, which is jointly funded by the four police and crime commissioners. It is delivered in 98% of schools now across Wales. It provides substance misuse education to children and young people at all key stages of the curriculum. In addition, there is a further £2.75 million of the substance misuse action fund that is specifically ring-fenced for children and young people's services. That helps them access a range of education, preventative and treatment services right across Wales.
- Rydym yn parhau i fuddsoddi dros £2 filiwn y flwyddyn yn rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan. Byddwch yn ymwybodol o'r rhaglen honno, sy'n cael ei chyd-ariannu gan y pedwar comisiynydd heddlu a throseddau. Fe'i cyflwynir erbyn hyn mewn 98% o ysgolion ledled Cymru. Mae'n darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc ym mhob cyfnod allweddol o'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae £2.75 miliwn pellach o'r gronfa gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Mae hyn yn eu helpu i gael mynediad at ystod o wasanaethau addysg, atal a thrin ledled Cymru.
- 14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the opposition spokesperson, Mark Isherwood.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.
- 14:18 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Communities and Culture Committee report in the last Assembly on the youth justice estate indicated a high prevalence of speech and language problems among young people in the youth justice system in Wales; I think it was over 70%. Given that, overall, new entrants to the youth justice system are falling because of positive early interventions and diversions, but reoffending is not falling within a particular group, generally of young people will complex needs, how are you as the Welsh Government seeking to address that?
- Yn y Cynulliad diwethaf, roedd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar ystâd cyfiawnder ieuencid wedi dangos lefelau uchel o broblemau iaith a lleferydd ymhlith pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru; rwy'n credu ei fod dros 70%. O gofio bod newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuencid ar y cyfan yn gostwng oherwydd dargyfeirio ac ymyriadau cynnar cadarnhaol, ond nad yw aildroeddu yn gostwng o fewn grŵp penodol, yn gyffredinol o bobl ifanc gydag anghenion cymhleth, sut ydych chi, Lywodraeth Cymru, yn bwriadu mynd i'r afael â hynny?
- 14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We seek to address it in several ways. I just recently visited the young offender institute in Parc prison and also the one in Hindley, and this was something that was raised with me. It is very important that we target that group of people who are reoffending, because, as you say, they often have complex needs. Speech and language provision is absolutely vital for that group when people have those difficulties. Neither place raised with me that there were concerns about the provision at the current time.
- Ein bwriad yw mynd i'r afael â hyn mewn sawl ffordd. Yn ddiweddar, bu i mi ymweld â'r sefydliad troseddwy'r ifanc yng ngharchar y Parc a hefyd yr un yn Hindley, ac mae hyn yn rhywbeth a godwyd gyda mi. Mae'n bwysig iawn ein bod yn targedu'r grŵp hwnnw o bobl sy'n aildroeddu, oherwydd, fel y bu i chi sôn, yn aml mae ganddynt anghenion cymhleth. Mae darpariaeth iaith a lleferydd yn gwbl hanfodol ar gyfer y grŵp hwnnw pan fydd pobl yn cael yr anawsterau hynny. Ni chododd y naill le na'r llall byderon gyda mi am y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

- 14:19 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The youth justice board has told me that north Wales, although they are doing some work in Gwynedd and Ynys Môn, is falling behind in terms of restorative justice for young offenders. The report I referred to earlier on the youth justice estate recommended that north Wales should have a secure children's home, replicating the model established in Neath. What consideration, given the passage of time since that report, is the Welsh Government giving to these actions in the region in which we both live?
- Fe'm hysbyswyd gan y bwrdd cyfiawnder ieuencid fod y gogledd, er eu bod yn gwneud rhywfaint o waith yng Ngwynedd ac Ynys Môn, yn colli tir o ran cyfiawnder adferol ar gyfer troseddwy'r ifanc. Mae'r adroddiad y cyfeiriais ato cynt ar yr ystâd cyfiawnder ieuencid yn argymhell y dylai'r gogledd gael cartref diogel i blant, yn debyg i'r model a sefydlwyd yng Nghastell-nedd. Pa ystyriaeth, o ystyried treigl amser ers yr adroddiad hwnnw, y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r camau hyn yn y rhanbarth yr ydym ein dau yn byw?
- 14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is something that we are looking at. I have visited Hillside secure children's home and have seen the excellent work that is undertaken there. These are discussions that I have, obviously, with the UK Government also.
- Mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei ystyried. Rwyf wedi ymweld â chartref diogel Hillside plant ac wedi gweld y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yno. Mae'r rhain yn drafodaethau rwyf yn amlwg yn eu cael â Llywodraeth y DU hefyd.
- 14:20 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there is an identified problem with repeat offending by the young people who have committed the most serious crimes, so what is the Welsh Government doing specifically to tackle reoffending by this small group of young people who are the most challenging and often the most vulnerable, and how do you measure success?
- Weinidog, mae yna broblem a nodwyd gydag aildroseddu gan y bobl ifanc sydd wedi cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol, felly beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn benodol i fynd i'r afael ag aildroseddu gan y grŵp bach o bobl ifanc sydd fwyaf heriol ac yn aml sydd fwyaf agored i niwed, a sut yr ydych yn mesur llwyddiant?
- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, success would be a drop in the number of people who are reoffending, but, sadly, we have seen a slight increase in the number of young people reoffending. We have seen a significant fall in the number of people entering the justice system for the first time. So, I think it is important that we concentrate on that group of people. You may be aware that we are having a new joint Welsh Government/youth justice board strategy, which is the outcome of the Green Paper consultation. I will be launching that next month with Lord McNally. I think that just continues the positive joint working that we have had between the youth justice board and the Welsh Government since we launched our first strategy, which was back in 2004, I think. When you see some of the young people who are in this cycle of reoffending, you realise that you must do absolutely everything you can to help them.
- Wel, byddai llwyddiant yn gyfystyr â gostyngiad yn nifer y bobl sy'n aildroseddu, ond, yn anffodus, rydym wedi gweld ychydig o gynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n aildroseddu. Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder am y tro cyntaf. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn canolbwyntio ar y grŵp hwnnw o bobl. Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod yn cael cyd-strategaeth bwrdd cyfiawnder ieuencid/Llywodraeth Cymru newydd, sef canlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Byddaf yn ei lansio'r mis nesaf gyda'r Arglwydd McNally. Credaf fod hyn ond yn parhau â'r cydweithio cadarnhaol a gafwyd rhwng y bwrdd cyfiawnder ieuencid a Llywodraeth Cymru ers i ni lansio ein strategaeth gyntaf, a oedd yn ôl yn 2004, rwy'n meddwl. Pan fyddwch yn gweld rhai o'r bobl ifanc sydd yn y cylch hwn o aildroseddu, byddwch yn sylweddoli bod yn rhaid i chi wneud popeth posibl i'w helpu.
- 14:21 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, roedd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r Papur Gwyrdd ar atal troseddu ymysg ieuencid yn credu bod gormod o raglenni ar gyfer plant 16 i 17 oed yn seiliedig ar eu hoedran yn hytrach na'u hanghenion. Bu ichi ddweud rhyw bythefnos yn ôl nad ydych yn cyflwyno Bil cyfiawnder ieuencid yn ystod y Cynulliad hwn, felly pa gamau byddwch yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r feirniadaeth hon, gan gofio eich bod wedi dweud bod rhyw £49 miliwn yn dal i fod ar gael i'r partneriaethau lleol?
- Minister, many of those who responded to the Green Paper consultation on preventing crime among youth believe that too many programmes for children aged 16 to 17 were based on their age rather than their needs. You said around a fortnight ago that you will not introduce a youth justice Bill during this Assembly, so what steps will you take to tackle that criticism, bearing in mind that you have said that some £49 million is still available for local partnerships?

14:21

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will have heard my previous answer to Jocelyn Davies, in which I spoke about the new strategy that we are launching, which follows the Green Paper consultation to which you referred. We also have the youth crime prevention fund, which supports projects across Wales. That is absolutely aimed at diverting young people away from crime and anti-social behaviour. We have 55 such projects across Wales.

In relation to your question regarding age not need, it is very important that we look at that. You are right, we have decided not to proceed with the Bill in this Assembly term, but that will create an opportunity whereby we can reflect and align our future plans with the wider consideration of the Williams commission and also look at what services we have right across Wales.

Byddwch wedi clywed fy ateb blaenorol i Jocelyn Davies, pan soniais am y strategaeth newydd rydym yn ei lansio, sy'n dilyn yr ymgynghoriad Papur Gwyrdd y bu i chi gyfeirio ato. Mae gennym hefyd y gronfa atal troseddau ieuentid, sy'n cefnogi prosiectau ar draws Cymru. Llwrw ddiiben honno yw dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gennym 55 o brosiectau o'r fath ledled Cymru.

Mewn perthynas â'ch cwestiwn ynghylch oedran yn hytrach nag angen, mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar hynny. Rydych yn iawn, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r Bil yn ystod y tymor Cynulliad hwn, ond bydd hyn yn rhoi cyfle a fydd yn gyfrwng i ni ystyried a chysoni'n cynlluniau yn y dyfodol gydag ystyriaeth ehangach y comisiwn Williams gan hefyd edrych ar ba wasanaethau sydd gennym ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, figures suggest that 65% of boys with convicted fathers will themselves go on to offend. How can the Welsh Government engage with the children of prisoners to make sure that they are not at risk of becoming young offenders themselves?

Weinidog, mae ffigurau yn awgrymu bod 65% o fechgyn sydd â thadad ag euofarnau yn mynd ymlaen eu hunain i droseddu. Sut y gall Llywodraeth Cymru ymgysylltu â phlant carcharorion i wneud yn siŵr nad ydynt hwy mewn perygl o droi yn droseddwr ifanc eu hunain?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You raise a very important point. When I was at Parc prison, I also visited the Invisible Walls project, which you are probably aware of. I saw two young prisoners who were there bathing their babies. I think it is really important that they understand the cycle of reoffending that is out there within families. When I spoke to both of them, I heard that both of their fathers had also been in prison. So, it is really important that we do this early work. The Invisible Walls project in Bridgend is an absolutely fantastic project.

Rydych yn codi pwynt pwysig iawn. Pan oeddwn yng ngharchar y Parc, bum hefyd yn ymweld â'r prosiect Invisible Walls, mae'n debyg eich bod yn gwybod amdano. Gwelais ddau garcharor ifanc a oedd yno'n rhoi bath i'w babanod. Rwy'n credu ei bod yn wirioneddol bwysig eu bod yn deall y cylch o ail-droseddu sydd yn bodoli o fewn teuluoedd. Wrth siarad â'r ddau ohonynt, clywais fod tadau'r ddau wedi bod yn y carchar hefyd. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud y gwaith yn gynnar. Mae'r prosiect Invisible Walls ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn brosiect hollol wych.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwasanaethau Cyhoeddus Gwledig

Rural Public Services

14:23

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cyhoeddus gwledig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0438(LG)

4. Will the Minister make a statement on rural public services in Mid and West Wales? OAQ(4)0438(LG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The delivery of public services in mid and west Wales is the responsibility of a number of public bodies. I expect those services to be delivered to a high standard. Where they are not I, or my ministerial colleagues, take appropriate action.

Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y canolbarth a gorllewin Cymru yn gyfrifoldeb ar nifer o gyrff cyhoeddus. Rwy'n disgwyl i'r gwasanaethau hynny gael eu darparu ar safon uchel. Os na fydd hyn yn digwydd, byddaf innau neu fy nghyd-Weinidogion, yn cymryd camau priodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I would like to thank you very much for that response. As you may well be aware, in recent weeks, there has been significant disquiet following the change of domiciliary care providers in Powys, following a retendering exercise. I have been dealing with the fall-out of this both as a ward councillor and as a regional Assembly Member. Concerns have been voiced from every corner of the county about the disruption caused to service users, the lack of continuity in care, and staff being bussed in from as far afield as Portsmouth and Birmingham to fill in staffing gaps. Minister, in the context of this difficulty, will you consider working with your colleague, the Deputy Minister for Social Services, to strengthen the guidance given to local authorities so as to avoid this kind of disruption in the future, which affects our most elderly and vulnerable citizens?

Weinidog, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am yr ateb hwnnw. Fel y gwyddoch yn dda, efallai, yn yr wythnosau diwethaf, bu anesmwythd sylweddol yn dilyn newid yn y darparwyr gofal cartref ym Mhowys, yn sgîl ymarferiad ail-dendro. Rwyf wedi bod yn ymdrin â'r sefyllfa fel cynghorydd ward ac fel Aelod Cynulliad rhanbarthol. Mae pryderon wedi eu lleisio o bob cornel o'r sir am y tarfu a achoswyd i ddefnyddwyr gwasanaethau, y diffyg parhad mewn gofal, a staff yn cael eu cludo i mewn o mor bell i ffwrdd â Portsmouth a Birmingham i lenwi bylchau staffio. Weinidog, yng nghyd-destun yr anhawster hwn, a wnewch chi ystyried gweithio gyda'ch cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, i gryfhau'r canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol er mwyn osgoi'r math hwn o anhwylystod yn y dyfodol, sy'n effeithio ar ein dinasyddion mwyaf oedrannus a mwyaf agored i niwed?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a councillor yourself, I would think that you would have far more sway. You are responsible for the decisions of Powys County Council and I would think you would have far more sway than I would. However, this is certainly an issue that has been raised with me previously, and the Minister for Health and Social Services and I have discussed it and written to the Member for Brecon and Radnorshire regarding this issue.

Â chwithau eich hun yn gy nghorydd, byddwn yn meddwl y byddai gennych lawer mwy o ddylanwad. Chi sy'n gyfrifol am benderfyniadau Cyngor Sir Powys a byddwn yn meddwl y byddai gennych lawer mwy o ddylanwad nag sydd gennych fi. Fodd bynnag, mae hyn yn sicr yn fater sydd wedi'i godi gyda mi o'r blaen, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi trafod y mater ac wedi ysgrifennu at yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed ynghylch y mater hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I listened carefully to your previous answers, Minister, and I was very pleased to hear your first answer to the Member regarding your responsibility for the performance of local authorities. Given that Powys County Council is accountable for the performance of its service contractors, which has caused a failure in the authority's duty of care, would the Minister be prepared to initiate an external audit investigation of its adult services provision and procurement processes, so that we can get to the bottom of why this chaotic incident took place?

Gwrandewais yn astud ar eich atebion blaenorol, Weinidog, ac rwy'n falch iawn o glywed eich ateb cyntaf i'r Aelod am eich cyfrifoldeb am berfformiad awdurdodau lleol. O gofio bod Cyngor Sir Powys yn atebol am berfformiad ei chontractwyr gwasanaeth, sydd wedi achosi methiant yn nyletswydd gofal yr awdurdod, a fyddai'r Gweinidog yn barod i gychwyn ymchwiliad archwilio allanol o'i ddarpariaeth gwasanaethau i oedolion a phrosesau caffael, er mwyn i ni allu mynd at wraidd y rheswm am y sefyllfa hon o anhrefn llwyr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that is another Powys county councillor asking me a question about the provision of services that he is responsible for. As I said, the Minister for Health and Social Services and I have had a discussion about this; we have written to the Member for Brecon and Radnorshire, who raised this issue. It is something that we will have a look at. However, Powys County Council is responsible for the provision of domiciliary care services to its local electorate, of which you are a member.

Wel, dyma gy nghorydd sir Powys arall yn gofyn cwestiwn am y ddarpariaeth gwasanaethau y mae ef yn gyfrifol amdani. Fel y dywedais, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi cael trafodaeth am hyn; rydym wedi ysgrifennu at yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, a gododd y mater hwn. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Powys yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal cartref i'w etholwyr lleol, Cyngor yr ydych chi yn aelod ohono.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid wyf yn cynghorydd yn sir Powys. Rwyf yn gynghorydd yng Ngheredigion, a gwnes i roi gorau i fod yn gynghorydd unwaith y cefais fy ethol i rhyw fath o senedd. Yr hyn sydd yn bwysig yn y cyd-destun hwn, Weinidog, yw'r cysylltiad rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd, yn enwedig yng nghefn gwlad. Mae gennym gannoedd o bobl y tu fas heddiw yn protestio ynglŷn â gwasanaethau iechyd unwaith eto. Maent o sir Benfro. Rydych chi wedi sefydlu, gyda chytundeb Plaid Cymru, y gronfa gofal canolradd. Pan wnaethoch chi gyhoeddi'r gronfa hon tua mis yn ôl nid oedd llawer o fanylion ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y Gymru wledig. Fodd bynnag, rydych newydd ddweud bum munud yn ôl fod gennych fwy o wybodaeth yn sgîl cyfarfod ddoe. Felly, hoffwn wybod a oes mwy o fanylion bellach ynglŷn â sut mae'r gronfa hon yn gweithio yn y siroedd gwledig, ac yn cefnogi'r gwaith o uno llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd er lles y cyhoedd.

I am not a county councillor in Powys. I am a former councillor in Ceredigion, and I gave up that post once I was elected to any kind of parliament. What is important in this context, Minister, is the link between social services and the health service, particularly in rural areas. We have hundreds of people outside today protesting about health services once again. They are from Pembrokeshire. You have established, with the agreement of Plaid Cymru, the intermediate care fund. When you announced this intermediate care fund about a month ago there were not many details as to what is happening in rural Wales. However, you just said five minutes ago that you have more information in light of a meeting that was held yesterday. So, I would like to know whether there are any further details as to how this fund will work in rural areas, supporting the work of merging local authorities, social services and the health service for the benefit of the public.

14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would be very happy to write to the Member with those specific points.

Byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu at yr Aelod gyda'r pwyntiau penodol hynny.

System Cabinet

System Cabinet

14:27 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y system gabinet mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0430(LG)

5. Will the Minister make a statement on the cabinet system in local government? OAQ(4)0430(LG)

14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Executive arrangements, also known as the cabinet system, have been operating in Wales since 2002. I have commissioned an evaluation, which should report to me in the autumn, to see whether any reforms are desirable as we head towards a new period for local government in Wales.

Diolch. Mae trefniadau gweithredol, a elwir hefyd yn system gabinet, wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers 2002. Rwyf wedi comisiynu gwerthusiad, a ddylai adrodd yn ôl i mi yn yr hydref, i weld a fyddai unrhyw ddiwygiadau yn ddymunol wrth i ni anelu at gyfnod newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

14:27 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you will know that I have said in the past that not only is this a difficult time for people to be councillors, given the nature of the service cuts they have to address in Wales, but also, it seems to me, one of the missing elements of the Williams commission report was that it did not really give a reason or a rationale as to why people might want to serve in local government. Do you agree that strengthening the role of backbench councillors might be an important route to that, and will you consider undertaking a review of the cabinet system?

Weinidog, byddwch yn gwybod fy mod wedi dweud yn y gorffennol nad cyfnod anodd i bobl fod yn gynghorwyr yw'r presennol yn unig, o gofio natur y toriadau i wasanaethau y mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â hwy yng Nghymru, ond hefyd, mae'n ymddangos i mi, un o elfennau coll o adroddiad comisiwn Williams oedd nad oedd yn wir yn rhoi rheswm neu sail resymegol ynghylch pam y gallai pobl fod eisiau gwasanaethu mewn llywodraeth leol. A ydych yn cytuno y gallai cryfhau rôl cynghorwyr y meinciau cefn fod yn llwybr pwysig ar gyfer hynny, ac y byddwch yn ystyried cynnal adolygiad o'r system gabinet?

- 14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think it is important that backbench councillors feel very involved, and I think this is where scrutiny plays such a vital role in local government. As I said, I have commissioned an evaluation of the cabinet system, which is going to report to me in the autumn. Certainly, after that, I can look at a way forward. The role of non-executive councillors and the provisions of the Local Government (Wales) Measure 2011 were intended to assist them in their work by strengthening that scrutiny. Backbench councillors I have spoken to feel that that is certainly the case.
- Ydw, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod cynghorwyr meinciau cefn yn teimlo'u bod yn cyfrannu, ac rwy'n credu mai dyma lle mae craffu yn chwarae rhan mor hanfodol mewn llywodraeth leol. Fel y dywedais, rwyf wedi comisiynu gwerthusiad o'r system cabinet, sydd yn mynd i adrodd i mi yn yr hydref. Yn sicr, ar ôl hynny, gallaf edrych ar ffordd ymlaen. Bwriad rôl cynghorwyr anweithredol a darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 oedd eu cynorthwyo yn eu gwaith trwy gryfhau'r gwaith craffu hwnnw. Mae cynghorwyr y meinciau cefn y bu i mi siarad â hwy yn teimlo mai dyna yn sicr yw'r achos.
- 14:29 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am sure you would agree that the importance of a robust ministerial code in the Welsh Government is paramount to ensuring that public faith in the Government is maintained. However, there is not an equivalent for local authority cabinets or executive boards. Will the Minister consider assessing whether there is a need for such an equivalent or an appraisal system to be introduced by the Welsh Government for local authorities? After all, you can have scenarios where 10 out of, say, 59 councillors are cabinet members, leaving 49 backbenchers, yet all the power, responsibility and democratic accountability fall within that. Really, some appraisal or ministerial code would be quite a good move forward, I believe.
- Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod pwysigrwydd cod gweinidogol cadarn yn Llywodraeth Cymru yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod ffydd y cyhoedd yn y Llywodraeth yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, nid oes cod cyfatebol ar gyfer cabinet neu fyrdau gweithredol awdurdodau lleol. A wnaiff y Gweinidog ystyried asesu a oes angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno system arfarnu neu system gyfatebol ar gyfer awdurdodau lleol? Wedi'r cyfan, gallwch gael sefyllfaoedd lle mae 10 allan o, dyweder, 59 o gynghorwyr yn aelodau cabinet, gan adael 49 yn aelodau meinciau cefn, ac eto mae'r pŵer, y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd democrataidd i gyd yn disgyn o fewn i hynny. Yn wir, rwy'n credu y byddai rhyw fath o arfarniad neu god gweinidogol yn gam gweddol dda ymlaen.
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I will consider that.
- Gwnaf, byddaf yn ystyried hynny.
- 14:29 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- This is intended to be a neutral question—I am frightened to ask it now—and not a criticism of the system. You mentioned that it is now 10 years since the then local government committee discussed the cabinet system in any detail. Do you have evidence that the system has achieved what the committee described then as increased engagement with the public and more transparent, efficient and accountable decision making? You mentioned that you have commissioned a review; I trust that the Welsh Local Government Association is fully involved in that. I do not call them 'backbench councillors'; I prefer to call them 'front-line councillors', which I think is more important.
- Bwriadaf i'r cwestiwn hwn fod yn un niwtral—mae gen i ofn ei ofyn yn awr—nid yw'n feirniadaeth ar y system. Roeddech yn sôn bod 10 mlynedd wedi mynd hebio ers i'r pwyllgor llywodraeth leol a fodolai bryd hynny drafod y system gabinet mewn unrhyw fanylder. A oes gennych dystiolaeth bod y system wedi llwyddo i gyflawni'r hyn a ddisgrifiodd y pwyllgor hwnnw fel mwy o ymgysylltiad â'r cyhoedd a phenderfyniadau mwy tryloyw, effeithlon ac atebol? Soniasoch eich bod wedi comisiynu adolygiad; hyderaf fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn chwarae rhan lawn yn hynny. Nid wyf yn eu galw yn 'gynghorwyr meinciau cefn'; Mae'n well gen i eu galw yn 'gynghorwyr rheng flaen', sydd yn fy marn i'n fwy pwysig.
- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I think 'front-line councillors' is a nice expression. I do think that it has been successful in some parts. What it has done, if you like, is bring the leadership and decision making into the public eye. I do not think that it was before; I think it was more opaque than it is now. It is certainly very popular with local government; councillors certainly seem to like it. What it was introduced for was to increase transparency and efficiency of decision making and I think that it has done that.
- Credaf fod 'cynghorwyr rheng flaen' yn ymadrodd dymunol. Credaf i'r system fod yn llwyddiannus mewn rhai rhannau. Yr hyn y mae wedi'i wneud, o bosibl, yw dod â'r arweinyddiaeth a'r penderfyniadau i lygad y cyhoedd. Ni chredaf fod hynny mor wir yn y gorffennol; credaf nad oedd pethau mor dryloyw ag y mae yn awr. Mae'n sicr yn boblogaidd iawn gyda llywodraeth leol; ymddengys fod cynghorwyr yn sicr yn ei hoffi. Fe'i cyflwynwyd i gynyddu tryloywder ac effeithlonrwydd y broses benderfynu a chredaf ei bod wedi gwneud hynny.

14:31 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, back in March, I raised the disappointing figures that just 19% of Welsh council cabinet positions are held by women. With the latest round of annual general meetings, the situation has improved slightly and now 20% of cabinet posts are held by women. If change continues at this rate, we will only achieve gender balance in 2044. I am sure that you agree with me that we cannot wait this long, so what work can the Welsh Government do to make sure that women occupy the posts that, under the cabinet system, are responsible for so much in the decision-making process?

Weinidog, yn ôl ym mis Mawrth, soniais am y ffigurau siomedig sef mai dim ond 19% o swyddi cabinet cyngorau Cymru sy'n cael eu dal gan fenywod. Gyda'r cylch diweddaraf o gyfarfodydd cyffredinol blynyddol, mae'r sefyllfa wedi gwella ychydig a bellach mae 20% o swyddi cabinet yn cael eu dal gan fenywod. Os pery'r newid ar y gyfradd hon, bydd hi'n 2044 cyn y llwyddir i gael cydbwysedd rhwng y rhywiau. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â mi na allwn aros cyhyd, felly pa waith y gall Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn sicrhau bod merched yn cael swyddi, o dan y system gabinet, sy'n gyfrifol am gymaint yn y broses benderfynu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member will be aware of the recent report called 'On Balance', which is about increasing diversity in local government. I gave my personal commitment that this report would not gather dust on the shelf. While we are undergoing changes for the next local government elections, I have made it very clear that I expect to see much more diversity being introduced, where possible, in cabinets as well.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r adroddiad diweddar o'r enw 'Ar ôl Pwyso a Mesur', sy'n ymwneud â chynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Rhoddais fy ymrwymiad personol na fyddai'r adroddiad hwn yn casglu llwch ar y sillf. Wrth i ni wneud newidiadau ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, rwyf wedi datgan yn ddigon clir fy mod yn disgwyl gweld llawer mwy o amrywiaeth yn cael ei chyflwyno, lle y bo modd, i'r cabinet hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyllid Grant

Grant Funding

14:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau defnydd effeithiol o gyllid grant gan awdurdodau lleol? OAQ(4)0431(LG)

6. How does the Welsh Government ensure effective use of grant funding by local authorities? OAQ(4)0431(LG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Each grant that the Welsh Government issues is accompanied by terms and conditions and is monitored by the relevant department and Minister. It is the responsibility of each local authority to ensure that it uses grant funding effectively, according to the terms set out in the grant offer.

Mae pob grant y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi yn amodol ar delerau ac amodau a chaiff ei fonitro gan yr adran berthnasol a'r Gweinidog. Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw sicrhau ei fod yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol, yn ôl y telerau a nodir yn y cynnig grant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, Minister. Budgets for local authorities are, of course, under pressure over the next few years due to reductions in their block grants. Local authorities that are about to embark on the next budget planning round want as much flexibility as possible to allocate resources across departments; however, I am sure they would prefer a model of central funding that is as unrestrictive as possible so that they can prioritise accordingly. Therefore, what examination have you undertaken of central grant funding to effectively deliver services? Are they delivering value for money or are there more effective, innovative ways of allocating central government resources?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae cyllidebau ar gyfer awdurdodau lleol, wrth gwrs, o dan bwysau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd gostyngiadau yn eu grantiau bloc. Mae awdurdodau lleol sydd ar fin cychwyn ar gynllunio cylch nesaf y gyllideb eisiau cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd i ddyrannu adnoddau ar draws adrannau; fodd bynnag, rwy'n siŵr y byddai'n well ganddynt fodel cyllid canolog sydd mor anghyfyngedig ag y bo modd er mwyn iddynt allu blaenoriaethu yn unol â hynny. Felly, pa archwiliad a wnaed gennych o gyllid grant canolog er mwyn darparu gwasanaethau yn effeithiol? A ydynt yn darparu gwerth am arian neu a oes ffyrdd mwy effeithiol ac arloesol o ddyrannu adnoddau'r llywodraeth ganolog?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

One thing that I undertook recently is the funding flexibility review. Certainly, when I came into portfolio 15 months ago, one of the things that I did was unhypothecate most of the specific grants within my portfolio. I have encouraged local government to engage with my ministerial colleagues to see whether any of my colleagues can unhypothecate some of the specific grants too, and that work is still ongoing. I am also looking at the possibility of any specific grant under a certain threshold being automatically unhypothecated, because, obviously, a lot of this funding is then used in bureaucracy.

Un peth y bu i mi ymgymryd ag ef yn ddiweddar yw'r adolygiad hyblygrwydd o ran cyllid. Yn sicr, pan dderbyniais y portffolio 15 mis yn ôl, un o'r pethau a wneuthum oedd sicrhau bod y rhan fwyaf o'r grantiau penodol o fewn fy mhortffolio wedi'u dadneilltuo. Rwyf wedi annog llywodraeth leol i ymgysylltu â'm cydweithwyr gweinidogol i weld a all rhai o'm cydweithwyr ddadneilltuo rhai o'r grantiau penodol hefyd, ac mae'r gwaith hwnnw'n dal i fynd rhagddo. Rwyf hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ddadneilltuo unrhyw grant penodol o dan drothwy penodol yn awtomatig, oherwydd, mae'n amlwg bod llawer o'r arian hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio mewn biwrocratiaeth.

14:34 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased, in terms of grant funding, of course, with the 'Vibrant and Viable Places' award of £6 million to Rhondda Cynon Taf, of which a substantial amount will be spent in my constituency on very important projects with important social objectives. How will you be evaluating the success of the use of this money in terms of achieving those social objectives?

O ran cyllid grant, rwy'n falch iawn, wrth gwrs, gyda dyfarniad 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' o £6 miliwn i Rhondda Cynon Taf, a bydd swm sylweddol yn cael ei wario yn fy etholaeth ar brosiectau pwysig iawn gydag amcanion cymdeithasol pwysig. Sut y byddwch yn gwerthuso llwyddiant wrth ddefnyddio'r arian hwn o ran cyflawni'r amcanion cymdeithasol hynny?

14:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

That will be an issue for my colleague Carl Sargeant, the Minister for Housing and Regeneration, who, as you say, has recently awarded the 'Vibrant and Viable Places' funding—over £100 million over the next three years for targeted regeneration investment. I know that Rhondda Cynon Taf County Borough Council has received just under £6 million under this framework.

Bydd hynny'n fater i'm cydweithiwr Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio, sydd, yn ôl a ddywedoch, wedi dyfarnu cyllid 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn ddiweddar—dros £100 miliwn dros y tair blynedd nesaf i dargedu buddsoddi mewn adfywio. Gwn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi derbyn ychydig o dan £ 6,000,000 dan y fframwaith hwn.

Gweithio ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

Joint Working between Public Services in Wales

14:34 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

7. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo a chynorthwyo gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0429(LG)

7. What is the Welsh Government doing to promote and support joint working between public services in Wales? OAQ(4)0429(LG)

14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government has a comprehensive programme to promote and support joint working between public services in Wales, and has set a clear direction for collaboration. Collaboration is not an end in itself, but a means of supporting the integration of services that are tailored to the needs of individuals, families and communities. It is vital that we maintain momentum in our work, to improve public services for the benefit of the people of Wales.

Mae gan Lywodraeth Cymru raglen gynhwysfawr i hyrwyddo a chefnogi gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae wedi gosod cyfeiriad clir ar gyfer cydweithio. Nid oes diben cydweithredu er ei fwyn ei hun, ond mae'n fodd o gefnogi integreiddio gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal momentwm yn ein gwaith, er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus er budd pobl Cymru.

14:35

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. There are many projects across Wales that I believe would benefit from partnership working, as they face up to the challenge of the austerity measures that are coming down from Westminster. One such scheme could actually be the closed-circuit television schemes and services that we are seeing many authorities, including my own, looking at cutting, which will impact on community safety across our areas. This, to me, is a perfect example of something to which we can take a collaborative approach. You mentioned collaboration, and I appreciate that very much, but what actions are you taking to encourage that collaboration, so that they can actually deliver and produce solutions to the many challenges that they face as a consequence of the cuts that are coming down?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae llawer o brosiectau ledled Cymru a fyddai, mi gredaf, yn elwa ar weithio mewn partneriaeth, wrth iddynt wynebu her y mesurau darbodus sy'n ein cyrraedd o San Steffan. Un o'r cynlluniau hynny a fyddai'n gallu elwa yw'r gwasanaethau a'r cynlluniau teledu cylch cyfyng y mae llawer o awdurdodau, gan gynnwys fy awdurdod fy hun yn bwriadu eu torri, a fydd yn effeithio ar ddiogelwch cymunedol ar draws ein hardaloedd. Mae hyn, i mi, yn enghraifft berffaith o rywbeth a allai elwa ar ddull cydweithredol. Roeddech yn sôn am gydweithio, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn, ond pa gamau ydych yn eu cymryd i annog y cydweithio hwnnw, fel y gallant mewn gwirionedd gyflawni a chynhyrchu atebion i'r heriau lu sy'n eu hwynebu o ganlyniad i'r toriadau a ddaeth i'n rhan?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have regular discussions with local government, and also with the police and crime commissioners. You mentioned CCTV, and that is one area where there could be partnership working. I recently met with Tony Porter, who is the recently appointed Surveillance Camera Commissioner for England and Wales. One of his roles is to provide guidance and advice on the deployment of CCTV schemes, and also to facilitate the sharing of good practice, and I have asked him to have discussions with the WLGA in this area. However, I think that it is one area where we could see better partnership between PCCs and local government.

Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda llywodraeth leol, a gyda chomisiynwyr heddlu a throseddau hefyd. Roeddech yn sôn am deledu cylch cyfyng, a dyna un maes lle gellid gweithio mewn partneriaeth. Yn ddiweddar, bu i mi gyfarfod â Tony Porter, a benodwyd yn ddiweddar yn Gomisiynydd Gwyliadwriaeth Camera ar gyfer Cymru a Lloegr. Un o'i swyddogaethau yw darparu arweiniad a chyingor ar ddefnyddio cynlluniau teledu cylch cyfyng, yn ogystal â hwyluso'r gwaith o rannu arfer da, ac rwyf wedi gofyn iddo gael trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y maes hwn. Fodd bynnag, rwy'n credu ei fod yn un maes lle y gallem weld gwell partneriaeth rhwng Comisiynwyr a llywodraeth leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, although a dry subject, public sector property asset management is incredibly important, especially in times of tight financial budgets. For example, a recent study here in the capital city, namely the Canton pilot, which was undertaken by the local service board, found 74 properties—29, admittedly, within the third sector—in one council ward. So, there is huge scope for rationalisation, I would argue. Will you outline what you are doing to ensure that public services utilise spare capacity within nearby public sector assets, before commissioning new leases or, indeed, new builds?

Weinidog, er yn bwnc sych, mae rheoli asedau eiddo'r sector cyhoeddus yn eithriadol o bwysig, yn enwedig mewn cyfnod o gyllidebau ariannol tynn. Er enghraifft, mewn astudiaeth ddiweddar yma yn y brifddinas, sef cynllun peilot Treganna, a gynhaliwyd gan y bwrdd gwasanaethau lleol, gwelwyd bod 74 eiddo—gyda 29 ohonynt, rhaid cyfaddef, yn y trydydd sector—mewn un ward cyngor. Felly, byddwn i'n dadlau bod cyfle gwych i resymoli. A wnewch chi amlinellu beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio capasiti sy'n weddill ymhlith asedau cyfagos y sector cyhoeddus, cyn comisiynu prydlesi newydd neu, yn wir, waith adeiladu newydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A dry subject, but a very important subject. You will be aware of the national asset management working group that the Welsh Government has, and I have certainly encouraged local government to work together regarding assets. Fleet management is a classic example, and, certainly, Neath Port Talbot County Borough Council has managed huge savings by realigning its fleet and has tried to get other local authorities involved. I think that it is seven local authorities that have now come together to look at their fleet, and I have given them some funding to help them in this, because I do think that there are huge, significant savings to be made in relation to assets.

Pwnc sych, ond pwnc pwysig iawn. Byddwch yn ymwybodol o'r gweithgor rheoli asedau cenedlaethol sydd gan Lywodraeth Cymru, ac rwyf innau'n sicr wedi annog llywodraeth leol i weithio gyda'i gilydd o ran asedau. Mae rheoli fflyd yn enghraifft glasuro, ac, yn sicr, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi creu arbedion enfawr drwy aildrefnu ei fflyd a cheisio cael awdurdodau lleol eraill i gymryd rhan. Rwy'n credu mai saith awdurdod lleol sydd bellach wedi dod at ei gilydd i edrych ar eu fflyd, ac rwyf wedi rhoi rhywfaint o arian i'w helpu gyda'r gwaith, oherwydd fy mod yn credu y gellir gwneud arbedion sylweddol, enfawr mewn perthynas ag asedau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mewn adroddiad a ryddhawyd ym mis Ionawr ynglŷn ag ymdrin â'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dweud bod disgwyliadau afreal o ran manteision ariannol cydweithio. A ydych chi'n cytuno â'r archwilydd cyffredinol?

In a report released in January appertaining to the financial challenges facing local government in Wales, the Auditor General for Wales states that there are unreasonable expectations about the advantages of collaboration. Do you agree with the auditor general?

14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As I said, collaboration is not an end in itself, but I do think that it is a means of supporting the integration of services. My predecessor set up the regional collaboration fund, and, certainly, we have seen significant strides in the services that have been put together by the RCF. One of the things about collaboration is that it is about thinking of innovative ways, and, sometimes, I think that, because local government was afraid to fail, it sometimes, perhaps, did not think of ways that were innovative enough. So, I hope that I have encouraged that to happen. However, it is not an end in itself.

Fel y dywedais, nid oes diben gydweithredu er ei fwyn ei hun, ond rwy'n meddwl ei fod yn fodd o gefnogi integreiddio gwasanaethau. Sefydlodd fy rhagflaenydd y gronfa gydweithredol ranbarthol, ac, yn sicr, rydym wedi gweld camau breision yn y gwasanaethau sydd wedi cael eu rhoi at ei gilydd gan y gronfa. Un o'r pethau am gydweithredu yw ei fod yn ymwneud â meddwl am ffyrdd arloesol, ac, weithiau, mi gredaf, oherwydd bod llywodraeth leol yn ofni methu, weithiau, efallai, nid oedd yn meddwl am ffyrdd a oedd yn ddigon arloesol. Felly, rwy'n gobeithio fy mod wedi annog i hynny ddigwydd. Fodd bynnag, nid yw'n ddiben er ei fwyn ei hun.

Cam-drin Domestig

Domestic Abuse

14:39 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod pob asiantaeth yn cymryd rhan yn y gwaith o atal cam-drin domestig? OAQ(4)0435(LG)

8. What plans does the Minister have to ensure that all agencies are involved in the prevention of domestic abuse? OAQ(4)0435(LG)

14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Key public service organisations have developed, or reviewed, their workplace policies on domestic abuse, violence against women, and sexual violence, demonstrating the commitment across the Welsh public sector. A national training framework is being developed, to provide consistent training for all public sector and specialist service-provider professionals.

Mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus allweddol wedi datblygu, neu adolygu, eu polisiau yn y gweithle ar gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod, a thrais rhywiol, gan ddangos yr ymrwymiad ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae fframwaith hyfforddi cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, i ddarparu hyfforddiant cyson ar gyfer holl weithwyr proffesiynol darparwyr gwasanaethau arbenigol a'r sector cyhoeddus.

14:39 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for that response. In view of the fact that, on average, a domestic abuse victim suffers abuse 35 times before reporting it to the police—which is a staggering number—how can she ensure that agencies, such as schools and employers, which are not in the front line like social services or the police, recognise the key signs of domestic abuse?

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yn wyneb y ffaith bod dioddefwr cam-drin domestig, ar gyfartaledd, yn dioddef camdriniaeth 35 gwaith cyn rhoi gwybod i'r heddlu amdano—sy'n nifer syfrdanol—sut y gall hi sicrhau bod asiantaethau, megis ysgolion a chyflogwyr, nad ydynt yn y rheng flaen fel y mae'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, yn adnabod arwyddion allweddol o gam-drin domestig?

- 14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is a very stark figure and another figure that I learnt was that the majority of abusive relationships can last five years. That is the average length of such a relationship. So, I think those two figures together are very stark. You will be aware that I will be introducing legislation in the Assembly at the end of this month. Alongside that we are developing the national training framework, which I referred to in my opening answer to you. That will ensure the availability of quality and consistent training, raise awareness, change attitudes and improve the nature and quality of support provided to victims. I will be providing detail of the framework, Presiding Officer, in draft guidance at the introduction of the Bill.
- Dyna ffigur difrifol iawn ac un arall a ddysgais oedd y gall y rhan fwyaf o berthnasoedd camdriniol bara pum mlynedd. Ar gyfartaledd, dyna yw hyd perthynas o'r fath. Felly, o roi'r ddau ffigur hwn at ei gilydd mae'n ddarlun difrifol iawn. Byddwch yn ymwybodol y byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth yn y Cynulliad ar ddiwedd y mis hwn. Law yn llaw â hynny rydym yn datblygu fframwaith hyfforddi cenedlaethol, y cyfeiriais ato yn fy ateb agoriadol i chi. Bydd hynny'n sicrhau bod hyfforddiant cyson a safonol ar gael, gan godi ymwybyddiaeth, newid agweddau a gwella natur ac ansawdd y cymorth a ddarperir i ddioddefwyr. Byddaf yn rhoi manylion y fframwaith, Lywydd, mewn canllawiau drafft wrth gyflwyno'r Bil.
- 14:40 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in your statement on 26 November last year, you stated that work-based policies on violence against women, domestic abuse and sexual violence implemented in public service organisations would be evaluated to ensure that they comply with best practice and monitored to see how they are promoted within these organisations. Will the Minister advise the Assembly today on what progress has been made in this regard?
- Weinidog, yn eich datganiad ar 26 Tachwedd y llynedd, dywedasoch y byddai'r polisiau yn y gwaith ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cael eu gweithredu mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gwerthuso er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau a'u monitro i weld sut y cânt eu hyrwyddo o fewn y sefydliadau hyn. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod i'r Cynulliad heddiw am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn hyn o beth?
- 14:41 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am pleased to report that all 41 public sector organisations in Wales have now implemented or reviewed their work-based policies on domestic violence, violence against women and sexual violence, and they are now in place. This includes the Welsh Government. We are reviewing the policies to ensure that they comply with best practice guidance and we are monitoring how they are promoted within their organisations, because there is no point just having a policy. It is really important that public sector employees know about that policy. I am sorry, I should have said that 42 public organisations are involved; the Wales probation service is also included.
- Rwy'n falch o adrodd bod pob un o'r 41 sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru bellach wedi gweithredu, neu adolygu eu polisiau yn y gwaith ar drais domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol, ac maent yn awr yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Rydym yn adolygu'r polisiau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau ac rydym yn monitro sut y maent yn cael eu hyrwyddo o fewn eu sefydliadau, gan fod angen mwy na dim ond llunio polisi. Mae'n wirioneddol bwysig bod gweithwyr y sector cyhoeddus yn gwybod am y polisi hwnnw. Mae'n ddrwg gennyf, dylwn fod wedi dweud bod 42 o sefydliadau cyhoeddus yn cael eu cynnwys; mae gwasanaeth prawf Cymru wedi'i gynnwys hefyd.
- 14:41 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you mentioned your legislation that we will see soon. Will that Bill address gender-based violence and sexual assault, as outlined in 'The Right to be Safe' strategy launched in 2010, which, of course, recognised it as a serious violation of human rights and a major obstacle to gender equality?
- Weinidog, bu i chi sôn am eich deddfwriaeth y byddwn yn ei gweld yn fuan. A fydd y Bil hwnnw'n mynd i'r afael â thrais seiliedig ar ryw ac ymosodiad rhywiol, fel yr amlinellir yn y strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' a lansiwyd yn 2010, sydd, wrth gwrs, yn cydnabod hynny fel ymyrraeth ddifrifol ar hawliau dynol a rhwystr mawr i gydraddoldeb rhwng y rhywiâu?
- 14:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, the Bill will address that. It is gender-specific and recognises the problem of violence perpetrated as a result of values, beliefs or customs relating to gender.
- Bydd. Bydd y Bil yn mynd i'r afael â hynny. Mae'n rhywbenodol ac yn cydnabod y broblem o drais a gyflawnir o ganlyniad i werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhyw.

14:42

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My recent casework has included the problems of a disabled woman who was subjected to violence in her own home as a result of the behaviour of drug addicts who wanted to get hold of her money. Sadly, the police public protection records have failed to accurately capture the extent and seriousness of the incidents. I wonder whether you would commend the work of Safer Wales, which, in contrast to the police, acted very promptly and effectively, got the services that this woman needed to get her supported and safeguarded and has now referred the case to a multi-agency risk assessment conference.

Mae fy ngwaith achos diweddar wedi cynnwys problemau gwraig anabl a oedd yn dioddef trais yn ei chartref ei hun o ganlyniad i ymddygiad pobl sy'n gaeth i gyffuriau a oedd am gael gafael ar ei harian. Yn anffodus, mae cofnodion diogelu'r cyhoedd yr heddlu wedi methu ag adrodd yn llwyr wir faint a difrifoldeb y digwyddiadau. Tybed a fydddech yn cymeradwyo gwaith Cymru Ddiogelach, a lwyddodd, yn wahanol i'r heddlu, i weithredu'n brydlon ac yn effeithiol iawn, gan gael gafael ar y gwasanaethau oedd ar y wraig hon eu hangen i'w chefnogi a'i diogelu ac maent yn awr wedi cyfeirio'r achos i gynhadledd asesu risg aml-asiantaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly would commend Safer Wales. I am very pleased to hear that those services were there. I think it shows that the importance of local services in supporting victims of domestic abuse and sexual violence cannot be underestimated. I think that that is so important. The Welsh Government provides funding—I think that it is just over £0.25 million to Safer Wales for the Cardiff Women's Safety Unit. It is really important that all services, wherever they are in Wales, are of a very high quality and standard, which ensures that victims receive the very best support, regardless of where they live. It is really important that we have that parity of services. I should say that I have protected and increased the budget for the delivery of services to victims in line with bringing the Bill forward, even though my budget has, obviously, decreased. I have increased the budget in relation to these services.

Rwy'n sicr yn cymeradwyo Cymru Ddiogelach. Rwy'n falch iawn o glywed bod y gwasanaethau hynny yn eu lle. Credaf fod hyn yn dangos na ddylid anghofio gwerth a phwysigrwydd gwasanaethau lleol sy'n cefnogi pobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Credaf fod hynny mor bwysig. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid—ychydig dros £0.25 miliwn ar gyfer Cymru Ddiogelach ar gyfer Uned Diogelwch Menywod Caerdydd. Mae'n wirioneddol bwysig bod yr holl wasanaethau, lle bynnag y maent yng Nghymru, o ansawdd a safon uchel iawn, sy'n sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth gorau, waeth ble maent yn byw. Mae'n wirioneddol bwysig bod gennym gydraddoldeb o ran gwasanaethau. Dylwn ddweud fy mod wedi diogelu ac wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr yn unol â chyflwyno'r Bil, er bod fy nghyllideb yn amlwg wedi gostwng. Rwyf wedi cynyddu'r gyllideb mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diogelwch Cymunedol

Community Safety

14:44

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch cymunedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0439(LG)

9. Will the Minister make a statement on community safety in Mid and West Wales? OAQ(4)0439(LG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Chapter 7 of the programme for government outlines our commitment to making communities safer across Wales. The achievement of one of our top 'five for a fairer future' priorities, recruiting an extra 500 community support officers across Wales, is already improving community safety.

Mae Pennod 7 o'r rhaglen lywodraethu yn amlinellu ein hymrwymiad i wneud cymunedau yn fwy diogel ledled Cymru. Trwy gyflawni un o'n prif flaenoriaethau o blith y 'pump am ddyfodol tecach' sef recriwtio 500 yn ychwanegol o swyddogion cymorth cymunedol ledled Cymru, rydym eisoes yn gwella diogelwch yn y gymuned.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I would like to thank you very much for that answer. I have recently received information from across the Mid and West Wales region—from Llanelli to Newtown—regarding concerns that Dyfed-Powys Police may be intending to terminate the services of the popular Bobby Van scheme, which visits the homes of those who have been victims of crime, fitting locks, door chains and other security measures so as to bear down on crime and the fear of crime for those who have already been victims of it. My understanding from speaking to an officer at the police headquarters this morning is that it is not to be terminated but is due to be reviewed as part of a re-tendering process. In that context, Minister, would you join me in calling on Dyfed-Powys Police to ensure that the function of this valuable service is not diluted as part of the re-tendering process because of the benefits that it brings to the victims of crime? We have heard some harrowing examples from outside that police area earlier during this question time.

Weinidog, hoffwn ddiolch i chi yn fawr iawn am yr ateb hwnnw. Yn ddiweddar, rwyf wedi derbyn gwybodaeth o bob rhan o'r Canolbarth a Gorllewin Cymru—o Lanelli i'r Drenewydd—yn ymwneud â phryderon fod Heddlu Dyfed-Powys o bosibl yn bwriadu terfynu gwasanaethau'r cynllun Bobby Van poblogaidd, sy'n ymweld â chartrefi'r rhai sydd wedi dioddef trosedd, gan osod cloeon, cadwyni drws a mesurau diogelwch eraill er mwyn lleihau trosedd ac ofn troseddau ymhlith pobl sydd eisoes yn ddioddefwyr. Caf ar ddeall ar ôl siarad â swyddog ym mhencadlys yr heddlu y bore yma nad yw'n dod i ben, ond y caiff ei adolygu fel rhan o broses ail-dendro. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, a fydddech cystal ag ymuno â mi i alw ar Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau nad yw swyddogaeth y gwasanaeth gwerthfawr hwn yn cael ei wanhau fel rhan o'r broses ail-dendro oherwydd y manteision a ddaw yn ei sgil i ddioddefwyr troseddau? Clywsom rai enghreifftiau erchyll o un o ardaloedd eraill yr heddlu yn gynharach yn ystod y sesiwn gwestiynau hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously this is an operational matter for the chief constable in collaboration with his police and crime commissioner.

Yn amlwg mae hwn yn fater gweithredol i'r prif gwnstabl ynghyd â'i gomisiynydd heddlu a throseddu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Cyngor Sir Gâr wedi penderfynu, o 1 Gorffennaf, i gael cynllun trwyddedig detholedig ar gyfer pob eiddo wedi'i rhentu'n breifat yn ardal Tyisha yn Llanelli. Mae hyn yn adeiladu ar gynllun gosodiadau detholedig presennol yn yr ardal ar leoedd ar rent gan y sir. A yw'r Gweinidog yn cytuno gyda fi y bydd hyn yn lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn yr ardal ac yn sicrhau diogelwch cymunedol?

Carmarthenshire County Council has decided, from 1 July, to have a licensing scheme for all private rented properties in the Tyisha area of Llanelli. This builds upon the current scheme in place in the area on selected places rented out by the county. Does the Minister agree with me that this will reduce anti-social behaviour in the area and will secure community safety?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I am sure that it will bring real benefits to the local community and will help to address anti-social behaviour. I know that this is something that my colleague, Carl Sargeant, the Minister for Housing and Regeneration, has also expressed a view on, and I am aware of the work being undertaken by the Station Road forum.

Gwnaf, rwy'n siŵr y bydd yn dod â manteision gwirioneddol i'r gymuned leol a bydd yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwn fod hyn yn rhywbeth y mae fy nghydweithiwr, Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio, hefyd wedi mynegi barn amdano, ac rwy'n ymwylbodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan fforwm Ffordd yr Orsaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, last month, you gave a statement on community safety, which, among other things, outlined the work that the Welsh Government is doing in relation to domestic abuse and sexual violence, youth justice and reoffending. While I acknowledge that there is some good work being done in these areas, can you tell us how the Welsh Government is rural-proofing its policies in these areas so that the needs of people living in places like Pembrokeshire are being fully considered when constructing Welsh Government policy?

Weinidog, y mis diwethaf, rhoesoch ddatganiad am ddiogelwch cymunedol, a oedd, ymhlith pethau eraill, yn amlinellu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â cham-drin domestig a thrais rhywiol, cyfiawnder ieuencid ac aildrosedd. Er fy mod yn cydnabod bod rhywfaint o waith da yn cael ei wneud yn y meysydd hyn, a allwch ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn prawfesur ei pholisiau o safbwynt cefn-gwlad yn y meysydd hyn fel bod anghenion pobl sy'n byw mewn llefydd fel Sir Benfro yn cael eu llwyr ystyried wrth lunio polisi Llywodraeth Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Obviously, that is something that we take into consideration and, certainly, during my discussions last week with the police and crime commissioners, it was something that was raised with me—not by your commissioner, but by the north Wales police and crime commissioner. He has set up a specific rural team there, and I know that that has gone down very well with the farmers.</p>	<p>Yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei ystyried ac, yn sicr, yn ystod fy nhrafodaethau yr wythnos diwethaf gyda chomisiynwyr yr heddlu a throseddu, roedd yn rhywbeth a godwyd gyda mi—nid gan eich comisiynydd chi, ond gan gomisiynydd heddlu a throseddu'r gogledd. Mae ef wedi sefydlu tîm gwledig penodol yno, a gwn fod hyn wedi rhyngu bodd y ffermwyr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cymorth y Dreth Gyngor		Council Tax Support	
14:47	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth y dreth gyngor? OAQ(4)0434(LG)</p>	<p>10. Will the Minister provide an update on council tax support? OAQ(4)0434(LG)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:47	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I issued a written statement on 5 June confirming that the Welsh Government will continue to protect vulnerable and low-income households by maintaining entitlements to council tax support for at least a further two years.</p>	<p>Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 5 Mehefin yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i warchod aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd ar incwm isel trwy barhau'r cyfle i hawlio cymorth i dalu'r dreth gyngor am o leiaf ddwy flynedd arall.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:47	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig help i'r cartrefi tlotaf sy'n dioddef oherwydd y toriadau i fudd-daliadau sydd yn dod o Lywodraeth Prydain. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol, o bryderon yng nghyngor Môn fod diffyg yn y cyllid. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae cyngor Môn yn cael rhyw £5 miliwn tuag at gynllun lleihau'r dreth cyngor, ond, gydag un o bob tri o dalwyr y dreth gyngor ym Môn i dderbyn cymorth, mae'r gost i'r cyngor yn £5.5 miliwn. Mae £0.5 miliwn yn ddiffyg sylweddol—mae'n fygythiad ychwanegol i'r bygythiad sy'n bodoli'n barod i wasanaethau cyhoeddus. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i roi i chwilio am ffyrdd o wneud iawn am y diffyg hwnnw?</p>	<p>I certainly welcome the fact that the Welsh Government continues to offer support to the poorest homes that are suffering because of the benefit cuts emanating from the British Government. However, I am aware of concerns in Anglesey council about a deficit in the funding. In this financial year, Anglesey council will receive about £ 5 million towards the council tax reduction scheme, but, given that one in three of Anglesey's council tax payers is to be given this support, the cost to the council will be £ 5.5 million. A total of £0.5 million is a significant shortfall—it is an additional threat to the existing threat to public services. What consideration has the Minister given to seeking ways of making up this shortfall?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:48	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Local government must take account of the funding provision and entitlement when it makes its budget decisions. Any increase in the cost of council tax reduction schemes will be almost entirely down to local decisions to raise council tax, because the caseload has remained very static over the past few years. So, that is something that councils need to take into consideration when they set their council tax.</p>	<p>Rhaid i lywodraeth leol ystyried y cyllid a ddarperir a hawliadau wrth benderfynu ar y gyllideb. Bydd unrhyw gynnydd yng nghost cynlluniau lleihau'r dreth gyngor bron yn gyfan gwbl yn seiliedig ar benderfyniadau lleol i godi'r dreth gyngor, oherwydd bod y llwyth achosion wedi aros yn sefydlog iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae angen i gynghorau ei ystyried wrth bennu eu treth gyngor.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:48	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Uniquely among north and mid Wales councils, Wrexham and Denbighshire have chosen not to use Welsh Government funding to help pensioners pay their council tax for that purpose. What guidance did the Welsh Government provide to councils with regard to their use of this money?</p>	<p>Yn unigryw ymhlith cynghorau gogledd a chanolbarth Cymru, mae Wrecsam a Sir Ddinbych wedi dewis peidio â defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i helpu pensiynwyr i dalu eu treth gyngor at y diben hwnnw. Pa ganllawiau oedd Llywodraeth Cymru wedi'u darparu i gynghorau o ran eu defnydd o'r arian hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:49

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I unhyphothecated the grant to give them more flexibility. You will have heard me state in an earlier answer the importance of them having that flexibility. So, now it is up to local authorities to decide how to use the funding that is provided to them based on the needs and priorities in their local areas. After all, they are directly accountable to their local electorates for these decisions. As a Government, we already provide considerable support to pensioners in meeting their council tax liability through the council tax reduction schemes that I have just referred to. Our commitment to maintaining entitlement until at least 2016-17 benefits approximately 135,000 pensioners a year, of which 90,000 pay no council tax at all.

Rwyf wedi dadneilltuo'r grant er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt. Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud mewn ateb cynharach ei bod hi'n bwysig cael hyblygrwydd. Felly, erbyn hyn, caiff awdurdodau lleol benderfynu sut i ddefnyddio'r arian sy'n cael ei ddarparu iddynt yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau yn eu hardaloedd lleol. Wedi'r cyfan, maent yn uniongyrchol atebol i'w hetholwyr lleol am y penderfyniadau hyn. Fel Llywodraeth, rydym eisoes yn rhoi cymorth sylweddol i bensiynwyr o ran bodloni eu rhwymedigaeth treth gyngor drwy'r cynlluniau i leihau'r dreth gyngor y cyfeiriais atynt eisoes. Mae ein hymrwymiad i gynnal hawliadau tan o leiaf 2016-17 yn gymorth i oddeutu 135,000 o bensiynwyr y flwyddyn, gyda 90,000 ohonynt heb fod yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hyrwyddo Craffu Effeithiol

Promoting Effective Scrutiny

14:49

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo craffu effeithiol ar lywodraeth leol? OAQ(4)0440(LG)

11. What is the Welsh Government doing to promote effective scrutiny of local government? OAQ(4)0440(LG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Local Government (Wales) Measure 2011 supports effective scrutiny that provides challenge and drives public service performance from the user's perspective. I am investing £660,000 over three years in the scrutiny development fund and the Centre for Public Scrutiny to support and strengthen delivery of effective scrutiny.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cefnogi craffu effeithiol sy'n darparu her ac sy'n hybu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus o safbwynt y defnyddiwr. Rwy'n buddsoddi £660,000 dros dair blynedd yn y gronfa datblygu gwaith craffu a'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i gefnogi a chryfhau darpariaeth craffu effeithiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I think that we would all agree that rigorous scrutiny is indeed the foundation stone of strong democracy and that people rightly demand and expect that their representatives ask searching questions, whether they are here, in Westminster, in Brussels or indeed at county hall. So, may I ask what appraisal has been made of the Welsh Government's scrutiny development fund that you mentioned? What actions have been undertaken in response to the Centre for Local and Regional Government Research's 2013 report on developing a culture of collaborative scrutiny and evaluation of practice and potential?

Diolch i chi, Weinidog. Credaf y byddem i gyd yn cytuno mai gwaith craffu trylwyr yn wir yw carreg sylfaen democratiaeth gadarn a bod gan bobl yr hawl i ofyn a disgwyl i'w cynrychiolwyr ofyn cwestiynau treiddgar, yma yn San Steffan, ym Mrwsel neu yn wir yn neuadd y sir. Felly, a gaf fi ofyn pa arfarniad a wnaed o gronfa datblygu gwaith craffu Llywodraeth Cymru a grybwyllwyd gennych? Pa gamau a wnaed mewn ymateb i Adroddiad 2013 y Ganolfan Ymchwil i Lywodraeth Leol a Rhanbarthol ar ddatblygu diwylliant o graffu ar y cyd a gwerthuso arfer a photensial?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I think that I can say with confidence that scrutiny is really building a momentum now in local government in Wales. There is some variation, of course, but I think that there is a real momentum at work. Cardiff Business School undertook an evaluation of the initial scrutiny development fund and concluded that it did deliver excellent value for money and that it supported projects that provided a real impetus to scrutiny development. It is something that I am very happy to continue to support. I am speaking, I think it is next week, at a scrutiny event where I will be launching a new guide to financial scrutiny, which I think is very much needed in these challenging times.

Diolch. Rwy'n meddwl y gallaf ddweud yn hyderus bod gwaith craffu yn wirioneddol yn ennill momentwm yn awr mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae rhywfaint o amrywiad, wrth gwrs, ond credaf fod gwir fomentwm ar droed. Cynhaliodd Ysgol Fusnes Caerdydd werthusiad o'r gronfa datblygu gwaith craffu gychwynnol a daeth i'r casgliad ei bod yn rhoi gwerth rhagorol am arian a'i bod yn cefnogi prosiectau sy'n rhoi hwb go iawn i ddatblygiad gwaith craffu. Mae'n rhywbeth rwy'n hapus iawn i barhau i'w gefnogi. Byddaf yn siarad, rwy'n credu, yr wythnos nesaf, mewn digwyddiad craffu lle y byddaf yn lansio canllaw newydd i graffu ariannol, sy'n rhywbeth y mae mawr angen amdano mi gredaf yn y cyfnod anodd hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Weinidog, mae un o fy etholwyr wedi cael ei atal ar sawl achlysur rhag trydar yn ystod trafodion cyhoeddus ei gyngor cymuned. A wnewch chi ystyried newidiadau i'r canllawiau ac, yn y cyfamser, a fyddwch chi'n gweithio gydag Un Llais Cymru i helpu cyngorau cymuned ddeall gwerth adrodd gan breswylwyr fel modd o gynyddu gwybodaeth am ddemocratiaeth leol?	Minister, a constituent of mine has been prevented on a number of occasions from using Twitter during public debates at his community council. Would you consider changes to the guidance and, in the meantime, will you work with One Voice Wales to assist community councils to understand the importance of reporting by residents in terms of communicating information relating to local democracy?	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Yes, I am already working with One Voice Wales around this issue.	Ydwyf, rwyf eisoes yn gweithio gydag Un Llais Cymru ynghylch y mater hwn.	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Peter Black Bywgraffiad Biography	Minister, a number of councils still insist that only members of the ruling group can chair scrutiny committees, despite Welsh Government guidance to the contrary. May I ask what analysis you have carried out of how scrutiny chairs are allocated and whether you can reinforce the message that they should be allocated on a proportional basis?	Weinidog, mae nifer o gynghorau yn dal i fynnu mai dim ond aelodau o'r grŵp sy'n rheoli sy'n gallu cadeirio pwyllgorau craffu cadeirydd, er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru i'r gwrthwyneb. A gaf fi ofyn pa ddadansoddiad rydych wedi'i wneud o sut y mae cadeiryddion craffu yn cael eu dyrannu ac a allwch chi atgyfnerthu'r neges y dylid eu dyrannu ar sail gyfrannol?	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	The Liberals do like their proportionality. I was not aware of that being an issue. Certainly, I can think of Swansea, where that is not the case. I will look into the issue and write to the Member.	Mae'r Rhyddfrydwyr yn hoffi eu cyfranoleb. Nid oeddwn yn ymwybodol o'r broblem honno. Yn sicr, gallaf feddwl am Abertawe, lle nad yw hynny'n wir. Byddaf yn edrych i mewn i'r mater ac yn ysgrifennu at yr Aelod.	Senedd.tv Fideo Video
Deddf Lleoliaeth 2011		The Localism Act 2011		
14:52	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	<i>12. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglyn â gweithredu darpariaethau yn Neddf Lleoliaeth 2011 sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru?</i> OAQ(4)0441(LG)	<i>12. What discussions has the Minister had regarding the implementation of provisions in the Localism Act 2011 that apply to local government in Wales?</i> OAQ(4)0441(LG)	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	I regularly meet local government representatives and have had numerous discussions regarding the provisions of the Localism Act 2011 that fall within my portfolio. These include issuing guidance on pay policy statements, greater local engagement in decisions on council tax levels and their discretionary powers to grant non-domestic rate relief.	Rwy'n cwrrd â chynrychiolwyr llywodraeth leol yn rheolaidd ac wedi cael nifer o drafodaethau ynglyn â darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 sy'n dod o fewn fy mhorthfolio. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi canllawiau ar ddatganiadau polisi cyflog, mwy o ymgysylltu lleol mewn penderfyniadau ar lefelau'r dreth gyngor a'u pwerau disgresiwn i roi rhyddhad ardrethi annomestig.	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Thank you for that answer. Paragraphs 87 and 88 of chapter 3 of Part 5 of the Localism Act 2011 make provision to allow county and county borough councils to maintain a list of assets of community value and enable communities to nominate land or property to be placed on that list. When those listed assets come up for sale or change of ownership, the Act then gives community groups time to develop a bid and raise the money to buy the asset when it comes on the open market. Does the Welsh Government plan to implement this part of the Act as is already the case in England?	Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Mae paragraffau 87 ac 88 o bennod 3 o Ran 5 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol gadw rhestr o asedau o werth cymunedol a galluogi cymunedau i enwebu tir neu eiddo i'w rhoi ar y rhestr honno. Pan ddaw'r cyfryw asedau a restrir ar werth neu y newidir eu perchnogaeth, mae'r Ddeddf wedyn yn rhoi amser i grwpiau cymunedol ddatblygu cais a chodi arian i brynu'r ased pan ddaw ar y farchnad agored. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r rhan hon o'r Ddeddf fel sydd eisoes yn digwydd yn Lloegr?	Senedd.tv Fideo Video

14:53	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>This does not actually fall within my portfolio. This is a question for the Minister for Communities and Tackling Poverty, and I know that he is taking work forward regarding provisions in relation to community assets. I recently met with him to discuss the matter. However, I do support public bodies working with communities to restore, save and maintain assets of community value, particularly within deprived communities.</p>	<p>Nid yw hyn yn mewn gwirionedd yn dod o fewn fy mhortffolio. Dyma gwestiwn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a gwn ei fod yn symud y gwaith ymlaen ynglŷn â darpariaethau mewn perthynas ag asedau cymunedol. Bu i mi gyfarfod ag ef yn ddiweddar i drafod y mater. Fodd bynnag, rwy'n cefnogi cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda chymunedau i adfer, cadw a chynnal asedau o werth cymunedol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>May I say to the Member that I would really like to thank her for supporting the Welsh Conservative initiative on this policy—the community rights agenda? As you will be aware, the localism Act gave communities in England a fairer chance to save assets of value to the community. In the early days, we were voted against, but I do understand now that the Minister Jeff Cuthbert is now prepared— [Interruption.]</p>	<p>A gaf fi ddweud wrth yr Aelod yr hoffwn yn fawr iawn ddiolch iddi am gefnogi menter Ceidwadwyr Cymru ar y polisi hwn—yr agenda hawliau cymunedol. Fel y byddwch yn ymwybodol, rhoddodd y Ddeddf Lleoliaeth gyfle tecach i gymunedau yn Lloegr achub asedau a oedd o werth i'r gymuned. Yn y dyddiau cynnar, pleidleisiwyd yn ein herbyn, ond rwy'n deall yn awr fod y Gweinidog Jeff Cuthbert yn barod— [Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. Excuse me, but I do not need all that help this afternoon. However, will you please come to the question, Janet Finch-Saunders?</p>	<p>Trefn. Esgusodwch fi, ond nid ydwyf angen yr holl heip hyn y prynhawn yma. Fodd bynnag, a wnewch chi ddod at y cwestiwn, Janet Finch-Saunders?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:54	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>You said that you have had discussions, but will you commit here today to working with the Minister, Jeff Cuthbert AM, to take forward the community rights agenda to allow local authorities to work much more closely with their communities in saving their local assets, including saving their local pubs?</p>	<p>Dywedasoch eich bod wedi cael trafodaethau, ond a wnewch chi ymrwymo yma heddiw i weithio gyda'r Gweinidog, Jeff Cuthbert AC, i fwrw ymlaen â'r agenda hawliau cymunedol er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol weithio'n llawer agosach â'u cymunedau i arbed eu hasedau lleol, gan gynnwys arbed eu tafarndai lleol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I do not think that I can add much more to my previous answer to Joyce Watson.</p>	<p>Nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu llawer mwy at fy ateb blaenorol i Joyce Watson.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Heriau Ariannol		Financial Challenges	
14:55	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>13. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu awdurdodau lleol i ateb heriau ariannol presennol?</i> OAQ(4)0436(LG)</p>	<p><i>13. What is the Welsh Government doing to help local authorities meet current financial challenges?</i> OAQ(4)0436(LG)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Each authority is responsible for delivering a balanced budget. I have commissioned a review to identify further flexibility for local authorities to help them to manage future pressures. Through this review, I have facilitated engagement on this matter between the WLGA and Welsh Ministers.</p>	<p>Mae pob awdurdod yn gyfrifol am gyflwyno cyllideb gytbwys. Rwyf wedi comisiynu adolygiad i ganfod mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i'w helpu i reoli pwysau yn y dyfodol. Drwy'r adolygiad hwn, rwyf wedi hwyluso ymgysylltiad ar y mater hwn rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Gweinidogion Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>As you are aware, the WLGA is asking for more certainty on future levels of revenue support grant. Have you taken a view that more financial certainty needs to be provided?</p>	<p>Fel y gwyddoch, mae CLILC yn gofyn am fwy o sicrwydd ar lefelau grant cynnal refereniw yn y dyfodol. A ydych chi wedi dod i'r farn bod angen darparu mwy o sicrwydd ariannol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:55

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I try to provide it with as much information as I can on the budget outlook for local government as soon as I can, and I will continue to do that.

When I went into portfolio, I set up a finance sub-group, which is a group that I have with local government where we can discuss all sorts of financial issues. You will be aware that yesterday's statistical release showed that, in 2014-15, local government intends to spend almost £7.3 billion in Wales, which is an increase of 0.2% on the previous year. Its general revenue funding is around half of local government spending, and the RSG is not the only source of income for councils, as they can also raise money from fees, charges and council tax, for example.

Rwy'n ceisio'i ddarparu gyda chymaint o wybodaeth ag y gallaf am ragolygon y gyllideb ar gyfer llywodraeth leol cyn gynted ag y gallaf, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Pan gychwynnais gyda'r portffolio, sefydlais is-grŵp cyllid, sef grŵp sydd gennyf gyda llywodraeth leol lle y gallwn drafod pob math o faterion ariannol. Byddwch yn ymwybodol bod datganiad ystadegol ddoe yn dangos bod llywodraeth leol yn 2014-15, yn bwriadu gwario bron £7.3 biliwn yng Nghymru, sef cynnydd o 0.2% ar y flwyddyn flaenorol. Mae ei chyllid refeniw cyffredinol tua hanner gwariant llywodraeth leol, ac nid y Grant Cynnal Refeniw yw'r unig ffynhonnell o incwm ar gyfer cynghorau, gan y gallant hefyd godi arian o ffioedd, taliadau a'r dreth gyngor, er enghraifft.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you give certainty to council tax payers and champion the cause for a council tax freeze among your colleagues in Cabinet this year when you are settling the budget for the local government department, as England and Scotland have had for the last several years? Will you be giving hard-pressed council tax payers a respite next year?

Weinidog, a fydddech cystal â rhoi sicrwydd i dalwyr y dreth gyngor a hyrwyddo'r achos o blaid rhewi'r dreth gyngor ymhlith eich cydweithwyr yn y Cabinet eleni pan fyddwch yn setlo'r gyllideb ar gyfer adran llywodraeth leol, fel y gwnaed yn Lloegr a'r Alban am lawer o'r blynyddoedd diwethaf? A fyddwch yn rhoi seibiant i'r bobl hynny sy'n cael trafferth talu'r dreth gyngor y flwyddyn nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In Wales, we still have lower council tax than they do in England. If you look closely, many councils in England have told the UK Government what it can do with its council tax freeze.

Yng Nghymru, mae gennym dreth gyngor is nag yn Lloegr. Os edrychwch yn ofalus, mae llawer o gynghorau yn Lloegr wedi dweud wrth Lywodraeth y DU ble i fynd o ran rhewi'r dreth gyngor.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cydweithio rhwng Gwasanaethau Cyhoeddus

Collaboration between Local Public Services

14:57

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0426(LG)

14. Will the Minister make a statement on collaboration between local public services in Wales? OAQ(4)0426(LG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government has a comprehensive programme supporting and setting a clear direction to encourage collaboration between public services in Wales. Collaboration is not an end in itself but a means of supporting the integration of services tailored to the needs of individuals, families and communities. It is vital that we maintain momentum in our work to improve public services for the benefit of the people of Wales.

Mae gan Lywodraeth Cymru raglen gynhwysfawr i gefnogi a gosod cyfeiriad clir i annog cydweithrediad rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw cydweithredu yn ddiben er ei fwyn ei hun, ond mae'n gymorth i integreiddio gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal momentwm ein gwaith o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus er budd pobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister, and for the answers to the questions earlier on a similar topic. Minister, I think that you agree with me that collaboration can provide more effective and efficient services, and in particular in services such as legal services or HR, or, indeed, several other professional services where expertise is hard to find and expensive to buy externally. Would you agree with me that we need to encourage greater shared services between local authorities, and that the fact that shared services that existed at the beginning of the last local government reorganisation fell into abeyance is to be deplored? Minister, what more can we do to encourage local authorities in the run-up to the future shape of public services to start now on the process of looking at collaboration in transactional and other back-office services that cost a lot of money to provide and are provided, actually, by a very small number of people throughout Wales?

Diolch ichi am hynny, Weinidog, ac am yr atebion i'r cwestiynau cynharach ar bwnc tebyg. Weinidog, rwy'n meddwl eich bod yn cytuno â mi y gall cydweithredu ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon, ac yn arbennig mewn gwasanaethau megis gwasanaethau cyfreithiol neu Adnoddau Dynol, neu, yn wir, mae nifer o wasanaethau proffesiynol eraill lle gall arbenigedd yn anodd ei gael ac yn ddud i'w brynu'n allanol. A fydddech yn cytuno â mi fod angen i ni annog mwy o awdurdodau lleol i rannu gwasanaethau, a'i bod yn warthus bod y ffaith bod y gwasanaethau a rannwyd a arferai fodoli ar ddechrau'r cyfnod diwethaf o ad-drefnu llywodraeth leol yn awr wedi mynd i ddifancoll? Weinidog, beth arall a allwn ni ei wneud i annog awdurdodau lleol yn y cyfnod yn arwain at ffurfio gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol i ddechrau yn awr ar y broses o ystyried cydweithredu mewn gwasanaethau trafodaethol a chefn swyddfa eraill sy'n costio llawer o arian i'w darparu ac sy'n cael eu darparu, mewn gwirionedd, gan nifer fach iawn o bobl ledled Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:58

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I am not starting now; I have been telling them for the last 15 months that they need to increase collaboration and, certainly, that was also the message previously.

Wel, nid wyf yn dechrau nawr; rwyf wedi bod yn dweud wrthynt am y 15 mis diwethaf y dylent gynyddu cydweithrediad ac, yn sicr, dyna oedd y neges o'r blaen hefyd.

As I said, it is not a means to an end; it is a means of supporting the integration of services. We have made some really good progress across Wales in this area. However, we know that there are examples where voluntary collaboration is not delivered, even, sometimes, despite extensive support from Welsh Government. So, it is important that they continue to collaborate and to be innovative and that we can support them where we can.

Fel y dywedais, nid yw'n ddiben er ei fwyn ei hun; mae'n ffordd o gefnogi integreiddio gwasanaethau. Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da iawn ar draws Cymru yn y maes hwn. Fodd bynnag, gwyddom fod enghreifftiau lle nad yw cydweithredu gwirfoddol yn cael ei ddarparu, hyd yn oed, weithiau, er gwaethaf cefnogaeth helaeth gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n bwysig eu bod yn parhau i gydweithio a bod yn arloesol a'n bod yn gallu eu cefnogi lle y gallwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Darparu Gwasanaethau

Service Delivery

14:59

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

15. Pa waith monitro y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn defnyddio dull cyson o ddarparu gwasanaethau? OAQ(4)0433(LG)

15. What monitoring does the Welsh Government undertake to ensure that all local authorities take a consistent approach in the delivery of their services? OAQ(4)0433(LG)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:59

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is for audit, inspection and regulatory bodies to monitor the delivery of local services and, where they see a need for improvement, they record it. Where a local authority appears unable or unwilling to take appropriate action, the Welsh Government intervenes. We scrutinise, compare and publish performance information to ensure that the public and elected members can hold authorities to account.

Cyrrff archwilio, arolygu a rheoleiddio sy'n monitro darpariaeth gwasanaethau lleol ac os gwelant fod angen gwella, maent yn ei gofnodi. Pan ymddengys fod awdurdod lleol yn methu neu'n amharod i gymryd camau priodol, mae Llywodraeth Cymru yn ymyrryd. Rydym yn craffu, cymharu a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd ac aelodau etholedig ddal awdurdodau i gyfrif.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:59

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that very helpful answer, Minister. However, may I just return to a favourite subject? Preliminary research indicates real inconsistency across local authorities in terms of charging for, or even providing, pest control services. I am not averse to the private sector delivering this service, of course, especially as there is no significant difference in cost, but I think that the inconsistency should be a point of concern, as it is a key performance indicator for councils to provide clean and safe environments. How exactly do you monitor the performance? Do you do that as well as what you just explained to us? What particular levers do you have on this issue?

Diolch i chi am yr ateb hynod ddefnyddiol yna, Weinidog. Fodd bynnag, a gaf fi ddod yn ôl at un o'm hoff bynciau? Mae ymchwil ragarweiniol yn dangos anghysondeb go iawn ar draws awdurdodau lleol o ran codi tâl am, neu hyd yn oed o ran darparu, gwasanaethau rheoli plâu. Nid wyf yn gwrthwynebu i'r sector preifat ddarparu'r gwasanaeth hwn, wrth gwrs, yn enwedig gan nad oes gwahaniaeth arwyddocaol yn y gost, ond rwy'n meddwl y dylai'r anghysondeb fod yn destun pryder, gan ei fod yn ddangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cyngorau i ddarparu amgylcheddau glân a diogel. Sut yn union y byddwch yn monitro perfformiad? A ydych chi'n ei wneud, yn ogystal â'r hyn rydych newydd egluro i ni? Pa ddulliau penodol sydd gennych ar gyfer y mater hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We monitor it in the way that I have just explained. It is up to authorities to decide on their level of charges in relation to such services as you just mentioned. Ultimately, they are responsible for managing and improving their own performance, but we do have a system in place, which I described in my original answer to you. Overall, looking at the latest performance data that we have, service improvement is happening right across Wales.

Rydym yn monitro yn y ffordd rwyf newydd ei hesbonio. Mater i awdurdodau yw penderfynu ar lefel eu taliadau mewn perthynas â gwasanaethau o'r fath fel rydych newydd grybwyll. Yn y pen draw, maent yn gyfrifol am reoli a gwella eu perfformiad eu hunain, ond mae gennym system ar waith, a ddisgrifiais yn fy ateb gwreiddiol i chi. Ar y cyfan, gan edrych ar y data perfformiad diweddaraf sydd gennym, mae gwasanaethau yn gwella ar hyd a lled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Questions to the Assembly Commission

Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

Commonwealth Parliamentary Association

15:01

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Comisiwn ddatganiad ynglŷn â 44ain Cynhadledd Flynyddol Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad a gynhaliwyd yn y Senedd? OAQ(4)0081(AC)

1. Will the Commission make a statement regarding the 44th Commonwealth Parliamentary Association British Isles and Mediterranean regional conference held in the Senedd? OAQ(4)0081(AC)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner

I am delighted that the Assembly's branch of the CPA hosted over 50 delegates at the recent forty-fourth British Isles and Mediterranean regional conference, which was held, as you know, on the Assembly estate. The conference examined equality of access to democracy and was a huge success in showcasing the Assembly and Welsh democracy on the international stage. I am aware that the Member for Mid and West Wales helped with the organisation of the event and also chaired a very good plenary session on bilingualism and the role of official languages in the Parliament.

Rwyf wrth fy modd fod cangen y Cynulliad o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi croesawu dros 50 o gynrychiolwyr i 44 gynhadledd ranbarthol ddiweddar Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, a gynhaliwyd, fel y gwyddoch, ar ystâd y Cynulliad. Roedd y gynhadledd yn ystyried mynediad cyfartal at ddemocratiaeth a bu'n llwyddiant mawr gan arddangos y Cynulliad a democratiaeth Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Rwy'n ymwybodol bod yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru wedi helpu i drefnu'r digwyddiad gan gadeirio sesiwn lawn dda iawn ar ddwyieithrwydd a rôl ieithoedd swyddogol yn y Senedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i Sandy Mewies am yr ateb hwnnw, a diolchaf, drwyddi hi, bob un o staff Comisiwn y Cynulliad a fu'n cynorthwyo gyda'r gynhadledd, a oedd yn llwyddiant, yn bendant, ac yn ffordd o arddangos, fel mae'r Comisiynydd newydd ddweud, ddemocratiaeth yng Nghymru ar waith a democratiaeth ddwyieithog ar waith. Rwy'n credu bod hynny o ddiddordeb mawr i gynrychiolwyr Cymanwlad sydd, ynnddi'i hun, yn gartref i gannoedd o ieithoedd brodorol a swyddogol. Fodd bynnag, yn yr un ffordd ag y mae Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn codi ei gêm drwy gystadlu yn erbyn athletwyr o leoedd eraill, mae modd i ni fel Aelodau Cynulliad godi ein gêm o ran dal y Llywodraeth i gyfrif, craffu, gwaith pwyllgorau ac ati wrth edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill a dysgu oddi wrth wledydd eraill. Felly, beth all y Comisiwn ei wneud yn y dyfodol i gynorthwyo Aelodau Cynulliad i feddu ar y profiad sydd yn y Gymanwlad o fod yn rhan o Senedd ranbarthol, genedlaethol a gwladwriaethol?

I thank Sandy Mewies for that response and, through her, thank all the Assembly Commission staff who assisted with the conference, which was most certainly a success and a means of displaying, as the Commissioner has just said, democracy at work here in Wales and bilingual democracy at work. I think that that was of huge interest to representatives of a Commonwealth that, in and of itself, is home to hundreds of indigenous and official languages. However, just as Team Wales for the Commonwealth Games raises its game by competing against athletes from other nations, we as Assembly Members can also raise our game in terms of holding the Government to account, scrutiny, committee work and so on by looking at what happens in other nations and learning from other nations. Therefore, what can the Commission do in future to assist Assembly Members to take advantage of the experience within the Commonwealth of being part of a regional, national or state Parliament?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Member is aware, we have a very active branch of the CPA. Indeed, you are a very active Member within that. Members are able to visit other legislatures and to look at the things that they do, which may be better than the way that we do them. However, as you are also aware, the success of the recent conference showed that many of the things that we do are held in great esteem and greatly admired by other legislatures. We will not stop here, if that is what you are asking. I am sure that the CPA, chaired as it is by Joyce Watson—who is not here—will go on developing both in itself and developing the skills of Members. We can never be perfect. We never want to say that we are perfect; we can go on learning, and I am sure that we will do so.

Fel y gwŷr yr Aelod, mae gennym gangen weithgar iawn o'r Gymdeithas. Yn wir, rydych yn aelod gweithgar iawn ohoni. Mae aelodau yn gallu ymweld â deddfwrfeydd eraill ac edrych ar y pethau y maent yn ei wneud, a allai fod yn well na'r ffordd rydym ni'n eu gwneud. Fodd bynnag, fel y gwyddoch hefyd, dangosodd llwyddiant y gynhadledd ddiweddar fod llawer o'r pethau rydym yn eu gwneud yn ennyn parch ac edmygedd mawr gan ddeddfwrfeydd eraill. Nid dyna'r pen draw, os mai dyna yw eich cwestiwn. Rwy'n siŵr y bydd y Gymdeithas, dan gadeiryddiaeth Joyce Watson—nad yw'n bresennol yma—yn mynd ymlaen i ddatblygu fel cymdeithas a datblygu sgiliau Aelodau hefyd. Ni allwn byth fod yn berffaith. Ni fyddem byth yn dymuno dweud ein bod yn berffaith; gallwn barhau i ddysgu, ac rwy'n siŵr y byddwn yn gwneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rhwystro Gwefannau ar y Rhwydwaith

Blocked Websites on the Network

15:04

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Pa feini prawf y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio i benderfynu pa gwefannau i'w rhwystro ar y rhwydwaith? OAQ(4)0082(AC)

2. What criteria does the Commission use to decide which websites to block on the network? OAQ(4)0082(AC)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner

May I thank Mike Hedges for that question? We use an externally managed web content filter service to block access to some websites, to protect individual users and to maintain the security of our ICT infrastructure. The filter has over 80 pre-defined criteria and we currently block websites that fall under 28 of these criteria. Now that we are fully in control of our ICT services and infrastructure, officials are reviewing the criteria and will report to me in due course.

Hoffwn ddiolch i Mike Hedges am y cwestiwn. Rydym yn defnyddio gwasanaeth hidlo cynnwys y we a reolir yn allanol i rwystro mynediad i rai gwefannau, i ddiogelu defnyddwyr unigol ac i gynnal diogelwch ein seilwaith TGCh. Mae gan yr hidlydd dros 80 maen prawf a ddiffiniwyd ymlaen llaw ac ar hyn o bryd rydym yn blocio gwefannau sy'n dod o dan 28 o'r meini prawf hyn. Nawr ein bod yn llwyr reoli ein gwasanaethau ac isadeiledd TGCh, mae swyddogion yn adolygu'r meini prawf a byddant yn adrodd yn ôl i mi maes o law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:04	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>May I give some personal experience? It stops me accessing a number of sites that I would think are innocuous. I think that perhaps the strangest thing about it is that I can access a pay-day lender, but I cannot access my own bank account to see whether my pay has gone in.</p>	<p>A gaf i roi rhywfaint o brofiad personol? Mae'n atal i mi gael mynediad i nifer o safleoedd y byddwn yn credu eu bod yn ddiniwed. Rwy'n meddwl efallai mai'r peth rhyfeddaf am y peth yw fy mod yn gallu cael mynediad i wefan benthyciadau diwrnod cyflog, ond ni allaf gael gafael ar fy nghyfrif banc fy hun i weld a yw fy nghyflog wedi ei dalu i mewn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:05	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that contribution, Mike. We are happy to share the list of categories that we currently use to block websites with you, if you so wish, but, of course, you will know that there is a facility whereby you can request access to particular sites by contacting the Assembly ICT service. It will facilitate that request, providing that it is reasonable. I am sure that accessing your bank details would be considered to be a reasonable request.</p>	<p>Diolch i chi am y cyfraniad hwnnw, Mike. Rydym yn hapus i rannu gyda chi'r rhestr o gategoriâu rydym ar hyn o bryd yn eu defnyddio i flocio gwefannau, os ydych yn dymuno, ond, wrth gwrs, byddwch yn gwybod bod yna gyfleuster lle y gallwch ofyn am gael gweld safleoedd penodol drwy gysylltu â gwasanaeth TGCh y Cynulliad. Bydd yn hwyluso'r cais hwnnw, ar yr amod ei fod yn rhesymol. Rwy'n siŵr y byddai mynediad at eich manylion banc yn cael ei ystyried yn gais rhesymol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Parcio Beiciau</p>	<p>Bicycle Parking</p>	
15:05	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am parcio beiciau ar ystâd y Cynulliad? OAQ(4)0083(AC)</i></p>	<p><i>3. Will the Commission make a statement on bicycle parking on the Assembly estate? OAQ(4)0083(AC)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:05	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for South Wales Central for that question, which is very appropriate, of course, during National Bike Week. The Assembly is keen to encourage and support those who cycle to work, and those who visit our estate. We provide secure, covered cycle parking facilities within the Tŷ Hywel car park, together with visitor cycle parking stands for up to four bikes. There are also additional public cycle parking stands adjacent to the entrance of Tŷ Hywel.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Ganol De Cymru am y cwestiwn hwnnw, sydd yn briodol iawn, wrth gwrs, yn ystod Wythnos Genedlaethol y Beic. Mae'r Cynulliad yn awyddus i annog a chefnogi'r rhai sy'n beicio i'r gwaith, a'r rhai sy'n ymweld â'n stad. Rydym yn darparu cyfleusterau parcio diogel, dan do ar gyfer beiciau ym maes parcio Tŷ Hywel, ynghyd â stondinau parcio beiciau ymwelwyr ar gyfer hyd at bedwar o feiciau. Mae yna hefyd stondinau parcio beiciau cyhoeddus ychwanegol ger mynedfa Tŷ Hywel.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:06	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Commissioner, for that answer. The provision for staff in terms of bicycle parking is very good, but as you say, there are only four spaces for members of the public visiting the Assembly. Given the broad cross-party support that the Active Travel (Wales) Act 2014 had in the Assembly, do you not think that we should be taking a lead on our own estate to provide more parking facilities for cyclists on the Assembly estate itself, and also to make sure that safe cycling routes to the Assembly are promoted within our 'how to get to the Assembly' instructions on our website and in other areas?</p>	<p>Diolch i chi, Gomisinydd, am yr ateb hwnnw. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer staff o ran parcio beic yn dda iawn, ond fel y dywedwch, dim ond pedwar o lefydd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r Cynulliad. O ystyried y gefnogaeth drawsbleidiol eang a gafodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2014 yn y Cynulliad, onid ydych yn meddwl y dylem fod yn gosod esiampl ar ein hystâd ein hun i ddarparu mwy o gyfleusterau parcio ar gyfer beicwyr ar ystâd y Cynulliad ei hun, a sicrhau hefyd fod llwybrau beicio diogel i'r Cynulliad yn cael eu hyrwyddo yn ein cyfarwyddiadau ar 'sut i gyrraedd y Cynulliad' ar ein gwefan ac mewn mannau eraill?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

15:06 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Certainly, I think that it is a fact that the number of visitor spaces available has not been exceeded. There is no suitable space adjacent to the Tŷ Hywel entrance to provide a secure, covered cycling facility, but we will review the demand for this, and look into the cost of enhancing or extending the current secure visitor cycle parking adjacent to the security lodge, which I think that you probably use, which is in our car park. Your other comments will be noted, and I am sure that they will form part of this.

Yn sicr, rwy'n meddwl ei bod yn ffaihad nad ydym wedi nifer y lleoedd sydd ar gael i ymwelwyr wedi eu gorlenwi. Nid oes lle addas ger mynedfa Tŷ Hywel i ddarparu cyfleuster beicio diogel, dan do, ond byddwn yn adolygu'r galw am hyn, ac yn ystyried y gost o wella neu estyn y manau parcio beiciau diogel presennol i ymwelwyr ger y porthdy diogelwch, sef yr un rydych chi yn ôl pob tebyg yn ei ddefnyddio, sydd yn ein maes parcio. Bydd eich sylwadau eraill yn cael eu nodi, ac rwy'n siŵr y byddant yn ffurfio rhan o hyn.

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much. Diolch yn fawr iawn i chi.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Amseroedd Aros y GIG

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones.

Welsh Conservatives Debate: NHS Waiting Times

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Elin Jones.

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Darren Millar to move the motion.

Cynnig NDM5527 Paul Davies

Motion NDM5527 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly Wales:

Yn gresynu bod gormod o bobl yng Nghymru yn aros yn rhy hir am brofion diagnostig a thriniaeth y GIG.

Regrets that too many people in Wales are waiting too long for diagnostic tests and NHS treatment.

15:07 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Perhaps I can say at the outset of this debate that we will be supporting the amendments that have been tabled.

Efallai y gallaf ddweud ar ddechrau'r ddadl hon y byddwn yn cefnogi'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno.

The Welsh Labour Party has been running the national health service in Wales for over 15 years now, but it is running it into the ground. Over the past few years we have seen nothing but cuts, closures and cancellations; and for many Welsh patients, our national health service has become a national waiting service. Waiting times in the Welsh NHS are, in many cases, getting worse, and the Welsh Labour Government is failing to take adequate action to address them. One in seven people in Wales are currently on a national health service waiting list, and many of the targets set by the Welsh Government are routinely missed. It simply is not good enough. The Welsh Government's urgent cancer treatment target has not been met once since 2008, and accident and emergency waiting time targets have not been met for five years. It is scandalous.

Mae Plaid Lafur Cymru wedi bod yn rhedeg y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru ers dros 15 mlynedd bellach, ond mae ar fin ei ddifetha'n llwyr. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf y cyfan a gawsom oedd toriadau, cau a chanslo; ac i lawer o gleifion o Gymru, mae ein gwasanaeth iechyd gwladol wedi troi'n wasanaeth aros gwladol. Mae amseroedd aros yn y GIG yng Nghymru, mewn llawer o achosion, yn gwaethygu, ac mae Llywodraeth Lafur Cymru yn methu â chymryd camau digonol i ymdrin â hwy. Mae un o bob saith o bobl yng Nghymru ar hyn o bryd ar restr aros y gwasanaeth iechyd gwladol, ac mae llawer o'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu methu fel mater o drefn. Yn syml, nid yw'n ddigon da. Nid yw targed triniaeth canser brys Llywodraeth Cymru wedi ei gyrraedd unwaith ers 2008, ac nid yw targedau amseroedd aros damweiniau ac achosion brys wedi cael eu cyrraedd ers pum mlynedd. Mae'n warthus.

However, this issue is not about those statistics, specifically; it is about the people and their loved ones who Welsh Labour are letting down. I am sure that Members will all remember the tragic story of Fred Pring from north Wales, who lay dying at home, waiting for more than 40 minutes for an ambulance. The inquest into his death ruled that he would probably have survived had the ambulance arrived within the target time of eight minutes. We have also heard of Michael Bowen, who waited over four hours in an ambulance outside the Princess of Wales Hospital before being seen, and of the scores in south Wales who have passed away while awaiting cardiac surgery. These are real people who have paid a very high price for the failure of successive Labour Ministers to get to grips with the problems in all of our unscheduled care services in Wales.

During April 2014 almost 10,000 Welsh people were waiting more than four hours in A&E departments, with 2,781 of those waiting for more than eight hours, and over 1,000 who were waiting for more than 12 hours in emergency departments. We simply cannot go on like this. Too often, the people of Wales read of stories in the news of patients who have been let down due to appalling waiting times at all levels. For some—as we have already heard—these waits have been a matter of life or death.

The truth is that the Welsh NHS is hamstrung by Labour's record-breaking health cuts. As a result, hard-working national health service staff are not always able to give patients the quality of service, care and treatment that they deserve. I am sure today that we will get the same old predictable comebacks from the Welsh Government that we get each time we have a debate on the national health service here in Wales. No doubt the Minister will say that these are times of austerity; that Wales has a growing older population, and that the Welsh Government is doing yet another review into another service that will deliver the light at the end of the tunnel. Or we will hear their favourite old chestnut, belting out their greatest hit: this is all the UK Government's fault. However, there are a couple of things that I am sure the Minister will not mention. One is that, despite many of the same challenges facing other healthcare systems in the United Kingdom, the other nations have substantially better waiting times. Nor is he likely to mention that, under this Welsh Labour Government, the NHS has faced the largest cuts in its history, while at the same time health expenditure in England has increased in real terms.

Fodd bynnag, nid yw'r mater hwn yn ymwneud â'r ystadegau hynny, yn benodol; mae'n ymwneud â'r bobl a'u hanwyliaid y mae Llafur Cymru yn eu gadael i lawr. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau i gyd yn cofio stori drasig Fred Pring o ogledd Cymru, ar ei wely angau gartref yn aros am fwy na 40 munud am ambiwlans. Dyfarnodd y cwest i'w farwolaeth ei bod yn debygol y byddai wedi goroesi pe bai'r ambiwlans wedi cyrraedd o fewn yr amser targed sef wyth munud. Rydym hefyd wedi clywed am Michael Bowen, a fu'n aros dros bedair awr mewn ambiwlans y tu allan i Ysbyty Tywysoges Cymru cyn cael ei weld, ac am yr ugeiniau yn ne Cymru fu farw yn aros am lawdriniaeth ar y galon. Pobl go iawn yw'r rhain, sydd wedi talu pris uchel iawn am fethiant un Gweinidog Llafur ar ôl y llall i fynd i'r afael â phroblemau ym mhob un o'n gwasanaethau gofal heb ei drefnu yng Nghymru.

Yn ystod Ebrill 2014 bu 10,000 o bobl bron yng Nghymru yn aros mwy na phedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, gyda 2,781 ohonynt yn aros am fwy nag wyth awr, a thros 1,000 yn aros am fwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys. Ni allwn barhau fel hyn. Yn rhy aml, mae pobl Cymru yn darllen hanes yn y newyddion am gleifion sydd wedi cael eu siomi oherwydd amseroedd aros ofnadwy ar bob lefel. I rai—fel y clywsom eisoes—mae'r cyfnodau aros hyn wedi bod yn fater o fywyd neu farwolaeth.

Y gwir yw bod y GIG yng Nghymru yn cael ei barlysu gan doriadau yn y maes iechyd fel nas gwelwyd o'r blaen gan Lafur. O ganlyniad, nid yw staff gweithgar y gwasanaeth iechyd gwladol bob amser yn gallu rhoi gwasanaeth, gofal a thriniaeth o'r ansawdd y maent yn eu haeddu i gleifion. Rwy'n siŵr heddiw y byddwn yn cael yr un hen atebion fel tŷn gron gan Lywodraeth Cymru a gawn bob tro y byddwn yn cael dadl ar y gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru. Dichon y bydd y Gweinidog yn dweud bod y rhain yn adegau o galedi; bod gan Gymru boblogaeth hŷn sy'n tyfu, a bod Llywodraeth Cymru yn gwneud adolygiad arall eto i mewn i wasanaeth arall a fydd yn goleuo pen draw'r twannel. Neu cawn eu clywed yn bloeddio canu'r un hen gân sy'n gymaint ffefryn ganddynt: mae'r bai am hyn i gyd ar ysgwyddau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae un neu ddau o bethau rwy'n siŵr na fydd y Gweinidog yn sôn amdanynt. Un yw, er bod systemau gofal iechyd eraill yn y Deyrnas Unedig yn wynebu llawer o'r un heriau, mae gan y gwledydd eraill amseroedd aros sy'n sylweddol well. Nid yw chwaith yn debygol o sôn bod y GIG, dan Lywodraeth Lafur Cymru, wedi wynebu'r toriadau mwyaf yn ei hanes, tra bo gwariant ar iechyd yn Lloegr ar yr un pryd wedi cynyddu mewn termau real.

Let us take a few moments to consider the impacts of these record-breaking cuts on NHS performance. Regarding referral to treatment times, in Wales, one in nine patients was waiting longer than six months to start treatment, while in England nine out of 10 patients started treatment within just 18 weeks. On diagnostic services, in Wales, three in 10 patients are waiting more than eight weeks to access diagnostic services, while less than 2% of patients in England waited more than six weeks. Regarding ambulance service response times, in Wales, just 57% of category A calls were responded to within the eight-minute target, thereby missing completely the 65% target. Meanwhile, in England, a higher target of 75% is being met. The Alzheimer's Society has been talking about waits to access for memory clinics. There are two-year waits for psychologist services, and four-year waits in some parts of Wales for orthodontic services. These truths are difficult pills to swallow, but swallow them we must. In light of this performance, it is frankly appalling that the Welsh Government continues to defend the scale of its record-breaking health cuts here in Wales. The Minister might not like us reminding him of his party's cuts, but our voices here are just one part of a growing chorus of voices that are warning about the scale of his cuts in the national health service.

The King's Fund, the National Audit Office, the Wales Audit Office and the Nuffield Trust have all been singing from the same hymn sheet on this, with each one of them confirming, Minister, that Wales has had the biggest national health service budget cuts in its history and that they are the deepest in the United Kingdom. The Nuffield Trust published a report yesterday on NHS finances, showing an eye-watering gap of £221 million by the end of this Assembly term and an anticipated gap of £2.5 billion by 2025-26. It also reported, back in April 2014, on healthcare systems around the UK. It linked, in that report, waiting time increases in Wales directly to the cuts in NHS funding that your Government has pursued. The Nuffield research noted that, in 2012-13, patients in Wales waited on average around 170 days for a hip or knee replacement, compared to 77 days in England. That is 101 days longer than the average Welsh wait in 2009-10. The study also revealed that one in 10 patients in Wales had to wait almost 300 days for a knee or hip replacement, or even for a coronary artery bypass or a simple procedure like the removal of a varicose vein.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:14.

Gadewch i ni gymryd ychydig funudau i ystyried effeithiau'r toriadau hyn sy'n torri record ar berfformiad y GIG. O ran amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, yng Nghymru, roedd un o bob naw claf yn aros dros chwe mis i ddechrau triniaeth, tra bod naw o bob 10 claf yn Lloegr wedi dechrau triniaeth o fewn dim ond 18 wythnos. O ran gwasanaethau diagnostig, yng Nghymru, mae tri o bob 10 claf yn aros mwy nag wyth wythnos i gael mynediad at wasanaethau diagnostig, tra bod llai na 2% o gleifion yn Lloegr wedi aros mwy na chwe wythnos. O ran amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans, yng Nghymru, dim ond 57% o alwadau categori A a gafodd eu hateb o fewn y targed o wyth munud, a thrwy hynny, collwyd y targed o 65% yn gyfan gwbl. Yn y cyfamser, yn Lloegr, mae targed uwch o 75% yn cael ei gyrraedd. Mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi bod yn siarad am amseroedd aros i gael mynediad i glinigau cof. Mae cyfnod aros o ddwy flynedd ar gyfer gwasanaethau seicolegydd, a phedair blynedd mewn rhai ardaloedd o Gymru ar gyfer gwasanaethau orthodonteg. Mae'r ffeithiau hyn yn foddion anodd i'w lyncu, ond llyncu sydd raid. Yng ngoleuni'r perfformiad hwn, mae'n wirioneddol warthus bod Llywodraeth Cymru yn parhau i amddiffyn graddfa ei thoriadau iechyd nas gwelwyd eu tebyg yma yng Nghymru. Efallai na fydd y Gweinidog am i ni ei atgoffa o doriadau ei blaid, ond dim ond un rhan yw ein lleisiau ni o gôr cynyddol o leisiau sy'n rhybuddio ynglŷn â maint ei doriadau yn y gwasanaeth iechyd gwladol.

Mae Cronfa'r Brenin, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ymddiriedolaeth Nuffield i gyd wedi bod yn canu o'r un llyfr emynau am hyn, gyda phob un ohonynt yn cadarnhau, Weinidog, fod Cymru wedi cael y toriadau mwyaf yn ei hanes i gyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol a'r llymaf yn y Deyrnas Unedig. Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Nuffield adroddiad ddoe ar gyllid y GIG, gan ddangos bwlb sy'n tynnu dŵr i'r llygad o £221 miliwn erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn a bwlb a ragwelir o £2.5 biliwn erbyn 2025-26. Adroddodd hefyd, yn ôl yn Ebrill 2014, ar systemau gofal iechyd ledled y DU. Yn yr adroddiad hwnnw, cysylltodd y cynnydd mewn amseroedd aros yng Nghymru yn uniongyrchol â'r toriadau yng nghyllid y GIG y mae eich Llywodraeth chi wedi eu rhoi ar waith. Nododd gwaith ymchwil Nuffield fod cleifion yng Nghymru yn 2012-13 wedi aros ar gyfartaledd tua 170 diwrnod am glun neu ben-glin newydd, o gymharu â 77 diwrnod yn Lloegr. Mae hynny'n 101 o ddiwrnodau yn hirach na'r amser aros ar gyfartaledd yng Nghymru yn 2009-10. Dangosodd yr astudiaeth hefyd fod yn rhaid i un o bob 10 claf yng Nghymru aros 300 diwrnod bron am ben-glin neu glun newydd, neu hyd yn oed i ddargyfeirio'r rhydweliâu coronaidd neu driniaeth syml fel tynnu gwythien faricos.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:14.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The report concluded that, when comparing England, Scotland and Wales in this period of austerity, waiting times for common procedures were disproportionately lengthening in Wales compared to other parts of the UK. These are damning findings, Minister, and it is very clear that Welsh patients are getting a raw deal. Over 400,000 people in Wales are now waiting to start NHS treatment. That is almost 200,000 more than when Carwyn Jones became First Minister. The figures have never been so high. At the end of April, almost 40,000 patients had been waiting over 26 weeks to start their treatment, and more than 12,700 patients had been waiting over nine months for their first hospital appointment. More people are waiting, despite Welsh Government promises of improvement. Now, I know that broken promises by this Welsh Government should not surprise me, but they do very much disappoint me, and I know that they disappoint patients and their loved ones the length and breadth of the country. Worryingly, there are thousands of people waiting too long for diagnostic tests in Wales. There has been an upward trend in the number of people waiting over eight weeks for diagnostic tests over the past 25 months in Wales, and at the end of April 2014, almost 24,000 had been waiting longer than the maximum eight-week waiting time target to access these tests. We know that early diagnostic tests, such as MRI scans and cystoscopies, are absolutely crucial for identifying any underlying health issues or concerns, and it should be noted that these are often used to check whether a patient has cancer. The ability to diagnose a condition early, especially cancer, is essential to ensure that treatments are targeted effectively. When people get their cancer diagnosis later than they should, it inhibits their chances of making a full recovery. It is heartbreaking.

Doctors have said that, in terms of significance, these are the most disturbing NHS statistics that they have seen in many years. The situation is currently particularly poor in the Cwm Taf health board area, where over 35% of patients were waiting longer than eight weeks for a diagnostic test. Now, of course, these figures should not come as any surprise; they are precisely the figures that, along with hospital death rates, prompted Sir Bruce Keogh to raise concerns with the deputy chief medical officer last year. He said that he had 'real concern' over waiting times in Wales for diagnostics, which, he pointed out, in turn translate into delayed treatment. There has also been an operation with procedures such as operations, with tens of thousands having been postponed over the past year. Worryingly, almost half of all postponed operations and procedures were due to non-clinical reasons, such as a lack of beds or overrunning waiting lists.

Casglodd yr adroddiad, wrth gymharu Cymru, Lloegr, a'r Alban yn y cyfnod hwn o galedi, fod amseroedd aros am driniaethau cyffredin yn ymestyn yn anghymesur yng Nghymru o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae'r rhain yn ganfyddiadau damniol, Weinidog, ac mae'n amlwg iawn bod cleifion o Gymru yn cael cam. Mae dros 400,000 o bobl yng Nghymru ar hyn o bryd yn aros i ddechrau triniaeth y GIG. Mae hynny bron 200,000 yn fwy na phan ddaeth Carwyn Jones yn Brif Weinidog. Nid yw'r ffigurau erioed wedi bod mor uchel. Ar ddiwedd mis Ebrill, roedd bron 40,000 o gleifion wedi bod yn aros dros 26 wythnos i ddechrau eu triniaeth, a mwy na 12,700 o gleifion wedi bod yn aros dros naw mis am eu hapwyntiad ysbyty cyntaf. Mae mwy o bobl yn aros, er gwaethaf addewidion Llywodraeth Cymru o welliant. Yn awr, rwy'n gwybod na ddylai gweld Llywodraeth Cymru yn torri addewidion fod yn syndod i mi, ond mae hyn yn fy siomi'n fawr iawn, ac rwy'n gwybod eu bod yn siomi cleifion a'u hanwyliaid ar hyd a lled y wlad. Mae'n destun pryder fod miloedd o bobl yn aros yn rhy hir am brofion diagnostig yng Nghymru. Bu tuedd ar i fyny yn nifer y bobl sy'n aros dros wyth wythnos am brofion diagnostig yn ystod y 25 mis diwethaf yng Nghymru, ac ar ddiwedd mis Ebrill 2014, roedd bron 24,000 wedi bod yn aros yn hwy na'r targed mwyaf o wyth wythnos i gael mynediad at y profion hyn. Gwyddom fod profion diagnostig cynnar, megis sgan MRI a systosgop, yn gwbl hanfodol ar gyfer nodi unrhyw broblemau iechyd sylfaenol neu bryderon, a dylid cofio y defnyddir y rhain yn aml i wirio a oes gan glaf ganser. Mae'r gallu i wneud diagnosis cynnar o gyflwr, yn enwedig canser, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod triniaethau yn cael eu targedu'n effeithiol. Pan fydd pobl yn cael eu diagnosis o ganser yn hwyrach nag y dylent, mae'n llesteirio eu siawns o wneud adferiad llawn. Mae'n dorcalonnu.

Mae meddygon wedi dweud, o ran arwyddocâd, mai dyma'r ystadegau GIG mwyaf pryderus iddynt eu gweld ers blynyddoedd lawer. Mae'r sefyllfa yn arbennig o wael ar hyn o bryd yn ardal bwrdd iechyd Cwm Taf, lle mae dros 35% o gleifion yn aros am fwy nag wyth wythnos am brawf diagnostig. Yn awr, wrth gwrs, ni ddylai'r ffigurau hyn eich synnu; dyma'r union ffigurau, ynghyd â chyfraddau marwolaeth ysbyty, a ysgogodd Syr Bruce Keogh i godi pryderon gyda'r dirprwy brif swyddog meddygol y llynedd. Dywedodd ei fod 'yn gwir bryderu' am amseroedd aros am ddiagnosteg yng Nghymru, sydd, fel y nododd, yn ei dro yn arwain at oedi cyn rhoi triniaeth. Cafwyd sefyllfa hefyd gyda thriniaethau megis llawdriniaethau, gyda degau o filoedd ohonynt yn cael eu gohirio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n destun pryder bod bron hanner yr holl driniaethau a llawdriniaethau hyn wedi eu gohirio am resymau anghlinigol, megis prinder gwelyau neu broblemau yn sgil rhestrau aros.

To be fair to the Minister, he has signalled that he wants to take some action to address his failure to meet these targets. He has said that he wants to abolish them. Frankly, that is not an acceptable answer, Minister. That is not the sort of action that the people of Wales want to see; they want timely access to treatment. They want you to fulfil your pledges. They do not want record-breaking cuts, longer waiting lists and broken promises. That is the legacy of Welsh Labour in respect of our national health service. Instead of seeing that, we want to see the NHS in Wales getting the investment it deserves to turn this situation around, and I urge Members to support the motion.

I fod yn deg â'r Gweinidog, mae wedi rhoi arwydd ei fod am gymryd rhai camau i fynd i'r afael â'i fethiant i gyrraedd y targedau hyn. Mae wedi dweud ei fod am ei dileu. A dweud y gwir, nid yw hynny'n ateb derbyniol, Weinidog. Nid dyna'r math o weithredu y mae pobl Cymru am ei weld; maent am gael mynediad amserol at driniaeth. Maent am i chi gadw at eich gair. Nid ydynt am weld toriadau sy'n torri pob record, rhestrau aros sy'n cynyddu na thorri addewidion. Dyna yw gwaddol Llafur Cymru ar gyfer ein gwasanaeth iechyd gwladol. Yn hytrach na gweld hynny, rydym am weld y GIG yng Nghymru yn cael y buddsoddiad y mae'n ei haeddu i weddnewid y sefyllfa hon, ac rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

15:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the three amendments to the motion, and I call on Kirsty Williams to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu at yr anawsterau y mae cleifion yn eu hwynebu wrth drefnu apwyntiadau gyda meddyg teulu er mwyn cael triniaeth yn brydlon.

Regrets the difficulties faced by patients in booking GP appointments for access to treatment in a timely manner.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu at y cynnydd o 20% rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2014 yn nifer y cleifion sy'n disgwyl 36 wythnos i gael cychwyn triniaeth ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar fyrder i fynd i'r afael â rhestrau aros hirdymor.

Regrets the 20% increase in the number of patients waiting 36 weeks for the start of treatment between March and April 2014 and calls on the Welsh Government to take urgent action to tackle long term waiting lists.

15:17

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1 and 2.

Cynigiau welliannau 1 a 2.

I begin by thanking the Conservatives for tabling the debate this afternoon. The first of the amendments focuses on the issue of primary care and access to GPs, which are often the very first port of call for a patient when engaging with the NHS. Now, the Government's recent national survey for Wales reported that more than a third of patients had reported waiting for a GP appointment. Many of us, I am sure, will be aware of constituents' frustration as they run the gauntlet of the 8 a.m. call to try to secure that much-needed GP appointment.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddadl y prynhawn yma. Mae'r gwelliant cyntaf yn canolbwyntio ar fater gofal sylfaenol a mynediad at feddygon teulu, sef man cysylltu cyntaf cleifion yn aml wrth ymgysylltu â'r GIG. Adroddodd arolwg cenedlaethol diweddar y Llywodraeth ar gyfer Cymru fod mwy na thraean o'r cleifion wedi adrodd eu bod wedi aros am apwyntiad gyda meddyg teulu. Mae llawer ohonom, rwy'n siŵr, yn ymwybodol o rwystredigaeth etholwyr wrth iddynt wynebu her yr alwad ffôn 8:00 y bore i geisio trefnu'r apwyntiad meddyg teulu hwnnw sy'n fawr ei angen.

Yesterday, the Nuffield report stated that, in Wales, we have fewer GPs per 1,000 head of population than anywhere else in the UK, and it is therefore no surprise that patients report that they find it difficult to get a GP appointment when they need it. It is not just the patients who are talking about these concerns, either; it is Welsh GPs themselves. Recently, the chair of the British Medical Association's GP committee described herself as a 'damsel in distress' and talked about trying to cope under the pressures that are currently being put upon her and her colleagues in primary care.

What we do know is that poor access to GPs, whether it is in hours, but especially if it is out of hours, leads to demand in other parts of the system, where it simply costs more money. Therefore, addressing the issue of access to GPs in a timely fashion is really important if we are to achieve the goal of a prudent NHS, which the Minister has signed up to, and which I wholeheartedly support. Therefore, I would like to hear from the Minister this afternoon about what plans he has to alleviate some of the current pressures on GP services, and I would also like an update on the work of looking at the proficiency of out-of-hours services, which are being looked at on all-Wales basis.

We know that out-of-hours services for GPs are patchy. Some places have very good out-of-hours cover that is responsive, in other places it is less so. As I said, that has a direct correlation with attendance, for instance, at A&E. If we can get primary care right, I believe that that would begin to provide some of the solutions to other problems that we are facing, especially with regard to long waits for diagnostic tests. I do not profess for a minute to say that we can have MRI scans in doctors' surgeries, but we know that new technology means that more and more diagnostic testing can be done within a primary care setting. It could be done in doctors' surgeries, therefore lessening the need for waits for diagnostics in other parts of the NHS. We really need to get a grip on this and horizon scan properly and plan properly for the ability to bring diagnostic testing into primary care where it can be done.

When it comes to the waits for diagnostic tests, I appreciate that direct comparisons are not easy, but over 30% of Welsh patients are waiting eight weeks or longer for a diagnostic test in Wales, whereas in England, for the six key diagnostic tests that they measure, only 2.2% of patients are waiting over six weeks. Long waits have the potential to drive demand in other parts of the system and increase costs through, for example, repeated GP visits for anxious patients. That is the best of it. The worst of it is that it can lead to those who can often ill-afford it paying privately to seek the reassurance that they desperately need. What analysis has the Government carried out to ascertain what the causes are for these long waits for diagnostic tests? The Government has said that it is putting money into this. Can the Minister outline today what exactly the Government's plans are to reduce waits for diagnostic tests?

Ddoe, nododd yr adroddiad Nuffield fod gennym ni yng Nghymru lai o feddygon teulu i bob 1,000 o'r boblogaeth nag unrhyw le arall yn y DU, ac felly nid yw'n syndod bod cleifion yn adrodd eu bod yn ei chael yn anodd cael apwyntiad gyda meddyg teulu pan fyddant ei angen. Nid dim ond y cleifion sy'n sôn am y pryderon hyn chwaith; ond meddygon teulu Cymru eu hunain. Yn ddiweddar, disgrifiodd cadeirydd pwyllgor meddygon teulu Cymdeithas Feddygol Prydain ei hun fel 'lodes mewn loes' a siaradodd am geisio ymdopi o dan y pwysau sy'n cael eu rhoi arni hi a'i chydweithwyr ar hyn o bryd ym maes gofal sylfaenol.

Yr hyn a wyddom yw bod mynediad gwael at feddygon teulu, waeth a yw y tu mewn i oriau, ond yn arbennig os yw y tu allan i oriau, yn arwain at alwadau ar rannau eraill o'r system, sy'n syml yn wasanaeth sy'n costio mwy o arian. Felly, mae mynd i'r afael â sicrhau mynediad amserol at feddygon teulu yn bwysig iawn os ydym am sicrhau'r nod o gael GIG darbodus, sy'n rhywbeth y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo iddo, ac yr wyf finnau'n ei gefnogi'n llwyr. Felly, hoffwn glywed gan y Gweinidog y prynhawn yma am y cynlluniau sydd ganddo i liniaru rhai o'r pwysau presennol ar wasanaethau meddygon teulu, a hoffwn hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o edrych ar hyfedredd gwasanaethau y tu allan i oriau, sy'n cael eu hystyried ar sail Cymru-gyfan.

Rydym yn gwybod bod gwasanaethau y tu allan i oriau ar gyfer meddygon teulu yn anghyson. Mae gan rai ardaloedd wasanaeth da iawn y tu allan i oriau sy'n ymatebol, mewn mannau eraill, nid yw mor effeithiol. Fel y dywedais, caiff hyn effaith uniongyrchol ar bresenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, er enghraifft. Os gallwn ddarparu gofal sylfaenol llwyddiannus, rwy'n credu y byddai hynny'n dechrau datrys rhai o'r problemau eraill rydym yn eu hwynebu, yn enwedig o ran amseroedd aros hir am brofion diagnostig. Nid wyf yn dweud o gwbl y gallwn gael sganiau MRI yn y feddygfa leol, ond gwyddom fod modd cynnal mwy a mwy o brofion diagnostig mewn lleoliadau gofal sylfaenol. Gellid gwneud hyn yn y feddygfa, gan leihau'r angen am aros am ddiagnosteg mewn rhannau eraill o'r GIG. Mae gwir angen i ni fynd i'r afael â hyn ac ehangu'n gorwelon gan gynllunio'n briodol ar gyfer y gallu i ddod â phroffion diagnostig i mewn i ofal cynradd pan fo modd gwneud hynny.

Pan ddaw at yr amseroedd aros am brofion diagnostig, rwy'n gwerthfawrogi nad yw cymariaethau uniongyrchol yn hawdd, ond mae mwy na 30% o gleifion o Gymru yn aros wyth wythnos neu fwy am brawf diagnostig yng Nghymru, tra mai dim ond 2.2% o gleifion sy'n aros dros chwe wythnos yn y chwe phrawf diagnostig allweddol a fesurir yn Lloegr. Mae gan amseroedd aros hir y potensial i gynyddu'r galw mewn rhannau eraill o'r system a chynyddu costau am fod cleifion pryderus, er enghraifft, yn ymweld â'u meddygon teulu dro ar ôl tro. Dyna yw'r sefyllfa ar y gorau. Ar ei gwaethaf, gall arwain at bobl sydd prin yn gallu fforddio gwneud hynny'n talu'n breifat i gael yr atebion sydd arnynt gymaint eu hangen. Pa ddadansoddiad y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ganfod beth yw'r rhesymau am yr aros hir am brofion diagnostig? Mae'r Llywodraeth wedi dweud ei bod yn rhoi arian ar gyfer hyn. A all y Gweinidog amlinellu heddiw beth yn union yw cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer lleihau amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig?

I will move on to the issue of long waits. In April 2012, the number waiting over 36 weeks was 2,100. By April 2013, it was 7,000 people. Now, there are almost 13,000 people waiting over 36 weeks for treatment when the Welsh programme for government said that nobody in Wales would wait that long. My constituents simply do not understand why they are repeatedly told, when they sit in the Hereford hospital, 'If you were English, I'd operate within 18 weeks; I'm sorry, you're Welsh, you'll just have to wait'.

Darren Millar talked about ambulance waits, cancer waits and the waits in A&E departments. Those are the ones that get most of the attention. But, do you know, if you want a hearing assessment and you live in Cwm Taf, you will wait 73 weeks for a hearing assessment? If you are in Nevill Hall's audiology department, you will wait 50 weeks for a hearing assessment. This simply is not good enough for those people who find themselves on those lists. Long waiting lists let those who are poorest down the most. Those with the resources simply go private. It is the poorest in our community who do not have the resources to pay privately that are paying the highest price.

Gwelliant 3—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod amseroedd aros o'r fath yn sylweddol hirach yn GIG Cymru nag yn yr Alban a Lloegr.

Symudaf ymlaen at fater aros yn hir. Ym mis Ebrill 2012, roedd y nifer oedd yn aros dros 36 wythnos yn 2,100. Erbyn Ebrill 2013, roedd yn 7,000 o bobl. Erbyn hyn, mae bron 13,000 o bobl yn aros dros 36 wythnos am driniaeth pan ddywedodd rhaglen lywodraethu Cymru na fyddai neb yng Nghymru yn aros mor hir. Mae fy etholwyr yn methu'n lân â deall pam mae pobl yn dweud wrthynt dro ar ôl tro wrth ymweld ag ysbyty Henffordd, 'Os mai Saeson oeddech chi, byddwn yn eich trin ymhen 18 wythnos; mae'n ddrwg gen i, Cymro ydych chi, felly, bydd yn rhaid i chi aros'.

Soniodd Darren Millar am amseroedd aros ambiwlans, amseroedd aros canser a'r amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Dyma'r rhai sy'n cael y sylw mwyaf. Ond, a wyddech chi, pe byddech am gael asesiad clyw a'ch bod yn byw yng Nghwm Taf, byddech yn aros 73 wythnos am asesiad clyw? Os ydych mewn adran awdioleg Nevill Hall, byddwch yn aros 50 wythnos am asesiad clyw. Yn syml, nid yw hyn yn ddigon da i'r bobl hynny sy'n eu cael eu hunain ar y rhestrau hynny. Mae rhestrau aros hir yn effeithio'n waeth ar y bobl dlotaf hefyd. Mae pobl sy'n ddigon cyfoethog yn gallu talu am wasanaeth preifat. Y bobl dlotaf yn ein cymuned nad oes ganddynt yr adnoddau i dalu'n breifat sy'n talu'r pris uchaf.

Amendment 3—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Regrets that such waiting times are significantly longer in the Welsh NHS than in Scotland and England.

15:23

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiad welliant 3.

Fel rhai o'r areithiau eraill y prynhawn yma, bydd fy araith hefyd yn drwm ar ystadegau. Ond, mae'r broblem yn y meysydd yma yn cael ei hadrodd yn glir yn yr ystadegau ac mae'n bwysig cydnabod pwysigrwydd yr ystadegau a'r stori tu ôl i'r ystadegau.

O fod wedi cyflwyno gwelliant sy'n cymharu perfformiad NHS Cymru â pherfformiad yr NHS yn yr Alban ac yn Lloegr, nid fy mwriad drwy wneud hynny oedd sgorio pwyntiau gwleidyddol yn erbyn y Llywodraeth yma. Nid yw Plaid Cymru mewn Llywodraeth yn San Steffan nac yn yr Alban, felly nid oes pwyntiau gwleidyddol gennym i'w sgorio drwy wneud y gymharïaeth. Ond, mae'r perfformiad mor ddramatig o wahanol mewn ambell i faes rhwng y gwledydd hyn y cwestiwn i'r Gweinidog heddiw yw: beth ellid ei ddysgu o'r systemau yn y ddwy wlad hynny, yr Alban a Lloegr, er mwyn gwella perfformiad yma yng Nghymru?

I move amendment 3.

As has been the case with some of the other contributions this afternoon, my contribution will draw heavily on statistics. But, the problem in these areas is clearly reported by those statistics and it is important that we recognise their importance and the story that they actually tell.

Having tabled an amendment that compares the performance of the NHS in Wales with that of the NHS in Scotland and England, it is not my intention in so doing to score political points against the Government here. Plaid Cymru is not in Government in Westminster or in Scotland and, therefore, there are no political points to be scored by us in making that comparison. But, the performance is so dramatically different in certain areas, between the three nations, that, therefore, the question for the Minister today is: what can we learn from the systems in those other two countries, namely Scotland and England, in order to improve performance here in Wales?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn gyntaf, rwyf eisiau cyfeirio at amserau aros am driniaeth. Mae gan y gwahanol wledydd, y tair gwlad, wahanol dargedau ac mae'r Llywodraethau yn adrodd ar wahanol dargedau, ond mae'r data sy'n cael eu rhyddhau yn galluogi cymhariaeth berffaith ar draws y gwledydd, dim ond bod angen gwneud rhywfaint o waith ymchwil i ddarganfod y data cymharol hynny. O ran amserau aros am driniaeth, ym mis Ionawr eleni, roedd 90% o gleifion yn yr Alban wedi'u trin o fewn 18 wythnos ac roedd 90.4% o gleifion Lloegr wedi eu trin o fewn 18 wythnos, ond dim ond 66% o gleifion Cymru a oedd wedi eu trin o fewn 18 wythnos. Mae honno'n gymhariaeth glir iawn—'stark' iawn—o'r diffyg perfformiad o ran yr amseroedd aros am driniaeth.

Fodd bynnag, mae'r perfformiad o ran amseroedd aros ar gyfer rhai o'r profion diagnostig, fel y cyfeiriwyd ato yn barod, hyd yn oed yn fwy trawiadol o'i gymharu rhwng y gwledydd. O ran scan MRI, dim ond 1% o bobl yn Lloegr sy'n aros mwy na chwe wythnos, dim ond 3% yn yr Alban sy'n aros mwy na chwe wythnos, ond mae 49% o gleifion Cymru yn aros mwy na chwe wythnos mewn cymhariaeth. O ran colonosgopi, mae'r ffigurau hyd yn oed yn waeth, gyda 2.4% yn aros dros chwe wythnos yn Lloegr, 10% yn yr Alban, ond 52% yng Nghymru. Mae 20% o gleifion Cymru yn dal i aros am golonoscopi ar ôl 18 wythnos.

Clywsom y bore yma yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, pan roddwyd tystiolaeth i ni gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cynllun cancer, pa mor bwysig yw colonosgopi i ddiagnosis cancer y coluddyn—ac mae gan Gymru gynllun sgrinio cenedlaethol ar gyfer cancer y coluddyn. Os ydy unigolyn yn derbyn y wybodaeth eu bod yn cael eu galw yn ôl yn dilyn y sgrin honno gan fod problem gyda'r sampl, yna maent yn aros am golonoscopi. Mae 20% o bobl yn aros pedwar mis a hanner am golonoscopi. Gallwn ni i gyd ddechymygu, mae'n siŵr, y gofid ar yr unigolion hynny wrth aros, gan wybod bod eu sgrinio nhw wedi darganfod problemau. Dyna beth yw hwn, wrth gwrs. Rwy'n adrodd lot o ystadegau fan hyn, fel y bydd pawb yn gwneud y prynhawn yma, o bosibl, ond y tu ôl i bob ystadegyn y mae unigolion. Maent yn etholwyr i ni, ac yn rhan o'n teuluoedd a'n cymunedau ni.

Felly, mae'n amlwg bod rhywbeth ar waith yn y systemau yn yr Alban ac yn Lloegr sy'n delifro perfformiad mwy effeithiol ar hyn o bryd. Yn ddi-ddorol, roedd ystadegau'r Alban gymaint yn waeth na Lloegr ryw ychydig flynyddoedd yn ôl. Credaf fod gwneud y gymhariaeth ac edrych yn benodol ar yr hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban dros y blynyddoedd diwethaf yn bwysig ac y dylai'r Llywodraeth edrych ar hynny, gan fod strwythur yr NHS a demograffi Cymru a'r Alban yn ymdebygu yn well, efallai, na'r systemau yn Lloegr.

Felly, byddwn yn gobeithio y prynhawn yma, wrth i'r Gweinidog ymateb, y bydd yn derbyn difrifoldeb y broblem ac yn gweld nad gweiddi arno a gofyn am newid rydym yn ei wneud; rydym yn gwneud asesiad o'r ystadegau fel y maen nhw'n bodoli. Rydym am ichi dderbyn difrifoldeb y broblem ac edrych ar sut y mae perfformiad wedi gwella yn yr Alban, er enghraifft, ac edrych a chymryd camau i wella perfformiad dros y ddwy flynedd nesaf yng Nghymru.

First, I want to refer to waiting times for treatment. The various nations, the three nations, have different targets and the Governments report on those different targets, but the data are released and they do enable a perfect comparison across the three nations, just that some research has to be done in order to discover those comparative data. In terms of waiting times for treatment, in January of this year, 90% of patients in Scotland were treated within 18 weeks, and 90.4% of patients in England were treated within 18 weeks, but only 66% of patients in Wales were treated within 18 weeks. That is a very clear comparison—a stark comparison—of the differences in performance in terms of waiting times for treatment.

However, performance with regard to waiting times for some of the diagnostic tests, as has already been mentioned, is even more stark, if you compare the figures between the three nations. In terms of MRI scans, only 1% of people in England wait longer than six weeks, only 3% in Scotland wait longer than six weeks, but the figure in Wales is 49% in terms of Welsh patients waiting for longer than six weeks. In terms of colonoscopy, the figures are even worse, with 2.4% waiting over six weeks in England, 10% in Scotland, but 52% in Wales. In Wales, 20% of patients are still waiting for a colonoscopy for over 18 weeks.

We heard this morning in the Health and Social Care Committee, when Public Health Wales gave evidence to us on the cancer treatment plan, how important colonoscopy is for the diagnosis of bowel cancer—and Wales has a national screening programme for such cancers. If an individual is given the information that they are to be called back following that screening because a problem has been identified with their sample, then they will await a colonoscopy. There are 20% of people who are waiting over four and a half months for that colonoscopy. I am sure that we can all imagine the anxiety caused to those individuals waiting, knowing that the screening has identified problems. That is what this is, of course. I am referring to many statistics, as everyone will, in all likelihood, this afternoon, but behind every statistic there are individuals. They are constituents of ours and they may be family members or members of our own communities.

Therefore, it is clear that there is something happening in the systems in Scotland and in England that delivers more effective performance at present. Interestingly, the Scottish statistics were a lot worse than the English statistics just a few years ago. I think that making the comparison and looking specifically at what has happened in Scotland over the past few years is important and the Government should look at that, because the structure of the NHS and the demography of Wales and Scotland are more similar, perhaps, than is the case with England.

Therefore, I would hope that, as the Minister responds this afternoon, he will accept the gravity of the problem and see that we are not just shouting at him and demanding changes; we are making an assessment of the statistics as they are. We want you to accept the gravity of the problem and look at how performance has improved in Scotland, for example, and look and take steps to improve performance over the next two years in Wales.

I welcome today's Welsh Conservative debate, for it affords us the chance to shine a light on the NHS in Wales. Fifteen years ago, with devolution, came the control over and responsibility for our NHS in Wales to the Welsh Labour Government here in Cardiff. Do you know, not many people know that? Over half do not know who delivers their health service in Wales. Fifteen years on, we are right to ask: has the Welsh Labour administration delivered on its own manifesto promises and, indeed, its own Government mandate as regards the NHS in Wales?

Today, we only need to look at one measure of the Welsh Government's performance in terms of waiting times. Just to be clear, I am certainly not referring to the dedicated and hard-working staff within the health service who are left managing these failings, and doing so against all odds, when I highlight some of these failings. One only has to Google 'Welsh NHS waiting times' and you will find pages and pages of references to Wales and its waiting-time failures. There are pages of tragic news and pages of evidence pointing to a health service in despair.

Before I am accused of talking Wales down, let me be clear: I make my contribution today to highlight the concerns of many across Wales, but also those within my own constituency of Aberconwy, some of whom are even prepared to go on record to describe the pain that they have faced as a result of agonising waits; sometimes when the delay has cost them the life of their nearest and dearest. Urgent cancer waiting times have not been met since 2008.

On bowel cancer treatment, Bowel Cancer UK found that 26% of patients are waiting longer than 14 weeks for a colonoscopy, calling the situation in Wales particularly poor. Yet, even today, Elin Jones, a long-established AM, has highlighted her knowledge of the wait being around four and a half months. Furthermore, while taking evidence on the implementation of the cancer care delivery plan, I was shocked to hear from GPs and other practitioners that there are two categories for referral—'urgent' and 'non-urgent'—with many GPs fearing that even 'urgent' was not quick enough. In some cases—are you listening?—there was a suggestion to present at an emergency department for a more successful and quicker diagnosis. We learned that patients themselves are presenting at A&E, where the cancer is then identified. This, Minister, is a very sad state of affairs, and I do challenge you today, in a friendly manner, to obtain the figures from these units, please. As I understand it, there are currently not enough data collected. A very robust affirmative that this is happening from our practitioners is good enough for me, and it should be good enough for you. I can only describe this as painfully sad, and you should pick this up immediately.

Rwy'n croesawu dadl y Ceidwadwyr Cymreig heddiw, gan ei bod yn rhoi'r cyfle i ni daflu goleuni ar y GIG yng Nghymru. Bymtheg mlynedd yn ôl, gyda datganoli, daeth rheolaeth a chyfrifoldeb am ein GIG yng Nghymru i Lywodraeth Llafur Cymru yma yng Nghaerdydd. A wyddoch chi nad yw llawer o bobl yn gwybod hynny? Nid yw mwy na hanner y boblogaeth yn gwybod pwy sy'n darparu eu gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bymtheg mlynedd yn ddiweddarach, mae'n iawn i ni ofyn: a yw gweinyddiaeth Lafur Cymru wedi cyflawni addewidion ei manifesto ei hun ac, yn wir, ei mandad Lywodraethu ei hun o ran y GIG yng Nghymru?

Heddiw, dim ond un o fesurau perfformiad Llywodraeth Cymru o ran amseroedd aros y mae angen i ni ei ystyried. Gadewch i mi egluro, wrth dynnu sylw at rai o'r methiannau hyn, yn sicr nid cyfeirio yr ydwyf at staff ymroddedig a gweithgar y gwasanaeth iechyd sy'n cael eu gadael i reoli'r diffygion hyn, a gwneud hynny yn erbyn yr holl ffactorau. Dim ond i chi deipio 'Welsh NHS waiting times' ar wefan Google, daw tudalennau rif y gwllth i'r golwg yn cyfeirio at Gymru a'i methiannau o ran amseroedd aros. Mae tudalennau gyda newyddion trychinebus a thudalennau o dystiolaeth yn cyfeirio ar wasanaeth iechyd mewn anobaith.

Cyn imi gael fy nghyhuddo o ladd ar Gymru, gadewch i mi fod yn glir: rwy'n gwneud fy nghyfraniad heddiw er mwyn tynnu sylw at y pryderon sydd gan lawer ledled Cymru, ond hefyd y rhai yn Aberconwy, fy etholaeth i, a rhai ohonynt hyd yn oed yn barod i gofnodi'n bersonol ddisgrifiad o'r boen y maent wedi ei hwynebu o ganlyniad i amseroedd aros arteithiol; a'r oedi ar brydiau wedi arwain at farwolaeth eu hanwyliaid. Nid yw amseroedd aros cancer brys wedi cael eu cyflawni ers 2008.

O ran triniaeth cancer y coluddyn, canfu Bowel Cancer UK fod 26% o gleifion yn aros mwy na 14 wythnos am golonosgopi, gan gyfeirio at y sefyllfa yng Nghymru fel un arbennig o wael. Eto i gyd, hyd yn oed heddiw, mae Elin Jones, sy'n Aelod Cynulliad hir sefydledig, wedi tynnu ein sylw at ei gwybodaeth fod yr amser aros tua phedwar mis a hanner. Ar ben hynny, wrth i mi gymryd tystiolaeth am weithredu'r cynllun darparu gofal cancer, yr oeddwn yn synnu i glywed gan feddygon teulu ac ymarferwyr eraill bod dau gategori ar gyfer atgyfeirio—'brys' a 'dim brys'—gyda llawer o feddygon teulu yn ofni nad oedd 'brys' yn ddigon cyflym. Mewn rhai achosion—a ydych yn gwranddo?—awgrymwyd mynd i adran achosion brys er mwyn cael diagnosis mwy llwyddiannus a chynt. Deallom fod cleifion eu hunain yn mynd i adran achosion brys, lle mae'r cancer wedyn yn cael ei ganfod. Mae hyn, Weinidog, yn sefyllfa drist iawn, ac rwyf yn eich herio heddiw, mewn modd cyfeillgar, i ofyn am y ffigurau o'r unedau hyn, os gwelwch yn dda. Yn ôl a ddeallaf, nid oes digon o ddata wedi'u casglu ar hyn o bryd. Mae datganiad cadarnhaol cryf iawn gan ein hymarferwyr fod hyn yn digwydd yn ddigon da i mi, a dylai fod yn ddigon da i chi. Ni allaf ond disgrifio hyn fel sefyllfa boenus o drist, a dylech roi sylwi iddi ar unwaith.

Moving on, let us look at ambulance waiting times and category A calls. The target is 65%, yet there is only a 50% response, with the target being met only in one month out of the last 21 months. On mental health, to pick up on the many concerns raised during the debate last week, the number of children waiting more than 14 weeks for treatment soared to 736 in January 2014, from 199 in January 2013. That is a major catastrophe and failing. The Nuffield Trust report into the differences between the NHS throughout the UK highlighted four differences that stand out, one of which is waiting times for common elective procedures. The report says:

'Waiting times in Wales have been increasing recently. For example, in 2012/13, patients in Wales waited on average about 170 days for a hip or knee replacement compared with about 70 days in England and Scotland. The reasons are unclear, although the decision to cut rather than maintain NHS spending in real terms may have affected them.'

It goes on to state:

'comparing England, Scotland and Wales, in the period of austerity, waiting times for common procedures appear to be lengthening disproportionately in Wales.'

Those are not my words. Ministers accuse the opposition parties of doing Wales down. This is weak. It always reminds me of the saying 'a poor workman always blames their tools'. You have the responsibility; you have the control and you have the opportunity to put things right. Do it please—for the sake of all of us, wherever we are and wherever we live. [Interruption.]

Gan symud ymlaen, gadewch inni edrych ar amseroedd aros ambiwlans a galwadau categori A. Y targed yw 65%, ond dim ond 50% yw'r ymateb, gyda'r targed yn cael ei gyrraedd mewn un mis yn unig yn y 21 mis diwethaf. O ran iechyd meddwl, i ychwanegu at y pryderon a godwyd yn ystod y ddadl yr wythnos diwethaf, mae nifer y plant sy'n aros mwy na 14 wythnos am driniaeth wedi codi i'r entychion i 736 ym mis Ionawr 2014, o 199 ym mis Ionawr 2013. Mae hynny'n drychineb mawr ac yn fethiant. Yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar y gwahaniaethau rhwng y GIG ledled y DU, pwysleisiodd bedwar gwahaniaeth sy'n sefyll allan, ac un ohonynt yw amseroedd aros ar gyfer triniaethau dewisol cyffredin. Dywed yr adroddiad:

'Mae amseroedd aros yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n ddiweddar. Er enghraifft, yn 2012/13, ar gyfartaledd roedd cleifion yng Nghymru yn aros tua 170 diwrnod am osod clun neu ben-glin newydd o gymharu â thua 70 diwrnod yn Lloegr a'r Alban. Mae'r rhesymau yn aneglur, er efallai mai'r penderfyniad i dorri yn hytrach na chynnal gwariant y GIG mewn termau real sydd wedi effeithio arnynt.'

Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

'wrth gymharu Cymru, Lloegr a'r Alban, yn y cyfnod o gyni, ymddengys fod amseroedd aros am driniaethau cyffredin yn cynyddu'n anghymesur yng Nghymru.'

Nid fy ngeiriau i yw'r rhain. Mae Gweinidogion yn cyhuddo'r gwrthbleidiau o ladd ar Gymru. Mae hyn yn wan. Mae bob amser yn fy atgoffa o'r dywediad 'saer gwael sy'n gweld bai ar ei arfau'. Gennych chi mae'r cyfrifoldeb; chi sy'n rheoli ac mae gennych chi'r cyfle i roi trefn ar bethau. Ewch ati os gwelwch yn dda—er mwyn pawb ohonom, pwy bynnag ydym ni a ble bynnag rydym yn byw. [Torri ar draws.]

15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I must remind people who are watching in the gallery that you are not allowed to make any gestures. I call David Rees.

Trefn. Mae'n rhaid i mi atgoffa pobl sy'n gwyllo yn yr oriel na chewch wneud unrhyw ystumiau. Galwaf ar David Rees.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:33 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to be able to contribute to this debate today. Like most Members here today, I meet with constituents who raise concerns about the delays that they experience in diagnosis and treatment. It is important to acknowledge that, despite the ongoing progress towards target achievement—and there is ongoing progress—people are still waiting too long. I do not deny that; I am not burying my head in the sand and I am not in denial as some people might like to think. It is particularly for more routine treatments that this occurs, but also, on occasion, for treatment for chronic conditions. We do know, as has been highlighted, that early diagnosis and prevention are key to avoiding more serious and costly complications arising in those conditions. Early access to targeted treatment also is to the benefit of patients; we all know that.

Rwy'n falch o allu cyfrannu at y ddadl hon heddiw. Fel y rhan fwyaf o Aelodau yma heddiw, rwy'n cyfarfod ag etholwyr sy'n codi pryderon am yr oedi y maent yn ei brofi o ran diagnosis a thriniaeth. Mae'n bwysig cydnabod, er gwaethaf y cynnydd parhaus tuag at gyrraedd y targed—ac mae yna gynnydd parhaus—mae pobl yn dal i aros yn rhy hir. Nid wyf yn gwadu hynny; nid wyf yn claddu fy mhen yn y tywod ac nid wyf yn gwrthod cydnabod fel y mae rhai pobl o bosibl yn hoffi meddwl. Ar gyfer y triniaethau mwy rheolaidd y mae hyn yn digwydd yn arbennig, ond hefyd, ar adegau, ar gyfer triniaeth ar gyfer cyflyrau cronig. Rydym yn gwybod, fel y clywsom, fod diagnosis cynnar ac atal yn allweddol er mwyn atal cymhlethdodau mwy difrifol a drud yn y cyflyrau hynny. Mae mynediad cynnar at driniaeth a dargedwyd hefyd yn llesol i'r cleifion; mae pawb ohonom yn gwybod hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

During a recent evidence-gathering session in the current committee inquiry into the cancer delivery plan, I did not quite hear the same comments as reported by Janet Finch Saunders, but it was reported that the medical profession does look at people with urgent needs and prioritises people. It identifies the individuals who need to be looked at urgently, and those who may be 'suspicious' and are, therefore, not prioritised. That is the medical profession's responsibility. However, it actually seeks out those people and identifies their urgent needs. Darren Millar mentioned that this is about people and not statistics. I am not going to talk about statistics, because I am sure that many Members, across the Chamber, will talk about statistics. It is about people. However, I want to talk about the other side of the story, which we sometimes do not hear.

I noticed in looking at my figures that one in 10 in Wales was not getting it, and nine in 10 in England were. Now, that is the same to me—one in 10 not getting it means that nine in 10 were. So, it is a play on figures, and I do not want to play on figures. However, let us talk about the nine in 10, and let us talk about the actual benefits that people do get. I was contacted by a constituent only last week who told me how much praise he had for the NHS here in Wales. His sister-in-law had been diagnosed with cancer, had been treated quickly, and was being cared for with excellent concern and dedication by the NHS staff.

I can think of another case, where a female—actually, another constituent—was diagnosed with breast cancer. She was diagnosed quickly, was treated quickly, and was dealt with; unfortunately, it returned, it was treated quickly again and was dealt with. Unfortunately, she has now been diagnosed with lung cancer, but was treated and diagnosed quickly, and is under treatment, and the treatment is successful, or has been successful. Actually, the biggest problem that she had in that process was the time that a GP took to make a decision on referral. However, from referral on, it was a very, very fast process.

So, we are seeing genuine cases of people who are successfully getting the benefit. Now, I am not going to deny the other individuals and the difficulties that they face; I am not in that situation. However, I do want to spend what little time I have left reflecting upon perhaps the need to understand some of the reasons that may be behind some of the delayed waiting times.

Resources have already been mentioned and highlighted, and I am sure that staffing and recruitment remain key issues in that aspect. The evidence that has been presented to us suggests that, while some specialities, such as surgery, find it easier to recruit, there are others—particularly in areas of diagnostics, such as pathology, radiology, and urology—that do have difficulty in recruiting. That is something that we need to look at, Minister.

Yn ystod sesiwn ddiweddar i gasglu tystiolaeth yn ymchwiliad presennol y pwyllgor i'r cynllun cyflawni ar gyfer cancer, ni chlywais i'r union sylwadau fel y cawsant eu hadrodd gan Janet Finch- Saunders, ond adroddwyd bod y proffesiwn meddygol yn edrych ar bobl ag anghenion brys ac yn blaenoriaethu pobl. Mae'n nodi'r unigolion y mae angen edrych arnynt ar frys, a'r rhai a allai fod yn 'amheus' ac nad ydynt felly'n flaenoriaeth. Dyna yw cyfrifoldeb y proffesiwn meddygol. Fodd bynnag, y mae mewn gwirionedd yn chwilio am y bobl hynny ac yn nodi eu hanghenion brys. Soniodd Darren Millar fod hyn yn ymwneud â phobl ac nid ystadegau. Nid wyf yn mynd i siarad am ystadegau, oherwydd rwy'n siŵr y bydd llawer o Aelodau, ar draws y Siambr, yn siarad am ystadegau. Mae hyn yn ymwneud â phobl. Fodd bynnag, hoffwn siarad am ochr arall y stori, nad ydym weithiau yn ei chlywed.

Sylwais wrth edrych ar fy ffigurau nad yw un o bob 10 yng Nghymru yn ei gael, a bod naw o bob 10 yn Lloegr yn ei gael. Nawr, mae hynny'r un fath i mi—pan fo un o bob 10 ddim yn ei gael mae'n golygu bod naw o bob 10 yn ei gael. Felly, dyma enghraifft o chwarae â ffigurau, ac nid wyf innau am chwarae â ffigurau. Fodd bynnag, gadewch i ni siarad am y naw o bob 10, a gadewch inni siarad am y manteision gwirioneddol y mae pobl yn eu cael. Cysylltodd etholwr â mi yr wythnos diwethaf gan ddweud cymaint yr oedd yn canmol y GIG yma yng Nghymru. Roedd ei chwaer-yng-nghyfraith wedi cael diagnosis cancer, wedi cael ei thrin yn gyflym, ac wedi cael gofal rhagorol a gofalgar gan staff ymroddedig y GIG.

Gallaf feddwl am achos arall, lle'r oedd gwraig—un arall o'm hetholwyr mewn gwirionedd—wedi cael diagnosis cancer y fron. Cafodd ddiagnosis cyflym, triniaeth gyflym, gan ddelio â'r sefyllfa; yn anffodus, daeth y cancer yn ei ôl, cafwyd triniaeth gyflym eto a deliwyd â'r sefyllfa eto. Yn anffodus, mae hi bellach wedi cael diagnosis cancer yr ysgyfaint, ond cafodd ddiagnosis a thriniaeth gyflym, ac mae'r driniaeth ar waith ac yn llwyddiannus, neu mae wedi bod yn llwyddiannus. Mewn gwirionedd, y broblem fwyaf a oedd ganddi yn y broses honno oedd yr amser a gymerodd meddyg teulu i wneud penderfyniad atgyfeirio. Fodd bynnag, ar ôl yr atgyfeiriad, roedd y broses yn gyflym dros ben.

Felly, gwelwn achosion gwirioneddol o bobl yn elwa'n llwyddiannus. Nawr, nid wyf yn mynd i wadu'r unigolion eraill a'r anawsterau y maent yn eu hwynebu; nid wyf yn y sefyllfa honno. Fodd bynnag, rwyf am dreulio'r ychydig amser sydd gennyf ar ôl i ystyried efallai yr angen i ddeall rhai o'r rhesymau a allai egluro'r rhesymau am yr amseroedd aros estynedig.

Mae adnoddau eisoes wedi cael eu crybwyll a'u pwysleisio, ac rwy'n siŵr y bydd staffio a recriwtio yn faterion allweddol yn hynny o beth. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn awgrymu, er bod rhai arbenigeddau, megis llawdriniaeth, yn ei chael hi'n haws recriwtio, mae eraill—yn enwedig mewn meysydd diagnosteg, megis patholeg, radioleg, ac wroleg—sy'n cael trafferth wrth recriwtio. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni roi sylw iddo, Weinidog.

15:37

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:37	David Rees Bywgraffiad Biography	Yes.	Gwnaf.	Senedd.tv Fideo Video
15:37	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Clearly, there is the ability to refer, where there is not that specialist expertise here, outside Wales. Do you agree that it is very difficult for Welsh patients, when they hear from English hospitals that they have to wait longer than the English patients do in those hospitals, to get that treatment?	Yn amlwg, lle nad oes gennym yr arbenigeidd arbenigol yma, mae modd atgyfeirio y tu hwnt i Gymru. A ydych yn cytuno ei bod yn anodd iawn i gleifion o Gymru, pan fyddant yn clywed oddi wrth ysbytai yn Lloegr fod yn rhaid iddynt aros yn hirach i gael y driniaeth nag y bydd cleifion o Loegr yn aros yn yr ysbytai hynny?	Senedd.tv Fideo Video
15:37	David Rees Bywgraffiad Biography	I think that I want to go back to the point that I am talking about—those are the issues that we are talking about. Recruitment and staffing are one of those issues, and I have identified those diagnostic areas. We want to be able to make sure that Wales, and Welsh hospitals, are attractive to graduates and to experienced medical professionals.	Rwy'n meddwl fy mod am fynd yn ôl at y pwynt yr oeddwn yn siarad amdano—dyna yw'r materion rydym yn sôn amdanynt. Recriwtio a staffio yw un o'r materion hynny, ac rwyf wedi nodi'r meysydd diagnostig hynny. Rydym am allu sicrhau bod Cymru, ac ysbytai Cymru, yn ddeniadol i raddedigion ac i weithwyr proffesiynol meddygol profiadol.	Senedd.tv Fideo Video
		However, Minister, I also wanted you to look at the training of nurses, perhaps to consultant nurse levels, in order to take on some aspects of the testing and treatments, so that they can take on the responsibilities as well and thus release more time for our doctors, which helps alleviate some of the difficulties that we have in recruitment. This could apply to other professions in the health services. I know, for example, that there are already reporting radiographers, which take on some of those responsibilities as well.	Fodd bynnag, Weinidog, rwyf hefyd am i chi edrych ar yr hyfforddiant nyrsys, efallai i lefelau nyrsys ymgynghorol, er mwyn ymgymryd â rhai agweddau ar y profion a thriniaethau, er mwyn iddynt allu ysgwyddo'r cyfrifoldebau hefyd gan ryddhau mwy o amser ar gyfer ein meddygon, sy'n helpu i leddfu rhai o'r anawsterau sydd gennym wrth recriwtio. Gallai hyn fod yn berthnasol i broffesiynau eraill yn y gwasanaethau iechyd. Gwn, er enghraifft, fod yna radiograffwyr adrodd yn barod, sy'n cymryd rhai o'r cyfrifoldebau hynny yn ogystal.	
		Minister, I also want to raise the impact on services of the number of 'do not attends'. I think that DNAs are a big issue that we see in our health service. Hospitals and primary care are seeing an increase in the number of patients who have not attended, and therefore resources are not being fully utilised. Therefore, please will you look at what analysis you will be doing, as a Welsh Government, to look at the mechanisms that you can use to avoid that lost time with regard to DNAs.	Weinidog, rwyf hefyd am godi'r effaith a gaiff pobl sydd 'heb fynychu' (DNA) ar wasanaethau. Credaf fod DNAs yn broblem fawr yn ein gwasanaeth iechyd. Mae ysbytai a gofal sylfaenol yn gweld cynnydd yn nifer y cleifion sydd heb fynychu, ac felly nid yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n llawn. Felly, os gwelwch yn dda a wneuch chi ystyried pa ddadansoddiad y byddwch yn ei wneud, fel Llywodraeth Cymru, i ystyried y mecanweithiau y gallwch eu defnyddio i osgoi colli amser yn sgîl DNAs.	
		I am conscious of the time, so I will just conclude, if I may. We must strive for continuous improvement in order to deliver the highest quality of care achievable for the people of Wales. I for one have greater faith in a Welsh Labour Government achieving that than any Government involving the parties to my left. However, I want to make one point.	Rwy'n ymwybodol o'r amser, felly rwyf am orffen, os caf. Rhaid i ni ymdrechu i wella'n barhaus er mwyn sicrhau'r ansawdd gofal gorau posibl ar gyfer pobl Cymru. Mae gennyf innau, beth bynnag, fwy o ffydd y bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn cyflawni hynny nag unrhyw Lywodraeth sy'n cynnwys y pleidiau ar fy chwith. Fodd bynnag, hoffwn wneud un pwynt.	
15:39	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Quickly.	Yn gyflym.	Senedd.tv Fideo Video
15:39	David Rees Bywgraffiad Biography	Today's report from the Commonwealth Fund, from Washington, highlights how good the UK health service is. Let us keep it that way.	Mae adroddiad heddiw gan Gronfa'r Gymanwlad, o Washington, yn pwysleisio cystal yw gwasanaeth iechyd y DU. Gadewch i ni ei gadw felly.	Senedd.tv Fideo Video

When I have highlighted the cases of constituents waiting in pain for treatment, Ministers have dismissed or derided my statements. On 21 May, the First Minister told me that:

'coming here and producing lots of anonymous and possibly imaginary people who have said things to him is not good enough.'

So, suddenly, those angry patients have now authorised me to name them. Mr Ian Bayliss of Rhyl even asked me to forward a letter to the First Minister, stating:

'I am horrified, as a habitual Labour voter, to find that the Labour leader of this country thinks so badly of the people of Wales.'

He has since told me that, since checking the National Institute for Health and Care Excellence guidelines for cardiac illnesses, especially cardiac failure, in his personal experience NHS Wales does not meet even the bare minimum requirements of those guidelines.

Mr Graham Mason of Mynydd Isaf, aged 77, has already been waiting in agony for orthopaedic surgery for over 42 weeks, with his operation deferred from April to June and now August. Having initially been told that his knee replacement operation would be carried out on 13 January, Mr Brian Robertson of Buckley did not have his operation until 12 May. He challenges the health board statement that said that the operation was delayed by technical support being unable to attend, as his surgery notes showed that the sell-by date of the jig to be inserted in his knee was the same date as the eventual operation.

Former Rhyl mayor, Diana Hannam, aged 73, was removed from a consultant's list as she had complained about a year-long wait for an operation on her shoulder. After the health board told her it was working to a 52-week referral-to-treatment waiting time, my colleague, Darren Millar, wrote to the Minister for Health and Social Services, who replied that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board had not been given dispensation from the Welsh Government to extend its waiting times from 26 weeks and a maximum of 36 weeks to 52 weeks. He added that he expected all patients to be seen in accordance with their clinical priority, which is for the relevant consultant to decide. When I pursued this with the health board, it replied that all patients should be treated within 52 weeks in the surgical, dental and clinical programme group, which includes general surgery, orthopaedics, ear, nose and throat, breast care and much more. Last weekend, Mrs Hannam told me that, having now been placed on a new urgent list, her new consultant has told her that her potential surgery could be up to another 52 weeks away because it is out of the consultant's control and the health board is only allowing limited numbers of operations.

Wrth imi dynnu sylw at achosion o etholwyr yn aros mewn poen am driniaeth, mae Gweinidogion wedi diystyru neu watwar fy natganiadau. Ar 21 Mai, dywedodd y Prif Weinidog wrthyf:

nad yw'n ddigon da fy mod yn dod yma a chyflwyno llawer o bobl ddiennw a dychmygol o bosibl sydd wedi dweud pethau wrthyf.'

Felly, yn sydyn, mae'r cleifion cynddeiriog hynny bellach wedi rhoi caniatâd i mi eu henwi. Aeth Mr Ian Bayliss o'r Rhyl mor bell â gofyn i mi anfon llythyr ymlaen at y Prif Weinidog oddi wrtho, yn dweud:

'Rwy'n arswydo, fel pleidleisiwr Llafur cyson, o weld bod gan arweinydd Llafur y wlad hon feddwl mor wael o bobl Cymru.'

Ers hynny mae wedi dweud wrthyf, ers gwirio canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar gyfer afiechydon y galon, yn enwedig methiant y galon, yn ei brofiad personol nad yw GIG Cymru yn bodloni hyd yn oed y gofynion lleiaf un o'r canllawiau hynny.

Mae Mr Graham Mason, Mynydd Isaf, sy'n 77 oed, eisoes wedi bod yn aros mewn poen dybryd am lawdriniaeth orthopedig am dros 42 wythnos, gyda'i lawdriniaeth wedi'i gohirio o fis Ebrill i fis Mehefin ac yn awr i fis Awst. Ar ôl cael gwybod, i ddechrau, y byddai ei lawdriniaeth pen-glin yn digwydd ar 13 Ionawr, ni chafodd Mr Brian Robertson o Fwcle ei lawdriniaeth tan 12 Mai. Mae'n herio datganiad y bwrdd iechyd a ddywedodd fod y llawdriniaeth yn hwyr oherwydd nad oedd cefnogaeth dechnegol yn gallu bod yn bresennol, ond fel y gwelwyd yn nodiadau ei lawdriniaeth, roedd dyddiad eithaf ar gyfer defnyddio'r jig arfaethedig ar gyfer ei ben-glin yr un dyddiad â'r llawdriniaeth a gynhaliwyd maes o law.

Tynnwyd cyn-faer y Rhyl, Diana Hannam, 73 oed, oddi ar restr meddyg ymgynghorol gan ei bod wedi cwyno am aros blwyddyn gyfan i gael llawdriniaeth ar ei hysgwydd. Ar ôl i'r bwrdd iechyd ddweud wrthi ei fod yn gweithio i amserlen aros o 52-wythnos rhwng atgyfeirio a thrin, ysgrifennodd fy nghyd-Aelod, Darren Millar, at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a atebodd nad oedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cael goddefeb gan Lywodraeth Cymru i estyn ei amseroedd aros o 26 wythnos ac uchafswm o 36 wythnos i 52 wythnos. Ychwanegodd ei fod yn disgwyl i bob claf gael eu gweld yn unol â'u blaenoriaeth glinigol, sydd yn benderfyniad i'r ymgynghorydd perthnasol. Pan euthum ar drywydd hyn gyda'r bwrdd iechyd, atebodd y dylai pob claf gael eu trin o fewn 52 wythnos yn y grŵp rhaglen llawfeddygol, deintyddol a chlinigol, sy'n cynnwys llawdriniaeth gyffredinol, orthopedeg, clust, trwyn a gwddf, gofal y fron a llawer mwy. Y penwythnos diwethaf, dywedodd Mrs Hannam wrthyf, sydd bellach wedi ei rhoi ar restr frys newydd, fod ei hymgyngorydd newydd wedi dweud wrthi y gallai ei llawdriniaeth arfaethedig gymryd hyd at 52 wythnos arall oherwydd nad yw hyn o fewn rheolaeth yr ymgynghorydd a bod y bwrdd iechyd yn caniatáu nifer gyfyngedig yn unig o lawdriniaethau.

NHS England met its latest 18-week treatment target, but NHS Wales failed to meet its longer 26-week and 36-week targets. Five per cent of the English population is waiting to start treatment, compared to 14% of the Welsh population. In Wales around a third of people wait more than two months for an ultrasound scan, while in England that figure is less than 1%. In Wales, accident and emergency targets were last met five years ago. Two point two per cent of patients in England are waiting more than six weeks for diagnostic tests, compared to the 30.3% of patients in Wales waiting longer than eight weeks. We have heard reference to the Nuffield Trust, which found that Wales is lagging behind on waiting times for non-emergency operations following the deterioration in performance since 2009 and that waiting times for hip replacements were 170 days on average in Wales compared to 77 in England. It said that the most obvious reason for this was the cut in funding seen over the previous three years in Wales compared with the growth elsewhere. Further pressures, of course, have been caused by the repatriation of cross-border health services and loss of community hospital beds and services.

With the BMA and the North Wales Local Medical Committee reporting a looming 'GPs crisis' that could bring the system to collapse within three years, GPs have also warned that falling GP contacts means a greater clogging up of the out-of-hours and A&E system. Only last Thursday, Pendyffryn Medical Group in Prestatyn advised that it had to consider cutting back its range of services because of 'extreme difficulties' in replacing GPs who had left. With a BBC poll suggesting that less than a quarter of people in Wales believe that the Welsh NHS has improved since devolution, this Labour Government must, yes, end its conspiracy of denial. It only gets away with it because over half of the population does not know that it is running the NHS in Wales.

Llwyddodd GIG Lloegr i gyrraedd ei darged driniaeth 18-wythnos diweddaraf, ond methodd GIG Cymru â chyrraedd ei dargedau estynedig o 26-wythnos a 36 wythnos. Mae pump y cant o'r boblogaeth yn Lloegr yn aros i ddechrau triniaeth, o'u cymharu â 14% o boblogaeth Cymru. Yng Nghymru, mae tua thraean o bobl yn aros mwy na dau fis am sgan uwchsain, tra bod y ffigur yn Lloegr yn llai nag 1%. Yng Nghymru, llwyddwyd i gyrraedd targedau damweiniau ac achosion brys y tro diwethaf bum mlynedd yn ôl. Mae dau bwynt dau y cant o gleifion yn Lloegr yn aros mwy na chwe wythnos am brofion diagnostig, o'u cymharu â 30.3% o gleifion yng Nghymru yn aros mwy nag wyth wythnos. Rydym wedi clywed cyfeiriadau at Ymddiriedolaeth Nuffield, a ganfu bod Cymru ar ei hôl hi ar amseroedd aros ar gyfer llawdriniaethau di-argyfwng aros yn dilyn y dirywiad mewn perfformiad ers 2009 a bod amseroedd aros ar gyfer gosod clun newydd yn 170 diwrnod ar gyfartaledd yng Nghymru o'i gymharu â 77 yn Lloegr. Mae'n dweud mai'r rheswm mwyaf amlwg am hyn oedd y toriad yn yr arian a welwyd dros y tair blynedd flaenorol yng Nghymru o'i gymharu â thwf mewn manau eraill. Cafwyd pwysau pellach, wrth gwrs, gan wasanaethau iechyd trawsffiniol yn symud a cholli gwelyau a gwasanaethau ysbyty cymunedol.

Gyda Phwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru a'r BMA yn adrodd bod 'argyfwng meddygon teulu' ar y gorwel a allai chwalu'r system ymhen tair blynedd, mae meddygon teulu hefyd wedi rhybuddio bod lleihad yn y cyswllt â meddygon teulu yn golygu mwy o dagfeydd yn y gwasanaeth y tu allan i oriau a Damweiniau ac Achosion Brys. Ddydd lau diwethaf dywedodd Grŵp Meddygol Pendyffryn ym Mhrestatyn ei fod yn gorfod ystyried cwtogi ei ystod o wasanaethau oherwydd yr 'anawsterau eithafol' yr oedd yn eu hwynebu wrth chwilio am feddygon teulu i gymryd lle'r rhai a oedd wedi gadael. Gydag arolwg gan y BBC yn awgrymu bod llai na chwarter pobl Cymru yn credu bod y GIG yng Nghymru wedi gwella ers datganoli, yn wir mae'n rhaid i'r Llywodraeth Lafur hon roi'r gorau i'w chynllwyn o wadu. Yr unig reswm y mae'n cael rhwydd hynt yw am nad yw dros hanner y boblogaeth yn gwybod mai nhw sy'n rhedeg y GIG yng Nghymru.

I want to speak about the real progress that is happening in the NHS in Wales. I particularly want to refer to cancer treatment and cancer waiting times. I chair the cross-party group on cancer and I have the Velindre centre and the Heath hospital in my constituency, so I have built up very close links with the staff that treat the cancer patients. Now, at the beginning of my contribution, I would just like to mention the celebration tomorrow marking the tenth anniversary of the Wales Cancer Bank, led by the renowned Professor Malcolm Mason, which plays a leading role in UK bio-banking. I know that the Minister for health himself will be there. However, I think that at the beginning of my speech I would just like to pay tribute to those clinicians at Velindre and those who are doing research for how they are leading the way in the UK and Europe in cancer treatment. It is also very good news for cancer patients that the Welsh Government has earmarked £200 million of innovative funding to develop Velindre Cancer Centre and even further improve the care that is given to patients there. I am sure that we all will have noticed the high satisfaction rates with treatment given for cancer in Wales as a whole in the first national cancer patient experience survey carried out in Wales by Macmillan, in which 89% of those surveyed said that the care that they received was either 'excellent' or 'very good'. You just cannot get away from these figures. We have heard endless doom and gloom this afternoon, and yet, we have got really good figures here.

We have also noted the results of the national survey for Wales at the end of May, which reported that 92% of people were satisfied with the care that they received from their GP and that 91% of people were satisfied with the care that they received at their last appointment at an NHS hospital. So, this discussion is in that context. We all, obviously, want to look at where there are failings in the health service, as there will always be, but this discussion is in that context of overall satisfaction and the overall feeling that the treatment is good, particularly in terms of cancer, which I am concentrating on today.

Again, there is good news on the cancer waiting times. The latest April 2014 figures show that 89.7% of those diagnosed with cancer via the urgent suspected cancer route started treatment within 62 days, and under the urgent pathway, over the last 12 months, the number of patients starting treatment within 62 days has risen by 15.8%. So, that is real progress—there is real improvement with the waiting times. For those patients who are newly diagnosed with cancer, not via the urgent route, 98.7% started treatment within 31 days. That is the highest April figure in the last four years. So, I think that Members in the Chamber ought to acknowledge this—that there is actual progress; it is definite progress and there is improvement. Obviously, we have to address the issues, but I think that you have to acknowledge these figures. It is worth noting that Wales has a higher performance target against a 62-day cancer standard than England—95% compared with 85%. However, I do agree that it is not always helpful to be forever comparing with England; we need to look at the progress that we are making here and what we are achieving.

Rwyf am siarad am y cynnydd gwirioneddol sy'n digwydd yn y GIG yng Nghymru. Rwy'n awyddus iawn i gyfeirio at driniaeth canser ac amserau aros canser. Rwy'n cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar ganser ac mae canolfan Felindre ac ysbyty'r Mynydd Bychan yn fy etholaeth, felly rwyf wedi meithrin cysylltiadau agos iawn â'r staff sy'n trin cleifion canser. Yn awr, ar ddechrau fy nghyfraniad, hoffwn sôn am y dathliad yfory i nodi degfed pen-blwydd y Banc Canser Cymru, dan arweiniad yr enwog Athro Malcolm Mason, sy'n chwarae rhan flaenllaw gyda gwaith y bio-bank yn y DU. Gwn y bydd y Gweinidog Iechyd ei hun yn bresennol. Fodd bynnag, rwy'n credu ar ddechrau fy araith yr hoffwn dalu teyrnged i'r clinigwyr hynny yn Felindre a'r ymchwilwyr am y ffordd y maent ar flaen y gad yn y DU ac Ewrop mewn triniaeth ar gyfer canser. Mae hefyd yn newyddion da iawn i gleifion canser fod Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £200 miliwn o gyllid arloesol i ddatblygu Canolfan Ganser Felindre a hyd yn oed i wella'r gofal a roddir i gleifion yno ymhellach. Rwy'n siŵr y byddwn i gyd wedi sylwi ar y cyfraddau boddhad uchel ar gyfer triniaethau canser yng Nghymru gyfan yn yr arolwg canser cenedlaethol cyntaf o brofiad cleifion a gynhaliwyd yng Nghymru gan Macmillan, lle dywedodd 89% o'r rhai a holwyd fod y gofal a gawsant naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Nid oes modd ichi ddianc rhag y ffigurau hyn. Rydym wedi clywed diflastod a gwae diddiwedd y prynhawn yma, ac eto, mae gennym ffigurau gwirioneddol dda yma.

Rydym hefyd wedi nodi canlyniadau'r arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru ar ddiwedd mis Mai, a oedd yn adrodd bod 92% o bobl yn fodlon â'r gofal a gawsant gan eu meddyg teulu, a bod 91% o bobl yn fodlon â'r gofal a gawsant yn eu hapwyntiad diwethaf mewn ysbyty GIG. Felly, mae'r drafodaeth hon yn y cyd-destun hwnnw. Rydym i gyd, yn amlwg, yn awyddus i edrych ar lle mae diffygion yn y gwasanaeth iechyd, gan y bydd bob amser ddiffygion, ond mae'r drafodaeth hon yn y cyd-destun o foddhad cyffredinol a'r teimlad cyffredinol bod y driniaeth yn dda, yn enwedig o ran canser, ac rwy'n canolbwyntio ar hynny heddiw.

Unwaith eto, mae newyddion da ar yr amseroedd aros canser. Mae'r ffigurau diweddaraf yn Ebrill 2014 yn dangos bod 89.7% o'r rhai a gafodd ddiagnosis canser drwy'r llwybr amheuaeth o ganser brys wedi dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod, ac o dan y llwybr brys, dros y 12 mis diwethaf, mae nifer y cleifion sy'n dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod wedi codi 15.8%. Felly, mae hynny'n gynnydd go iawn—mae gwelliant gwirioneddol yn yr amseroedd aros. Ar gyfer y cleifion hynny sydd newydd gael diagnosis o ganser, nid drwy'r llwybr brys, dechreuodd 98.7% driniaeth o fewn 31 diwrnod. Dyna'r ffigur uchaf ar gyfer mis Ebrill yn y pedair blynedd diwethaf. Felly, credaf y dylai Aelodau yn y Siambr gydnabod hyn—sef bod cynnydd gwirioneddol; ei fod yn gynnydd pendant ac mae gwelliant. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r materion hyn, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i chi gydnabod y ffigurau hyn. Mae'n werth nodi bod gan Gymru darged perfformiad uwch yn erbyn safon canser 62 diwrnod na Lloegr—95% o'i gymharu ag 85%. Serch hynny, rwy'n cytuno nad yw cymharu â Lloegr byth a hefyd bob amser yn ddefnyddiol; mae angen i ni edrych ar y cynnydd rydym yn ei wneud yma a'r hyn rydym yn ei gyflawni.

In May, a pilot project was launched to test new ways of measuring cancer waiting times in Wales. This will consist of a single pathway instead of 'urgent' and 'non-urgent'. I have heard opposition politicians actually say that this was a way of trying to change the targets and trying to change things. However, this was clinically driven. In fact, I was present at the meeting of the cancer alliance, where the clinicians from Velindre hospital explained this to the group and asked the group whether it would support it in trying out this new pathway. I was actually there when the clinicians did it, so there is no way that this was an effort to try to avoid the lists; I was there. These pilot projects will take place from 1 May to 30 September. Then, the impact of the changed way of looking at waiting lists will then be measured and evaluated. I know that the main clinician, who was driving this, felt very strongly that this was the way to go, but obviously we need to do it with projects and we need to evaluate. I hope that, maybe, we will achieve even more with the cancer waiting lists with this new way of approaching them.

Ym mis Mai, lanswyd prosiect peilot i brofi ffyrdd newydd o fesur amseroedd aros cancer yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys llwybr sengl yn hytrach na 'brys' a 'dim brys'. Rwyf wedi clywed gwleidyddion y gwrthbleidiau mewn gwirionedd yn dweud bod hyn yn ffordd o geisio newid y targedau ac yn ceisio newid pethau. Fodd bynnag, ysgogiad clinigol sy'n sail i hyn. Yn wir, yr oeddwn yn bresennol yng nghyfarfod y gynghrair cancer, lle'r eglurodd clinigwyr ysbyty Felindre hyn i'r grŵp gan ofyn a fyddai'r grŵp yn barod i'w cefnogi i roi'r llwybr newydd hwn ar waith. Mewn gwirionedd, roeddwn i'n bresennol pan ofynnodd y clinigwyr hynny, felly nid ymdrech i geisio osgoi'r rhestrau yw hyn o gwbl; roeddwn i yno. Bydd y prosiectau peilot yn cael eu cynnal o 1 Mai tan 30 Medi. Yna, bydd effaith y dull newydd o edrych ar restrau aros yn cael eu mesur a'u gwerthuso. Gwn fod y prif glinigydd, a oedd yn hyrwyddo hyn, yn teimlo'n gryf iawn mai dyma oedd y ffordd ymlaen, ond yn amlwg mae angen i ni wneud hynny gyda phrosiectau ac mae angen i ni werthuso. Rwy'n gobeithio, efallai, y byddwn yn cyflawni hyd yn oed mwy gyda rhestrau aros cancer trwy gyfrwng y ffordd newydd hon.

I have listened to most of my colleagues on the other side of the Chamber, but I am going to tell you my personal story as an Assembly Member. I am often giving personal letters from different constituents to the Ministers and the job is done properly—must admit that. However, in 2013, a patient had dislocated her shoulder. She and her husband were both over 65 and had worked all of their lives and had a family. She went to the doctor, who recommended that she go to see a hospital consultant. That was in January 2013, but, somehow, mysteriously, the letter had never reached the hospital. So, a phone call was made in April and it was clear that the hospital had never received a letter, so another letter was sent to the hospital. This lady eventually went to hospital and was told, in terms of her treatment waiting time, that she was still on the waiting list. So, the lady went to see her doctor, and the doctor said, 'Your right shoulder has been dislocated, and instead of where the jelly should be, the bones are crushing'. She was in awful pain because there was powder instead of jelly around the bone in the right shoulder. She could not sleep, so she had to go to a private consultant. She had two injections in September last year that did not work. The advice from the doctor was that it might or might not work. So, this year, she went to another private consultant. Three injections were given, but nothing happened. She was given advice to go to the NHS again, because an operation would cost over £3,000. If she paid that money, she could get that operation done within a week. What a shame. This family has been paying for the NHS all their life. She is 69 years old. She has not slept on her right shoulder for the last two years. Only this week, she went to the doctor in Newport, and the nurse told her to go to see her husband to increase NHS funds. She is my wife. That is unbelievable. I have not given that letter to the Minister personally, because she is my wife, but I must give credit to the Minister because whenever I have given letters to the Minister from my constituents, the job has been done. Sadly, the same nurse told her that she will not be treated until next February—that will be two years. What a shame, Minister. I am not giving you the letter because she is my wife. You do not know how poorly people are suffering with knee, shoulder and hip problems. They cannot walk; they cannot sleep. The pain they suffer is unexplainable to anyone in the Chamber.

One in seven people in Wales are currently on an NHS waiting list. One of those is my wife, but anyway. Nearly 425,000 are waiting for NHS treatment. What a shame. We all know the importance of carrying out early diagnostic tests. MRI scans and cystoscopies, for example, are vital in identifying any underlying health issues of concern. They are often used to identify whether a patient has cancer, a condition where early diagnosis is essential to ensuring effective treatment, because early treatment is a must, Minister, and the Welsh population is getting much older these days. For God's sake, look after these people. There is outcry in the areas where people are waiting for a very long time. They cannot afford to go private.

Rwyf wedi gwranddo ar y rhan fwyaf o'm cydweithwyr ar yr ochr arall i'r Siambr, ond rwy'n mynd i ddweud fy stori personol i wrthyhych chi fel Aelod o'r Cynulliad. Rwy'n aml yn rhoi llythyrau personol gan amrywiol etholwyr i Weinidogion ac mae'r gwaith yn cael ei wneud yn iawn—rhaid i mi gyfaddef hynny. Fodd bynnag, yn 2013, roedd claf wedi datgymalu ei hysgwydd. Roedd hi a'i gŵr dros 65 oed ac wedi gweithio gydol eu hoes ac roedd teulu ganddynt. Aeth at y meddyg, a argymhellodd ei bod yn mynd i weld ymgynghorydd yn yr ysbyty. Yr oedd hynny ym mis Ionawr 2013, ond, rywsut, yn rhyfedd iawn, ni wnaeth y llythyr gyrraedd yr ysbyty. Felly, ym mis Ebrill yn dilyn galwad ffôn deallwyd nad oedd yr ysbyty erioed wedi derbyn llythyr, felly anfonwyd llythyr arall i'r ysbyty. Yn y pen draw aeth y wraig i'r ysbyty a dywedwyd wrthi, o ran yr amser aros am driniaeth, ei bod yn dal i fod ar y rhestr aros. Felly, aeth y wraig i weld ei meddyg, a dywedodd y meddyg, 'Mae eich ysgwydd dde wedi cael ei datgymalu, ac mae'r esgyrn yn gwasgu yn erbyn ei gilydd yn hytrach na bod jeli rhyngddynt'. Roedd hi mewn poen ofnadwy am mai powdr yn hytrach na jeli oedd o amgylch yr asgwrn yn yr ysgwydd dde. Ni allai gysgu, felly roedd yn rhaid iddi fynd i weld ymgynghorydd preifat. Cafodd ddau bigiad ym mis Medi y llynedd ond wnaeth hynny ddim gweithio. Y cyngor gan y meddyg oedd y gallai weithio neu efallai na fyddai'n gweithio. Felly, eleni, aeth at ymgynghorydd preifat arall. Cafodd dri phigiad, ond ni ddigwyddodd dim. Cafodd gyngor i fynd at y GIG eto, oherwydd byddai llawdriniaeth yn costio dros £3,000. Pe bai hi'n talu'r arian hwnnw, gallai gael y llawdriniaeth honno o fewn wythnos. Mae'n gywilydd. Mae'r teulu wedi bod yn talu am y GIG ar hyd eu hoes. Mae hi'n 69 mlwydd oed. Nid yw hi wedi cysgu ar ei hysgwydd dde am y ddwy flynedd ddiwethaf. Yr wythnos ddiwethaf hon, aeth at y meddyg yng Nghasnewydd, a dywedodd y nyrs wrthi am fynd i weld ei gŵr i ofyn iddo gynyddu cyllid y GIG. Hi yw fy ngwraig. Mae hynny'n anghredadwy. Nid wyf wedi rhoi'r llythyr i'r Gweinidog yn bersonol, oherwydd ei bod yn wraig i mi, ond mae'n rhaid i mi roi clod i'r Gweinidog, oherwydd prydd bynnag rwyf wedi rhoi llythyrau i'r Gweinidog oddi wrth fy etholwyr, mae'r gwaith wedi cael ei wneud. Yn anffodus, dywedodd yr un nyrs wrthi na chaiff ei thrin tan fis Chwefror nesaf—dyna ddwy flynedd. Dyna drueni, Weinidog. Nid wyf yn rhoi'r llythyr i chi am mai hi yw fy ngwraig. Wyddoch chi ddim i ba raddau mae pobl yn dioddef gyda phroblemau pen-glin, ysgwydd a chlun. Nid ydynt yn gallu cerdded; nid ydynt yn gallu cysgu. Nid oes modd disgrifio'r boen y maent yn ei dioddef i unrhyw un yn y Siambr.

Mae un person o bob saith yng Nghymru ar hyn o bryd ar restr aros y GIG. Un o'r rheini yw fy ngwraig, ond beth bynnag. Mae bron 425,000 yn aros am driniaeth y GIG. Dyna drueni. Rydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw cynnal profion diagnostig cynnar. Mae sgan MRI a systosgopi, er enghraifft, yn hanfodol i ganfod unrhyw broblemau iechyd sylfaenol sy'n peri pryder. Maent yn cael eu defnyddio'n aml i ganfod canser mewn cleifion, cyflwr lle mae diagnosis cynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau triniaeth effeithiol, gan fod triniaeth gynnar yn hanfodol, Weinidog, a phoblogaeth Cymru yn mynd yn llawer hŷn y dyddiau hyn. Er mwyn Duw, gofawch am y bobl hyn. Mae yna deimladau chwyrn yn yr ardaloedd lle mae pobl yn aros am amser hir iawn. Ni allant fforddio i fynd yn breifat.

The NHS in the United Kingdom and in Wales is run very nicely by Indian doctors. Why can you not import a few doctors and get the job done, for God's sake? Get the job done whatever way you want.

Mae'r GIG yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru yn cael ei redeg yn braf iawn gan feddygon Indiaidd. Pam na allwch chi fewnforio ychydig o feddygon a chyflawni'r gwaith, er mwyn Duw? Cyflawni'r gwaith pa bynnag ffordd yr ydych yn dymuno.

The urgent cancer waiting time target has not been met since 2008, Minister. The Welsh Government has responded to its total failure in this regard by changing the way it measures waiting times for cancer patients. The Aneurin Bevan health board warned that if the target was to be met, consideration may have to be given to using other measures, and I mean private measures.

Nid yw'r targed amser aros canser brys wedi cael ei gyrraedd ers 2008, Weinidog. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'w methiant llwyr yn hyn o beth drwy newid y ffordd y mae'n mesur amseroedd aros ar gyfer cleifion canser. Rhybuddiodd bwrdd iechyd Aneurin Bevan er mwyn cyrraedd y targed, efallai y bydd yn rhaid ystyried defnyddio dulliau eraill, ac rwy'n golygu darpariaeth breifat.

Deputy Presiding Officer, five minutes is not enough. Give us more time so that we can tell the Minister what we need to tell him.

Ddirprwy Lywydd, nid yw pum munud yn ddigon. Rhowch ragor o amser i ni fel y gallwn ddweud wrth y Gweinidog yr hyn mae angen i ni ddweud wrtho.

15:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Alas, I do not determine the rules of debate and the times that are allowed.

Ysyaeth, nid fi sy'n pennu'r rheolau trafod a'r amserau a ganiateir.

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

15:54 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

What a difference a day makes. Yesterday we had thoughtful discussion and offers of collaboration. Today, there was a sad reversion by the official opposition to the politics of distortion and despair, in which every problem is a crisis, every difficulty is a scandal and every setback is a tragedy. There was not a good word to be had between them for the Welsh NHS. Any dispassionate person listening to what we have heard from the benches behind me could only conclude that the distinguishing characteristic of their policy for the NHS is to go on giving it a sound beating until morale improves—[Interruption.]

Fel y mae'r rhod yn troi. Ddoe cawsom drafodaeth feddylgar a chynigion o gydweithio. Heddiw, gwelsom yr wrthblaid swyddogol yn troi yn eu holau i wleidyddiaeth o ystumio ac anobaith, lle mae pob problem yn argyfwng, pob anhawster yn warth a phob cam yn ôl yn drasiedi. Nid oedd gan yr un ohonynt un gair da i'w ddweud am y GIG yng Nghymru. Yr unig gasgliad y deuai unrhyw berson diduedd o wrando ar yr hyn a glywsom gan y meinciau y tu ôl i mi yw mai nodwedd neilltuol eu polisi ar gyfer y GIG yw parhau i roi crasfa go iawn iddo tan y bydd y morâl yn gwella—[Torri ar draws.]

15:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The Minister listened in total respect and silence to the Conservative speeches and while I suppose that it is too much to expect total silence, you will respect and listen to him appropriately. I call the Minister.

Trefn. Gwrandawodd y Gweinidog ar areithiau'r Ceidwadwyr gyda pharch a distawrwydd llwyr, ac er fy mod yn siŵr y byddai'n ormod i ddisgwyl tawelwch llwyr, a fydech cystal â pharchu a gwrando arno yn briodol. Galwaf ar y Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Dirprwy Lywydd. Three old and hackneyed themes have been dusted down and given a run around the Chamber this afternoon by the official opposition: the record-breaking cuts; the everything-is-getting-worse-in-the-NHS theme; and the everywhere-is-better-than-Wales theme. On record-breaking cuts, yesterday, in the Chamber, we heard how the Welsh NHS has been sheltered from more than two thirds of the record-breaking cuts that their Government has imposed on public services here in Wales. Today, we hear from Monitor, the official body set up in England, which they so much prefer, that, next year, there will be a £1.2 billion gap in the English NHS, whatever that NHS is able to do. Janet Finch-Saunders reminded us that there has been a Labour Government here in Wales—thank goodness—for 15 years. Let us look back at what this Assembly inherited when it was set up. Five-year waits were not unusual at the start of devolution. Today, the standard wait from referral to treatment in Wales is 10 weeks—not the 18-month waits for a first outpatient appointment and the further 18-month wait after that for treatment, which the system inherited here from the party that stands behind me. Here is a service that, today, sees and treats more patients than at any point in its history, with 650,000 more outpatient attendances in every single year today than when this Assembly began. There has been a 20% increase in planned operations carried out every single year and 137,000 more operations than when this Assembly came into being. There were three times the number of people referred each month for cancer treatment in 2014 as in 2006, and they are treated faster than ever before. We did not hear a single sentence from the opposition party about these key facts, and nor did we hear that nine out of 10 people said that they were satisfied with the care that they received in the Welsh NHS. Their performance in the Chamber this afternoon absolutely belies these satisfaction levels.

Now, of course, performance is not as good as we would like it to be in some areas of the NHS. Some people do wait too long for treatment and some people wait too long for diagnostic tests as well. There are reasons for that, and David Rees referred to some of them and Elin Jones made an important point about learning from elsewhere. I am very willing to learn from success anywhere else in the NHS in this country and beyond. I am very willing to learn from Norman Lamb, the Liberal Democrat Minister for health, when he said this winter that ambulance targets posed a massive risk to distorting clinical priorities, which is why we have started to embark on a more clinically informed set of priorities for the NHS in Wales. I am very keen to learn from some of the work going on in Scotland to improve the quality and efficiency of outpatient services. What did Scotland find when it carried out its recent in-depth study of the difficulties experienced in outpatient appointments? What it found was that outpatient lists are full of people who are there simply waiting for routine appointments, but there is huge variation between one part of Scotland and another. There are huge opportunities to drive out wastefully ordered diagnostic tests in order to make sure that those people whose need is urgent get the attention in a timely fashion. There are things that we can learn and things that we want to learn, too.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Mae tair thema hen ac ystrydebol wedi cael eu llusgo o'r llwch a'u cyflwyno i'r Siambr y prynhawn yma gan yr wrthblaid swyddogol: y toriadau sy'n torri record; y thema bod popeth yn y GIG yn gwaethygu; a'r thema bod pobman yn well na Chymru. O ran toriadau sy'n torri record, ddoe, yn y Siambr, clywsom sut y mae'r GIG yng Nghymru wedi cael ei gwarchod rhag mwy na dwy ran o dair o'r toriadau torri record y mae eu Llywodraeth hwy wedi gosod ar wasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru. Heddiw, rydym yn clywed gan Monitor, y corff swyddogol a sefydlwyd yn Lloegr sydd gymaint gwell ganddynt hwy, y bydd bwlch y flwyddyn nesaf o £1.2 biliwn yn y GIG yn Lloegr, waeth beth a lwydda'r GIG i'w wneud. Bu i Janet Finch-Saunders ein hatgoffa y cafwyd Llywodraeth Lafur yma yng Nghymru—diolch byth—am 15 mlynedd. Gadewch i ni edrych yn ôl ar yr hyn a etifeddodd y Cynulliad hwn pan gafodd ei sefydlu. Nid oedd aros pum mlynedd yn anarferol ar ddechrau datganoli. Heddiw, yr amser aros safonol o atgyfeirio hyd at y driniaeth yng Nghymru yw 10 wythnos—nid yw'r arosiadau 18 mis am apwyntiad cyntaf claf allanol a'r cyfnod pellach o aros am 18 mis i gael triniaeth, sef y system a etifeddwyd yma oddi wrth y blaidd sy'n sefyll y tu ôl i mi. Dyma wasanaeth sydd, heddiw, yn gweld ac yn trin mwy o gleifion nag ar unrhyw adeg yn ei hanes, gyda 650,000 mwy o ymweliadau cleifion allanol ym mhob blwyddyn heddiw na phan ddechreuodd y Cynulliad hwn. Bu cynnydd o 20% yn y llawdriniaethau a gynlluniwyd a gafodd eu cynnal bob blwyddyn gron a 137,000 mwy o lawdriniaethau na phan ddaeth y Cynulliad hwn i fodolaeth. Atgyfeiriwyd tair gwaith cymaint o bobl bob mis ar gyfer triniaeth ganser yn 2014 nag a wnaed yn 2006, ac maent yn cael eu trin yn gynt nag erioed o'r blaen. Chlywsom ni'r un frawddeg gan yr wrthblaid am y ffeithiau allweddol hyn, na chwaith am y naw person o bob 10 a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r gofal a gawsant yn y GIG yng Nghymru. Mae eu perfformiad yn y Siambr y prynhawn yma yn llwyr wadu'r lefelau bodlonrwydd hyn.

Wrth gwrs, nid yw'r perfformiad cystal ag yr hoffem iddo fod mewn rhai meysydd o'r GIG. Mae rhai pobl yn aros yn rhy hir am driniaeth ac mae rhai pobl yn aros yn rhy hir am brofion diagnostig hefyd. Mae rhesymau am hynny, a chyfeiriodd David Rees at rai ohonynt a gwnaeth Elin Jones bwynt pwysig ynglŷn â dysgu gan leoedd eraill. Rwy'n barod iawn i ddysgu am lwyddiant yn unrhyw le arall yn y GIG yn y wlad hon a thu hwnt. Rwy'n barod iawn i ddysgu oddi wrth Norman Lamb, Gweinidog Iechyd y Democratiaid Rhyddfrydol, pan ddywedodd y gaeaf hwn fod targedau ambiwlans yn peri risg enfawr i ystumio blaenoriaethau clinigol, a dyna pam rydym wedi dechrau ar gyfres o flaenoriaethau sy'n cael eu llywio'n glinigol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Rwy'n awyddus iawn i ddysgu oddi wrth ychydig o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn yr Alban i wella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cleifion allanol. Beth a ddysgodd yr Alban ar ôl cynnal ei astudiaeth fanwl ddiweddar o'r anawsterau a brofwyd gydag apwyntiadau cleifion allanol? Canfu'r astudiaeth fod rhestrau cleifion allanol yn llawn o bobl sy'n aros am apwyntiadau rwtin, ond mae amrywiaeth enfawr rhwng un rhan o'r Alban a'r llall. Mae cyfleoedd enfawr i gael gwared ar archebu profion diagnostig gwastraffus er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl hynny sydd angen sylw ar frys yn ei gael yn brydlon. Mae yna bethau y gallwn eu dysgu a phethau rydym yn awyddus i'w dysgu, hefyd.

However, the idea that everything is automatically better somewhere else, Dirprwy Lywydd, is simply not true. The English NHS missed its 85% target for cancer treatment within 62 days, in its most recent figures. It has on its waiting list for treatment a population the size of Wales. The idea that the English NHS is some land of milk and honey where everything is done in a timely fashion simply does not stand up to examination, and the Conservative party, which is the mouthpiece of the English NHS here in Wales, really ought to know better.

Llywydd, last month, at a conservative estimate, 7 million diagnostic tests in a single month will have been ordered in the Welsh NHS. Today, over half of the tests that were ordered last month will already have been completed, because the standard wait for diagnostics in Wales is four weeks. Of those thousands of patients referred for treatment when this Assembly broke up for Easter, over half will have completed their journey from referral to treatment having been concluded by today, because of a standard wait of 10 weeks. Of those patients referred for cancer treatment on 1 May via the urgent route, 98.7% will have begun definitive treatment by the last day of the same month. Today's motion and its amendments, Dirprwy Lywydd, paint a picture of the Welsh NHS that is partial, selective, unfocused and unfair. The Government will oppose it all.

Fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, yn ddigon syml, nid yw'r syniad ynddo'i hun fod popeth yn well yn rhywle arall yn wir. Yn ei ffigurau diweddaraf, methodd y GIG yn Lloegr ei tharged 85% ar gyfer triniaeth canser o fewn 62 diwrnod. Mae ganddo niferoedd sydd yr un maint â phoblogaeth Cymru gyfan ar ei restrau aros. Nid yw'r syniad bod y GIG yn Lloegr yn 'llifeirio o laeth a mêl' lle mae popeth yn cael ei wneud yn brydlon yn dal dŵr, ac mewn gwirionedd dylai'r blaid Geidwadol, sy'n lladmerydd i'r GIG yn Lloegr yma yng Nghymru, wybod yn well.

Lywydd, y mis diwethaf, yn ôl amcangyfrif ceidwadol, bydd 7 miliwn o brofion diagnostig wedi cael eu harchebu yn y GIG yng Nghymru mewn un mis. Heddiw, mae dros hanner y profion a archebwyd y mis diwethaf eisoes wedi cael eu cwblhau, oherwydd mai'r cyfnod aros safonol ar gyfer diagnosteg yng Nghymru yw pedair wythnos. O'r miloedd hynny o gleifion a atgyfeiriwyd i gael triniaeth pan dorrodd y Cynulliad hwn ar gyfer y Pasg, bydd mwy na'u hanner wedi cwblhau eu taith o'r cam atgyfeirio hyd at eu trin erbyn heddiw, yn sgîl cyfnod aros safonol o 10 wythnos. O blith y cleifion hynny y cyfeiriwyd atynt ar gyfer triniaeth ganser ar 1 Mai drwy'r llwybr brys, bydd 98.7% wedi dechrau triniaeth ddiffiniol erbyn diwrnod olaf yr un mis. Mae'r cynnig heddiw a'i welliannau, Ddirprwy Lywydd, yn dangos darlun o GIG Cymru sy'n unochrog, yn ddetholus, yn ddi-ffocws ac yn annheg. Bydd y Llywodraeth yn gwrthwynebu'r cyfan ohono.

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Antoinette Sandbach to reply to the debate.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:02 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, that reply was the politics of distortion and your answers will be the politics of despair for the patients who are left waiting for diagnosis and treatment. You said that there was not a good word to be said about the NHS; you obviously did not hear what Janet Finch-Saunders said about the staff who have to deal with the consequences of those delayed diagnostics; GPs who have to tell their patients, because they have been waiting so long for a diagnostic test that they now have cancer. It is about outcomes, Minister. It is not about the numbers that you get through the door, although, I am delighted that you referred to the appalling state that the NHS was in in 1999 under the Labour Government in the UK.

You have had 15 years to sort this out, and I understand and accept the satisfaction that the 14,000 people who replied to the Welsh Government survey on their satisfaction levels—that 89% satisfaction rate. The response rate for that survey was 14,500 patients. Now, I doubt that the 10,000 patients in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area who had their operations cancelled replied to that survey.

I appreciate that it is very good news for Julie Morgan to have £200 million invested in the Velindre Cancer Centre, but we have had busloads of people coming up from Withybush today because their hospital is being closed. I appreciate that that is good news, but Velindre is hours away from my patients in north Wales and they do not have access to those consultants who are undertaking the record-breaking research.

Wel, Weinidog, roedd yr ateb hwnnw'n wleidyddiaeth o ystumio a bydd eich atebion yn wleidyddiaeth o anobaith i'r cleifion sy'n cael eu gadael i aros am ddiagnosis a thriniaeth. Bu i chi ddweud nad oedd gair da i'w ddweud am y GIG; mae'n amlwg na chlywsoch chi'r hyn a ddywedodd Janet Finch-Saunders am y staff sy'n gorfod delio â chanlyniadau rhai sy'n wynebu oedi o ran diagnosteg; meddygon teulu sy'n gorfod dweud wrth eu cleifion, oherwydd eu bod wedi bod yn aros mor hir am brawf diagnostig eu bod bellach yn dioddef o ganser. Mae'n ymwneud â chanlyniadau, Weinidog. Nid y niferoedd a gewch drwy'r drws sy'n bwysig, er, rwyf wrth fy modd eich bod wedi cyfeirio at gyflwr echrydus y GIG yn 1999 o dan Lywodraeth Lafur y DU.

Rydych wedi cael 15 mlynedd i ddatrys hyn, ac rwy'n deall ac yn derbyn y boddhad bod y 14,000 o bobl a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru ynghylch lefelau boddhad—y gyfradd boddhad honno o 89%. Y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg hwnnw oedd 14,500 o gleifion. Ond, rwy'n amau y bu i'r 10,000 o gleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr y canslwyd eu llawdriniaethau ymateb i'r arolwg hwnnw.

Rwy'n sylweddoli bod cael £200 miliwn o fuddsoddiad yng Nghanolfan Ganser Felindre yn newyddion da iawn i Julie Morgan, ond cawsom fysiau llawn o bobl yn dod i fyny o Lwyn Helyg heddiw oherwydd bod eu hysbyty yn cael ei gau. Rwy'n sylweddoli bod hynny'n newyddion da, ond mae Felindre oriau i ffwrdd o'm cleifion innau yn y gogledd, ac nid oes ganddynt fynediad at yr ymgynghorwyr hynny sy'n cyflawni'r gwaith ymchwil sy'n torri tir newydd.

The real tragedy, which every Assembly Member has spoken about in this debate and that the Government refuses to recognise, is the tragedy of a family looking at a family member in pain or anxiety, waiting to know what is wrong with them. It is the delays in diagnostics that lead to delays in treatment.

Dewi Evans, a Carmarthenshire-based doctor said

'These investigations are the mainstay of early and accurate diagnoses of life-threatening conditions. In terms of significance, these are the most disturbing NHS statistics I have seen in many years.'

Minister, that is the politics of despair, the despair of the medical professionals working in the NHS who want to see the very best outcomes for their patients and who want to know what is wrong with their patients so that they can then refer them for treatment.

I accept, as David Rees has mentioned, that there are issues around recruitment, and there is no doubt that that is an issue facing health boards across Wales. However, when patients cannot get access to those specialist diagnostic services or cannot get access to a specialist, and when they then go over the border and are told, 'If you were an English patient, you would be treated in 18 weeks, but because you are a Welsh patient, you have to wait 36 weeks', that is where the deep sense of injustice and grievance comes, because they feel that they are being discriminated against because they are Welsh patients. That is something that people have written to me about time and again.

I appreciate, Minister, that it is not all bad news. I do understand that, but you are burying your head in the sand instead of taking up the suggestion that Elin Jones made about looking at Scotland, seeing where we can make the improvements and why it is working in England and Scotland but not working here. We are calling on you—this debate was scheduled to ask you to act, to do something about it and to make sure that we have better outcomes in Wales than we have currently. Every single Assembly Member in the Chamber will have had patients writing to them about their operations being delayed and cancelled and about not being able to access treatment. That is why, Minister, we have tabled this debate and that is why the opposition parties have spoken in the way that we have done. We are telling you the truth.

Y trychineb go iawn, y mae pob Aelod o'r Cynulliad wedi siarad amdano yn y ddadl hon ac y mae Llywodraeth yn gwrthod ei gydnabod, yw trychineb y teulu sy'n gofalu am aelod o'r teulu sydd mewn poen neu drallod, yn aros i wybod beth sydd o'i le arnynt. Yr oedi mewn diagnosteg sy'n arwain at oedi mewn triniaethau.

Meddai Dewi Evans, meddyg yn Sir Gâr

'Yr ymchwiliadau hyn yw conglfaen diagnosis cynnar a chywir o gyflyrau sy'n peryglu bywydau. O ran arwyddocâd, dyma'r ystadegau GIG mwyaf dychrynlyd yr wyf wedi eu gweld ers blynyddoedd lawer.'

Weinidog, mae hynny'n wleidyddiaeth anobaith, anobaith y gweithwyr proffesiynol meddygol sy'n gweithio yn y GIG sydd am weld y canlyniadau gorau ar gyfer eu cleifion ac sydd eisiau gwybod beth sydd o'i le ar eu cleifion fel y gallant wedyn eu cyfeirio am driniaeth.

Rwy'n derbyn, fel i David Rees sôn, bod yna faterion yn ymwneud â recriwtio, ac nid oes amheuaeth fod hon yn broblem sy'n wynebu byrddau iechyd ar draws Cymru. Fodd bynnag, pan na all cleifion gael mynediad at y gwasanaethau diagnostig arbenigol hynny neu os na allant gael mynediad at arbenigwr, a phan fyddant wedyn yn mynd dros y ffin ac yn cael gwybod, 'Pe byddech yn glaf yn Lloegr, byddech yn cael eich trin o fewn 18 wythnos, ond oherwydd eich bod yn glaf o Gymru, rhaid i chi aros 36 wythnos', dyna o le y daw'r ymdeimlad dwfn o anghyfiawnder a chwyno, oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu bod yn gleifion yng Nghymru. Mae hynny'n rhywbeth y mae pobl wedi ysgrifennu ataf yn ei gylch dro ar ôl tro.

Rwy'n gwerthfawrogi, Weinidog, nad yw'n newyddion drwg i gyd. Rwy'n deall hynny, ond rydych yn claddu eich pen yn y tywod yn hytrach na dilyn yr awgrym a wnaeth Elin Jones am edrych ar yr Alban, gweld lle y gallwn wneud y gwelliannau a pham ei fod yn gweithio yn Lloegr a'r Alban, ond nad yw'n gweithio yma. Rydym yn galw arnoch—roedd bwriad i'r ddadl hon ofyn i chi weithredu, i wneud rhywbeth am y peth a gwneud yn siŵr ein bod yn cael gwell canlyniadau yng Nghymru nag sydd gennym ar hyn o bryd. Bydd pob un Aelod Cynulliad yn y Siambr wedi cael cleifion yn ysgrifennu atynt am eu llawdriniaethau'n cael eu gohirio a'u canslo ac am eu methiant i gael gafael ar driniaeth. Dyna pam, Weinidog, ein bod wedi cyflwyno'r ddadl hon a dyna pam y mae'r gwrthbleidiau wedi siarad yn y ffordd y gwnaethant. Rydym yn dweud y gwir wrthyhch.

16:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that the motion be agreed without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore I defer voting on this item in till voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn heb welliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon nes y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dadl Plaid Cymru: Yr M4 o amgylch Casnewydd

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts. Os derbynir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.

Plaid Cymru Debate: The M4 around Newport

The following amendments have been selected: amendments 1, 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies, and amendment 2 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

16:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5529 Elin Jones

Motion NDM5529 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Cynllun drafft 'Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd'.
2. Yn nodi mai dewis Llywodraeth Cymru fyddai adeiladu M4 newydd dros Wastadeddau Gwent i'r de o Gasnewydd.
3. Yn credu y dylid diystyru'r llwybr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer M4 newydd ar sail amgylcheddol a gwerth am arian.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau i ôl troed ffordd yr A48 bresennol o amgylch Casnewydd fel yr amlinellwyd yng nghysyniad y 'Llwybr Glas'.
5. Yn credu na ddylai pwerau benthyca i Gymru fod yn seiliedig ar gymorth Llywodraeth Cymru i brosiect penodol, ond y dylent fod ar gael i'w defnyddio ar draws y cyfan o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

1. Notes the Welsh Government's draft Plan Consultation Document 'M4 Corridor around Newport'.
2. Notes the Welsh Government's preference to construct a new M4 over the Gwent Levels to the south of Newport.
3. Believes that the Welsh Government's preferred route for a new M4 should be ruled out on environmental and value for money grounds.
4. Calls on the Welsh Government to support improvements to the existing A48 road footprint around Newport as outlined in the 'Blue Route' concept.
5. Believes that borrowing powers for Wales should not be predicated on Welsh Government support for a specific project, but should be available for use across the whole of the Wales Infrastructure Investment Plan.

16:08

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynigiau y cynnig yn enw Elin Jones.

I move the motion tabled in the name of Elin Jones.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Diolch am y cyfle i gael cyflwyno'r ddadl y prynhawn yma. A gaf i ddweud i ddechrau, yn gwbl glir, ein bod ni ym Mhlaid Cymru am weld ateb i broblem tagfeydd yr M4 yng Nghasnewydd? Rydym ni hefyd eisieu ateb buan er lles economi Cymru, yn enwedig, wrth gwrs, yng nghoridor yr M4 ac ar draws y de, ac rydym am gael ateb sy'n gyfrifol yn ariannol. Rydym ni'n gwbl argyhoeddedig bod ateb sy'n cyrraedd yr amcanion hyn, a gofyn rydym ni i'r Llywodraeth edrych rŵan ar weithredu'r ateb hwnnw.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Thank you for the opportunity to open this debate this afternoon. May I say at the outset quite clearly that we in Plaid Cymru want to see a solution to the problem of traffic jams on the M4 around Newport? We also want a swift solution for the benefit of the Welsh economy, particularly, of course, along the M4 corridor and across south Wales, and we also want a financially responsible solution. We are entirely convinced that there is a solution that meets these criteria and we are asking the Government now to look at implementing that solution.

I really want to be clear, at the outset, that we want to move forward as quickly, as effectively and as responsibly as possible to resolve the M4 congestion issue in the Newport area. We need to do that for the good of the Welsh economy, especially the south Wales economy. We believe that the Government has set a course to taking the wrong option, and now is the time for the Minister to take an objective look at the options in front of her. If she does so, I am convinced she will see that there is a way forward.

Rwy'n awyddus iawn i fod yn glir, ar y cychwyn, ein bod yn awyddus i symud ymlaen mor gyflym, mor effeithiol ac mor gyfrifol ag y bo modd i ddatrys mater tagfeydd yr M4 yn ardal Casnewydd. Mae angen i ni wneud hynny er lles economi Cymru, yn enwedig economi'r de. Rydym yn credu bod y Llywodraeth wedi penderfynu ar drywydd i gymryd dewis anghywir, a dyma'r amser i'r Gweinidog gymryd golwg wrthrychol ar yr opsiynau o'i blaen. Os bydd yn gwneud hynny, rwy'n argyhoeddedig y bydd yn gweld bod yna ffordd ymlaen.

May I also, at the outset, comment on the suggestion of the First Minister yesterday that somehow the tabling of this motion today is ill-judged, that we should somehow wait for the Minister to give us the green light, and then make our pitch? May I say that I find it rather insulting to this institution and its procedures to suggest that we should, in some way, limit our capacity to scrutinise the Government and hold the Government to account to suit its timetable? The Environment and Sustainability Committee has taken its opportunity to ask its questions and influence the debate, by writing to the Minister to raise a number of concerns, and the Institute of Directors has made its views known in an attempt to influence this decision, as has the Federation of Small Businesses. We are taking this opportunity today, and we all hope to be able to help the Minister to make the right choice.

Mae'r Llywodraeth hon, yn ei hymgyngoriad ar goridor yr M4 o gwmpas Casnewydd, yn dweud mai ei dewis yw M4 newydd i'r de o Gasnewydd, ar hyd yr hyn rydym wedi dod i'w adnabod fel y llwybr du. Amcangyfrifir y byddai'r gost yn rhyw £936 miliwn. Rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi gwrthwynebu'r llwybr du yn gyson a galw am ystyried opsiynau eraill. Er bod ein safbwynt ni fel plaid wedi ei hen sefydlu ac wedi bod yn gyson, rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod hwn yn dal yn fater lle mae cryn ymchwil iddo o hyd—yr ymgynghoriad ei hun wrth gwrs ac rydym hefyd yn croesawu'r craffu ar ymgynghoriad y Llywodraeth gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a gychwynwyd dan y cadeirydd blaenorol, Dafydd Elis-Thomas, ac sydd wedi parhau dan gadeiryddiaeth Alun Ffred Jones.

Rydym hefyd yn croesawu'r llythyr a ysgrifennwyd gan Gadeirydd y pwyllgor ar 5 Mehefin yn gofyn nifer o gwestiynau penodol, gan ofyn a fydd y Llywodraeth yn ystyried y llwybr glas. Dyna sydd wrth wraidd ein cynnig ni y prynhawn yma. Mae ateb, sef ateb a fydd yn cyrraedd ein gofynion ni fel cenedl ac a fydd yn pasio'r gwahanol brofion y bydd arnom angen ei fesur yn eu herbyn.

Y llwybr glas yw'r syniad a osodwyd gan yr Athro Stuart Cole, mewn gwirionedd i ail-wneud coridor yr A48 ar hyd de Casnewydd i safon traffordd, yn hytrach na dechrau o'r dechrau gyda thraffordd newydd, sef y llwybr du. Mae'r syniad yn adeiladu ar y gwaith a wnaed, i ddechrau, gan Ieuan Wyn Jones pan oedd yn Weinidog trafniadaeth. Mae nifer o resymau pam rydym yn meddwl bod y llwybr glas yn cynnig yr ateb cywir. Yn gyntaf, mae'n ateb cynt i dagfeydd yr M4 na'r llwybr du. Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif na fydd y llwybr du wedi ei orffen tan 2031. Mae'r Athro Stuart Cole yn meddwl y gallai'r llwybr glas fod yn barod ddeng mlynedd neu fwy yn gynharach na hynny. Ddwy flynedd yn ôl, rwy'n meddwl, soniodd am ddyddiad cwblhau o 2018. Hyd yn oed drwy ganiatáu am ymgynghoriad llawn, byddwn yn edrych ar gael ateb llawer iawn cynt na'r llwybr du. Mae'r FSB a Sefydliad y Cyfarwyddwyr wedi cefnogi'r cynnig yn rhannol ar y seiliau hynny o ran amseru.

A gaf fi hefyd, ar y cychwyn, wneud sylw ar awgrym y Prif Weinidog ddoe bod cyflwyno'r cynnig hwn heddiw rywsut yn annoeth, y dylem rywsut aros i'r Gweinidog roi'r golau gwyrdd i ni, ac yna cyflwyno ein hachos? A gaf fi ddweud fy mod yn teimlo bod hynny braidd yn sarhaus i'r sefydliad hwn a'i weithdrefnau i awgrymu y dylem, mewn rhyw ffordd, gyfyngu ar ein gallu i graffu ar y Llywodraeth a dwyn y Llywodraeth i gyfrif i gyd-fynd â'i amserlen ef? Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi bachu ar ei gyfle i ofyn ei gwestiynau a dylanwadu ar y ddadl, drwy ysgrifennu at y Gweinidog i godi nifer o bryderon, ac mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr wedi gwneud ei farn yn hysbys mewn ymgais i ddylanwadu ar y penderfyniad hwn, fel y mae Ffederasiwn y Busnesau Bach. Rydym yn manteisio ar y cyfle hwn heddiw, ac rydym i gyd yn gobeithio y gallwn helpu'r Gweinidog i wneud y dewis cywir.

This Government, in its consultation on the M4 corridor around Newport has stated that its option is a new M4 to the south of Newport—what we have come to know as the black route. The estimated cost is some £936 million. We in Plaid Cymru have opposed that black route consistently and have called for the consideration of other options. Although our stance as a party is well established and has been consistent, we also welcome the fact that this is still a matter that is being widely researched—the consultation itself, of course. We also welcome the scrutiny of the Government consultation by the Environment and Sustainability Committee, started by the previous Chair, Dafydd Elis-Thomas, and which has continued under the chairmanship of Alun Ffred Jones.

We also welcome the letter written by the committee Chair on 5 June asking a number of specific questions, which included the question of whether the Government will consider the blue route. That is at the heart of our motion this afternoon. There is a solution, and one that will meet our objectives as a nation and which will pass the various tests that we need to measure it against.

The blue route is the concept set out by Professor Stuart Cole, in reality to remake the A48 corridor around the south of Newport and to upgrade it to the standard of a motorway, rather than starting with a new motorway, namely the black route. The concept builds upon work initially done by Ieuan Wyn Jones when he was Minister for transport. There are a number of reasons why we believe that the blue route offers us the correct solution. First, it provides a swifter solution to the problem of M4 traffic jams than the black route can provide. The Welsh Government estimates that the black route will not have been completed until 2031. Professor Stuart Cole believes that the blue route could be ready 10 years or so earlier. It was two years ago, I think, that he mentioned a completion date of 2018. Even given the time for a full consultation, we would be looking at getting a far swifter solution than the black route can provide. The FSB and the Institute of Directors have partly supported the proposal because of those timing issues.

Ail fantais y llwybr glas yw ei fod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn gwarchod gwastadeddau pwysig Gwent. Bydd siaradwyr eraill yn datblygu mwy ar y ddatl honno, ond mae pwysigrwydd gwastadeddau Gwent i fioamrywiaeth yn cael ei gydnabod yn helaeth y tu allan i'r Siambr hon, gan gynnwys gan grwpiau sydd yn debyg o ymgyrchu'n gryf yn erbyn colli unrhyw gynefinoedd ar y gwastadeddau.

Yn drydydd, mae'r llwybr glas yn fwy fforddiadwy ac yn rhoi gwerth am arian. Ar gost o £380 miliwn—er ein bod yn sylweddoli mai amcangyfrif yw hwn—mae'r llwybr glas yn cynnig arbedion sylweddol iawn o'i gymharu â M4 newydd neu'r dewisiadau eraill am ffyrdd i'r de o Gasnewydd.

O ran gwerth am arian, mae'r llwybr du yn darparu am fwy o draffig mewn blynyddoedd i ddod nag yr hyn y credwn y bydd yr achos. Mae hynny'n golygu mwy o gost na'r hyn a fydd ei angen. Mae trafodaeth ynglŷn â ffigurau defnydd ceir yn y dyfodol, ond, hyd yn oed yn ôl ffigurau'r Llywodraeth ei hun, mae'r llwybr du yn darparu am lawer mwy o alw nag y rhagdybir mewn difrif.

Y pwynt olaf yw bod y llwybr glas yn cymryd golwg ehangach wrth edrych ar fwy na dim ond y ffordd ei hun, gan edrych hefyd ar sut i fanteisio ar ddatblygiadau cludiant cyhoeddus ac ati, gan gynnwys y gobaith am fetro de-ddwyrain Cymru.

Beth petai'r rhagdybion traffig yn anghywir? Beth petai traffig yn cynyddu mwy? Oni fyddai bygythiad wedyn i lif traffig, i'r economi ac i fusnes? Dywedodd y Prif Weinidog ddoe fod yn rhaid i'r M4 newydd gael ei wneud yn iawn. Wel, rwy'n cytuno. Hoffwn ei gwneud yn glir iawn, er bod yr arbedion ariannol yn sylweddol, nad fersiwn salach fyddai'r llwybr glas. O ran diogelu'n llwyr ar gyfer y dyfodol—rhywbeth mae'r IoD wedi pwysleisio'i bwysigrwydd, yn hollol gywir—gallai'r llwybr glas gael ei ymestyn maes o law. Fodd bynnag, penderfyniad i'w gymryd yn y degawdau nesaf fyddai hynny, a byddem hefyd yn gobeithio y byddai cludiant cyhoeddus wedi'i ddatblygu'n ddigonol erbyn hynny i chwarae rhan fwy o lawer i gymryd traffig oddi ar y ffyrdd. Hyd yn oed pe baem yn gwneud yr estyniad hwnnw, byddai'n sylweddol rhatach na mynd am y llwybr du yn awr.

Hoffwn fanylu ar yr elfen ariannol, yng nghyd-destun pwerau benthyg a chyllidebau cyfalaf ac anghenion Cymru gyfan. Gwyddom fod ar Gymru gyfan angen buddsoddiadau cyfalaf. Nid ydym am osod wahanol ardaloedd neu wahanol rannau o Gymru benben â'i gilydd. Un genedl ydym ni. Fodd bynnag, byddai graddfa'r llwybr du a'i gost yn gweld clymu terfynau benthyca Cymru i un prosiect unigol. Mae hwnnw'n bwynt y mae'r FSB wedi datgan pryder difrifol yn ei gylich hefyd. Rydym hefyd yn gwybod bod Llywodraeth Prydain yn gwneud £500 miliwn yn unig ar gael i fenthycy cyfalaf ym Mil Cymru. Nid ydym wedi cael eglurhad ynghylch y £500 miliwn arall, ac o lle fyddai'r arian hwnnw'n dod, ar gyfer y llwybr du. Mae'n ddilys meddwl felly y gallai cyllidebau cyfalaf eraill gael eu llyncu.

The second advantage of the blue route is that it is more environmentally sustainable, protecting the important Gwent levels. Other contributors will develop that argument further, but the importance of the Gwent levels to biodiversity is widely recognised outwith this Chamber, including by groups that are likely to campaign strongly against the loss of any habitats on those levels.

Thirdly, the blue route is more affordable and provides value for money. At a cost of £380 million—although we realise that these are estimates—the blue route offers very significant savings, as compared with a new M4 or the alternative options for roads to the south of Newport.

In terms of value for money, the black route provides for greater traffic flows in years to come than we think will actually be the case. That will mean greater costs than necessary. This raises the issue of figures in relation to car use in the future, but, even according to the Government's own figures, the black route provides for far more demand than is actually forecast.

Finally, the blue route takes a wider view by taking into account more than just the road itself; it also looks at how we can benefit from developments in public transport and so forth, including the hope of having a south-east Wales metro.

What if the traffic forecasts are incorrect? What if traffic increases even further? Would there not then be a threat to traffic flows, to the economy and to business? The First Minister said yesterday that the new M4 must be done properly. Well, I agree. I would like to make it very clear that, although the financial savings are substantial, the blue route does not offer a poorer version. In terms of future proofing—the importance of which the IoD has stressed, quite correctly—the blue route could be extended in due course. However, that would be a decision taken in the next few decades, when hopefully we would have seen developments in public transport, where it could play a far greater role in taking traffic off the roads. Even if we were to build that extension, it would still be significantly cheaper than to go for the black route now.

I would like to elaborate on the financial element, in the context of borrowing powers and capital budgets and the needs of the whole of Wales. We know that the whole of Wales needs capital investment. We do not want to set different parts of Wales against each other. We are one nation. However, the scale of the black route and its cost would see the limits of Welsh borrowing anchored to one individual project. That is a point about which the FSB has expressed serious concerns. We also know that the UK Government is only making £500 million available for capital borrowing in Wales. We have not been given an explanation as to the other £500 million, and where would that money come from, for the black route. It is valid, therefore, to think that other capital budgets could be subsumed.

Rydym yn derbyn y posibilrwydd y gallai terfynau benthycu Cymreig gynyddu, yn enwedig os bydd pŵerau treth incwm yn cael eu datganoli. Ond eto, hyd yn oed o dan 'scenario' o'r fath, mae'r sefyllfa yn yr Alban, gyda datganoli treth incwm, yn gweld terfyn o £2.2 biliwn. Pan gymharwch chi boblogaeth Cymru â phoblogaeth yr Alban, mae'n dod yn amlwg iawn, mewn cyd-destun datganoledig, y byddai'r llwybr du yn debyg o lyncu mwyafrif helaeth unrhyw derfyn benthycu a allai gael ei osod i Gymru gan y Trysorlys. Hyd nes y cawn fwy o eglurder ar derfynau benthycu, dyna sut rydym yn gweld y sefyllfa.

Yn gynharach yn y broses o ddatblygu mynediad cynnar at fenthyca, roedd cryn sôn am welliannau i'r A55, er enghraifft, ond mae'r mater hwnnw fel pe bai wedi diflannu oddi ar yr agenda. Byddai Plaid Cymru yn dymuno gweld gwelliannau i'r A55 fel rhan o unrhyw fargen ar fenthyca, ond rydym hefyd yn gweld anghenion eraill: y metro yn y de-ddwyrain, er enghraifft, a allai gostio hyd at £2 biliwn. Mae mynd am y llwybr glas yn golygu, yn syml iawn, y gallu i gadw arian wrth gefn, sy'n gam synhwyrol i unrhyw Lywodraeth, fel y byddai i unrhyw unigolyn neu unrhyw deulu wrth gytuno ar eu cyllidebau. Felly, dyna rai o'r rhesymau pam ein bod ni wedi cael ein hargyhoeddi, a pham rydym yn gobeithio y gall y Gweinidog gael ei argyhoeddi hefyd.

Gadewch imi droi at y gwelliannau. Gwyddom fod y grŵp Ceidwadol wedi cefnogi cael M4 newydd i'r de o Gasnewydd. Nid ydym yn cytuno, felly, â gwelliant 1. Ni allwn gytuno ychwaith gyda gwelliant 3, na'r egwyddor y dylai unrhyw bwerau benthycu—gan gynnwys mynediad cynnar at bwerau benthycu—fod yn benodol ar gyfer yr M4. Nid yw i fyny i Lundain osod cyfyngiadau ar benderfyniadau'r Cynulliad na phenderfyniadau Llywodraeth Cymru ar sut i wario. Rydym nid yn unig yn derbyn, ond hefyd yn croesawu, gwelliant 4, a'r angen am symud ymlaen mor gyflym ag y gallwn ni. Rwy'n gobeithio bod y Ceidwadwyr, wrth gyflwyno'r gwelliant hwnnw, yn sylweddoli'r oedi mawr a fyddai'n deillio o fynd am y llwybr du. Rydym yn derbyn gwelliant 5 hefyd, sy'n nodi llythyr y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Rydym yn croesawu gwelliant 2 yn enw Aled Roberts, a'r pwynt pwysig y mae'n ei wneud am drafnidiaeth integredig.

Yn bennaf, cefnogwch ein cynnig heddiw. Gadewch inni symud ymlaen, rydym yn gobeithio, at sefyllfa lle gallwn ni gyd gytuno ar ateb cynaliadwy a fforddiadwy, a'r ateb iawn i economi Cymru inni gael datrys tagfeydd yr M4 a sicrhau bod Cymru yn agored i fusnes.

We accept the possibility that Welsh borrowing limits could be enhanced, especially if income tax powers are devolved. However, even under such a scenario, the situation in Scotland, with the devolution of income tax, sees a limit of £2.2 billion. When you compare the Welsh population to the population of Scotland, it becomes very apparent, in the devolved context, that the black route would likely absorb the vast majority of any borrowing limits set for Wales by the Treasury. Until we get more clarity on borrowing limits, that is how we see the situation.

Earlier in the process of developing early access to borrowing, there was much talk about improvements to the A55, for example, but that issue seems to have disappeared off the agenda. Plaid Cymru would wish to see improvements to the A55 as part of any deal on borrowing, but we also see other needs: the metro in south-east Wales, for example, which could cost up to £2 billion. Going for the blue route would mean, quite simply, the ability to retain funds in reserve, which is a sensible step for any Government, as it would be for any individual or any family in agreeing on their budgets. So, those are some of the reasons why we have been convinced, and why we hope that the Minister can be convinced too.

Let me turn to the amendments. We know that the Conservative group has supported a new M4 to the south of Newport. We do not agree, therefore, with amendment 1. We cannot agree with amendment 3 either, nor with the principle that any borrowing powers—including early access to borrowing powers—should be specifically for the M4. It is not up to London to set restrictions on Assembly decisions or on Welsh Government decisions on expenditure. We not only accept, but also welcome, amendment 4, and the need to progress as quickly as we can. I hope that the Conservatives, in moving that amendment, realise the huge delays that the black route would cause. We accept amendment 5, noting the Environment and Sustainability Committee letter. We welcome amendment 2 in the name of Aled Roberts, and the important point that he makes on integrated transport.

Above all, support our motion today. Let us progress, we hope, to a situation where we can all agree on a sustainable and affordable, solution and the correct solution for the Welsh economy so that we can resolve M4 congestion and ensure that Wales is open for business.

16:19

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the five amendments to the motion. I call on Byron Davies to move amendments 1, 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Dileu pwyntiau 3, 4 a 5.

Gwelliant 3—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Rwyf wedi dethol pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Byron Davies i gynnig gwelliannau 1, 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Amendment 1—Paul Davies

Delete points 3, 4 and 5.

Amendment 3—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn croesawu'r buddsoddiad gan Lywodraeth y DU a'r ymrwymiad i gael mynediad cynnar at bwerau benthyca er mwyn ariannu gwelliannau i'r M4;

Gwelliant 4—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod angen penderfyniad cynnar ynghylch cael ffordd i ysgafnhau'r tagfeydd ar seilwaith presennol yr M4 o amgylch Casnewydd, a rhoi'r penderfyniad hwnnw ar waith.

Gwelliant 5—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pryderon y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei lythyr yn dwyn y teitl 'Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd', ar 5 Mehefin 2014.

Welcomes the investment made by the UK Government and the commitment to access early borrowing powers to fund improvements to the M4;

Amendment 4—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Acknowledges the need for an early decision and implementation of a road to relieve congestion on the current M4 infrastructure around Newport.

Amendment 5—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Acknowledges the concerns of the Environment and Sustainability Committee in their letter titled 'Welsh Government Proposals for the M4 around Newport', dated 5 June 2014.

16:19

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

I am very grateful to Plaid Cymru for bringing this debate to the Chamber today, and to be able to speak on behalf of the Welsh Conservatives.

I am always extremely pleased to contribute to a debate on transport infrastructure, especially on an issue that is so important to the Welsh and UK economy. The capacity issues on the M4 continue to stifle our economy, and the lack of infrastructure investment to date by Labour, both here in Wales and while in office in the UK, I would suggest is somewhat perplexing and extremely reprehensible, actually, because we find ourselves now with a very difficult situation around the Brynglas tunnels. I am proud that the UK Conservative-led Government has taken action in the form of supplying early borrowing powers to this Government to get on and build a much-needed relief road to tackle the issues surrounding the Brynglas tunnels.

At the outset, I want to remind Members of the livelihoods that this issue puts at risk across Wales, and not just in south-east Wales. This is an issue of national significance, recognised by the priority that it has been given by the UK Government.

I have attended many meetings with businesses, the Trade Transport Association and investors. The message is always the same: an accident at, the closure of, or congestion at the Brynglas tunnels can put their operating profits at risk on a month-to-month basis. These are very real concerns when they discuss whether to invest in their Welsh operations, to start up in Wales or, indeed, to move their operations. So, inaction is no longer an option, and through the good offices of HM Treasury, the Welsh Government finally has the means to act.

Cynigiad welliannau 1, 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon i'r Siambr heddiw, ac i fedru siarad ar ran y Ceidwadwyr Cymreig.

Rwyf bob amser yn hynod o falch o gyfrannu at drafodaeth ar y seilwaith trafnidiaeth, yn enwedig ar fater sydd mor bwysig i economi Cymru a'r DU. Mae materion capasiti ar yr M4 yn parhau i rwystro ein heconomi, a byddwn yn awgrymu bod y diffyg buddsoddiad yn y seilwaith hyd yma gan y Blaid Lafur, yma yng Nghymru, a thra mewn grym yn y DU, braidd yn ddryslyd ac yn gwbl resynus, a dweud y gwir, oherwydd ein bod yn canfod ein hunain yn awr mewn sefyllfa anodd iawn o amgylch twnelau Bryn-glas. Rwy'n falch bod y Llywodraeth a arweinir gan y Ceidwadwyr yn y DU wedi cymryd camau ar ffurf cyflenwi bwerau benthyca cynnar i'r Llywodraeth hon i fwrw iddi ac adeiladu ffordd liniaru sydd ei hangen yn ddirfawr i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â thwnelau Bryn-glas.

O'r dechrau, rwyf am atgoffa'r Aelodau o'r bywoliaethau y mae'r mater hwn yn eu peryglu ar hyd a lled Cymru, ac nid yn unig yn ne-ddwyrain Cymru. Mae hwn yn fater o bwys cenedlaethol, a gydnabyddir gan y flaenoriaeth y rhoddwyd iddo gan Lywodraeth y DU.

Rwyf wedi mynychu llawer o gyfarfodydd gyda busnesau, y Gymdeithas Trafnidiaeth Fasnach a buddsoddwyr. Mae'r neges bob amser yr un fath: gall damwain, cau, neu dagfeydd yn nhwnelau Bryn-glas beryglu eu helw gweithredol o fis i fis. Mae'r rhain yn bryderon gwirioneddol pan fyddant yn trafod ai buddsoddi yn eu gweithrediadau yng Nghymru, dechrau yng Nghymru neu, yn wir, symud eu gweithrediadau. Felly, nid yw peidio â gweithredu bellach yn opsiwn, a thrwy swyddfeydd da Trysorlys Ei Mawrhydi, mae gan Lywodraeth Cymru o'r diwedd y modd i weithredu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now that I have set the context for my remarks, I will touch briefly on our amendments. At the outset, I can say that we will not be supporting the Liberal Democrat amendment, not because we disagree with the principle, but because it simply does not make sense in the context of our amendment, as we would delete point 4. Amendment 1 is pretty simple: we would delete the point that we disagree with. So, I want to touch briefly on why we would delete point 5, namely:

'Believes that borrowing powers for Wales should not be predicated on Welsh Government support for a specific project, but should be available for use across the whole of the Wales Infrastructure Investment Plan.'

We cannot currently accept that until the Welsh Government has an income stream to repay the capital. It is all about responsibility. This goes to the fundamental problem with Welsh politics at times: tribalism. We all accept that the M4 needs urgent investment, and we all accept that the Welsh Government cannot borrow money until it has a revenue stream to underwrite the borrowing. However, because the UK Government has agreed to shortcut borrowing now, to supply instant access to cash for capacity improvements for the M4 in south-east Wales, I believe that there should be a unified voice on this initial borrowing from this Chamber.

Nawr fy mod wedi gosod y cyd-destun ar gyfer fy sylwadau, hoffwn siarad yn fyr am ein gwelliannau. O'r cychwyn, gallaf ddweud na fyddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, nid oherwydd ein bod yn anghytuno â'r egwyddor, ond oherwydd nad yw'n syml yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun ein gwelliant, oherwydd byddem yn dileu pwynt 4. Mae gwelliant 1 yn eithaf syml: byddem yn dileu'r pwynt rydym yn anghytuno yn ei gylch. Felly, rwyf am gyfeirio'n fyr at pam y byddem yn dileu pwynt 5, sef:

'Yn credu na ddylai pwerau benthycia i Gymru fod yn seiliedig ar gymorth Llywodraeth Cymru i brosiect penodol, ond y dylent fod ar gael i'w defnyddio ar draws y cyfan o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.'

Ni allwn ar hyn o bryd dderbyn hynny hyd nes y bydd gan Lywodraeth Cymru ffrwd incwm i ad-dalu'r cyfalaf. Mae'n ymwneud â chyfrifoldeb yn y bôn. Mae hyn yn mynd at y broblem sylfaenol gyda gwleidyddiaeth Cymru ar adegau: cyfundrefn lwythol. Rydym i gyd yn derbyn bod angen buddsoddi ar frys yn yr M4, ac rydym i gyd yn derbyn na all Llywodraeth Cymru fenthycy arian hyd nes y bod ganddi ffrwd refeniw i warantu'r benthycia. Fodd bynnag, oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi cytuno i lwybr byr ar gyfer benthycia yn awr, gan roi mynediad ar unwaith at arian ar gyfer gwelliannau i gapasiti'r M4 yn ne-ddwyrain Cymru, credaf y dylai fod llais unedig ar y benthycia cychwynnol hwn o'r Siambr hon.

16:22 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:22 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly.

Gwnaf, yn sicr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:23 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for giving way on that point. He wants a unified voice; why is it not, therefore, acceptable for the borrowing to be made available for the provision of either the blue route or the black route, subject to the full consultation run by the Welsh Government That would relieve pressure around the Brynglas tunnels. It would do what the honourable Member—honourable Member? I am going back a few years there. [Laughter.] It would do what the Member wants to do and what I want to do, but it also enables and preserves the principle that the Welsh Government should lead on the construction and infrastructure.

Diolch i'r Aelod am ildio ar y pwynt hwnnw. Mae ef eisiau llais unedig; pam nad yw, felly, yn dderbyniol bod y benthycia ar gael ar gyfer darparu naill ai'r llwybr glas neu'r llwybr du, yn amodol ar ymgynghoriad llawn gan Lywodraeth Cymru? Byddai hynny'n lleihau'r pwysau o amgylch twnelau Bryn-glas. Byddai'n gwneud yr hyn y mae'r anrhydeddus Aelod—anrhydeddus Aelod? Rwy'n mynd yn ôl ychydig o flynyddoedd fan yna. [Chwerthin.] Byddai'n gwneud yr hyn y mae'r Aelod am ei wneud a'r hyn yr wyf i am ei wneud, ond mae hefyd yn galluogi ac yn cadw'r egwyddor y dylai Llywodraeth Cymru arwain ar y gwaith adeiladu a'r gwaith seilwaith.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:23 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I deal with that in a moment, Simon Thomas? It is a matter that I will come to in a second.

A gaf i ymdrin â hynny yn y man, Simon Thomas? Mae'n fater y byddaf yn troi ato mewn eiliad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

As I say, the UK Government has agreed to shortcut borrowing now to supply instant access to cash for capacity improvements for this, and I do believe that there should be a unified approach here, from all of us. While there might not be total agreement on that, without this support, the Welsh Government could not fund the improvements—it is political point scoring otherwise.

We all accept that, once revenue streams have been established, the Welsh Government can borrow on whatever it wants. That is the principle of devolution. This, however, is a short-term fix to help the Welsh economy now—and that is the point, Simon Thomas. So, let us stop playing politics with it.

Amendment 3 welcomes the investment made by the UK Government and the commitment to access early borrowing powers to fund improvements to the M4. This amendment does what it says on the tin, and I have touched on what welcome news this is and will not continue to dwell on it.

Amendment 4 acknowledges the need for an early decision and implementation of a road to relieve congestion on the current M4 infrastructure around Newport. Again, it is self-explanatory. The time has come for action on the issue. Companies are at a disadvantage, our national economy is being stifled, and the people of Wales are suffering. Decisions on this scale are difficult, but the Government must act. The ball is firmly in the Minister's court; it is for the Minister to consider all the factors. I have heard what the Member for Ynys Môn had to say, and, on a personal basis, I agree with some of the points that he makes. However, it is not just on timescales. I welcome a full airing of the scheme alongside other major routes. It is down to the Minister to make an urgent decision so that we can see our industry prosper here in Wales rather than wither through inaction.

Fel y dywedais, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i lwybr byr ar gyfer benthycu yn awr a fydd yn rhoi mynediad ar unwaith i arian ar gyfer gwelliannau i gapasiti ar gyfer hyn, a chredaf y dylid cael ymagwedd unedig yma, gan bob un ohonom. Er efallai nad oes cytundeb llwyr ar hynny, heb y gefnogaeth hon, ni allai'r Llywodraeth Cymru ariannu'r gwelliannau—mae'n fater o sgorio pwyntiau gwleidyddol fel arall.

Rydym i gyd yn derbyn, unwaith y bydd ffrydiau referniw wedi cael eu sefydlu, y gall Llywodraeth Cymru fenthycg ar beth bynnag y mynn. Dyna egwyddor datganoli. Mae hyn, fodd bynnag, yn ateb tymor byr i helpu economi Cymru yn awr—a dyna'r pwynt, Simon Thomas. Felly, gadewch i ni roi'r gorau i chwarae gwleidyddiaeth gyda hyn.

Mae gwelliant 3 yn croesawu'r buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth y DU a'r ymrwymiad i gael mynediad at bwerau benthycu cynnar i ariannu gwelliannau i'r M4. Mae'r gwelliant hwn yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun, ac rwyf wedi crybwyll bod y newyddion hyn i'w croesawu ac ni fyddaf yn parhau i ymhelaethu ar hynny.

Mae gwelliant 4 yn cydnabod yr angen am benderfyniad buan ac am weithredu ffordd i leddfu tagfeydd ar seilwaith presennol yr M4 o amgylch Casnewydd. Unwaith eto, mae'n hunanesboniadol. Mae'r amser wedi dod ar gyfer gweithredu ar y mater. Mae cwmnïau o dan anfantais, mae ein heconomi genedlaethol yn cael ei mygu, a phobl Cymru yn dioddef. Mae penderfyniadau ar y raddfa hon yn anodd, ond rhaid i'r Llywodraeth weithredu. Mae'r bêl yn sicr yng nghwrt y Gweinidog; mater i'r Gweinidog yw ystyried yr holl ffactorau. Rwyf wedi clywed yr hyn a oedd gan yr Aelod dros Ynys Môn i'w ddweud, ac, ar sail bersonol, rwy'n cytuno â rhai o'r pwyntiau y mae'n eu gwneud. Fodd bynnag, mae mwy i hyn nag amserlenni. Rwy'n croesawu ei wyntylliad llawn o'r cynllun ynghyd â llwybrau mawr eraill. Cyfrifoldeb y Gweinidog yw gwneud penderfyniad ar frys fel y gallwn weld ein diwydiant yn ffynnu yma yng Nghymru yn hytrach nag yn gwywo drwy beidio â gweithredu.

16:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Eluned Parrott to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Eluned Parrott i gynig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

Insert at end of point 4:

'fel rhan o strategaeth drafnidiaeth integredig ar gyfer de ddwyrain Cymru sy'n cynnwys buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus, seilwaith rheilffyrdd ar gyfer cludo nwyddau a gwella llwybrau lleol strategol'.

'as part of an integrated transport strategy for south east Wales incorporating investment in public transport, rail freight infrastructure and the improvement of strategic local routes'.

16:25

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 2.

Cynigiau welliant 2.

I also thank Plaid Cymru for bringing this debate today. I am not a cynic by nature—well, maybe a little bit—but I would say that it is serendipitous timing to debate the M4 given that the letter from the Chair of the Environment and Sustainability Committee released yesterday. I welcome the opportunity and agree with many of the comments that you make in terms of protecting the right of the opposition parties in this institution to challenge and provide honest scrutiny of this Government. I would agree strongly with much of the content of that letter and with the motion today. In amendment 2, we hope to recognise that any major infrastructure decision on transport needs to take into account a bigger picture that starts from that one basic question: what is the best way to move people and goods into and around the area that we serve?

I will make my party's position clear. We recognise that any bottlenecks on our transport network act as a tourniquet on economic development and growth. We recognise as well that the area around Newport on the M4 is such a tourniquet on a critical road artery between the south-east of England and south Wales in particular, but also other parts of the UK too.

However, we do not accept that the automatic solution to a road problem is only to build more roads. I remain seriously concerned that a £1 billion investment in one road in one part of Wales will prevent us from using any new borrowing powers to tackle infrastructure problems in other parts of Wales for perhaps 30 years to come. We need to think much more broadly and learn lessons from elsewhere. I refer Members to the examples we see with those very highly used and very famous English car parks—the M6 and the M25. The M25 has seen expansion after expansion, but it has only served to attract more traffic to it. More recently, efforts have been directed at active travel management techniques, such as variable speed limits, which have led to more success at a much lower cost to the public purse.

With regard to the M6, which is a piece of road I use very frequently to visit family, they have built a huge toll motorway to take the strain off the busiest section around Birmingham. However, I have to tell you that I have never seen a more forlorn, lonely looking piece of technology than the speed camera just by junction 10 in Walsall. Installing that was perhaps the biggest single triumph of optimism over experience that the Highways Agency has ever entered into, because the opening of that new motorway has had absolutely no impact at all on the speed at which traffic can move along that section of motorway.

If we build the black route, I am concerned that we will simply move the bottleneck temporarily west to that much narrower section of road through Port Talbot and then on to Fabian Way, serving Swansea, and that there will be no money left at that point in time to fix it and no opportunity to borrow more to fix it. Nor will there be money left to tackle infrastructure problems in other parts of Wales or money to use to develop more sustainable forms of infrastructure.

Diolch hefyd i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddatl hon heddiw. Nid wyf yn sinig wrth natur—wel, efallai ychydig bach—ond byddwn yn dweud ei bod yn amseru serendipaidd i drafod yr M4 o ystyried bod y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi ei gyhoeddi ddoe. Rwy'n croesawu'r cyfle ac yn cytuno â llawer o'r sylwadau rydych yn eu gwneud o ran diogelu hawl y gwrthbleidiau yn y sefydliad hwn i herio a chraffu'n onest ar y Llywodraeth hon. Byddwn yn cytuno'n gryf â llawer o gynnwys y llythyr a gyda'r cynnig heddiw. Yng ngwelliant 2, ein gobaith yw cydnabod bod unrhyw benderfyniad seilwaith mawr ar anghenion cludiant yn cymryd i ystyriaeth y darlun ehangach sy'n dechrau o'r un cwestiwn sylfaenol: beth yw'r ffordd orau i symud pobl a nwyddau i mewn ac o amgylch yr ardal rydym yn ei gwasanaethu?

Nodaf safbwynt fy mhlaidd yn glir. Rydym yn cydnabod bod unrhyw dagfeydd ar ein rhwydwaith trafniadaeth fel rhwymyn tynhau o safbwynt datblygiad a thwf economaidd. Rydym yn cydnabod hefyd fod yr ardal o amgylch Casnewydd ar yr M4 yn rhwymyn tynhau o'r fath ar wythien ffordd hanfodol rhwng de-ddwyrain Lloegr a de Cymru yn arbennig, ond hefyd rhannau eraill o'r DU hefyd.

Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn mai'r ateb awtomatig i broblem ffyrdd yw adeiladu mwy o ffyrdd yn unig. Rwy'n parhau'n bryderus iawn y bydd y buddsoddiad gwerth £ 1 biliwn mewn un ffordd yn un rhan o Gymru yn ein hatal rhag defnyddio unrhyw bwerau benthyca newydd i fynd i'r afael â phroblemau seilwaith mewn rhannau eraill o Gymru am efallai 30 mlynedd i ddod. Mae angen i ni feddwl yn llawer ehangach a dysgu gwersi o fannau eraill. Cyfeiriaf yr Aelodau at yr enghreifftiau rydym yn eu gweld gyda'r meysydd parcio tu hwnt o boblogaidd ac enwog iawn yna yn Lloegr—yr M6 a'r M25. Mae'r M25 wedi gweld ehangu di-ben-draw, ond nid yw hynny ond wedi denu mwy o draffig iddi. Yn fwy diweddar, cyfeiriwyd ymdrechion at dechnegau rheoli teithio gweithredol, megis terfynau cyflymder amrywiol, sydd wedi arwain at fwy o lwyddiant am gost llawer is i bwrs y wlad.

O ran yr M6, sy'n ddarn o ffordd rwy'n ei defnyddio'n aml iawn i ymweld â theulu, maent wedi adeiladu traffordd doll enfawr i gymryd y straen oddi ar yr adran brysuraft o amgylch Birmingham. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud wrthyhch nad wyf erioed wedi gweld darn mwy truenus ac unig o dechnoleg na'r camera cyflymder ger cyffordd 10 yn Walsall. Gosod hwnnw oedd y weithred fuddugoliaethus unigol fwyaf o optimistaeth ar draul profiad a welwyd erioed gan yr Asiantaeth Priffyrdd, oherwydd nid yw agor y draffordd newydd honno wedi cael yr un iot o effaith ar y cyflymder y gall traffig symud ar hyd y rhan honno o'r draffordd.

Os byddwn yn adeiladu'r llwybr du, rwy'n bryderus y byddwn yn gwneud dim mwy na symud y dagfa dros dro i'r gorllewin i'r adran lawer culach honno o'r ffordd drwy Bort Talbot ac yna ymlaen i Ffordd Fabian, sy'n gwasanaethu Abertawe, ac na fydd unrhyw arian yn weddill ar y pwynt hwnnw i drwsio'r sefyllfa a dim cyfle i fenthg mwy i'w thrwsio. Ni fydd ychwaith arian n weddill i fynd i'r afael â phroblemau seilwaith mewn rhannau eraill o Gymru neu arian i'w ddefnyddio i ddatblygu ffurfiau mwy cynaliadwy o seilwaith.

I truly believe that we have to think much more holistically in terms of the transport issues we have. Back to that basic question: how do we move our freight in and out of Wales, in particular? I suggest that we need to move to an integrated approach that combines road improvements, such as potentially the blue route, with other targeted interventions. We need to look at the role of rail and we need to look at the role of our ports in moving goods from place to place.

With regard to problems in the Brynglas tunnel, when we had the major fire in the Brynglas tunnel, it was a huge piece of freight, a heavy piece of steel, which could and perhaps should have been moved by rail, not by road. Those are the kinds of goods that we ought to be moving by rail if we possibly can. We need to look at bottlenecks in the rail infrastructure, not just in Wales but also lobby for improvements in capacity in other parts of the UK and England through which we want to move our goods, so that there is a throughput and ability for us to move goods beyond Wales on to their destinations.

We have a wonderful opportunity—through the electrification of the Great Western main line, and the Valleys Lines, which I am confident we will be able to resolve—to encourage people to leave their cars at home. Some 43% of journeys on that section of the M4 are of less than 20 miles. It is being used as a local road. How many of those people could be encouraged to use public transport if we invest in the kind of transformative metro project that we all say we want to see and which we have all supported in this place? Therefore, I would say that we need to think more broadly and look to that more sustainable future for transport in Wales.

Credaf i'r carn bod yn rhaid inni feddwl yn llawer mwy cyfannol ynglŷn â'r materion trafnidiaeth sydd gennym. Yn ôl at y cwestiwn sylfaenol: sut yr ydym yn symud ein nwyddau i mewn ac allan o Gymru, yn benodol? Rwy'n awgrymu bod angen i ni symud tuag at ddull integredig sy'n cyfuno gwelliannau i'r ffyrdd, megis y llwybr glas o bosibl, gydag ymyriadau eraill sydd wedi'u targedu. Mae angen inni edrych ar rôl rheilffyrdd ac mae angen inni edrych ar rôl ein porthladdoedd wrth symud nwyddau o le i le.

O ran problemau yn nhwnnel Bryn-glas, pan gawsom y tân mawr yn nhwnnel Bryn-glas, darn mawr o nwyddau'n cael eu cludo oedd yn gyfrifol, darn trwm o ddr, a allai fod ac y dylai fod o bosibl wedi eu symud ar y rheilffordd, nid ar y ffordd. Dyna'r math o nwyddau y dylem fod yn eu symud ar y rheilffordd os yw hynny'n bosibl. Mae angen i ni edrych ar dagfeydd yn y seilwaith rheilffyrdd, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd lobio am welliannau mewn capasiti mewn rhannau eraill o'r DU a Lloegr yr ydym am symud ein nwyddau trwyddynt, fel bod trwybwn a modd i ni symud nwyddau y tu hwnt i Gymru ymlaen i'w cyrchfannau.

Mae gennym gyfle gwych—drwy drydaneiddio prif linell y Great Western, a Rheilffordd y Cymoedd, yr hyderaf y gallwn ei ddatrys—i annog pobl i adael eu ceir gartref. Mae tua 43% o deithiau ar y rhan honno o'r M4 yn llai na 20 milltir. Mae'n cael ei defnyddio fel ffordd leol. Faint o'r bobl hynny y gellid eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pe baem yn buddsoddi yn y math o brosiect metro trawsnewidiol y dywedwn i gyd ein bod am ei weld ac sy'n brosiect rydym ni i gyd wedi ei gefnogi yn y lle hwn? Felly, byddwn yn dweud bod angen i ni feddwl yn fwy eang ac edrych i'r dyfodol mwy cynaliadwy hwnnw o safbwynt trafnidiaeth yng Nghymru.

16:30

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch o gael cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon. Bydd Aelodau yn ymwybodol bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd rwy'n ei gadeirio yn craffu penderfyniad y Llywodraeth i hyrwyddo llwybr i M4 newydd, y llwybr du, a materion cysylltiol. Serch hynny, rwyf am ei wneud yn glir heddiw mai fel llefarydd cyllid Plaid Cymru rwy'n cyfrannu at y ddatl hon heddiw. Gyda llaw, mae'r llythyr hwnnw wedi bod yn gyhoeddus ers dros wythnos.

Ar 5 Mai eleni, dywedodd y Gweinidog Cyllid y byddai'n gwneud defnydd llawn o'r hawl benthg o £500 miliwn sydd yn Bil Cymru. Ychwanegodd y byddai'n defnyddio corff na fydd yn dosbarthu elw i godi £300 miliwn arall i gwblhau rhannau 5 a 6 o'r A465 erbyn 2020, a dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai £200 miliwn pellach yn cael ei godi drwy ddull tebyg i ddatblygu canolfan gofal cancr arbenigol yn Felindre. Rhoddodd y Gweinidog addewid i ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth eraill yn y gogledd hefyd drwy'r un dull ariannu, mae'n debyg, a gwyddom fod y Llywodraeth wedi manteisio ar allu benthg y llywodraeth leol a chymdeithasau tai er mwyn hyrwyddo cynlluniau cyfalaf, ac rydym wedi bod yn gefnogol iawn i hynny oherwydd ein bod yn credu bod hynny'n bwysig i'r economi, ond hefyd er mwyn datblygu isadeiledd Cymru.

I am pleased to have the opportunity to take part in this debate. Members will be aware that the Environment and Sustainability Committee, which I chair, is scrutinising the decision of the Government to promote the route for a new M4 road, the black route, and related matters. Despite that, I wish to emphasise the fact that it is as Plaid Cymru's spokesperson on finance that I am contributing to this debate today. By the way, that letter has been public for over a week.

On 5 May this year, the Minister for Finance said that she would make full use of the power in the Wales Bill to borrow £500 million. She added that she would use a not-for-dividend body to raise an additional £300 million to complete sections 5 and 6 of the A465 by 2020, and the Minister also said that a further £200 million would be raised through a similar method to develop a specialist cancer care centre in Velindre. The Minister pledged to develop additional transport schemes in the north through similar funding arrangements, it appears, and we know that the Government has taken advantage of the borrowing powers of local government and housing associations to promote capital schemes, and we have been very supportive of that because we believe that it is very important for the economy, but also to develop infrastructure in Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

At the time, I welcomed this innovative way of raising capital by the Government as one of the few ways in which it could try to mitigate the cuts made to capital budgets by the UK Government. Plaid Cymru's only criticism was that the work on the innovative finance model should have started out and concluded much earlier. Indeed, the development of a non-distributing model was in our 2011 manifesto, labelled 'Build for Wales'. To be fair, the Minister for Finance was always supportive of such a policy; others in her party were not. Regrettably, that may have led to a delay in developing the vehicle. With that said, we are now in a position where some schemes are going ahead, or are about to go ahead.

It has to be remembered that Plaid Cymru's 'Build for Wales' model was promoted as a response to the absence of borrowing powers and the failure of the private finance initiative to deliver value for money. The commitments that the Welsh Government has made using innovative financing models will still have to be paid back, as will any other finance that we borrow for capital investment. We are looking at serious amounts of revenue funding being committed to debt servicing. With health and education continuing to account for the bulk of Welsh Government revenue funding, we have to be in a position where large-scale borrowing is justifiable and has broad political support. That broad support does not exist for the new M4, and the Government has not gone out of its way to seek that support.

It is vital that the benefit of capital investment is felt across the whole of Wales. This is not a matter of pitting different areas of Wales against one another. As we know, capital projects have been approved in north-west Wales—for example, the Bontnewydd bypass over the past year or so. It is not a case of arguing that nothing is happening outside south-east Wales. However, the risk with the Welsh Government's preferred black route is that future projects may be delayed due to the sheer financial cost of this particular scheme. Plaid Cymru has always been opposed to the concept of the new M4 to the south of Newport, but remains supportive of proportionate and sustainable investment to alleviate the problems of the M4 corridor.

Ar y pryd, croesewais y dull arloesol hwn o godi cyfalaf gan y Llywodraeth fel un o'r ychydig ffyrdd y gallai geisio lliniaru'r toriadau a wnaed i gyllidebau cyfalaf gan Lywodraeth y DU. Unig feirniadaeth Plaid Cymru oedd y dylai'r gwaith ar y model cyllid arloesol fod wedi ei ddechrau a'i orffen lawer ynghynt. Yn wir, roedd datblygu model nad yw'n dosbarthu yn ein manifesto ar gyfer 2011, o dan y teitl 'Adeiladu i Gymru'. A bod yn deg, roedd y Gweinidog Cyllid bob amser yn gefnogol i bolisi o'r fath; nid oedd eraill yn ei phlaid. Yn anffodus, efallai bod hynny wedi arwain at oedi wrth ddatblygu'r dull. Wedi dweud hynny, rydym yn awr mewn sefyllfa lle mae rhai cynlluniau yn mynd yn eu blaenau, neu ar fin mynd yn eu blaenau.

Mae'n rhaid cofio i fodel 'Adeiladu i Gymru' Plaid Cymru gael ei hyrwyddo fel ymateb i'r diffyg pwerau benthyca a methiant y fenter cyllid preifat i sicrhau gwerth am arian. Bydd yn rhaid i'r ymrwymadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud gan ddefnyddio modelau ariannu arloesol gael eu talu yn ôl yr un fath, felly wir unrhyw gyllid arall rydym yn ei fenthyca ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Rydym yn edrych ar symiau mawr iawn o arian refeniw yn cael eu hymrwymo i dalu dyled. Gyda'r rhan fwyaf o gyllid refeniw Llywodraeth Cymru yn dal i fynd ar iechyd ac addysg, rhaid i ni fod mewn sefyllfa lle y gellir cyfiawnhau benthyca ar raddfa fawr a lle y mae iddo gefnogaeth wleidyddol eang. Nid oes gennym y gefnogaeth eang honno i'r M4 newydd, ac nid yw'r Llywodraeth wedi mynd allan o'i ffordd i geisio'r gefnogaeth honno.

Mae'n hanfodol bod budd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei deimlo ar draws Cymru gyfan. Nid yw hyn yn fater o droi gwahanol ardaloedd o Gymru yn erbyn ei gilydd. Fel y gwyddom, mae prosiectau cyfalaf wedi cael eu cymeradwyo yng ngogledd-orllewin Cymru—er enghraifft, ffordd osgoi y Bontnewydd dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Nid yw'n fater o ddadlau nad oes dim yn digwydd y tu hwnt i dde-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, y risg gyda'r llwybr du a ffeifir gan Lywodraeth Cymru yw y gall prosiectau yn y dyfodol gael eu gohirio oherwydd cost ariannol aruthrol y cynllun dan sylw hwn. Mae Plaid Cymru bob amser wedi gwrthwynebu'r cysyniad o M4 newydd i'r de o Gasnewydd, ond mae'n parhau i gefnogi buddsoddiad cymesur a chynaliadwy i liniaru problemau coridor yr M4.

16:34 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a general principle, I do not believe that it is good practice to have a debate on a subject currently being considered by a subject committee of the Assembly. What is the point of discussing it when the committee produces its report when we have already come to a conclusion today? [Interruption.] Can you wait for me to finish this? I can think of one recent report produced by a committee that I sit on where, if we had discussed it part of the way through, after hearing the opinions of only a few of the people who were invited to speak to us, our collective view would have been different to that in the final report. I am very happy to give way.

Fel egwyddor gyffredinol, nid wyf yn credu ei fod yn arfer da cael dadl ar bwnc sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan bwyllgor pwnc y Cynulliad. Beth yw'r pwynt o drafod pan fydd y pwyllgor yn cynhyrchu ei adroddiad â ninnau eisoes wedi dod i gasgliad heddiw? [Torri ar draws.] A allwch chi aros i mi orffen hyn? Gallaf feddwl am un adroddiad diweddar a gynhyrchwyd gan bwyllgor rwy'n aelod ohono ble, pe baem wedi trafod hyn rhan o'r ffordd trwyddo, ar ôl clywed barn dim ond ychydig o'r bobl a wahoddwyd i siarad â ni, byddai ein barn ar y cyd wedi bod yn wahanol i'r un a geir yn yr adroddiad terfynol. Rwy'n hapus iawn i ildio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Why did we debate mental health services last week in Government time when the Children, Young People and Education Committee was considering child and adolescent mental health services?

Pam y gwnaethom drafod gwasanaethau iechyd meddwl yr wythnos diwethaf yn amser y Llywodraeth pan oedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystyried gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:35	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I was discussing principles, and I do not have any role in what the Government does or does not bring forward.	Yr oeddwn yn trafod egwyddorion, ac nid oes gennyf unrhyw rôl yn yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei gyflwyno neu nad yw'n ei gyflwyno.
16:35	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Well, you are criticising the Government as much as us, then.	Wel, yna rydych yn beirniadu'r Llywodraeth cymaint â ninnau.
16:35	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I want to concentrate on one part of the resolution, namely that of borrowing powers for Wales. I intend initially to compare the proposed borrowing powers of the Welsh Government with those of a local council. A local authority has total discretion as to how it spends its capital allocation, but it can also undertake prudential borrowing. It can borrow as much or as little as the council feels is needed and believes it has the ability to pay back. It can borrow for whatever reason and it can make local choices: it can build new schools, make road improvements or build new civic buildings. That is, borrowing for capital schemes is available for use across the whole of the council's infrastructure investment. Why should the Welsh Government be treated less favourably than local councils?</p>	<p>Rwyf am ganolbwyntio ar un rhan o'r penderfyniad, sef pwerau benthyca i Gymru. Rwy'n bwriadu dechrau drwy gymharu pwerau benthyca arfaethedig Llywodraeth Cymru â rhai cyngor lleol. Mae gan awdurdod lleol ddisgresiwn llwyr o ran sut mae'n gwario ei ddyraniad cyfalaf, ond gall hefyd fenthyca'n ddarbodus. Gall fenthyg cymaint neu gyn lleied ag y mae'r cyngor yn teimlo sydd ei angen ac yn credu ei fod ganddo'r gallu i ad-dalu. Gall fenthyg arian am ba bynnag reswm a gall wneud dewisiadau lleol: gall adeiladu ysgolion newydd, gwneud gwelliannau ffyrdd neu adeiladu adeiladau dinesig newydd. Hynny yw, mae benthyg ar gyfer cynlluniau cyfalaf ar gael i'w ddefnyddio ar draws buddsoddiadau mewn seilwaith y cyngor yn eu cyfanrwydd. Pam y dylai Llywodraeth Cymru gael ei thrin yn llai ffafriol na chynghorau lleol?</p>
	<p>If you are talking about some of the routes, Newport City Council could borrow money to produce some of the routes if it so desired, without anybody having any means of stopping it. Of course, instead of borrowing, the Welsh Government could enter into a 30-year PFI deal, which would cost more, because the private company involved would borrow at a higher rate than from the Public Works Loan Board, and it would have profit built in. This would be acceptable to the Treasury; in fact, it said so this morning. It can be carried out without any attempt at external control.</p>	<p>Os ydych yn sôn am rai o'r llwybrau, gallai Cyngor Dinas Casnewydd fenthyg arian i gynhyrchu rhai o'r llwybrau os dymunir, heb unrhyw un yn cael unrhyw ffordd o atal hynny. Wrth gwrs, yn hytrach na benthyca, gallai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gytundeb PFI 30 mlynedd, a fyddai'n costio mwy, gan y byddai'r cwmni preifat sy'n gysylltiedig yn benthyg ar gyfradd uwch na'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, a byddai'r elw'n cael ei gynnwys ynddo. Byddai hyn yn dderbyniol i'r Trysorlys; mewn gwirionedd, dywedodd hynny fore heddiw. Gellir ei wneud heb unrhyw ymgais i reoli'n allanol.</p>
	<p>Then we have what I consider to be the bizarre system to borrow against your income stream, yet no income stream is needed for a PFI scheme that is entered into for 30 years, and no income stream is needed for leases and leasing equipment. Income streams are only required for borrowing so you can do exactly the same thing any other way as long as it does not have the word 'borrowing' against it. I find that absolutely and utterly bizarre. However, each of the PFI scheme leases have an ongoing annual cost, similar to, although much more expensive, than borrowing. Borrowing should be under the same conditions. We should have Welsh decisions on how much to borrow, Welsh decisions on what to spend it on and Welsh decisions on who to borrow it from.</p>	<p>Yna, mae gennym yr hyn sydd yn fy marn i yn system ryfedd ar y naw i fenthyca yn erbyn eich ffrwd incwm, ac eto nid oes angen unrhyw ffrwd incwm ar gyfer cynllun PFI yr ymrwymir iddo am 30 mlynedd, ac nid oes angen llif incwm ar gyfer prydles i ac offer prydlesu. Yr unig reswm sydd angen ffrydiau incwm yw er mwyn benthyca fel y gallwch wneud yn union yr un peth mewn unrhyw ffordd arall ar yr amod nad yw'r gair 'benthyca' yn gysylltiedig ag ef. Credaf fod hyn yn gwbl a hollol ryfedd. Fodd bynnag, mae gan bob un o brydlesau'r cynllun PFI gost flynyddol barhaus, yn debyg i, er yn llawer drutach, na benthyca. Dylai benthyca fod o dan yr un amodau. Dylem gael penderfyniadau gan Gymru ar faint i fenthyca, penderfyniadau gan Gymru ar beth i'w wario a phenderfyniadau gan Gymru ar bwy i fenthyg ganddynt.</p>

Take local councils. They have their own income stream, but it has basically been cut twice. First, it was when commercial rates were centralised, and then when council tax replaced the poll tax. Local income via council tax could be abolished at any time—that is within the power of the Westminster Government—yet prudential borrowing is allowed. There is also the choice of where to borrow it from. They can borrow it from the Public Works Loan Board, which is normally the place of choice. They can also borrow from the European Investment Bank, from other banks or by using bonds, as Transport for London did, which is a public sector local government body, which raised £600 million to help finance the construction of Crossrail.

The Welsh Government should have the power to undertake prudential borrowing, and the power to decide the priorities of Wales without any intervention from outside.

Cymerwch gyngorau lleol. Mae ganddynt eu ffrwd incwm eu hunain, ond mae wedi cael ei thorri ddwywaith i bob pwrpas. Yn gyntaf, pan ganolwyd cyfraddau masnachol, ac yna pan ddisodlwyd treth y pen gan y dreth gyngor. Gallai incwm lleol drwy'r dreth gyngor gael ei ddiddymu ar unrhyw adeg—mae hynny o fewn pŵer benthycia darbodus y Llywodraeth yn San Steffan—ac eto mae'n cael ei ganiatáu. Mae yna ddewis hefyd o ran o ble i'w fenthycy. Gallant fenthycy oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, sef y dewis cyntaf fel arfer. Gallant hefyd fenthycy gan Fanc Buddsoddi Ewrop, gan fanciau eraill neu drwy ddefnyddio bondiau, fel y gwnaeth Transport for London, sy'n gorff llywodraeth leol yn y sector cyhoeddus, a gododd £600 miliwn i helpu i gyllido gwaith adeiladu Crossrail.

Dylai Llywodraeth Cymru fod â'r pŵer i fenthycy'n ddarbodus, a'r pŵer i benderfynu ar flaenoriaethau Cymru heb unrhyw ymyrraeth o'r tu allan.

16:38

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae gwastadeddau Gwent yn dirwedd unigryw—un o'n tirweddau gwlyptir mwyaf gwerthfawr fel cenedl. Mae'n rhwydwaith gymhleth o ffosydd a chorsydd sy'n gartref i amrywiaeth eang o infertebrata prin a phlanhigion dyfrol, gan gynnwys casgliad nodedig o chwilog dŵr a gwas y neidr. O ganlyniad i'r bioamrywiaeth gyfoethog hon, mae llawer o'r gwastadeddau wedi cael eu diogelu'n genedlaethol yn ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig—yn SSSIs. Mae'r adar, y cardwenyn, a rhywogaethau mamaliaid pwysig, fel sgwarnog brown, y dyfrgi a llygoden y dŵr, hefyd yn ychwanegu at gyfoeth unigryw bywyd gwylt y gwastadeddau.

Byddai llwybr du y Llywodraeth yn rhwygo drwy ganol y safle hwn—darn rhyw 8.5 i 10 km o hyd. Nid oes amheuaeth y byddai grwpiau amgylcheddol yn herio unrhyw benderfyniad i symud ymlaen ac adeiladu traffordd ar draws y SSSIs hyn. Mae Cyfeilion y Ddaear Cymru eisoes wedi datgan bod ymgynghoriad y Llywodraeth yn tanfesur o ryw 10 ha neu ryw 14% faint o dir SSSI fydd yn cael ei gollu i'r llwybr du, a bod hynny ym marn y mudiad yn gwneud yr ymgynghoriad yn anghyfreithlon. Goblygiadau hynny yw na fydd y gwaith o adeiladu'r M4 newydd yn gallu symud ymlaen mor gyflym â rhai o'r cynlluniau amgen. Roedd Byron Davies yn dweud nad oedd am weld diffyg gweithredu; mae'n amlwg ei fod yn hapus i aros tan hyd at 2030, ond nid wyf i. Rwyf am weld hwn yn cael ei ddatrys yn gynt, mewn modd mwy cynaliadwy ac mewn modd fydd yn costio llai yn ariannol ac yn amgylcheddol.

The Gwent levels are a unique landscape—one of the most important wetland habitats that we have as a nation. It is a complex network of ditches and reens that are home to a wide variety of rare invertebrates and aquatic plants, including a notable collection of water beetles and dragonflies. As a result of this rich biodiversity, much of the levels have been safeguarded at a national level as sites of special scientific interest—SSSIs. The birds, carder bees, and important mammal species, such as brown hares, otters and water voles, also add to the unique make-up of the wildlife of the levels.

The Government's black route would rip through the middle of this site—a section approximately 8.5 to 10 km in length. There is no doubt that environmental groups would challenge any decision to move forward and build a motorway across these SSSIs. Friends of the Earth Cymru has already stated that the Government's consultation has underestimated by some 10 ha or 14% how much SSSI land will be lost to the black route, and that, in its view, renders the consultation unlawful. The implications of this are that the work of building the new M4 will not be able to progress as swiftly as some of the alternative schemes. Byron Davies said that he did not want to see a lack of action; it seems that he is happy to wait until 2030, but I am not. I want to see this being resolved more quickly, in a more sustainable way and in a way that will cost less both financially and environmentally.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae rhagolygon traffig yn allweddol i'r ddadl mae Llywodraeth Cymru yn ei chyflwyno, gan gynnwys yn ei adroddiad WelTAG. Mewn gwirionedd, mae'n ffaith bod y rhagolygon ar gyfer twf traffig yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru eisoes wedi cael eu profi i fod yn uwch na'r llif traffig gwirioneddol yn 2012 a 2013. Mae dogfennau Llywodraeth Cymru yn goramcangyfrif y defnydd o geir, ac os ydym yn dilyn yn rhesymegol y blaenoriaethau buddsoddi sy'n deillio o M4 newydd, yna yr hyn rydym yn ei wneud mewn gwirionedd yw annog mwy o ddibyniaeth ar geir, sydd yn groes i bob un o'r amcanion polisi rydym i gyd yn y fan hon, gobeithio, yn rhannu ar draws y Cynulliad, ynghylch lleihau dibyniaeth ar geir a lleihau ein hól troed carbon. Yn waeth na hyn, yn hytrach na dadlau dros symud oddi wrth ddibyniaeth ar geir, mae asesiad amgylcheddol strategol Llywodraeth Cymru yn dadlau y bydd yr M4 newydd yn lleihau llygredd yn yr aer ac, yn wir, yn dadlau y gall arwain at leihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. 'Nawr, nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl, hyd y gwelaf i, i brofi hyn. Yn wir, mae'r dystiolaeth o Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn profi yn gwbl glir fod mwy o gapasiti ar y ffordd yn arwain at fwy o allyriadau.

Rhywbeth arall sydd ar goll o'r achos y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi yn ei flaen yw effaith y datblygiad ar welliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, ac rydym wedi clywed rhai cyfeiriadau at hyn yn barod. Mae rhywun yn meddwl yn arbennig am ddatblygiadau o faint y metro yn neddwyrain Cymru, lle bydd rhan sylweddol ohono yn effeithio ar Gasnewydd ac ar y traffig lleol a welwn ar y M4 presennol. Mae'n destun rhwystredigaeth i mi y gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig gynnig rhyw fath o fargen ar fenthyca i Gymru ar gyfer buddsoddi mewn traffordd, yn unol â blaenoriaethau gwleidyddol George Osborne, ond ar un pryd ei bod yn ceisio gorfodi Llywodraeth Cymru i dalu am drydaneiddio llinellau'r Cymoedd. Nid yw wedi cynnig cytundeb benthyca ar gyfer gwireddu cynllun y metro, er enghraifft—cynllun rydym yn gwybod y bydd, yn y pen draw, yn costio mwy na £1 biliwn mewn costau cyfalaf. Yr hyn rydym yn ei weld, felly, yw bargaen rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i flaenoriaethu trafnidiaeth anghynaliadwy o flaen trafnidiaeth gyhoeddus.

Nid yw dewis Llywodraeth Cymru ar gyfer M4 newydd yn cynnig unrhyw beth i'r rheini yn ein cymdeithas nad ydynt yn defnyddio ceir. Mae'n lleihau faint o adnoddau sydd ar gael ar gyfer seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn lleihau'r adnoddau a fydd ar gael ar gyfer prosiectau mewn rhannau eraill o Gymru, fel rydym wedi clywed. Wrth gwrs, bydd hefyd yn cloi Cymru hyd yn oed yn ymhellach i mewn i ddyfodol yn seiliedig ar gynyddu allyriadau a dibyniaeth ar geir ac olew. Mae'r cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru yn groes, yn fy marn i, i'w dyletswydd ei hun i ystyried datblygu cynaliadwy. Mae'n tansilio'r ymdrech i leihau newid yn yr hinsawdd, ac mae hefyd yn tansilio'r ymdrech i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Rhaid i mi ddweud bydd y penderfyniad terfynol gan y Llywodraeth, yn fy marn i, yn brawf o'i hymrwymiad gwirioneddol i'r dyletswyddau hynny.

Traffic forecasts are key to the argument put forward by the Welsh Government, including in its WelTAG report. In reality, the fact is that the traffic estimates in the Government's consultation document have already been proved to be greater than the actual traffic flow in 2012 and 2013. The Welsh Government's document overestimates the use of cars, and if we follow rationally the investment priorities emerging from a new M4, then what we are doing really is encouraging more dependence on cars, which is contrary to all of the policy objectives that we all here sign up to, I hope, across the Assembly, in terms of reducing our dependence on cars and reducing our carbon footprint. Worse than this, rather than arguing for moving away from a dependence on the vehicle, the Welsh Government's strategic environmental assessment argues that the new M4 will reduce air pollution and it argues that it could lead to a reduction in greenhouse gas emissions. Now, there is no evidence whatsoever, as far as I can see, to prove this. Indeed, the evidence from the UK Government's Department for Transport proves clearly that more road capacity actually leads to greater emissions.

Another thing missing from the case put forward by the Welsh Government is the impact of the development on improvements to public transport, and we have heard a few references to this already. One thinks particularly of developments on the scale of the metro in south-east Wales, where much of it will have an impact on Newport and the local traffic that we see on the current M4. It is a cause of frustration to me that the UK Government can propose some sort of deal on borrowing for Wales for investment in a motorway, in accordance with the political priorities of George Osborne, while simultaneously trying to force the Welsh Government to pay for the electrification of the Valleys lines. It has not offered borrowing powers to bring forward the metro scheme, for example—a scheme that we know will eventually cost more than £1 billion in capital expenditure. What we are seeing, basically, is a deal between the Welsh Government and the UK Government to prioritise unsustainable transport ahead of public transport.

The Welsh Government's option for a new M4 does not offer anything to those in our society who do not use cars. It reduces the resources available for public transport infrastructure. It also reduces the resources available for projects in other parts of Wales, as we have already heard. Of course, it will also anchor Wales even more firmly in a future based on increasing emissions and becoming more dependent on cars and oil. This proposal by the Welsh Government is contrary, in my opinion, to its own duty to consider sustainable development. It undermines efforts to tackle climate change, and it also undermines efforts to cease the loss of biodiversity by 2020. I have to say that the final decision by the Government, in my opinion, will be a true test of its commitment to those duties.

16:43

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The issue of a Newport relief road is indeed an extremely important issue. It is a major project that could potentially be one of the biggest infrastructure projects, if not the biggest, since the Assembly was established. Figures in excess of £1 billion are suggested.

I have raised this issue a number of times in the Chamber and secured a public assurance from the Minister for Finance several weeks ago that the consultation process is ongoing and that no decision has yet been taken. In addition, the Environment and Sustainability Committee is undertaking its own inquiry. That inquiry is ongoing; it is not yet completed and the committee has not yet concluded its deliberations. It is a thorough inquiry involving the highest level of scrutiny, as we would expect from an Assembly committee. In addition, we have raised a number of preliminary inquiries with the Minister in a letter from the Chair of the committee on behalf of the committee. This is in fact the letter that I specifically asked to be sent. We are currently awaiting the Minister's response, which will then form part of the committee's response. In addition, there is a Government consultation process that is under way.

It is, of course, the democratic right of political parties to table any motion on any subject relevant to Wales and to the Assembly to be debated on the floor of the Assembly. I would just say that, with democracy, comes responsibility, and I consider the decision to table this motion at this time in the scrutiny process to be imprudent and highly irresponsible. It shows a serious lack of judgment and a paucity of political leadership. It asks the Assembly to adopt a position on the issue of the M4 relief road before we have completed our inquiry, before we have had an opportunity to consider all the evidence, and before we have had an opportunity to consider the replies from the Minister to the committee, which is, incidentally, chaired by Plaid Cymru and on which the Plaid Cymru environment spokesman sits, and I believe that it undermines the work of that committee. The motion is not a motion on principles or issues around the need for a relief road. It goes further and says, 'This is the option we must pick'. How can Plaid members of that committee be taken seriously now when it comes to concluding its evidence and submitting recommendations to Government when they have already formed a view? It means that they are not interested in the Minister's replies, are not interested in the remainder of the evidence, and are not interested in the consideration by the whole of the committee of the evidence.

Mae mater ffordd liniaru Casnewydd yn sicr yn fater pwysig iawn. Mae'n brosiect mawr a allai fod yn un o'r prosiectau seilwaith mwyaf, os nad y mwyaf, ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Mae ffigurau o fwy na £ 1 biliwn yn cael eu hawgrymu.

Rwyf wedi codi'r mater hwn nifer o weithiau yn y Siambr ac wedi sicrhau sicrwydd i'r cyhoedd gan y Gweinidog Cyllid sawl wythnos yn ôl bod y broses ymgynghori yn parhau ac nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto. Yn ogystal, mae Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cynnal ei ymchwiliad ei hun. Mae'r ymchwiliad hwnnw'n mynd rhagddo; nid yw eto wedi ei gwblhau ac nid yw'r pwyllgor wedi cwblhau ei drafodaethau eto. Mae'n ymchwiliad trylwyr sy'n cynnwys craffu ar y lefel uchaf, fel y byddem yn ei ddisgwyl gan un o bwyllgorau'r Cynulliad. Yn ogystal, rydym wedi codi nifer o ymholiadau rhagarweiniol gyda'r Gweinidog mewn llythyr gan Gadeirydd y pwyllgor ar ran y pwyllgor. Dyma'n wir yw'r llythyr y gofynnais yn benodol iddo gael ei anfon. Rydym ar hyn o bryd yn aros am ymateb y Gweinidog, a fydd wedyn yn ffurfio rhan o ymateb y pwyllgor. Yn ogystal, mae proses ymgynghori ar y gweill gan y Llywodraeth.

Wrth gwrs, mae gan y pleidiau gwleidyddol hawl ddemocrataidd i gyflwyno unrhyw gynig ar unrhyw bwnic sy'n berthnasol i Gymru ac i'r Cynulliad ei drafod ar lawr y Cynulliad. Hoffwn ddweud bod cyfrifoldeb yn dod law yn llaw gyda democratiaeth, ac rwyf o'r farn bod y penderfyniad i gyflwyno'r cynig hwn ar hyn o bryd yn ystod y broses graffu yn un annoeth ac yn anghyfrifol dros ben. Mae'n dangos diffyg crebwyll heb ei ail a diffyg arweiniad gwleidyddol. Mae'n gofyn i'r Cynulliad fabwysiadu safbwynt ar fater ffordd liniaru'r M4 cyn i ni gwblhau ein hymchwiliad, cyn i ni gael cyfle i ystyried yr holl dystiolaeth, a chyn i ni gael cyfle i ystyried yr ymatebion gan y Gweinidog i'r pwyllgor, sydd, gyda llaw, yn cael ei gadeirio gan Blaid Cymru ac mae llefarydd Plaid Cymru ar yr amgylchedd yn aelod ohono, ac rwy'n credu fod hyn yn tansellio gwaith y pwyllgor hwnnw. Nid yw'r cynnig yn gynig ar egwyddorion neu faterion sy'n ymwneud â'r angen am ffordd liniaru. Mae'n mynd ymhellach ac yn dweud, 'Dyma'r opsiwn y mae'n rhaid i ni ei ddewis'. Sut y gellir cymryd aelodau Plaid o'r pwyllgor hwnnw o ddifri yn awr pan ddaw'n amser cloriannu'r dystiolaeth a chyflwyno ei argymhellion i'r Llywodraeth, a hwythau eisoes wedi llunio barn? Mae'n golygu nad oes ganddynt ddiddordeb yn atebion y Gweinidog, nad oes ganddynt ddiddordeb yng ngweddill y dystiolaeth, ac nad oes ganddynt ddiddordeb yn ystyriaethau'r pwyllgor cyfan o'r dystiolaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:45

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:45

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will.

Gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:45	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>I am just interested in the fact that you are criticising Plaid Cymru for forming a view, yet I do not hear you criticising the Government for expressing its preferred option.</p>	<p>Mae gennyf ddi-ddordeb yn unig yn y ffaith eich bod yn beirniadu Plaid Cymru am ffurfio barn, ond nid wyf yn eich clywed yn beirniadu'r Llywodraeth am fynegi ei hopsiwn dewisol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:45	<p>Mick Antoniw Bywgraffiad Biography</p> <p>The reason is that what you actually do—. Having secured a commitment from the Minister that no decision has been taken on the consultation process, what the motion does is go that much further and say, 'This is the one option that we are going to pick and reject the others'.</p> <p>It is with regret that I think Plaid Cymru Members can have no credibility on this issue during the remainder of the committee's work on it. I am sad that this is the case, because we can take great pride in the quality of scrutiny work by Members of all political parties. For that reason, I believe that it undermines the scrutiny process of the Assembly and it indicates a disregard for that process. It seeks to get the Assembly to adopt the position that would make the work of the Environment and Sustainability Committee on this issue pointless and irrelevant. That is no way for a responsible political party in this legislature to behave. It is not what the public expects of us.</p> <p>There will be a need for a serious debate, but this is not the time for it. If we want to be taken seriously as an Assembly, we have to understand the work of Government and the process of scrutiny and avoid the temptation of opting for political posturing and rank opportunism, which I believe lies behind the decision to table this motion today. If anyone doubts me, I will now quote the Plaid comment to the BBC:</p> <p>'We are giving the Labour government a chance to back out of its plans to borrow and spend £1bn....Plaid Cymru's alternative plan'—</p> <p>I note that it is no longer Professor Cole's blue plan; it is now 'Plaid Cymru's alternative plan'—</p> <p>'would be completed more quickly'</p> <p>and so on and so forth.</p> <p>I, for one, regard this as an issue of the utmost importance for many of the reasons set out in the motion and—</p>	<p>Y rheswm yw bod yr hyn rydych ei wneud mewn gwirionedd—. Ar ôl sicrhau ymrwymiad gan y Gweinidog nad oes penderfyniad wedi'i wneud ar y broses ymgynghori, yr hyn y mae'r cynnig yn ei wneud yw mynd yn llawer pellach a dweud, 'Dyma'r un opsiwn rydym am ei ddewis a gwrthod y lleill'.</p> <p>Gresyn gennyf feddwl na all Aelodau Plaid Cymru gael unrhyw hygredded ar y mater hwn yn ystod gweddill gwaith y pwyllgor arno. Rwy'n drist mai dyma sy'n wir, oherwydd gallwn ymfalchio yn ansawdd y gwaith craffu gan Aelodau o bob plaid wleidyddol. Am y rheswm hwnnw, credaf ei fod yn tansellio proses graffu'r Cynulliad ac mae'n diystyru'r broses honno. Mae'n ceisio cael y Cynulliad i fabwysiadu barn a fyddai'n gwneud gwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y mater hwn yn ddibwrpas ac amherthnasol. Nid yw hynny'n ffordd i blaid wleidyddol gyfrifol ymddwyn yn y ddeddfwrf hon. Nid dyma mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gennym.</p> <p>Bydd angen dadl ddifrifol, ond nid dyma'r amser ar ei chyfer. Os ydym am gael ein cymryd o ddirif fel Cynulliad, rhaid inni ddeall gwaith y Llywodraeth a'r broses o graffu ac osgoi'r demtasiwn o ddewis ymagweddu'n wleidyddol ac yn bleidiol oportiwistaidd, y credaf sydd wrth wraidd y penderfyniad i gyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Os yw unrhyw un yn fy amau, byddaf yn awr yn dyfynnu sylw Plaid Cymru i'r BBC:</p> <p>'Rydym yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth Lafur dynnu allan o'i chynlluniau i fenthycu a gwario £1bncynllun amgen Plaid Cymru—</p> <p>Nodaf nad yw bellach yn gynllun glas yr Athro Cole; mae bellach yn 'gynllun amgen Plaid Cymru'—</p> <p>'yn cael ei gwblhau yn gyflymach'</p> <p>ac yn y blaen ac yn y blaen.</p> <p>Rwyf fi, am un, yn ystyried hyn fel mater o'r pwys mwyaf am lawer o'r rhesymau a nodir yn y cynnig a—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:47	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Will you give way?</p>	<p>A wnewch chi ildio?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:47	<p>Mick Antoniw Bywgraffiad Biography</p> <p>No. I am coming to the end.</p>	<p>Na. Rwy'n tynnu at fy nherfyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

I will reserve my position until we have had a proper and reasoned consideration of all of the evidence and had the opportunity to discuss it together. For this reason, I will not be voting on this motion and I would urge every Member who recognises the importance of effective scrutiny in the Assembly and who wishes to consider all of the evidence properly to do likewise.

Ni fyddaf yn penderfynu ar fy safbwynt hyd nes y byddwn wedi ystyried yn briodol ac yn rhesymol yr holl dystiolaeth a chael y cyfle i'w thrafod gyda'n gilydd. Oherwydd hyn, ni fyddaf yn pleidleisio ar y cynnig hwn a byddwn yn annog pob Aelod sy'n cydnabod pwysigrwydd craffu effeithiol yn y Cynulliad ac sy'n dymuno ystyried yr holl dystiolaeth yn briodol i wneud yr un peth.

16:47

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have spoken out in support of borrowing powers for Wales many times and the power to borrow money to invest in vital infrastructure developments would enable the Welsh Government here to prioritise the needs of the people of Wales. Therefore, for me, those borrowing powers should not be conditional on UK Government support for specific projects, particularly not for a project as ill-conceived and expensive as the £1 billion M4.

Borrowing powers should be granted to the Welsh Government because they are necessary in order to effectively plan for a future in which this institution can play an active role and to meet our priorities. Take, for example, the proposed south Wales metro plans to connect Cardiff to the Valleys and surrounding areas, which could stimulate parts of the country that so often lose out when improvements are planned.

I do not want to argue about who said that they would pay for the metro, but, for me, that would certainly trump a £1 billion M4. It would also regenerate town centres and provide a sustained economic boost through spending on construction. The social benefits would be huge; having reliable and regular public transport services would make commuting to work accessible for many more people. It would encourage a move away from cars and towards reliance on public transport and that is something that would have a great environmental benefit, as well. So, for me, the metro ticks a lot of boxes.

That is the sort of forward-thinking planning that the proposed £1 billion M4 fails to deliver. However, of course, these plans depend on funding being granted from elsewhere. Is it not time that the Welsh Government should be trusted to make decisions about what will benefit Wales most itself? The power to borrow money is the next stage in Wales finding its feet and standing up for itself on an increasingly global stage.

If the £1 billion M4 goes ahead, it will commit the vast majority of Welsh borrowing capacity and exceed the borrowing limit in the Wales Bill in a single, misguided project. I hope that the Welsh Government finds the courage to stand up for a progressive infrastructure policy, rather than going along—. I will give way.

Rwyf wedi siarad yn blwmp ac yn blaen o blaid pwerau benthyca i Gymru sawl gwaith a byddai'r pŵer i fenthg arian i fuddsoddi mewn datblygiadau seilwaith hanfodol yn galluogi Llywodraeth Cymru yma i flaenoriaethu anghenion pobl Cymru. Felly, i mi, ni ddylai'r pwerau benthyca hynny fod yn amodol ar gefnogaeth Llywodraeth y DU ar gyfer prosiectau penodol, yn enwedig nid ar gyfer prosiect mor annoeth a drud fel yr M4 £ 1 biliwn.

Dylai'r pwerau benthyca gael eu rhoi i Lywodraeth Cymru oherwydd eu bod yn angenrheidiol er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dyfodol y gall y sefydliad hwn chwarae rhan weithredol ynddo ac i fodloni'n blaenoriaethau. Er enghraifft, cymerwch y metro arfaethedig yn ne Cymru i gysylltu Caerdydd a'r Cymoedd a'r ardaloedd cyfagos, a allai ysgogi rhannau o'r wlad sydd mor aml yn colli allan pan fo gwelliannau yn yr arfaeth.

Nid wyf am ddadlau ynghylch pwy a ddywedodd y byddent yn talu am y metro, ond, i mi, byddai hynny'n sicr yn curo'r M4 £1 biliwn. Byddai hefyd yn adfywio canol trefi ac yn rhoi hwb economaidd parhaus trwy wario ar adeiladu. Byddai'r manteision cymdeithasol yn enfawr; byddai cael gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a rheolaidd yn gwneud cymudo i'r gwaith yn hygyrch i lawer mwy o bobl. Byddai'n annog symud oddi wrth geir a thug at ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae hynny'n rhywbeth a fyddai'n cael budd amgylcheddol mawr, hefyd. Felly, i mi, mae'r metro yn ticio llawer o flychau.

Dyna'r math o flaengynllunio y mae'r M4 £1 biliwn arfaethedig yn methu â'i gyflawni. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'r cynlluniau hyn yn dibynnu ar gyllid yn cael ei roi o rywle arall. Onid yw'n bryd ymddiried yn Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau am yr hyn a fydd o'r budd pennaf i Gymru ei hun? Y pŵer i fenthg arian yw'r cam nesaf yng Nghymru yn dod o hyd i'w thraed ei hun ac yn ymladd ei chornel ar lwyfan cynyddol fyd-eang.

Os yw'r M4 £1 biliwn yn mynd yn ei blaen, bydd yn ymrwymo'r mwyafrif llethol o gapasiti benthyca Cymru ac yn mynd dros y terfyn benthyca ym Mil Cymru mewn un prosiect unigol, cyfeiliornus. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn dod o hyd i'r dewrder i sefyll i fyny o blaid polisi seilwaith blaengar, yn hytrach na mynd ar hyd —. Byddaf yn ildio.

16:50

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Jocelyn. When you talk about standing up, I am just a little bit surprised, and maybe you can answer the question, as to why you have decided, without any scrutiny or consultation being done, that the people of Wales should go down this particular route for the M4.

Diolch i chi, Jocelyn. Pan fyddwch yn siarad am sefyll i fyny, rwy'n synnu braidd, ac efallai y gallwch ateb y cwestiwn, ynghylch pam rydych wedi penderfynu, heb unrhyw graffu nac ymgynghori, y dylai pobl Cymru ddewis y llwybr penodol hwn ar gyfer yr M4.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we did have a transport plan when we were in Government, under Ieuan Wyn Jones, and this was the preferred route.

I have said on many occasions that this is a UK vanity project, and it was not a priority for the Welsh Government until now. The question about scrutiny that you should be asking, Joyce, is how this came to be a priority for the Welsh Government when it is not in the transport plan, which still stands today.

There is another aspect to this that I would like to put on the record, and that is that the early access to those borrowing powers by the Welsh Government leaves this Assembly completely out of the loop. It is purely a deal between this Welsh Government and the UK Government. We are completely out of the loop. I do not think that this is acceptable and I think that this Government should think very carefully before it commits many future Welsh Governments to a debt that the Assembly itself was not able to scrutinise or to express a view on. That is my view, regardless of my opinion on the specific project. Borrowing on this level should require the approval of this institution. It is our job here to scrutinise the Welsh Government and to hold it to account. To deny us this role undermines our credibility, and I ask the Minister to tread very carefully on this point.

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A congested motorway, gridlocked traffic, cars, buses and ambulances brought to a grinding halt—a vision of the M4 at Newport. These delays remain intensely frustrating for commuters. They are intensely frustrating for lorries delivering goods and they are intensely frustrating for our stores and factories awaiting deliveries. The old network has passed its designed time, and the time is now right for change. We need to tackle the blockages and get traffic flowing. It is an essential transport artery for social and economic development, and we must make sure that it runs well.

It is not just about the social and economic benefits; there is also the environmental imperative. We have all seen the effects of climate change recently, particularly here in south Wales. We are not helping the environment by chugging out noxious fumes during blockages on the M4; we are adding to the problem. We must invest now. It is not just about relief for the road; it is about relief for our society, our economy and our environment. No other stretch of motorway in the United Kingdom has such a combination of factors that impact on traffic flow and are a challenge to a driver's awareness: acute bends at 50 mph, steeply inclined sections, and closely spaced junctions with substandard slip road visibility. It was designed to be a bypass and then a motorway; there is no continuous hard shoulder, three lanes turn into a restrictive two lanes, and, of course, there are the Brynglas tunnels.

Wel, roedd gennym gynllun trafndiaeth pan roeddem mewn Llywodraeth, o dan Ieuan Wyn Jones, a hwn oedd y llwybr dewisol.

Rwyf wedi dweud sawl gwaith fod hwn yn brosiect balchder gan y DU, ac nad oedd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru tan yn awr. Y cwestiwn am graffu y dylech ei fod yn ei ofyn, Joyce, yw sut y daeth hyn i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru pan nad yw yn y cynllun trafndiaeth, sy'n dal i fod mewn grym heddiw.

Mae agwedd arall ar hyn yr hoffwn iddo gael ei gofnodi, a hynny yw bod y mynediad cynnar at y pwerau benthyca hynny gan Lywodraeth Cymru yn gadael y Cynulliad hwn yn gyfan gwbl allan ohoni. Mae'n gytundeb sy'n gyfan gwbl rhwng y Llywodraeth bresennol yng Nghymru a Llywodraeth y DU. Rydym allan ohoni'n llwyr. Nid wyf yn credu bod hyn yn dderbyniol ac rwy'n meddwl y dylai'r Llywodraeth hon feddwl yn ofalus iawn cyn iddi ymrwymo sawl Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i ddyled nad oedd y Cynulliad ei hun yn gallu craffu arni na mynegi barn arni. Dyna fy marn, waeth beth yw fy marn ar y prosiect penodol. Dylid bod angen cymeradwyaeth y sefydliad hwn cyn benthyca ar y lefel hon. Ein gwaith ni yma yw craffu ar waith Llywodraeth Cymru a'i dwyn i gyfrif. Mae gwadu'r rôl hon inni yn tansellio ein hygredded, a gofynnaf i'r Gweinidog droedio'n ofalus iawn ar y pwynt hwn.

Traffordd o dagfeydd, traffig yn stond, ceir, bysiau ac ambiwlansys yn dod i stop llwyr—darlun o'r M4 yng Nghasnewydd. Mae'r oedi hwn yn parhau i fod yn rhwystredig tu hwnt i gymudwyr. Maent yn hynod rwystredig i lorïau dosbarthu nwyddau ac maent yn hynod rwystredig i'n siopau a'n ffatrioedd sy'n aros am eu nwyddau. Mae'r cyfnod yr oedd yr hen rwydwaith wedi'i gynllunio ar ei gyfer wedi dod i ben, ac mae'r amser yn iawn yn awr ar gyfer newid. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r rhwystrau a chael traffig i lifo. Mae'n wythien drafndiaeth hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac economaidd, a rhaid inni wneud yn siŵr ei bod yn rhedeg yn dda.

Mae mwy i hyn na manteision cymdeithasol ac economaidd; mae gorfodaeth amgylcheddol hefyd. Rydym ni i gyd wedi gweld effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ddiweddar, yn enwedig yma yn ne Cymru. Nid ydym yn helpu'r amgylchedd drwy allyrru mygdarth gwenwynig yn ystod tagfeydd ar yr M4; rydym yn ychwanegu at y broblem. Mae'n rhaid i ni fuddsoddi nawr. Mae mwy i hyn na lliniaru'r ffordd; mae'n ymwneud â rhoi rhyddhad i'n cymdeithas, ein heconomi a'n hamgylchedd. Nid oes gan unrhyw ddarn arall o draffordd yn y Deyrnas Unedig y fath gyfuniad o ffactorau sy'n effeithio ar lif traffig ac sy'n herio ymwybyddiaeth gyrrwr i'r fath raddau: troeon tynn ar 50 mya, adrannau â goleddf serth a chyffyrdd agos at ei gilydd heb welededd digonol o'r slipffordd. Cafodd ei chynllunio i fod yn ffordd osgoi ac yna'n draffordd; nid oes llain galed barhaus, mae tair lôn yn troi'n ddwy lôn gyfyngol, ac, wrth gwrs, mae gennyhych chi dwnelau Bryn-glas.

We must not forget that the M4 forms a vital part of the trans-European transport network, connecting Welsh business and commuters with the rest of the world. Therefore, today, on the European business grapevine, there are murmurings that the road transport network in south Wales is a place to avoid. The Brynglas tunnels section of the motorway was most accurately described by the Prime Minister as a 'foot on the windpipe' of economic development across south Wales. Every weekday peak-time traffic report describes miles of congested traffic each side of the Brynglas tunnels. In 2007, two tragic and fatal accidents closed this section of the motorway. In 2011, there was a fire in the Brynglas tunnels that had an impact on traffic flow for several weeks. These incidents tested the southern distributor road as an alternative route, and, every time, the SDR proved to be totally, completely inadequate. A two-vehicle accident between junctions 26 and 27 this morning in normal peak traffic hours created five-mile tailbacks in both directions. On average, there has been a major incident every month this year along the three-mile section of the M4 between junctions 24 and 28.

The blue route, which is primarily the SDR, is already discredited. It has nine roundabouts, six sets of traffic lights, and serves 4,000 new homes—a potential additional number of traffic movements, if everybody had two cars, of 16,000 per day.

It also provides access to the remaining industrial complex of Tata Steel.

Environmentally, it is no better a solution, and the presentation admits that further extension will be necessary. Looking at traffic flow, no-one would pretend that the original estimates formed in the 1950s and 1990s bear any relationship to the increased traffic that we can anticipate over the next 10 to 15 years.

I agree that the metro proposed is well worth examining. Sadly, it is at least 15 years away, and will cost twice the price of the M4 relief road. I remind you that if the proportion of freight transported by rail were to be increased by 100% it would still leave over 80% of freight transport on our road systems. That indicates that the major disadvantage to businesses in south Wales is, of course, the Brynglas tunnels. Manufacturers rightly fear that they will be unable to bring in raw materials and transport manufactured goods out.

The purple route was adopted over 20 years ago, following extensive public consultation. If the Conservatives had been returned to office in 1997, we would be driving along the M4 relief road today. Chancellor George Osborne has called the relief road one of the most important road schemes in the United Kingdom. It is thanks to the Conservative-led coalition Government that funds will now be made available to the Welsh Government. It is up to it to make it a real statement of intent that Wales is open for business.

Rhaid i ni beidio ag anghofio bod yr M4 yn ffurfio rhan hanfodol o'r rhwydwaith trafndiaeth traws-Ewropeaidd, gan gysylltu busnesau a chymudwyr Cymru â gweddill y byd. Felly, heddiw, mae sion ym myd busnes Ewropeaidd, sy'n sibrwd bod y rhwydwaith trafndiaeth ffyrdd yn ne Cymru yn lle i'w osgoi. Mae adran twnelau Bryn-glas o'r draffordd wedi ei disgrifio i'r dim gan y Prif Weinidog fel y 'droed ar y bibell wynt' y datblygiad economaidd ar draws de Cymru. Mae pob adroddiad traffig yn ystod oriau brig yr wythnos waith yn disgrifio milltiroedd o dagfeydd traffig o boptu twnelau Bryn-glas. Yn 2007, bu dwy ddamwain drasig ac angheuol a gaeodd yr adran hon o'r draffordd. Yn 2011, roedd tân yn nhwnelau Bryn-glas a gafodd effaith ar lif traffig am sawl wythnos. Profwyd y ffordd ddosbarthu ddeheuol fel ffordd amgen gan y digwyddiadau hyn, a, bob tro, roedd yr SDR yn gwbl, gwbl annigonol. Achosodd damwain rhwng dau gerbyd fore heddiw rhwng cyffyrdd 26 a 27 yn yr oriau traffig brig arferol dagfeydd bum milltir i'r ddau gyfeiriad. Ar gyfartaledd, cafwyd digwyddiad mawr bob mis o'r flwyddyn eleni ar hyd y rhan tair milltir hon o'r M4 rhwng cyffyrdd 24 a 28.

Bwriwyd amheuaeth eisoes ar y llwybr glas, sef yr SDR yn bennaf. Mae ganddo naw cylchfan, chwe set o oleuadau traffig, ac mae'n gwasanaethu 4,000 o gartrefi— nifer ychwanegol posibl o symudiadau traffig, pe bai gan bawb ddau gar, o 16,000 y dydd.

Mae hefyd yn darparu mynediad i'r safle diwydiannol sy'n weddill o Tata Steel.

O safbwynt amgylcheddol, nid yw'n ateb gwell, ac mae'r cyflwyniad yn cyfaddef y bydd estyn ymhellach yn angenrheidiol. O edrych ar lif traffig, ni fyddai unrhyw un yn esgus bod yr amcangyfrifon gwreiddiol a luniwyd yn y 1950au a'r 1990au yn dwyn unrhyw berthynas â'r cynnydd mewn traffig a ragwelwn dros y 10 i 15 mlynedd nesaf.

Rwy'n cytuno bod y metro arfaethedig yn sicr yn werth ei ystyried. Yn anffodus, mae o leiaf 15 mlynedd i ffwrdd, a bydd yn costio dwywaith pris ffordd liniaru'r M4. Rwy'n eich atgoffa, os bydd y gyfran o nwyddau a gludir ar y rheiffordd yn cynyddu 100%, y byddai'n dal i adael dros 80% o nwyddau i'w cludo ar ein systemau ffyrdd. Mae hynny'n dangos mai'r anfantais fawr i fusnesau yn ne Cymru, wrth gwrs, yw twnelau Bryn-glas. Mae gweithgynhyrchwyr yn iawn i ofni na fyddant yn gallu dod â deunyddiau crai i mewn a chludo nwyddau a weithgynhyrchwyd allan.

Cafodd y llwybr porffor ei fabwysiadu dros 20 mlynedd yn ôl, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth. Pe bai'r Ceidwadwyr wedi cael eu hail-ethol ym 1997, byddem yn gyrru ar hyd ffordd liniaru'r M4 heddiw. Mae'r Canghellor George Osborne wedi galw'r ffordd liniaru yn un o'r cynlluniau ffyrdd pwysicaf yn y Deyrnas Unedig. I Lywodraeth glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr y mae'r diolch y bydd y cronfeydd yn awr ar gael i Lywodraeth Cymru. Mater iddi hi yw gwneud datganiad o fwriad go iawn bod Cymru ar agor i fusnes.

16:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart, to speak.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart, i siarad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will turn first to the M4, if I may. I will echo the comments of the Chair of the Finance Committee: I will tread very carefully. It would be inappropriate for me to engage in debate while the formal decision-making process is under way. It is for this reason that the Government has not tabled any amendments to the debate, and nor will it be voting on it this afternoon.

We are currently considering transport infrastructure across south-east Wales, including a proposed metro system that could support economic growth and regeneration of key locations across south-east Wales and complement, of course, our transport infrastructure. The metro implementation group has begun work on the detail of the metro implementation options. It has engagement with key stakeholders under away, and the team is assessing the potential metro routes. I thank Members today for their very positive comments on the development of the project. In addition to that, the Minister for Finance is also looking at the financial position for the future in terms of the development of the metro, and has already made an allocation of capital to kick-start the project in some areas.

I now turn to the issues around borrowing. The Wales Bill enables us to borrow up to £500 million in total to invest in capital projects, subject to an annual limit of £125 million. The UK Government has made it clear that early access to borrowing is available only in order to help to fund a solution for the M4 corridor around Newport. The Minister for Finance has noted all of the comments made about borrowing powers today, as she has sat through this particular debate, and will, of course, return to some of these issues in the future. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Trof yn gyntaf at yr M4, os caf. Rwy'n adleisio sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid: byddaf yn troedio'n ofalus iawn. Byddai'n amhriodol i mi gymryd rhan mewn dadl tra bod y broses o wneud penderfyniad ffurfiol ar y gweill. Dyna pam nad yw'r Llywodraeth wedi cyflwyno unrhyw welliannau i'r ddadl, ac na fydd yn pleidleisio ar y mater y prynhawn yma.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y seilwaith trafndiaeth ar draws de-ddwyrain Cymru, gan gynnwys system fetro arfaethedig a allai gefnogi twf economaidd ac adfywio lleoliadau allweddol ledled de-ddwyrain Cymru ac ategu, wrth gwrs, ein seilwaith trafndiaeth. Mae grŵp gweithredu'r metro wedi dechrau gweithio ar fanylion dewisiadau gweithredu'r metro. Mae wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ac mae'r tîm yn asesu llwybrau metro posibl. Diolch i'r Aelodau heddiw am eu sylwadau cadarnhaol iawn ar ddatblygiad y prosiect. Yn ogystal â hynny, mae'r Gweinidog Cyllid hefyd yn edrych ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y dyfodol o ran datblygiad y metro, ac mae eisoes wedi gwneud dyraniad cyfalaf i roi cychwyn ar y prosiect mewn rhai ardaloedd.

Trof yn awr at y materion sy'n ymwneud â benthyca. Mae Bil Cymru yn ein galluogi i fenthycio hyd at gyfanswm o £500 miliwn i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, yn amodol ar derfyn blynyddol o £125 miliwn. Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir bod mynediad cynnar at fenthycio ar gael yn unig er mwyn helpu i ariannu datrysiad ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi nodi pob un o'r sylwadau a wnaed am bwerau benthyca heddiw, gan ei bod wedi eistedd drwy'r ddadl arbennig hon, ac, wrth gwrs, bydd yn dychwelyd at rai o'r materion hyn yn y dyfodol. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Rhun ap Iorwerth to reply to the debate.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddadl.

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Ni wnaif siarad yn hir iawn, ond gwnaf ymateb i ambell i bwynt sydd wedi cael ei wneud. Diolchaf i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth y prynhawn yma. I ryw raddau, rwy'n meddwl bod y Ceidwadwyr a ninnau yn cymryd rhan mewn dwy ddadl ar wahan. Mae Ceidwadwyr fel pe baent wedi bod yn rhoi'r 'pitch' dros ddeilio â phroblem y M4 yn ardal Casnewydd. Rwy'n meddwl bod cytundeb eithaf eang yn y Siambr hon bod angen mynd i'r afael â phroblem y M4 yn ardal Casnewydd. Y cwestiwn yw sut i fynd i'r afael â'r sefyllfa honno.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I will not speak for long, but I will respond to some of the points that have been mentioned. I thank everyone that has taken part in the discussion this afternoon. To some extent, I think that the Conservatives and ourselves are taking part in two separate debates. The Conservatives act as if they have been giving the pitch for dealing with the problem of the M4 in the Newport area. I think that there is quite widespread agreement in this Chamber that we do need to get to grips with the problem of the M4 in the Newport area. The question is how to get to grips with that situation.

Byron Davies, you said that you were proud of the Conservative Government at UK level for providing borrowing powers for the M4. If your colleagues in London want to put up the cash to pay for a new M4, that would be an entirely different situation, but they are not doing that. These are Welsh borrowing powers. We will decide here in Wales—we should decide here in Wales—how to spend them. Let us say that it was right in principle, though, that the UK Government could decide how we spend our money here, and that we should be grateful somehow to the UK Government for taking the weight and the burden of responsibility for making the decision off our shoulders—

Byron Davies, rydych yn dweud eich bod yn falch o'r Llywodraeth Geidwadol ar lefel y DU am iddi ddarparu pwerau benthycu ar gyfer yr M4. Os yw eich cydweithwyr yn Llundain am godi arian i dalu am M4 newydd, byddai hynny'n sefyllfa gwbl wahanol, ond nid ydynt yn gwneud hynny. Pwerau benthycu Cymru yw'r rhain. Byddwn yn penderfynu yma yng Nghymru—ni a ddylai benderfynu yma yng Nghymru—sut i wario'r arian hwnnw. Gadewch i ni ddweud ei bod yn iawn mewn egwyddor, fodd bynnag, i Lywodraeth y DU allu penderfynu sut y gwariwn ein harian yma, ac y dylem fod yn ddiolchgar rywsut i Lywodraeth y DU am gymryd y pwysau a baich y cyfrifoldeb am wneud y penderfyniad oddi ar ein hysgwyddau—

16:59 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I will not, sorry. We could still use those borrowing powers and opt for the blue route rather than the black route, and you could still, if you liked, try to claim the credit for the actions of a UK Government, though, as I say, I think that there is a drive here in Wales to spend the money on an answer to the problem in the south-east anyway.

Na wnaif, mae'n ddrwg gennyf. Gallem ddefnyddio'r pwerau benthycu yr un fath a dewis y llwybr glas yn hytrach na'r llwybr du, a gallech chithau, pe baech am wneud hynny, geisio hawlio clod am weithredoedd Llywodraeth y DU, er, fel y dywedais, credaf fod gwir ddymuniad yma yng Nghymru i wario'r arian ar ateb i'r broblem yn y de-ddwyrain beth bynnag.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I turn now to Eluned Parrott and the suggestion that there has somehow been a stage-managed and improper deal between the committee and us in tabling this motion today. I can tell you that, after 20 years in journalism, it would not be the press management that I would have planned to have the discussion on the committee letter yesterday in the press, rather than on this debate today.

Trof yn awr at Eluned Parrott a'r awgrym bod yna rywsut gytundeb amhriodol sydd wedi cael ei ffugio rhwng y pwyllgor a ninnau wrth gyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Ar ôl 20 mlynedd mewn newyddiaduraeth, gallaf ddweud wrthyfch nad gyda rheolwyr y wasg y byddwn wedi bwriadu cael y drafodaeth am lythyr y pwyllgor ddoe yn y wasg, ond yn hytrach yn y ddadl hon heddiw.

Eluned Parrott a gododd—

Eluned Parrott rose—

17:00 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No; I am afraid that I am a bit short on time to take an intervention. Mick Antoniw, I hear what you say. I am rather surprised, though. I will remind you of what I said initially. We are pleased that this debate today is happening at the same time as the Environment and Sustainability Committee is discussing this issue. I will remind you that the Minister would not be bound by the decision or the recommendations of the environment committee. It will be an addition—a vital addition—to the debate. We are today using our opportunity to make our contribution to the debate, in the same way as the IoD has made its contribution to the debate and the FSB has made its contribution. If it is your suggestion that, somehow, we should wait for the Minister to make a decision and then try to undo it, that is not the way that I want to operate. I would rather try to influence the Government now.

Na; Rwy'n ofni fy mod braidd yn brin o amser i gymryd ymyriad. Mick Antoniw, rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch. Serch hynny, rwy'n synnu braidd. Byddaf yn eich atgoffa o'r hyn a ddywedais yn y lle cyntaf. Rydym yn falch bod y ddadl hon heddiw yn digwydd ar yr un pryd ag y mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn trafod y mater hwn. Byddaf yn eich atgoffa na fyddai'r Gweinidog yn rhwym wrth y penderfyniad neu argymhellion pwyllgor yr amgylchedd. Bydd yn ychwanegiad—ac yn un hanfodol—at y ddadl. Rydym heddiw'n defnyddio ein cyfle i wneud ein cyfraniad at y ddadl, yn yr un ffordd ag y gwnaeth y Mynegai Dosbarthiad (IoD) ei gyfraniad i'r ddadl ac i'r Ffederasiwn Busnesau Bach wneud ei gyfraniad. Os mai eich awgrym, rywsut, yw y dylem aros i'r Gweinidog wneud penderfyniad ac yna ceisio ei ddadwneud, nid dyna'r ffordd rwyf am weithio. Byddai'n well gennyf geisio dylanwadu ar y Llywodraeth yn awr.

Mick Antoniw a gododd—

Mick Antoniw rose—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:01 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I understand the sincerity of the point that you raise. However, if I was to vote for your motion today, how could I go into the environment committee and say, 'I'm going to consider all of the evidence before I come to a conclusion'?

Rwy'n deall didwylledd y pwynt rydych yn ei godi. Fodd bynnag, pe bawn yn pleidleisio dros eich cynnig heddiw, sut y gallwn fynd i mewn i'r pwyllgor amgylchedd a dweud, 'Rydw i'n mynd i ystyried yr holl dystiolaeth cyn i mi wneud penderfyniad'?

17:01 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I absolutely listened to your point again, and I remind you that you can use your vote in whatever way you want in the debate today.

Gwrandawais yn astud ar eich pwynt eto, ac rwy'n eich atgoffa y gallwch ddefnyddio eich pleidlais fel y gwelwch yn dda yn y ddadl heddiw.

Turning to the Minister, I accept entirely her view that she believes that it is inappropriate to engage in the debate on the right option for the M4. Now, what is vital—and the reason why we have tabled this motion today—is that we have that debate. We, today, have on record our arguments, which we have not made up overnight. We have formed them through consultation with others, in a different way than the committee is doing its consultation. We have on record today a very clear argument why we believe that the Minister, when she comes to make a decision, should take a particular course of action.

Gan droi at y Gweinidog, rwy'n derbyn yn llwyr ei barn ei bod yn credu ei bod yn amhriodol cymryd rhan yn y ddadl ar yr opsiwn cywir ar gyfer yr M4. Yn awr, yr hyn sy'n hanfodol—a'r rheswm pam rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw—yw ein bod yn cael y ddadl honno. Rydym ni, heddiw, wedi cofnodi ein dadleuon, nad ydym wedi eu creu dro nos. Rydym wedi eu llunio drwy ymgynghori ag eraill, mewn ffordd wahanol i'r ffordd yr ymgynghora'r pwyllgor. Mae gennym ar gofnod heddiw ddadl glir iawn pam y credwn y dylai'r Gweinidog, pan y daw i wneud penderfyniad, gymryd camau gweithredu penodol.

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does Member object? There are objections. I therefore defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb welliant. A oes Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau. Felly, gohiriaf y bleidlais dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Ynni

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Lesley Griffiths, gwelliannau 3 a 4 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 5 a 6 yn enw Paul Davies.

Welsh Liberal Democrats Debate: Energy

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Lesley Griffiths, amendments 3 and 4 in the name of Elin Jones, and amendments 5 and 6 in the name of Paul Davies.

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on William Powell to move the motion.

Cynnig NDM5530 Aled Roberts

Motion NDM5530 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd microgynhyrchu a chynhyrchu sy'n eiddo i gymunedau o ran datblygu cymysgedd ynni amrywiol i ddarparu ar gyfer anghenion ynni Cymru yn y dyfodol, a'r angen am fwy o effeithlonrwydd ynni i leihau ein defnydd o ynni a lleihau tlodi tanwydd.

1. Recognises the importance of microgeneration and community-owned generation to the development of a diverse energy mix to provide for Wales' energy needs in the future, and the need for greater energy efficiency to reduce our energy use and decrease fuel poverty.

2. Yn croesawu'r cynigion gan Lywodraeth y DU i gymunedau gael y cyfle i brynu rhan yn eu cynllun trydan adnewyddadwy lleol.

2. Welcomes the proposals by the UK Government for communities to have the chance to buy a stake in their local renewable electricity scheme.

3. Yn gresynu at y canfyddiadau yng Ngwerthusiad Canol Tymor Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru mai prin iawn fu'r cyflawniad yn erbyn y targedau ar gyfer cynhyrchu ynni, gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a chreu swyddi hyd yma.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gynorthwyo ynni cymunedol ac effeithlonrwydd ynni drwy:

a) sicrhau bod prosiectau microgynhyrchu yn cael eu hystyried gyda rhagdybiaeth o blaid datblygu;

b) rhoi fframwaith cyfreithiol a busnes enghreifftiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol Ynni Adnewyddadwy sy'n Eiddo i Gymunedau i leihau'r costau cyfreithiol a'r cymhlethdod i gymunedau sydd am sefydlu eu rhai eu hunain;

c) sicrhau bod y cyngor a'r cymorth a gynigir gan Swyddogion Datblygu Technegol Ynni'r Fro yn parhau ar ôl y rhaglen bresennol;

d) creu llyfrgell o adnoddau i gynorthwyo grwpiau cymunedol wrth wneud cais am gymorth ar gyfer prosiectau cynhyrchu cymunedol; ac

e) gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod polisiâu newid yn yr hinsawdd ac addysg yn cydnabod yn llawn rôl addysg ac ysgolion o ran cyflwyno newid ymddygiad, a sicrhau mwy o ddealltwriaeth o faterion ecolegol yn ein hysgolion.

3. Regrets the findings within the Welsh Government's Ynni'r Fro Mid-term Evaluation that 'achievement against the targets for energy generation, reductions in greenhouse emissions and job creation has been minimal to date'.

4. Calls on the Welsh Government to do more to support community energy and energy efficiency by:

a) ensuring that microgeneration projects are considered with a presumption in favour of development;

b) providing a model legal and business framework for Community-Owned Renewable Energy Co-Operatives to reduce the legal costs and complexity for communities wishing to establish their own;

c) ensuring that the advice and support offered by Ynni'r Fro Technical Development Officers continues beyond the existing programme;

d) creating a library of resources to support community groups in applying for support for community generation projects; and

e) working with education providers to ensure climate change and education policies fully recognise the role of education and schools in delivering behaviour change, and bring more understanding of ecological issues into our schools.

17:02

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

We are pleased to have tabled this debate today, to allow us an opportunity here in the Senedd to discuss the importance of small-scale and community-owned generation. This follows our energy debate in May, which focused on larger-scale renewable energy development. We were pleased to receive support during that debate for a number of our proposals to help create a more secure energy supply for our country. Today, we continue with this debate, with our focus on community energy, which offers such immense potential as a vital source of diversity and renewables within our energy mix.

Cynigiad y cynnig.

Rydym yn falch o fod wedi cyflwyno'r ddatl hon heddiw, er mwyn rhoi cyfle i ni yma yn y Senedd drafod pwysigrwydd cynhyrchu ar raddfa fach ac sy'n eiddo i'r gymuned. Mae hyn yn dilyn ein datl ar ynni ym mis Mai, a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy. Roeddem yn falch o dderbyn cefnogaeth yn ystod y ddatl honno ar gyfer nifer o'n cynigion i helpu i greu cyflenwad ynni mwy diogel ar gyfer ein gwlad. Heddiw, rydym yn parhau â'r ddatl hon, gyda'n ffocws ar ynni cymunedol, sy'n cynnig potensial mor aruthrol fel ffynhonnell hanfodol o amrywiaeth ac ynni adnewyddadwy o fewn ein cymysgedd ynni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Liberal Democrats believe firmly in the involvement of community groups and individuals in renewable energy projects, and, indeed, in energy conservation projects. Both offer real opportunities to create local jobs and to strengthen local communities and make them more resilient. There are some excellent examples of schemes across the whole of Wales. One that comes to mind is the Talybont energy scheme in my own region, which was the first community hydro scheme in Wales. This 36 kW hydro scheme has been operating since 2006, from the Talybont reservoir in the Brecon Beacons national park. Electricity generated from the scheme is sold, and the income generated is fed back into sustainable living projects within the surrounding rural community. There are also excellent examples of organisations working with communities across the length and breadth of Wales to support such community renewable projects. For example, there are grass-roots bodies such as Community Energy Wales, which plays a key role in bringing together community groups to share knowledge and expertise and to help provide the practical and financial support for communities that wish to own and operate their own renewable sources of energy, and there are also larger organisations, such as the National Trust, which helps by providing access to land and by signposting support and, indeed, sources of funding. In 2013, the National Trust produced a report on the social and economic benefits of community energy schemes, and this highlights the many benefits that are offered by community renewables, and some of the key barriers faced by communities in seeking to develop local energy schemes.

The report recognised a number of social benefits, including increased autonomy, and, as I said earlier, resilience for local communities through giving them a long-term, sustainable source of income. This is demonstrated, as I said, by the Talybont hydro scheme, which delivers an income of around £25,000 a year. Other benefits include greater community empowerment and cohesion through bringing people together with a shared vision and aim, identifying individual skills, and enabling greater self-reliance through direct control of local resources. This is particularly important in the times in which we live.

There are also major educational spin-offs, not only for those directly involved in the community energy scheme, but as a study site for school visits and projects, helping to teach our younger generations about the importance of energy efficiency and the careful use of our valuable natural resources.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu i'r carn bod angen cynnwys grwpiau cymunedol ac unigolion mewn prosiectau ynni adnewyddadwy, ac, yn wir, mewn prosiectau cadwraeth ynni. Mae'r ddau yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i greu swyddi lleol ac i gryfhau cymunedau lleol a'u gwneud yn fwy cadarn. Mae rhai enghreifftiau rhagorol o gynlluniau ym mhob cwr o Gymru. Un sy'n dod i'r meddwl yw'r cynllun ynni yn Nhal-y-bont yn fy rhanbarth i, sef y cynllun dŵr cymunedol cyntaf yng Nghymru. Mae'r cynllun dŵr 36 kW hwn wedi bod ar waith ers 2006, o gronfa Tal-y-bont ym mharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae trydan a gynhyrchir gan y cynllun yn cael ei werthu, a'r incwm a gynhyrchir yn cael ei fwydo yn ôl i mewn i brosiectau byw'n gynaliadwy yn y gymuned wledig o gwmpas. Ceir hefyd enghreifftiau gwyth o sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau ar hyd a lled Cymru i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol o'r fath. Er enghraifft, ceir cyrff llawr gwlad megis Ynni Cymunedol Cymru, sy'n chwarae rhan allweddol yn dwyn ynghyd grwpiau cymunedol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, ac yn helpu i ddarparu'r cymorth ymarferol ac ariannol i gymunedau sy'n dymuno perchen ar eu ffynonellau ynni adnewyddadwy eu hunain a'u rhoi ar waith, ac mae hefyd sefydliadau mwy o faint, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n helpu drwy ddarparu mynediad i dir a thrwy gyfeirio cymorth ac, yn wir, ffynonellau cyllid. Yn 2013, cynhyrnod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol adroddiad ar fanteision cymdeithasol ac economaidd cynlluniau ynni cymunedol, ac mae hwn yn tynnu sylw at y manteision niferus sy'n cael eu cynnig gan ynni adnewyddadwy cymunedol, ac at rai o'r rhwystrau allweddol a wynebir gan gymunedau wrth geisio datblygu cynlluniau ynni lleol.

Mae'r adroddiad yn cydnabod nifer o fanteision cymdeithasol, gan gynnwys mwy o ymroleaeth, ac, fel y dywedais yn gynharach, cadernid i gymunedau lleol drwy roi ffynhonnell gynaliadwy, hirdymor o incwm iddynt. Dangosir hyn, fel y dywedais, gan gynllun dŵr Tal-y-bont, sy'n darparu incwm o tua £ 25,000 y flwyddyn. Mae manteision eraill yn cynnwys mwy o rymuso cymunedol a chydlyniant drwy ddwyn ynghyd pobl sydd â gweledigaeth a nod cyffredin, gan nodi sgiliau unigol, a hwylyso mwy o hunanddibyniaeth trwy reoli adnoddau lleol yn uniongyrchol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr oes sydd ohoni.

Mae sgil-efeithiau addysgol sylweddol hefyd, nid yn unig i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllun ynni cymunedol, ond fel safle astudio ar gyfer ymweliadau a phrosiectau ysgolion, gan helpu i addysgu ein cenedlaethau iau am bwysigrwydd effeithlonrwydd ynni a defnydd gofalus o'n hadnoddau naturiol gwerthfawr.

Finally, there are the great economic benefits, not just in terms of the income generated from the energy scheme, but also from the employment opportunities from the development and construction phase of community renewables. There is also the potential for tourism, when these sites can actually become visitor attractions. Sadly, despite these many benefits, the barriers to community energy remain significant. There is an excellent scheme in my region, the Green Valleys, which has been developing micro hydro schemes for over three years now, yet, despite having 12 private schemes designed, licensed and constructed, it has no community schemes even in construction phase at this time, and this is due to some of the underlying issues in the support for community energy development here in Wales.

There is clearly a problem here. Community renewables are facing significant obstacles, and if we do not deliver, we will miss our targets for renewable energy generation through that very difficulty. The planning process remains a key barrier. While I was pleased to see a letter from the Minister for planning, Carl Sargeant, back in December, highlighting the fact that local planning authorities must consider the economic and job creation benefits associated with renewable energy projects when assessing an application, this does not appear to be happening in practice out there on the ground. It is also important that the potential for cuts in carbon emissions is considered, too, in the wider context. There is seemingly no proportionality in the licensing process. A small-scale farm—for example, a 10 kW micro hydro scheme—requires the same process of evaluation as something 50 times as large. The upfront licensing costs are as high for a small scheme with an income of £10,000 a year as they are for a larger scheme of £500,000 per year.

While we welcome the principles underlying the Welsh Government's Ynni'r Fro scheme, it was disappointing to read the findings of the mid-term evaluation, which identified a number of barriers and constraints to the success of this programme. The evaluation found that, by the time the scheme comes to an next year, it is

'unlikely to achieve its ambitious targets for energy generation and job creation'.

Furthermore, it found that

'achievement against the targets for energy generation, reductions in greenhouse emissions and job creation has been minimal to date.'

In the convergence area, no jobs have been created against a target of 20, and no renewable energy has been generated against a target of over 31 GWh.

Yn olaf, mae'r manteision economaidd mawr, nid yn unig o ran yr incwm a gynhyrchir gan y cynllun ynni, ond hefyd o ran y cyfleoedd gwaith o gyfnod datblygu ac adeiladu ynni adnewyddadwy cymunedol. Hefyd, mae'r potensial ar gyfer twristiaeth, pan y gall y safleoedd hyn mewn gwirionedd ddod yn atyniadau i ymwelwyr. Yn affodus, er gwaethaf y manteision niferus hyn, mae'r rhwystrau i ynni cymunedol yn parhau'n sylweddol. Mae cynllun ardderchog yn fy rhanbarth i, y Cymoedd Gwyrdd, sydd wedi bod yn datblygu cynlluniau dŵr micro am dros dair blynedd bellach, ac eto, er bod 12 cynllun preifat wedi'u cynllunio, eu trwyddedu a'u hadeiladu, nid oes ganddo gynlluniau cymunedol sydd hyd yn oed yn y cyfnod adeiladu ar hyn o bryd, ac mae hyn yn sgîl rhai o'r materion gwaledol yn y cymorth ar gyfer datblygu ynni cymunedol yma yng Nghymru.

Mae problem yma, mae'n amlwg. Mae ynni adnewyddadwy cymunedol yn wynebu rhwystrau sylweddol, ac os na fyddwn yn cyflawni, byddwn yn methu ein targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar sail yr anhawster hwnnw. Mae'r broses gynllunio yn parhau'n rhwystr allweddol. Er fy mod yn falch i weld llythyr gan y Gweinidog Cynllunio, Carl Sargeant, yn ôl ym mis Rhagfyr, yn tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y manteision economaidd a chreu swyddi sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy wrth asesu cais, nid yw hyn fel pe bai'n digwydd yn ymarferol ar lawr gwlad. Mae hefyd yn bwysig bod y potensial ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn cael ei ystyried, hefyd, yn y cyd-destun ehangach. Nid oes fel pe bai gymesuredd yn y broses drwyddedu. Mae angen yr un broses werthuso ar fferm ar raddfa fach—er enghraifft, cynllun dŵr micro 10 kW—â rhywbeth 50 gwaith mor fawr. Mae'r costau trwyddedu ymlaen llaw mor uchel ar gyfer cynllun bach gydag incwm o £10,000 y flwyddyn ag ydynt ar gyfer cynllun mwy o £500,000 y flwyddyn.

Er ein bod yn croesawu'r egwyddorion wrth wraidd cynllun Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru, siom oedd darllen canfyddiadau'r gwerthusiad canol-tymor, a nododd nifer o rwystrau a chyfyngiadau i lwyddiant y rhaglen hon. Canfu'r gwerthusiad, erbyn y daw'r cynllun i ben y flwyddyn nesaf, ei fod

'yn annhebygol o gyrraedd ei dargedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni a chreu swyddi'.

At hynny, gwelwyd mai

'prin iawn fu'r cyflawniad yn erbyn y targedau ar gyfer cynhyrchu ynni, gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a chreu swyddi hyd yma.'

Yn yr ardal gydyfeirio, nid oes swyddi wedi cael eu creu yn erbyn targed o 20, ac nid oes unrhyw ynni adnewyddadwy wedi cael ei gynhyrchu yn erbyn targed o dros 31 GWh.

In the competitiveness region, no jobs have been created against a target of two, and no renewable energy has been generated against a target of 3 GWh. While we welcome the longer-term duration of the scheme—and it is to be welcomed, as it gives community groups more stability—this will only work if the scheme has the tools to deliver on its objectives. Given that Ynni'r Fro was launched in 2010, it is clear that delivery is currently falling well below expectation. There are clear lessons that we need to learn in taking forward any community energy support into the future. In particular, I was concerned to read from the evaluation report that conflicting guidance was being given to groups seeking planning permission by local planning authorities and Natural Resources Wales, which will only create further confusion in an already complex planning regime.

Even more worrying is that Natural Resources Wales and planning authorities were, and I quote,

'perceived to be resistant to community renewable energy and to give insufficient consideration to the potential benefits of projects to local communities.'

This is, overall, a disappointing signal to give to the many community groups in Wales that are seeking to take forward positive action to reduce their carbon footprint, to generate their own locally sourced energy and to provide sustainable sources of income for their locality. We do, however, recognise the valuable support being offered by technical development officers and the importance of continuing this level of support beyond the life of Ynni'r Fro, which is highlighted in our motion today.

In bringing my comments to a close, I look forward to hearing the comments from other Members around the Chamber on this important issue. Community energy schemes have the potential to create a diverse energy mix and to provide for Wales's energy needs way into the future, but they are currently being smothered by bureaucracy and the complexities of our planning system and delayed by a lack of commitment to renewable energy targets on the part of public bodies. We need to embrace the benefits that these schemes offer. A large-scale development was announced just yesterday, which I welcomed—the new state-of-the-art school that is to be built in Carno in Montgomeryshire—a school that was threatened with closure by the local authority—using financial support from the Carno windfarm development fund.

I hope that the Minister will consider the proposals in our motion, which we believe will help to enable greater development of community energy schemes in Wales. We will also be supporting the amendments submitted by Plaid Cymru and the Conservatives, which we believe further enhances the motion.

Yn y rhanbarth cystadleurwydd, nid oes swyddi wedi cael eu creu yn erbyn targed o ddau, ac nid oes unrhyw ynni adnewyddadwy wedi cael ei gynhyrchu yn erbyn targed o 3 GWh. Er ein bod yn croesawu cyfnod tymor hwy y cynllun—ac mae i'w groesawu, gan ei fod yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i grwpiau cymunedol—ni fydd hyn yn gweithio oni bai bod gan y cynllun yr adnoddau i gyflawni ei amcanion. O ystyried bod Ynni'r Fro wedi ei lansio yn 2010, mae'n amlwg bod y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn disgyn yn llawer is na'r disgwyl. Mae gwersi clir y mae angen i ni eu dysgu wrth fwrw ymlaen gydag unrhyw gymorth ynni cymunedol yn y dyfodol. Yn benodol, roeddwn yn bryderus i ddarllen yn yr adroddiad gwerthuso bod arweiniad a oedd yn gwrthdaro yn cael ei roi i grwpiau sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, a bydd hyn ond yn creu dryswch pellach mewn cyfundrefn gynllunio sydd eisoes yn gymhleth.

Mae hyd yn oed yn fwy o bryder bod Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio, ac rwy'n dyfynnu,

'fel petaent yn ymwrthod ag ynni adnewyddadwy cymunedol ac yn amharod i ystyried yn ddiagonol fanteision posibl prosiectau i gymunedau lleol.'

Mae hyn, yn gyffredinol, yn arwydd siomedig i'w roi i'r grwpiau cymunedol niferus yng Nghymru sy'n ceisio cymryd camau cadarnhaol ymlaen i leihau eu hól troed carbon, i gynhyrchu eu hynni eu hunain o ffynonellau lleol ac i ddarparu ffynonellau cynaliadwy o incwm ar gyfer eu hardal. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y cymorth gwerthfawr a gynigir gan swyddogion datblygu technegol a phwysigrwydd parhau â'r lefel hon o gefnogaeth y tu hwnt i oes Ynni'r Fro, a amlygir yn ein cynnig heddiw.

Wrth ddod â'm sylwadau i ben, rwy'n edrych ymlaen at glywed sylwadau gan Aelodau eraill o amgylch y Siambr ar y mater pwysig hwn. Mae gan gynlluniau ynni cymunedol y potensial i greu cymysgedd ynni amrywiol a diwallu anghenion ynni Cymru yn y dyfodol, ond maent yn cael eu mygu ar hyn o bryd gan fiwrocratiaeth a chymhlethdodau ein system gynllunio a'u hoedi gan ddiffyg ymrwymiad i dargedau ynni adnewyddadwy ar ran cyrff cyhoeddus. Mae angen i ni gofleidio'r manteision y mae'r cynlluniau hyn yn eu cynnig. Dim ond ddoe, cyhoeddwyd datblygiad ar raddfa fawr, a groesewais—yr ysgol newydd fodern o'r radd flaenaf sydd i'w hadeiladu yng Ngharno yn Sir Drefaldwyn—ysgol a oedd dan fygythiad cael ei chau gan yr awdurdod lleol—gan ddefnyddio cymorth ariannol o gronfa datblygu fferm wynt Carno.

Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y cynigion yn ein cynnig, y credwn a fydd yn helpu i alluogi mwy o gynlluniau ynni cymunedol i gael eu datblygu yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a'r Ceidwadwyr, a gredwn a fydd yn gwella'r cynnig ymhellach.

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the six amendments to the motion. I call on the Minister for Natural Resources and Food to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Lesley Griffiths.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i symud gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gwelliant 1—Lesley Griffiths

Amendment 1—Lesley Griffiths

Ym mhwynt 2, dileu 'croesawu'r' a rhoi'nodi'r' yn ei le.

In point 2, delete 'Welcomes' and replace with 'Notes'.

Gwelliant 2—Lesley Griffiths

Amendment 2—Lesley Griffiths

Ym mhwynt 3, dileu 'gresynu at y' a rhoi'nodi'r' yn ei le.

In point 3, delete 'Regrets' and replace with 'Notes'.

17:12

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move amendments 1 and 2.

Rwy'n symud gwelliannau 1 a 2.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Llyr Gruffydd to move amendments 3 and 4, tabled in the name of Elin Jones.

Galwad ar Llyr Gruffydd i symud gwelliannau 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 3—Elin Jones

Amendment 3—Elin Jones

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

Add as new sub-point at end of point 4:

sefydlu cronfa ynni cymunedol, yn seiliedig ar y rhaglen lwyddiannus Community Energy Scotland, i ddarparu cyllid drwy fenthyciadau i gymunedau lleol sy'n awyddus i sefydlu prosiectau ynni cymunedol, benthyciadau a fyddai'n cael eu dileu petai'r prosiectau'n aflwyddiannus.

establishing a community energy fund, based on the successful Community Energy Scotland programme, to provide loan finance to local communities wishing to set up community energy projects which would be written off if unsuccessful.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

Add as new sub-point at end of point 4:

ystyried cyflwyno rhaglen ôl-ffitio ledled y wlad i leihau'n sylweddol y defnydd o ynni yng Nghymru.

considering rolling out a nationwide retrofitting programme to drastically cut Wales's energy consumption.

17:12

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiau welliannau 2 a 4 yn enw Elin Jones.

I move amendments 2 and 4 in the name of Elin Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n bleser gennyf gynnig y gwelliannau ac rwy'n diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am nodi y byddant yn derbyn y gwelliannau hynny.

It is a pleasure to move the amendments and I thank the Liberal Democrats for noting that they will accept those amendments.

Er 1979, mae ffocws Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod ar fasnacheiddio a phreifateiddio o fewn y sector ynni. Mae hynny, yn fy marn i, wedi arwain at ormod o bwysais ar ystyriaethau creu elw tymor byr a dim digon o ffocws ar y darlun tymor hirach a'r budd cyhoeddus ehangach sydd angen bod yn gymaint o ran o ystyriaethau ynni ag unrhyw beth arall. Mi ddylai fod gennym nodau polisi cyhoeddus yma yng Nghymru sydd wedi'u seilio ar ddatblygu sicrwydd ynni a diogelwch ynni, sy'n ffocysu ar uchafu potensial ynni adnewyddadwy yng Nghymru, sy'n tacio tlodi tanwydd, ac, wrth gwrs, yn mynd i'r afael â lleihau allyriadau carbon. Gallwch ddadlau i ba raddau rydym yn llwyddo ar bob un o'r rheini, ond, yn sicr, nid yw'r darlun cystal ag y byddem i gyd yn dymuno iddo fod. Ar yr un pryd, rydym yn talu mwy na'r rhan fwyaf o Ewrop am ein hynni y dyddiau hyn, ac, wrth gwrs, mae problemau difrifol iawn o safbwynt seilwaith o fewn y grid yng Nghymru.

Nid yw hynny'n ddarlun cadarnhaol iawn o le rydym arni ar hyn o bryd. Rwy'n teimlo bod angen inni edrych ar ail-falansio'r drefn fel y mae hi a gwneud mwy i gyflwyno ystod ehangach o ffurfiau o berchnogaeth pan ddaw i ynni, gan gynnwys mwy o bwyslais, fel y gwelwn yn y cynnig, ar berchnogaeth gymunedol.

The first Plaid Cymru amendment calls on the Government to set up a fund based on the community and renewable energy scheme, which is part of the Scottish Government's Community Energy Scotland programme to fund pre-planning applications for communities looking to set up energy projects. There is nothing new there, I am sure you would argue, but the finance would, of course, be repayable with interest. However, importantly, the finance would then be written off if the application is unsuccessful. This enables communities to go ahead with plans without having to worry about the costs incurred and the potential for the application to be refused planning permission. That would take away a significant barrier and disincentive for communities to develop their own energy schemes.

The Scottish Government has an ambitious target of 500 MW to be delivered through community energy schemes by 2020. It is on course to deliver this and more. Plaid Cymru has said in the past that the Welsh Government should learn from the success of the Scottish Government in this respect and set targets for community energy in Wales. Earlier this year, we launched our vision for the energy sector and, in that report, we outlined our intention to reach self-sufficiency in renewable electricity by 2035.

Achieving Plaid Cymru's long-term target of being self-sufficient in renewable energy not only involves increasing energy generation, but relies on lowering consumption. The Government's Arbed and Nest schemes are a good start—and we rehearsed those points yesterday—but it is clear that there is far more demand than there is supply across Wales, and Plaid Cymru considers expanding the retrofitting effort to be a priority in dealing with Wales's energy security and, in particular, our transition to renewables.

Since 1979, the United Kingdom Government's focus has been on marketising and privatising the energy sector. That, in my opinion, has led to an overemphasis on short-term profit and not enough focus on the longer-term picture and the wider public benefits that need to be such a part of energy considerations as anything else. We should have public policy aims in Wales that are based on developing energy security, that focus on upgrading the potential of renewable energy in Wales, that tackle fuel poverty, and, of course, that tackle the issue of carbon emission reductions. You can argue the case in terms of how well we are succeeding on each one of those, but, certainly, the picture is not as rosy as we would all want it to be. Simultaneously, we are paying more than most of Europe for our energy these days, and, of course, there are very serious problems in terms of infrastructure within the grid in Wales.

That is not a particularly positive picture of our position at present. I feel that we need to look at rebalancing the system that currently exists and to do more to introduce a wider range of forms of ownership when it comes to energy, including more emphasis, as we see in the motion, on community ownership.

Mae'r gwelliant cyntaf gan Blaid Cymru yn galw ar y Llywodraeth i sefydlu cronfa yn seiliedig ar y gymuned a chynllun ynni adnewyddadwy, sy'n rhan o raglen Ynni Cymunedol yr Alban Llywodraeth yr Alban i ariannu ceisiadau cyn-cynllunio ar gyfer cymunedau sy'n ystyried sefydlu prosiectau ynni. Nid yw hynny'n ddim byd newydd, rwy'n siŵr y byddech yn dadlau, ond byddai'r cyllid, wrth gwrs, yn ad-daladwy gyda llog. Fodd bynnag, yn bwysig, byddai'r cyllid wedyn yn cael ei ddileu os yw'r cais yn aflwyddiannus. Mae hyn yn galluogi cymunedau i fwrw ymlaen â chynlluniau heb orfod poeni am y costau a'r posibilrwydd y gwrthodir caniatâd cynllunio i'r cais. Byddai hynny'n cael gwared ar rwystr sylweddol ac yn cymhell cymunedau i beidio â datblygu eu cynlluniau ynni eu hunain.

Mae gan Lywodraeth yr Alban darged uchelgeisiol o 500 MW i'w gyflawni drwy gynlluniau ynni cymunedol erbyn 2020. Mae ar y trywydd iawn i gyflawni hyn a mwy. Mae Plaid Cymru wedi dweud yn y gorffennol y dylai Llywodraeth Cymru ddysgu o lwyddiant Llywodraeth yr Alban yn hyn o beth a gosod targedau ar gyfer ynni cymunedol yng Nghymru. Yn gynharach eleni, lansiodd ein gweledigaeth ar gyfer y sector ynni ac, yn yr adroddiad hwnnw, rydym wedi amlinellu ein bwriad i fod yn hunangynhaliol o ran trydan adnewyddadwy erbyn 2035.

Mae cyflawni targed hirdymor Plaid Cymru o fod yn hunangynhaliol o ran ynni adnewyddadwy, nid yn unig yn cynnwys cynhyrchu mwy o ynni, ond mae'n dibynnu ar ddefnydd yn gostwng. Mae cynlluniau Arbed a Nest y Llywodraeth yn ddechrau da—a buom dros y pwyntiau hynny ddoe—ond mae'n amlwg bod llawer mwy o alw nag sydd o gyflenwad ar draws Cymru, ac mae Plaid Cymru o'r farn y dylai'r ymdrech ôl-ffitio fod yn flaenoriaeth wrth fynd i'r afael â diogelwch ynni Cymru ac, yn benodol, wrth i ni symud tuag at ynni adnewyddadwy.

Germany is a source of inspiration for many of us seeking to tackle the climate crisis at the same time as strengthening the economy. With vision and leadership, it has championed a switch to renewable power, which has seen a community-led technological revolution. In Germany, this transition is called the 'energy vendor' and the 'energy turn'. The energy vendor concept is not partisan. In June 2011, an almost unanimous German Parliament voted in a historic vote for an 80% renewable electricity target by 2050, with a 60% renewable share in final energy use. Its success so far has enabled millions of people to participate in owning the technology to create energy from renewable sources.

Germany's energy vendor programme is well on the way to understanding that tomorrow's energy systems will be nothing like those of today. They will be smarter, quicker, more democratic, decentralised and interconnected. Tomorrow's energy thinking will do for old energy what mobile phones have done to the telephone box. By the end of 2012, Germany had installed over 60 GW of renewable energy, which is more than the UK's peak demand. Only 5% of this generating capacity is owned by its big four power companies; the bulk is owned by households, communities, farmers and businesses. It is a revolution in the ownership of energy. Moreover, it has given Germany lower wholesale power prices today than it had in 2007. Replicated in Wales, it would deliver energy policies that worked in the interest of the small millions and not just the big six.

Mae'r Almaen yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i lawer ohonom sy'n ceisio mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd tra ar yr yrd yd yn cryfhau'r economi. Gyda gweledigaeth ac arweinyddiaeth, mae wedi hyrwyddo newid i bŵer adnewyddadwy, sydd wedi gweld chwyldro technolegol dan arweiniad y gymuned. Yn yr Almaen, gelwir y newid hwn y 'gwerthwr ynni' a'r 'tro ynni'. Nid yw'r cysyniad o werthwr ynni yn un pleidiol. Ym mis Mehefin 2011, pleidleisiodd Senedd yr Almaen bron yn unfrydol mewn pleidlais hanesyddol o blaid targed trydan adnewyddadwy o 80% erbyn 2050, gyda 60% o gyfran adnewyddadwy yn y defnydd ynni terfynol. Mae ei lwyddiant hyd yn hyn wedi galluogi miliynau o bobl i gyfranogi ym mherchnogaeth technoleg i greu ynni o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae rhaglen gwerthwr ynni yr Almaen ymhell ar y ffordd i ddeall na fydd systemau ynni yfory yn debyg i'r rhai sydd gennym heddiw. Byddant yn fwy clyfar, yn gyflymach, yn fwy democrataidd, wedi'u datganoli ac yn rhyng-gysylltiedig. Bydd syniadaeth ynni yfory yn gwneud i'r hen ynni yr hyn a wnaeth ffonau symudol i'r blwch ffôn. Erbyn diwedd 2012, roedd yr Almaen wedi gosod dros 60 GW o ynni adnewyddadwy, sy'n fwy na'r galw brig yn y DU. Dim ond 5% o'r capasiti cynhyrchu hwn sy'n eiddo i'w bedwar cwmni ynni mawr; mae'r rhan fwyaf yn eiddo i gartrefi, cymunedau, ffermwyr a busnesau. Mae'n chwyldro ym mherchnogaeth ynni. At hynny, mae wedi rhoi prisiau ynni cyfanwerthol is i'r Almaen heddiw nag yr oeddynt yn 2007. O wneud yr un fath yng Nghymru, byddai'n cyflwyno polisiau ynni a fyddai'n gweithio er budd y miliynau bach ac nid dim ond y chwe mawr.

17:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Russell George to move amendments 5 and 6, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Russell George i gynnis gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 5—Paul Davies

Amendment 5—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi'r buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gellir eu cyflawni o fewn un prosiect cynhyrchu sy'n eiddo i gymunedau.

Notes the economic, social and environmental benefits that can be achieved within a single community-owned generational project.

Gwelliant 6—Paul Davies

Amendment 6—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyllid cyhoeddus i Ynni Cymunedol Cymru i hwyluso prosiectau.

Calls on the Welsh Government to provide Community Energy Wales with public funding to facilitate such community projects.

17:18

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 5 and 6.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliannau 5 a 6.

I thank the Welsh Lib Dems for bringing forward this debate this afternoon. Many Members here may think that I have been a barrier to exploring some of those opportunities, particularly in relation to onshore wind, but that would be a superficial judgment, because you need to know about some of the long-standing issues that underpin my opposition to the proliferation of onshore wind generators in mid Wales. This is a long-established issue that stretches over a long period of time. However, the nub of the issue is that there is a strong feeling that this has been a top-down exercise and that communities have been disempowered by it. There is little sense of any feeling of community ownership or community benefit, but there is a huge feeling of potential community loss if the proposed applications in the strategic search areas and their associated infrastructure come to pass.

There is a similar feeling with regard to the way in which the community consultation processes have been handled. The large energy developers have very little empathy for the communities in the areas in which they develop. The developers devolve the engagement process to consultants who come in from outside the area, have very little sympathy with the area, and they are asked to sell proposals that the majority of people do not want. Those on the outside may think that the issue is simply one of Nimbyism, but it is not. What is at the heart of this is community engagement and community empowerment. As we know, communities across Wales are more than prepared to respond to the national and global challenges that Governments need to address, like reducing our energy footprint, cutting carbon emissions and securing clean energy supplies for the future.

The Environment and Sustainability Committee heard testimony last week from Peter Davies, chair of the Climate Change Commission for Wales, who said that, over the last decade, there has been a real step change in the amount of community activity conducted to improve the overall wellbeing and quality of life of those communities, as well as making a vital contribution to mitigating the effects of climate change.

However, in Wales, we are starting that activity from a low base. There was an institutional gap that has only recently been partly filled by Community Energy Wales. As a membership network of petitioners and representative organisations, it has started to establish itself as a single unified voice for those working on energy projects at a community level across Wales, but that voice has yet to break.

I appreciate the amendments that Plaid has tabled about the model in Scotland. However, the fact of the matter is that, in Scotland, Community Energy Scotland has been operating since 2004. It is very much a focal point for community engagement and it is the voice for the sector in an institutional capacity, but it has evolved into that established position because it has had proper investment from the Scottish Government. We have not had that in Wales, and the policy of procuring services from external bodies does not build the sort of institutional capacity that you need for long-term representation, engagement, support and confidence-building in communities.

Rwy'n diolch i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru am gyflwyno'r ddaidl hon y prynhawn yma. Hwyrach fod llawer o Aelodau yma yn meddwl fy mod wedi bod yn faen tramgwydd i archwilio rhai o'r cyfleoedd hynny, yn enwedig mewn perthynas â gwynt ar y tir, ond byddai honno'n farn arwynebol, oherwydd mae angen i chi wybod am rai o'r materion hirsefydlog sy'n sail i'm gwrthwynebiad i ymlediad generaduron gwynt ar y tir yng nghanolbarth Cymru. Mae hwn yn fater hirsefydledig sy'n ymestyn dros gyfnod hir o amser. Fodd bynnag, hanfod y mater yw bod teimlad cryf bod hwn wedi bod yn ymarferiad o'r brig i lawr a bod cymunedau wedi cael eu dadrymuso ganddo. Nid oes fawr o ymdeimlad o unrhyw naws perchnogaeth gymunedol neu fudd cymunedol, ond mae teimlad enfawr o golled gymunedol bosibl pe bai'r ceisiadau a gynigir yn yr ardaloedd chwilio strategol a'u seilwaith cysylltiedig yn digwydd.

Mae teimlad tebyg o ran y ffordd y mae'r prosesau ymgynghori cymunedol wedi cael eu trafod. Prin yw'r empathi sydd gan y datblygwyr ynni mawr tuag at y cymunedau yn yr ardaloedd y maent yn eu datblygu. Mae'r datblygwyr yn datganoli'r broses ymgysylltu i ymgynghorwyr sy'n dod i mewn o'r tu allan i'r ardal, sydd ag ychydig iawn o gydymdeimlad â'r ardal, a gofynnir iddynt werthu cynigion nad yw'r mwyafrif eu heisiau. Hwyrach y bydd y rheini ar y tu allan yn meddwl mai bod yn 'Nimby' y mae pobl yn syml, ond nid dyna sy'n wir. Yr hyn sydd wrth wraidd hyn yw ymgysylltu â'r gymuned a grymuso cymunedau. Fel y gwyddom, mae cymunedau ledled Cymru yn fwy na pharod i ymateb i'r heriau cenedlaethol a byd-eang y mae angen i Lywodraethau roi sylw iddynt, fel lleihau ein hól troed ynni, lleihau allyriadau carbon a sicrhau cyflenwadau ynni glân ar gyfer y dyfodol.

Clywodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd dystiolaeth yr wythnos diwethaf gan Peter Davies, cadeirydd y Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru, a ddywedodd fod newid mawr, dros y degawd diwethaf, yn faint o weithgarwch cymunedol a gynhaliwyd i wella lles cyffredinol ac ansawdd bywyd y cymunedau hynny, yn ogystal â gwneud cyfraniad hanfodol at liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Fodd bynnag, yng Nghymru, rydym yn dechrau'r gweithgarwch hwnnw o sylfaen isel. Roedd bwch sefydliadol sydd ond wedi cael ei lenwi'n rhannol yn ddiweddar gan Ynni Cymunedol Cymru. Fel rhwydwaith aelodaeth o ddeisebwyr a sefydliadau cynrychioliadol, mae wedi dechrau magu ei blwyf fel llais unedig sengl ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar brosiectau ynni ar lefel gymunedol ledled Cymru, ond mae'r llais hwnnw eto i dorri.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwelliannau y mae Plaid Cymru wedi eu cyflwyno mewn perthynas â'r model yn yr Alban. Fodd bynnag, y gwir amdani, yn yr Alban, yw bod Ynni Cymunedol yr Alban wedi bod yn gweithredu ers 2004. Mae'n sicr yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a dyma lais y sector o safbwynt sefydliadol, ond mae wedi esblygu i'r sefyllfa honno am fod Llywodraeth yr Alban wedi buddsoddi'n iawn ynddo. Nid ydym wedi gweld hynny yng Nghymru, ac nid yw'r polisi o gaffael gwasanaethau gan gyrrff allanol yn meithrin y math o allu sefydliadol sydd eu hangen arnoch ar gyfer cynrychiolaeth, ymgysylltu, cefnogaeth a magu hyder mewn cymunedau yn yr hirdymor.

What I would like to see, and I would be interested to hear about this when the Minister responds, is that the Government galvanises the work of CEW by allowing it to be the Government's delivery organisation for community energy in Wales. That process needs to start now because the Government needs a proper strategy to take this agenda forward to ensure that there is a seamless transition when the Ynni'r Fro programme finishes next year.

What has been achieved in Wales so far has been done despite a number of barriers that exist, which are preventing a real surge for community-level energy development. Community projects cannot be initiated without local buy-in, a strong vision to enable quality of life and careful consideration of the right financial model that is suitable and sustainable over a long period of time. Community Energy Wales can be the vehicle to drive this forward, but it just needs to be enabled to do so.

Yr hyn yr hoffwn ei weld, a byddai gennyf ddiddordeb i glywed am hyn pan fydd y Gweinidog yn ymateb, yw bod y Llywodraeth yn cryfhau gwaith Ynni Cymunedol Cymru trwy ganiatáu iddo fod yn sefydliad darparu i'r Llywodraeth ar gyfer ynni cymunedol yng Nghymru. Mae angen i'r broses honno ddechrau nawr oherwydd mae angen i'r Llywodraeth fod â strategaeth briodol i symud yr agenda hon yn ei blaen i sicrhau bod pontio di-dor pan y bydd rhaglen Ynni'r Fro yn dod i ben y flwyddyn nesaf.

Mae'r hyn sydd wedi ei gyflawni yng Nghymru hyd yn hyn wedi digwydd er gwaethaf nifer o rwystrau sy'n bodoli, sy'n atal cynnydd go iawn ym maes datblygu ynni ar lefel y gymuned. Ni all prosiectau cymunedol gael eu cychwyn heb gefnogaeth leol, gweledigaeth gref i ganiatáu ansawdd bywyd ac ystyriaeth ofalus o'r model ariannol cywir sy'n addas ac yn gynaliadwy dros gyfnod hir o amser. Gall Ynni Cymunedol Cymru fod y cyfrwng i fwrw hyn yn ei flaen, ond mae angen iddo'n syml gael ei alluogi i wneud hynny.

17:22

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n debyg fod y rhan fwyaf ohonom y prynhawn yma yn gobeithio y bydd cefnogaeth gref ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol, ac y bydd cytundeb bod yn rhaid inni fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu'r cynlluniau hyn os ydym o ddifrif am frwydro yn erbyn y bygythiad cynyddol o newid yn yr hinsawdd.

Roedd nifer ohonom yn siomedig yr wythnos diwethaf wrth ddarllen bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru wedi cynyddu rhyw 5% ers 2012, sydd yn uwch nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i leihau allyriadau o 3% bob blwyddyn mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig, er mwyn cyrraedd gostyngiad o 40% yn y lefelau ers 1990 erbyn 2020. Er hynny, gostyngiad o ddim ond 17.7% o gafwyd ers 1990, felly mae digon o waith i'w wneud.

Mae'n ddiddorol cymharu ffigurau Cymru â ffigurau'r Alban, sydd wedi gweld lleihad mewn allyriadau o ryw 30%, a gwelwyd lleihad yn Lloegr o ryw 24%. Yn yr Alban, er gwaethaf y ffaith ei bod wedi llwyddo yn well na ni o ran cymhariaeth, mae wedi sefydlu tasglu gweinidogol i fynd i'r afael â'r broblem o allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ôl methu â chyrraedd y targedau am y drydedd flwyddyn yn olynol. Rwy'n meddwl fod angen, erbyn hyn, inni weld y math hwn o sylw brys yng Nghymru.

It is likely that the majority of us this afternoon hope that there will be strong support for community energy schemes, and that there will be agreement that we need to get to grips with the barriers to the development of these schemes if we are serious about combating the increasing threat of climate change.

Many of us were disappointed last week on reading that greenhouse gas emissions in Wales have increased by about 5% since 2012, which is higher than the increase in any other part of the United Kingdom. The Welsh Government has committed to reducing emissions by 3% every year in areas of devolved competence, in order to achieve a reduction of 40% on the 1990 levels by 2020. However, we have seen a reduction of only 17.7% since 1990, so there is plenty of work still to be done.

It is interesting to compare the Welsh figures with those of Scotland, which has seen a reduction in emissions of approximately 30%, and there has been a reduction in England of about 24%. Despite the fact that it has had greater success than us in terms of this comparison, Scotland has established a ministerial taskforce to get to grips with the problem of greenhouse gas emissions after failing to meet its targets for the third year in succession. I believe that, by now, we need to see this kind of urgent action being taken in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym nid yn unig yn methu'r targedau, ond yn methu â chreu'r amgylchedd busnes croesawgar yng Nghymru ar gyfer y rhai sy'n dymuno datblygu ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn amlwg yn achos cwmni Dulas Ltd ym Machynlleth, sydd yn eithaf llwyddiannus ond sydd eisoes wedi mynegi ei bod yn galetach i redeg busnes yng Nghymru nag yn unman arall ym Mhrydain. Mae llwyddiannau, wrth gwrs, yn rhanbarth y gogledd, er enghraifft. Mae Anafon, sy'n darparu cynllun hydro cymunedol o 270 kW yn Abergwyngregyn yn Eryri, yn enghraifft ardderchog o gynllun ynni adnewyddadwy cymunedol. Serch hynny, mae'r broses wedi bod yn un hir. Dechreuwyd ar y gwaith yn 2011 a dim ond erbyn 2015 neu 2016 y mae'r cynllun yn gobeithio dechrau cynhyrchu. Mae'n hanfodol ein bod ni'n gwneud mwy i gefnogi'r prosiectau hyn, gan nodi'r rhwystrau i'r datblygiad, gan weithio i'w goresgyn.

Ym mis Ebrill, cynhaliodd y Farwnes Randerson gyfarfod yng Nghasnewydd i drafod strategaeth ynni cymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi strategaeth ynni cymunedol, ac mae'r strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer ynni cymunedol ac yn anelu at gynhyrchu digon o drydan ar gyfer hyd at 1 filiwn o gartrefi yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau cost biliau a thlodi tanwydd. Er mwyn ymateb i Russell George, nid strategaeth sy'n dod o San Steffan i lawr i'r cymunedau yw hon, ond mater o greu awyrgylch lle mae pobl leol yn credu mai y nhw sy'n cyflwyno atebion eu hunain er mwyn datblygu ynni cymunedol ar draws Prydain. Mae'r strategaeth ynni cymunedol hefyd yn darparu siop un-stop ar gyfer mudiadau i'w galluogi i ddefnyddio cyllid y Llywodraeth, ac yn darparu mynediad at arbenigwyr ynni cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol i oresgyn materion yn ymwneud â gallu a chapasiti, sef un o'r rhwystrau allweddol a nodwyd yng ngwerthusiad Ynni'r Fro.

Mae ein cynnig ni heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried model tebyg ar gyfer Cymru. Er gwaethaf diffyg cyllid oddi wrth y Llywodraeth, mae arian wedi'i glustnodi gan y Loteri Cenedlaethol ar gyfer Ynni Cymunedol Cymru, sef y prosiect y cyfeiriodd Russell George ato. Eisoes mae gennym fodel sy'n gweithio. A oes angen ailddyfeisio'r olwyn? Yn 2011, pasiodd fy mhlaid i bolisi sy'n galw arnom i greu corff ynni cymunedol yma yng Nghymru yn debyg i'r un yn yr Alban y cyfeiriwyd ato. Gallai hyn gynnwys cyllid ar gyfer benthyciadau i grwpiau cymunedol ar y sail y soniodd Llyr Gruffydd amdani. Byddai hyn yn debyg i gronfa ynni cymunedol gwledig a threfol Lloegr. Ymysg yr argymhellion yng ngwerthusiad Ynni'r Fro yw'r angen am waith paratoadol drwy ddefnyddio cronfa benthyciadau amodol ar gyfer ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru.

We are failing not only to hit the targets, but to create a welcoming business environment for those who wish to develop renewable energy. This is evident in the case of Dulas Ltd in Machynlleth, which is quite successful but which has expressed already that it is harder to run a business in Wales than in any other part of Britain. There are successes, of course, in the north Wales region, for example. Anafon, which provides a hydro community project of 270 kW in Abergwyngregyn in Snowdonia, is an excellent example of a community renewable energy project. However, the process has been a long one. The work was started in 2011 and it is only by 2015 or 2016 that the project hopes to start its energy production. It is crucial that we do more to support these projects, noting the barriers to development and working to overcome them.

In April, Baroness Randerson held a meeting in Newport to discuss a community energy strategy for the UK Government. This was the first time that the UK Government had published a strategy for community energy, and the strategy outlines the vision for community energy and aims to produce enough electricity for around 1 million homes in future, as well as to reduce the cost of bills and fuel poverty. To respond to Russell George, this is not a top-down strategy from Westminster to the communities; it is about creating an environment where local people believe that they are putting forward their own solutions to developing community energy across the UK. The strategy for community energy provides a one-stop shop for groups to enable them to use Government funding and provides access to experts in community energy. This will help community groups to overcome barriers in relation to ability and capacity, which is one of the key barriers noted in the Ynni'r Fro evaluation.

Our motion today calls on the Welsh Government to consider a similar model for Wales. Despite the lack of funding from the Government, funding has been earmarked by the National Lottery for Community Energy Wales, which is the project to which Russell George referred. We already have a model that works, so do we need to reinvent the wheel? In 2011, my party agreed a policy that calls upon us to create a community energy model here in Wales similar to the Scottish model that we have heard about. This could include funding for loans to community groups on the basis that Llyr Gruffydd described. This would be similar to the urban and rural communities energy fund in England. Among the recommendations in the Ynni'r Fro evaluation is the use of contingent loan funding for preparatory work for the purposes of community renewable energy in Wales.

Not only are energy efficiency and local renewable energy generation important in reducing carbon emissions and supporting local economies, they play a key role in helping to tackle fuel poverty. According to the most recent Welsh Government data available in the March 2012 fuel poverty evidence plan, in 2010, 332,000 households in Wales—one in four—were estimated to be in fuel poverty. It is difficult to really grasp the scale of the issue since no new official data on fuel poverty in Wales have been published by the Welsh Government since the publication of the fuel poverty monitor in September 2011. The Welsh Government missed its target to eradicate fuel poverty in vulnerable households by 2010 and in all social housing by 2012, and it seems unlikely to meet the 2018 statutory targets unless we see a major drive on energy efficiency. This means a radical overhaul of the energy efficiency of existing homes because more than two thirds of the 2050 housing stock has already been built. For this reason, we will be supporting Plaid Cymru amendment 4, which calls for the consideration of rolling out a nationwide retrofitting programme to drastically cut Wales's energy consumption. It also means greater support for community energy schemes that can especially help the 241,600 properties in rural Wales that are off-grid. Community renewables and community-led action, such as collective switching, will help people to bring their energy bills under control and reduce the number of households living in fuel poverty.

One of the key barriers to the development of community energy is the shortage of capacity, skills and experience among the groups. It was identified as the main challenge by 50% of the groups surveyed by the Ynni'r Fro evaluation. These groups vary from charities to social enterprises, with many newly established and reliant on a few key individuals with experience in navigating the complex and time-consuming process of developing community energy schemes. Energy co-operatives are a popular model for supporting community energy schemes, and we have some excellent examples in Wales, such as Dulas Ltd, which is the UK's second largest worker co-operative, employing 103 people.

However, many co-operatives will be smaller and will lack the experience of developing renewable energy schemes. We need to do more to support the growth of these groups in Wales. Events such as the renewable energy co-operatives in Wales conference in Newtown last week, organised by the Wales Co-operative Centre and Egni, play a key role in bringing these groups together to share skills and knowledge. However, we need to do more to support energy co-operatives if we are to see the kind of growth experienced in Germany recently, which now has 888 energy co-operatives—double the amount of those in 2010.

Co-operatives in Wales already employ around 7,000 people. There is huge potential for their growth in the energy sector, bringing together people with a shared vision for a community scheme in their local areas.

Mae effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol yn bwysig nid yn unig o ran lleihau allyriadau carbon a chefnogi economïau lleol, ond maent yn chwarae rôl allweddol o ran helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn y cynllun tystiolaeth ar dlodi tanwydd ym mis Mawrth 2012, amcangyfrifwyd bod 332,000 o aelwydydd yng Nghymru, yn 2010—un o bob pedwar—mewn tlodi tanwydd. Mae'n anodd deall yn iawn maint y broblem gan nad oes unrhyw ddata swyddogol newydd ar dlodi tanwydd yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r monitor tlodi tanwydd ym mis Medi 2011. Methodd Llywodraeth Cymru ei tharged i ddileu tlodi tanwydd ar aelwydydd sy'n agored i niwed erbyn 2010 ac yn yr holl dai cymdeithasol erbyn 2012, ac mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd yn bodloni targedau statudol 2018 oni bai ein bod yn gweld ymgyrch fawr o blaid effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn golygu ailwampio effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol yn radical oherwydd bod mwy na dwy ran o dair o stoc tai 2050 eisoes wedi cael eu hadeiladu. O'r herwydd, byddwn yn cefnogi gwelliant 4 Plaid Cymru, sy'n galw am ystyried cyflwyno rhaglen genedlaethol o ôl-ffitio er mwyn lleihau'n sylweddol ar ddefnydd ynni Cymru. Mae hefyd yn golygu mwy o gefnogaeth i gynlluniau ynni cymunedol a all yn enwedig helpu'r 241,600 o eiddo yng Nghymru wledig sydd oddi ar y grid. Bydd ynni adnewyddadwy cymunedol a gweithredu a arweinir gan y gymuned, megis newid cyflenwr ar y cyd, yn helpu pobl i ddod â'u biliau ynni dan reolaeth ac yn lleihau nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

Prinder capasiti, sgiliau a phrofiad ymhlith y grwpiau yw un o'r rhwystrau allweddol i ddatblygiad ynni cymunedol. Cafodd ei nodi fel y brif her gan 50% o'r grwpiau a arolygwyd gan werthusiad Ynni'r Fro. Mae'r grwpiau hyn yn amrywio o elusennau i fentrau cymdeithasol, gyda llawer newydd eu sefydlu ac yn dibynnu ar lond llaw o unigolion allweddol sydd â phrofiad o lywio drwy'r broses gymhleth a llafurus o ddatblygu cynlluniau ynni cymunedol. Mae cwmnïau ynni cydweithredol yn fodel poblogaidd ar gyfer cefnogi cynlluniau ynni yn y gymuned, ac mae gennym rai enghreifftiau rhagorol yng Nghymru, megis Dulas Ltd, sef cwmni cydweithredol ail fwyaf y DU, sy'n cyflogi 103 o bobl.

Fodd bynnag, bydd llawer o gwmnïau cydweithredol yn llai ac ni fydd ganddynt y profiad o ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy. Mae angen i ni wneud mwy i gefnogi twf y grwpiau hyn yng Nghymru. Mae digwyddiadau fel y gynhadledd yn y Drenewydd yr wythnos diwethaf ar gwmnïau ynni adnewyddadwy cydweithredol, a drefnwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac Egni, yn chwarae rôl allweddol yn dwyn ynghyd y grwpiau hyn i rannu sgiliau a gwybodaeth. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy i gefnogi cwmnïau ynni cydweithredol os ydym am weld y math o dwf a brofwyd yn yr Almaen yn ddiweddar, sydd bellach â 888 o gwmnïau ynni cydweithredol—dwy waith y nifer yn 2010.

Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru eisoes yn cyflogi tua 7,000 o bobl. Mae potensial enfawr ar gyfer eu twf yn y sector ynni, gan ddwyn ynghyd pobl â gweledigaeth gyffredin am gynllun cymunedol yn eu hardaloedd lleol.

Our motion proposes one way to support energy co-operatives through providing a model legal and business framework for community-owned renewable-energy co-operatives to reduce the legal cost and complexity for communities wishing to establish their own. This would help overcome issues of capacity and experience identified by the Ynni'r Fro evaluation, and would enable more energy co-operatives to hit the ground running.

The final part of our motion calls on the Welsh Government to work with education providers to bring more understanding of climate change and ecological issues into our schools. This is a key recommendation of the Energy Saving Trust report, 'Low Carbon Citizens', in 2009.

The international eco schools programme is an excellent scheme that has helped raise awareness of the importance of sustainable development, inspiring and empowering pupils to take action at home and in their communities, encouraging responsible citizenship and extending learning beyond the classroom. I was very pleased that, last year, four schools in Bridgend in my region won awards at the Keep Wales Tidy Eco-Schools awards—Ogmore Comprehensive School; Sarn Nursery School; Heol-y-Cyw Primary School and Cefn Glas Infants School. That is a great recognition of their achievements.

There is more that can be done to expand this learning, not only by supporting development of community energy schemes as centres for learning, but also by embedding the importance of energy efficiency and climate change in our curriculum. By teaching good practice in energy efficiency and climate change and conservation at school, pupils will take home these practices and share them with their parents, helping to stimulate the wider behavioural change that is necessary for us to make progress. This is needed to reach our 2020 target on greenhouse gas emissions, which Friends of the Earth Cymru director, Gareth Clubb, has described as a monumental challenge.

This is a monumental challenge, Deputy Presiding Officer, but I think that we have the tools to tackle it and to overcome the obstacles that are in our way.

Mae ein cynnig yn cynnig un ffordd o gefnogi cwmnïau ynni cydweithredol drwy ddarparu fframwaith cyfreithiol a busnes ar gyfer cwmnïau ynni adnewyddadwy cydweithredol sy'n eiddo i'r gymuned i leihau'r gost gyfreithiol a'r cymhlethdod i gymunedau sy'n dymuno sefydlu eu cwmnïau cydweithredol eu hunain. Byddai hyn yn helpu i oresgyn materion capasiti a phrofiad a nodwyd gan werthusiad Ynni'r Fro, a byddai'n galluogi mwy o gwmnïau ynni cydweithredol i fynd amdani.

Mae rhan olaf ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda darparwyr addysg i ennyn mwy o ddealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd a materion ecolegol yn ein hysgolion. Mae hwn yn un o argymhellion allweddol adroddiad yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, 'Dinasyddion Carbon Isel', yn 2009.

Mae'r rhaglen eco-ysgolion rhyngwladol yn gynllun rhagorol sydd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd datblygu cynaliadwy, gan ysbrydoli a grymuso disgyblion i gymryd camau yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau, gan annog dinasyddiaeth gyfrifol ac ymestyn dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Rwy'n falch iawn bod pedair ysgol, y llynedd, ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fy rhanbarth i wedi ennill gwobrau yng ngwobrau Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus—Ysgol Gyfun Ogwr; Ysgol Feithrin Sarn; Ysgol Gynradd Heol-y-Cyw ac Ysgol Fabanod Cefn Glas. Mae hynny'n gydnabyddiaeth wych o'u camp.

Mae mwy y gellir ei wneud i ehangu'r dysgu hwn, nid yn unig drwy gefnogi datblygu cynlluniau ynni cymunedol fel canolfannau ar gyfer dysgu, ond hefyd drwy ymgorffori pwysigrwydd effeithlonrwydd ynni a newid yn yr hinsawdd yn ein cwricwlwm. Drwy ddysgu arferion da ym maes effeithlonrwydd ynni a newid yn yr hinsawdd a chadwraeth yn yr ysgol, bydd disgyblion yn mynd adref â'r arferion hyn ac yn eu rhannu gyda'u rhieni, gan helpu i ysgogi'r newid ymddygiad ehangach sy'n angenrheidiol os ydym i wneud cynnydd. Mae angen hyn i gyrraedd ein targed ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2020 - targed y mae cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, Gareth Clubb, wedi ei ddisgrifio fel her aruthrol.

Mae hon yn her enfawr, Ddirprwy Lywydd, ond rwy'n meddwl bod gennym yr adnoddau i fynd i'r afael â hi ac i oresgyn y rhwystrau sydd yn ein ffordd.

17:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:33

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

We do, of course, have some of the tools available to us, and the conclusion of the Silk process might mean that we have more and all of the tools available to us, but we need to conclude that process first.

Mae gennym, wrth gwrs, rai o'r adnoddau ar gael i ni, ac efallai mai diwedd proses Silk fydd bod gennym fwy a'r holl adnoddau ar gael i ni, ond mae angen i ni ddod â'r broses honno i ben yn gyntaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We are in the happy position this afternoon, Deputy Presiding Officer, of being in agreement across the Chamber. The Government will be voting against the motion, but only to give itself the opportunity to vote for all of the amendments and the amended motion.

I think that Members will understand and appreciate my personal support and this Government's support for distributed energy generation for the reasons that Peter Black has just given and those that have been given by Members throughout this debate. We believe that community energy generation, community energy schemes and the co-operatives model that has just been outlined by Peter Black are absolutely essential in meeting a number of our different objectives, such as climate change—a point made by Llyr Gruffydd—and, of course, the importance of fuel poverty that was outlined, again, by Peter Black. We recognise the importance of this, and we recognise the importance of delivering on the ambitions and on the vision.

Throughout the debate this afternoon, Members have made much of many of the barriers that people face. The motion itself outlines some of those barriers, although I would say that I would go further in some of the issues that have been addressed in the motion. For example, two of the greatest barriers facing community groups that want to move forward with community energy generation are access to finance and the local grid infrastructure. Neither of those two issues have been adequately addressed by the motion, but what I will say is that, when we do make statements on how we will follow on from Ynni'r Fro, both those issues will be addressed, and I hope that we will be able to overcome both those issues as a part of that.

The two Government amendments this afternoon are, I hope, and will be seen to be as well, passive or neutral amendments. We have clearly seen the proposals from the UK Government in the Infrastructure Bill to provide opportunities for communities to buy a stake in local renewable energy and electricity schemes. We are currently in correspondence with the United Kingdom Government on what that means, how that will operate and how it will sit within our devolved powers. It is because we are in conversation with the United Kingdom Government at the moment that we seek to amend the motion, not to welcome yet—although we might do so when these conversations are concluded—but simply to adopt a more neutral stance while having these conversations. We have only seen these proposals in the last two weeks, so I hope that Members will have some patience with us on that matter.

Rydym yn y sefyllfa hapus y prynhawn yma, Ddirprwy Lywydd, o fod yn gytûn ar draws y Siambr. Bydd y Llywodraeth yn pleidleisio yn erbyn y cynnig, ond dim ond er mwyn rhoi cyfle i'w hun bleidleisio dros bob un o'r gwelliannau a'r cynnig wedi'i ddiwygio.

Rwy'n credu y bydd yr Aelodau yn deall ac yn gwerthfawrogi fy nghefnogaeth bersonol a chefnogaeth y Llywodraeth hon i gynhyrchu ynni gwasgaredig am y rhesymau y mae Peter Black newydd eu rhoi a'r rhai sydd wedi eu rhoi gan Aelodau gydol y ddadl hon. Credwn fod cynlluniau cynhyrchu ynni cymunedol, cynlluniau ynni cymunedol a'r model cydweithredol sydd newydd eu hamlinellu gan Peter Black yn gwbl hanfodol er mwyn bodloni nifer o'n hamcanion gwahanol, megis newid hinsawdd—pwynt a wnaed gan Llyr Gruffydd—ac, wrth gwrs, pwysigrwydd tlodi tanwydd a amlinellwyd, unwaith eto, gan Peter Black. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyn, ac rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o wireddu'r uchelgeisiau a'r weledigaeth.

Drwy gydol y ddadl y prynhawn yma, mae Aelodau wedi crybwyll yn aml llawer o'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Mae'r cynnig ei hun yn amlinellu rhai o'r rhwystrau hynny, er y byddwn yn dweud y byddwn yn mynd ymhellach mewn rhai o'r materion sydd wedi cael sylw yn y cynnig. Er enghraifft, dau o'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu grwpiau cymunedol sydd eisiau symud ymlaen ym maes chynhyrchu ynni cymunedol yw mynediad at gyllid a'r seilwaith grid lleol. Nid yw'r naill na'r llall wedi cael sylw digonol yn y cynnig, ond yr hyn a ddywedaf yw, pan fyddwn yn gwneud datganiadau ar sut y byddwn yn symud ymlaen o Ynni'r Fro, y bydd y materion hynny yn cael sylw, ac rwy'n gobeithio y gallwn oresgyn y ddau fater hynny fel rhan o hynny.

Rwy'n gobeithio y gwelir dau welliant y Llywodraeth y prynhawn yma, yn awr ac i'r dyfodol, yn cael eu gweld fel gwelliannau goddefol neu niwtral. Rydym wedi gweld yn glir y cynigion gan Lywodraeth y DU yn y Bil Seilwaith i ddarparu cyfleoedd i gymunedau i brynu cyfran mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy a thrydan lleol. Rydym ar hyn o bryd mewn trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr hyn y mae hynny'n ei olygu, sut y bydd hynny'n gweithio a sut y bydd yn cymryd ei le o fewn ein pwerau datganoledig. Oherwydd ein bod mewn trafodaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd rydym yn ceisio newid y cynnig, nid ei groesawu eto—er y byddwn hwyrach yn gwneud hynny pan fydd y trafodaethau hyn wedi dod i ben—ond yn syml i fabwysiadu safiad mwy niwtral wrth i ni gynnal y trafodaethau hyn. Rydym ond wedi gweld y cynigion hyn yn y pythefnos diwethaf, felly rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n amyneddgar gyda ni yn hyn o beth.

The second amendment is to replace the word 'regrets' with 'notes' on the Ynni'r Fro mid-term evaluation. I think that the real value of this evaluation is demonstrated by the fact that almost every speaker in this debate this afternoon has referred to it in terms of their arguments about understanding how we take community energy schemes forward. It is the easiest thing in the world to list the problems that we face. It is the easiest thing in the world to simply say that there are barriers and issues. What we need to do is to find solutions and answers to these issues and to these barriers, and that is exactly the purpose of the mid-term evaluation. That is precisely the reason why we commissioned that evaluation, not at the end of the programme, but mid-term, to enable us to learn the lessons and apply them while we still have the opportunity to do so.

I have made statements on the Ynni'r Fro programme on a number of occasions, and I hope that Members will recognise and will appreciate that. Aled Roberts, in his contribution, made much of the United Kingdom Government's programme for community energy generation—a very similar programme, actually, based on the same principles, to the one that we adopted many years ago here in Wales. The UK Government is running fast to catch up to where we were five years ago. I hope that, in doing so, it will also, as you have done, read that evaluation and learn the lessons that we are learning as well.

I think that there is widespread agreement on all sides of the Chamber this afternoon that we want to change the way that we currently generate energy; I think that some of the points made by Llyr Huws Gruffydd reflect that determination across the Chamber. First of all, I agree very much with what was said about enabling communities to have ownership of some of these schemes, enabling communities to feel the benefit of these schemes. For too long, and throughout the last century of energy generation, it has been done through very significant pieces of infrastructure, where communities have not felt the benefit of energy generation. I hope that we are beyond that now. I hope that communities will be able either to own or take benefits from community energy schemes and, certainly, the scheme that the First Minister launched earlier this year was in order to do precisely that. It has been successful so far. I believe that it can be more successful in the future.

By reading the mid-term evaluation of Ynni'r Fro, Members will see what has worked and what has been effective. Technical development officers are working with those community groups, sitting in village halls and church halls, sitting down and talking to people, saying, 'This is the sort of scheme that you need here; this is how to make it work.' We are already taking down the barriers that have existed.

Mae'r ail welliant ar gyfer disodli'r gair 'gresynu' gyda 'nodir' ar werthusiad canol-tymor Ynni'r Fro. Credaf fod gwir werth y gwerthusiad hwn yn cael ei amlygu gan y ffaith fod bron pob siaradwr yn y ddadl y prynhawn yma wedi cyfeirio ato mewn perthynas â'u dadleuon ynglŷn â deall sut rydym yn bwrw ymlaen â maes cynlluniau ynni cymunedol. Y peth hawsaf yn y byd yw rhestru'r problemau a wynebwn. Y peth hawsaf yn y byd yw dweud yn syml bod yna rwystrau a materion. Yr hyn sydd angen i ni ei wneud yw dod o hyd i ddatrysiadau ac atebion i'r materion hyn ac i'r rwystrau hyn, a dyna'r union bwrpas y gwerthusiad canol-tymor. Dyna'r union reswm pam i ni gomisiynu'r gwerthusiad hwnnw, nid ar ddiwedd y rhaglen, ond yng nghanol-tymor, er mwyn ein galluogi i ddysgu'r gwersi a'u cymhwyso tra bod gennym y cyfle i wneud hynny o hyd.

Rwyf wedi gwneud datganiadau ar raglen Ynni'r Fro sawl gwaith, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi hynny. Yn ei gyfraniad, rhoddodd Aled Roberts lawer o sylw i raglen Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cynhyrchu ynni—rhaglen debyg iawn, mewn gwirionedd, yn seiliedig ar yr un egwyddorion, i'r un a fabwysiadwyd gennym flynyddoedd lawer yn ôl yma yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU yn rhedeg yn gyflym i ddal i fyny â'r lle oeddem ni bum mlynedd yn ôl. Rwy'n gobeithio, wrth wneud hynny, y bydd hefyd, fel rydych wedi'i wneud, yn darllen y gwerthusiad ac yn dysgu'r gwersi rydym ni'n eu dysgu yn ogystal.

Rwy'n meddwl bod cytundeb eang ar bob ochr i'r Siambr y prynhawn yma ein bod am newid y ffordd rydym ar hyn o bryd yn cynhyrchu ynni; credaf fod rhai o'r pwyntiau a wnaed gan Llyr Huws Gruffydd yn adlewyrchu'r penderfyniad hwnnw ar draws y Siambr. Yn gyntaf oll, rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedwyd ynghylch galluogi cymunedau i fod yn berchen ar rai o'r cynlluniau hyn, gan alluogi cymunedau i deimlo budd y cynlluniau hyn. Ers gormod o amser, a thrwy gydol y ganrif ddiwethaf o gynhyrchu ynni, mae wedi cael ei wneud drwy ddarnau sylweddol iawn o seilwaith, lle nad yw cymunedau wedi teimlo budd cynhyrchu ynni. Rwy'n gobeithio ein bod y tu hwnt i hynny yn awr. Rwy'n gobeithio y bydd cymunedau yn gallu naill ai berchen neu gymryd budd o gynlluniau ynni cymunedol ac, yn sicr, dyna oedd union nod y cynllun a lanswyd gan y Prif Weinidog yn gynharach eleni. Bu'n llwyddiannus hyd yn hyn. Credaf y gall fod yn fwy llwyddiannus yn y dyfodol.

Drwy ddarllen gwerthusiad canol-tymor Ynni'r Fro, bydd yr Aelodau yn gweld beth sydd wedi gweithio a beth sydd wedi bod yn effeithiol. Mae swyddogion datblygu technegol yn gweithio gyda'r grwpiau cymunedol hynny, yn eistedd mewn neuaddau pentref a neuaddau eglwys, yn eistedd i lawr a siarad â phobl, gan ddweud, 'Dyma'r math o gynllun sydd ei angen arnoch yma; dyma sut i sicrhau ei fod yn gweithio.' Rydym eisoes yn dymchwel y rwystrau sydd wedi bodoli.

I was glad to hear Members referring to hydro schemes. We are already aware that Natural Resources Wales has changed the way that it approaches hydro schemes and the permitting of hydro schemes and now we will be able to move further and faster. I know that Dafydd Elis-Thomas has corresponded with me on a number of occasions about schemes in his constituency where that has been effective, and I hope that now we will be able to deliver those schemes, not simply in your constituency, but across the whole country, and we have been seeking to do that and will seek to do that in the future.

We will be seeing the planning Bill in the next month, and that too will provide new opportunities for people to move forward with microgeneration and with community schemes. So, we are looking at the lessons that have been learned. There is a shared agreement across the Chamber about what we want to see in the future. I believe that there is a shared determination to remove barriers, to solve problems and to ensure that communities up and down Wales can benefit from community generation, which will address not only the issues of energy generation but also issues such as fuel poverty and economic activity in different parts of Wales.

I will finish on this point. Members may have read the CREW report on my home town of Tredegar—the 'Deep Place' study. Take a look at that. It says that, in any economic model to demonstrate the strength of economic activity in a community in the future, energy generation has to be a part of it. I hope that, in the future, we will see energy generation and energy policy in exactly that context as a key part of our social and climate change policy.

Roeddwn yn falch o glywed Aelodau yn cyfeirio at gynlluniau dŵr. Rydym eisoes yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi newid ei ymagwedd at gynlluniau dŵr a chaniatáu cynlluniau dŵr ac yn awr byddwn yn gallu symud ymhellach ac yn gyflymach. Gwn fod Dafydd Elis-Thomas wedi gohebu â mi sawl gwaith am gynlluniau yn ei etholaeth lle mae hynny wedi bod yn effeithiol, ac rwy'n gobeithio yn awr y byddwn yn gallu gweithredu'r cynlluniau hynny, nid yn unig yn eich etholaeth chi, ond ledled y wlad, ac rydym wedi bod yn ceisio gwneud hynny a byddwn yn ceisio gwneud hynny yn y dyfodol.

Byddwn yn gweld y Bil cynllunio yn y mis nesaf, a bydd hynny hefyd yn rhoi cyfleoedd newydd i bobl symud ymlaen gyda microgynhyrchu a gyda chynlluniau cymunedol. Felly, rydym yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd. Mae cytundeb ar y cyd ar draws y Siambwr am yr hyn rydym am ei weld yn y dyfodol. Rwy'n credu bod penderfyniad ar y cyd i gael gwared ar rwystrau, i ddatrys problemau ac i sicrhau y gall cymunedau ar hyd a lled Cymru elwa yn sgîl cynhyrchu cymunedol, a fydd yn mynd i'r afael nid yn unig â'r materion o gynhyrchu ynni ond hefyd â materion megis tloedi tanwydd a gweithgarwch economaidd mewn gwahanol rannau o Gymru.

Rwyf am gloi ar y pwynt hwn. Hwyrach y bydd Aelodau wedi darllen yr adroddiad CREW ar fy nhref enedigol sef Tredegar— astudiaeth 'Deep Place'. Cymerwch olwg ar hwnnw. Er mwyn i unrhyw fodel economaidd ddangos cryfder gweithgarwch economaidd mewn cymuned yn y dyfodol, mae'n dweud bod yn rhaid i gynhyrchu ynni fod yn rhan ohono. Rwy'n gobeithio y byddwn, yn y dyfodol, yn gweld cynhyrchu ynni a pholisi ynni yn y cyd-destun hynny'n union fel rhan allweddol o'n polisi newid cymdeithasol a hinsawdd.

17:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Eluned Parrott to reply to the debate.

Galwaf ar Eluned Parrott i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:41

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find myself in the very unusual position—for me—of rising to thank Members for their broad support for the position that we have taken in bringing this debate forward today. I do not really know what to do with myself. [Laughter.] However, in terms of welcoming that support for community energy schemes, I am grateful that, across the Chamber, we have recognised the many benefits that those schemes offer to our local communities: social benefits in terms of autonomy, resilience and community empowerment; educational benefits, which we have discussed, in terms of opening up community energy schemes as centres of study; and economic benefits, through employment opportunities and the potential for local communities to produce their own energy to reduce their bills and to reinvest some of that income into their own local area.

Rwy'n dod o hyd i fy hun yn y sefyllfa anarferol iawn—i mi—o godi i ddiolch i Aelodau am eu cefnogaeth eang i'r safbwynt a gymerwyd gennym wrth gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Ni wn beth i'w wneud gyda mi fy hun. [Chwerthin.] Fodd bynnag, o ran croesawu'r gefnogaeth honno ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol, rwy'n ddiolchgar ein bod, ar draws y Siambwr, wedi cydnabod y manteision niferus y mae'r cynlluniau hynny yn eu cynnig i'n cymunedau lleol: manteision cymdeithasol o ran ymreolaeth, cadernid a grymuso cymunedau; manteision addysgol, a drafodwyd gennym, o ran ehangu cynlluniau ynni cymunedol fel canolfannau astudio; a manteision economaidd, drwy gyfleoedd cyflogaeth a'r potensial i gymunedau lleol gynhyrchu eu hynni eu hunain i leihau eu biliau ac i ail-fuddsoddi peth o'r incwm hwnnw yn eu hardal leol eu hunain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I want to highlight an example in my own region—the Cwmclydach Community Development Trust, which is a fantastic community organisation in the Rhondda Valley. It installed a 60 kW micro-hydro turbine in Cwmclydach Countryside Park. The project was launched in 2012 and now generates an income of around £18,000 a year, which is used to support other local community projects, such as a local nursery. It also has a partner project, the Cambrian Village Trust, which then provides free football coaching for local schools. It has also refurbished the park's visitor centre, installed a small solar panel, solar hot water system, rainwater harvesting, helping the centre to become more sustainable, more self-sufficient, but also just broadening out the benefits. This is not just about energy. It is a fantastic example, I think, of what can be achieved with some commitment and some imagination in this area.

Turning to the comments made by Members, Bill Powell, in introducing the debate, highlighted some of the shortcomings identified by the review of the Welsh Government's Ynni'r Fro scheme, and the barriers preventing communities from taking those community-led projects forward at the moment. He also underlined the impact that some of those problems are having.

Llyr Gruffydd spoke about fuel poverty and made the point that we are paying more than many of our European neighbours. Critical to this, of course, is the issue of grid infrastructure, as you say, and the fact that we have not invested in that kind of technology to an adequate extent, and that that will come to haunt us. However, there are examples from Germany through which we could develop some of the models that have been used successfully and see that benefit returning to our own communities in Wales too.

Russell George began with a plea to us to not make superficial judgments on his position on renewables. Russell, I would not dare guess, but you are right in suggesting that it is a very complex issue. You are absolutely right in saying that one of the problems that we face is that we have lost community buy-in from many of the schemes that we have brought forward, by the appearance of them being top-down rather than bottom-up. That is exactly why we brought this debate today. We want to turn that situation on its head. We want local communities to feel empowered, in charge and in control. We want to give them the right to have decision-making in their own communities and in their own hands.

Rwyf am dynnu sylw at enghraifft yn fy rhanbarth—Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Cwm Clydach ei hun, sy'n sefydliad cymunedol gwych yng Nghwm Rhondda. Gosododd dyrbin micro-dŵr 60 kW ym Mharc Gwledig Cwm Clydach. Lanswyd y prosiect yn 2012 ac mae bellach yn cynhyrchu incwm o tua £18,000 y flwyddyn, sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau cymunedol lleol eraill, megis meithrinfa leol. Mae ganddo hefyd brosiect partner, sef Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian, sydd wedyn yn darparu hyfforddiant pêl-droed rhad ac am ddim i ysgolion lleol. Mae hefyd wedi ailwampio canolfan ymwelwyr y parc, wedi gosod panel solar bach, system dŵr poeth solar, mae'n casglu dŵr glaw, gan helpu'r ganolfan i fod yn fwy cynaliadwy, yn fwy hunangynhaliol, ond hefyd mae'n ehangu'r manteision. Mae hyn yn fwy na dim ond ynni. Mae'n enghraifft wych, rwy'n meddwl, o'r hyn y gellir ei gyflawni gyda rhywfaint o ymrwymiad a rhywfaint o ddychymyg yn y maes hwn.

Gan droi at y sylwadau a wnaed gan Aelodau, aeth Bill Powell ati, wrth gyflwyno'r ddatl, i dynnu sylw at rai o'r diffygion a nodwyd gan yr adolygiad o gynllun Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru, a'r rhwystrau sy'n atal cymunedau rhag bwrw ymlaen gyda phrosiectau dan arweiniad cymunedau ar hyn o bryd. Mae hefyd yn tanlinellu'r effaith y caiff rhai o'r problemau hynny.

Siaradodd Llyr Gruffydd am dlodi tanwydd a gwnaeth y pwynt ein bod yn talu mwy na llawer o'n cymdogion Ewropeaidd. Yn dyngedfennol i hyn, wrth gwrs, mae mater seilwaith y grid, fel y dywedwch, a'r ffaith nad ydym wedi buddsoddi yn y math hwnnw o dechnoleg yn ddigonol, ac y byddwn maes o law yn difaru. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o'r Almaen y gallem eu defnyddio'n ddatblygu rhai o'r modelau sydd wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus a gweld y budd hwnnw yn dychwelyd at ein cymunedau ein hunain yng Nghymru hefyd.

Dechreuodd Russell George drwy ymbil arnom i beidio â gwneud penderfyniadau arwynebol ar ei safbwynt ef ar ynni adnewyddadwy. Russell, ni fyddwn yn meiddio dyfalu, ond rydych yn iawn i awgrymu ei fod yn fater cymhleth iawn. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud mai un o'r problemau sy'n ein hwynebu yw ein bod wedi colli'r elfen o'r gymuned yn manteisio ar nifer o'r cynlluniau rydym wedi'u cyflwyno, a hynny am eu bod yn edrych fel rhai o'r brig i'r bôn yn hytrach na'u bod yn rhai o'r bôn i'r brig. Dyna'n union pam rydym yn cyflwyno'r ddatl hon heddiw. Rydym yn awyddus i droi'r sefyllfa ben i wared. Rydym am i gymunedau lleol deimlo wedi'u grymuso, yn gyfrifol ac mewn rheolaeth. Rydym am roi'r hawl iddynt gael proses o wneud penderfyniadau yn eu cymunedau eu hunain sydd yn eu dwylo eu hunain.

Aled Roberts discussed the UK Government's community energy strategy, which is the first-ever community energy strategy published by the UK Government, launched by our own Minister, Ed Davey. This is complemented by welcome measures in the Queen's Speech this month for communities to have the chance to buy a stake in their local renewable electricity scheme, which the Minister mentioned. I think that that would be really welcomed by communities in my own region that I have spoken to, particularly those that are learning to live with perhaps new solar developments. They actually raised this very issue with me: that they would feel more engaged with it and more supportive of it if they felt that they had an opportunity to buy into it in the financial sense, but even to buy into it in terms of engagement as well. There is an opportunity there that I think is worth pursuing.

Peter Black also spoke about the role that community energy can play in improving energy efficiency and reducing fuel poverty, and the need to offer greater support for the development of renewable energy co-operatives as well. I think that the access to finance issue ties in very neatly with that. He also talked about the importance of sustainability education in schools and making sure that those projects that we have always been very supportive of continue to work and continue to help us to move the debate forward.

Turning to the Minister's comments, we are very grateful for your support today. It is right to say, of course, that we do already have many of the tools to tackle the issues that we have discussed, but, hopefully, Silk will provide us with an opportunity to do so to a much greater extent. I hope to see all the parties putting that in the heart of their next general election manifestos, as we have done.

There are two additional points that you raised in terms of access to finance and grid infrastructure. Those are absolutely key, and you are right to add them to the debate today. We do note your words on neutrality during the live conversation with regard to the issue that I mentioned a moment ago, but I do take on board your comments as well on the choice of the word 'regrets'. I would never regret the Welsh Government taking steps to critically evaluate, to honestly evaluate, its own work. In fact, I welcome that very much. However, I think that I would regret the fact that progress to date has been described as minimal, as I am sure you must, because you would want to see that progress move forward. Even if that critical evaluation leads us to identify problems, it also leads us and challenges us to drive for better in the future.

Bu Aled Roberts yn trafod strategaeth ynni cymunedol Llywodraeth y DU, sef y strategaeth ynni cymunedol gyntaf erioed a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, a lansiwyd gan ein Gweinidog ni, Ed Davey. Mae hyn yn cael ei ategu gan fesurau i'w croesawu yn Araith y Frenhines y mis hwn i gymunedau gael y cyfle i brynu cyfran yn eu cynllun trydan adnewyddadwy lleol, y soniodd y Gweinidog amdano. Rwy'n meddwl y byddai hynny'n cael croeso brwd mewn gwirionedd gan gymunedau yn fy rhanbarth fy hun yr wyf wedi siarad â nhw, yn enwedig y rhai sy'n dysgu i fyw gyda datblygiadau solar newydd, o bosibl. Bu iddynt godi'r pwynt hwn gyda mi mewn gwirionedd: y byddent yn teimlo wedi'u hymgysylltu i raddau mwy helaeth gyda'r cynllun ac yn fwy cefnogol ohono pe byddent yn teimlo bod ganddynt gyfle i brynu i mewn iddo yn yr ystyr ariannol, ond hyd yn oed i brynu i mewn iddo o ran ymgysylltu hefyd. Mae cyfle yno y credaf sy'n werth ei ddilyn.

Soniodd Peter Black hefyd am y rôl y gall ynni cymunedol ei chwarae i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau tlddi tanwydd, a'r angen i gynnig mwy o gefnogaeth ar gyfer datblygu mentrau ynni adnewyddadwy cydweithredol yn ogystal. Credaf fod mater mynediad at gyllid yn cysylltu'n daclus iawn â hynny. Soniodd hefyd am bwysigrwydd addysg cynaliadwyedd mewn ysgolion a gwneud yn siŵr bod y prosiectau hynny rydym bob amser wedi eu cefnogi'n frwd yn parhau i weithio ac yn parhau i helpu i symud y drafodaeth yn ei blaen.

Gan droi at sylwadau'r Gweinidog, rydym yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth heddiw. Mae'n iawn i ddweud, wrth gwrs, bod gennym eisoes lawer o'r adnoddau i fynd i'r afael â'r materion rydym wedi'u trafod, ond, gobeithio, y bydd Silk yn rhoi cyfle i ni wneud hynny i raddau llawer mwy. Rwy'n gobeithio gweld yr holl bleidiau yn rhoi hynny yng nghalon eu manifestos etholiad cyffredinol nesaf, fel rydym ni wedi ei wneud.

Mae dau bwynt ychwanegol a godwyd gennych o ran mynediad at gyllid a'r seilwaith grid. Mae'r rheini yn gwbl allweddol, ac rydych yn iawn i'w hychwanegu at y ddadl heddiw. Rydym yn nodi eich geiriau ar niwtraliaeth yn ystod y sgwrs fyw mewn perthynas â'r mater y soniais amdano funud yn ôl, ond rwy'n derbyn eich sylwadau yn ogystal ar y dewis o'r gair 'gresynu'. Ni fyddwn byth yn gresynu gweld Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i werthuso'n feirniadol, i werthuso'n onest, ei waith ei hun. Yn wir, rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y byddwn yn gresynu'r ffaith bod y cynnydd hyd yn hyn wedi cael ei ddisgrifio fel cynnydd bach iawn, fel chithau rwy'n siŵr, oherwydd y byddech am weld y cynnydd hwnnw i symud ymlaen. Hyd yn oed os yw'r gwerthusiad beirniadol yn ein harwain i nodi problemau, mae hefyd yn ein harwain ac yn ein herio i yrru am welliant yn y dyfodol.

17:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I therefore defer voting on this item to voting time. Voting time will now follow.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei wella. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio'n dilyn yn awr.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5527

Result of the vote on motion NDM5527

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 41, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 11, Against 41, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5527

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5527

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5527

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5527

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5527

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5527

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5529

Result of the vote on motion NDM5529

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 16, Ymatal 1.

Motion not agreed: For 9, Against 16, Abstain 1.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5529

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5529

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 15, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 11, Against 15, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5529

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5529

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 15, Against 11, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5529.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5529.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 16, Against 10, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5529.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5529.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 25, Against 0, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5529.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5529.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 26, Against 0, Abstain 0.

Cynnig NDM5529 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5529 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Cynllun drafft 'Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd'.

1. Notes the Welsh Government's draft Plan Consultation Document 'M4 Corridor around Newport'.

2. Yn nodi mai dewis Llywodraeth Cymru fyddai adeiladu M4 newydd dros Wastadeddau Gwent i'r de o Gasnewydd.

2. Notes the Welsh Government's preference to construct a new M4 over the Gwent Levels to the south of Newport.

3. Yn credu y dylid diystyru'r llwybr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer M4 newydd ar sail amgylcheddol a gwerth am arian.

3. Believes that the Welsh Government's preferred route for a new M4 should be ruled out on environmental and value for money grounds.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau i ôl troed ffordd yr A48 bresennol o amgylch Casnewydd fel yr amlinellwyd yng nghysyniad y 'Llwybr Glas' fel rhan o strategaeth drafndiaeth integredig ar gyfer de ddwyrain Cymru sy'n cynnwys buddsoddiad mewn trafndiaeth gyhoeddus, seilwaith rheilffyrdd ar gyfer cludo nwyddau a gwella llwybrau lleol strategol.

4. Calls on the Welsh Government to support improvements to the existing A48 road footprint around Newport as outlined in the 'Blue Route' concept as part of an integrated transport strategy for south east Wales incorporating investment in public transport, rail freight infrastructure and the improvement of strategic local routes.

5. Yn credu na ddylai pwerau benthycia i Gymru fod yn seiliedig ar gymorth Llywodraeth Cymru i brosiect penodol, ond y dylent fod ar gael i'w defnyddio ar draws y cyfan o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

5. Believes that borrowing powers for Wales should not be predicated on Welsh Government support for a specific project, but should be available for use across the whole of the Wales Infrastructure Investment Plan.

6. Yn croesawu'r buddsoddiad gan Lywodraeth y DU a'r ymrwymiad i gael mynediad cynnar at bwerau benthycia er mwyn ariannu gwelliannau i'r M4;

6. Welcomes the investment made by the UK Government and the commitment to access early borrowing powers to fund improvements to the M4;

7. Yn cydnabod bod angen penderfyniad cynnar ynghylch cael ffordd i ysgafnhau'r tagfeydd ar seilwaith presennol yr M4 o amgylch Casnewydd, a rhoi'r penderfyniad hwnnw ar waith.

7. Acknowledges the need for an early decision and implementation of a road to relieve congestion on the current M4 infrastructure around Newport.

8. Yn cydnabod pryderon y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei lythyr yn dwyn y teitl 'Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd', ar 5 Mehefin 2014.

8. Acknowledges the concerns of the Environment and Sustainability Committee in their letter titled 'Welsh Government Proposals for the M4 around Newport', dated 5 June 2014.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5529 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5529 as amended

Gwrthodwyd cynnig NDM5529 fel y'i diwygiwyd: O blaid 5, Yn erbyn 20, Ymatal 1.

Motion NDM5529 as amended not agreed: For 5, Against 20, Abstain 1.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5530.

Result of the vote on motion NDM5530.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 5, Yn erbyn 47, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 5, Against 47, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5530.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5530.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 36, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 36, Against 16, Abstain 0.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5530.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5530.

<i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.</i>
<i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i>	<i>As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i>
Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5530.	Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5530.
<i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.</i>
Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5530.	Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5530.
<i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.</i>
Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5530.	Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5530.
<i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.</i>
Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5530.	Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5530.
<i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.</i>
Cynnig NDM5530 fel y'i diwygiwyd:	Motion NDM5530 as amended:
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:	To propose that the National Assembly for Wales:
1. Yn cydnabod pwysigrwydd microgynhyrchu a chynhyrchu sy'n eiddo i gymunedau o ran datblygu cymysgedd ynni amrywiol i ddarparu ar gyfer anghenion ynni Cymru yn y dyfodol, a'r angen am fwy o effeithlonrwydd ynni i leihau ein defnydd o ynni a lleihau tlodi tanwydd.	1. Recognises the importance of microgeneration and community-owned generation to the development of a diverse energy mix to provide for Wales' energy needs in the future, and the need for greater energy efficiency to reduce our energy use and decrease fuel poverty.
2. Yn nodi'r cynigion gan Lywodraeth y DU i gymunedau gael y cyfle i brynu rhan yn eu cynllun trydan adnewyddadwy lleol.	2. Notes the proposals by the UK Government for communities to have the chance to buy a stake in their local renewable electricity scheme.
3. Yn gresynu at y canfyddiadau yng Ngwerthusiad Canol Tymor Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru mai prin iawn fu'r cyflawniad yn erbyn y targedau ar gyfer cynhyrchu ynni, gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a chreu swyddi hyd yma.	3. Regrets the findings within the Welsh Government's Ynni'r Fro Mid-term Evaluation that 'achievement against the targets for energy generation, reductions in greenhouse emissions and job creation has been minimal to date'.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gynorthwyo ynni cymunedol ac effeithlonrwydd ynni drwy:	4. Calls on the Welsh Government to do more to support community energy and energy efficiency by:
a) sicrhau bod prosiectau microgynhyrchu yn cael eu hystyried gyda rhagdybiaeth o blaid datblygu;	a) ensuring that microgeneration projects are considered with a presumption in favour of development;
b) rhoi fframwaith cyfreithiol a busnes enghreifftiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol Ynni Adnewyddadwy sy'n Eiddo i Gymunedau i leihau'r costau cyfreithiol a'r cymhlethdod i gymunedau sydd am sefydlu eu rhai eu hunain;	b) providing a model legal and business framework for Community-Owned Renewable Energy Co-Operatives to reduce the legal costs and complexity for communities wishing to establish their own;

c) sicrhau bod y cyngor a'r cymorth a gynigir gan Swyddogion Datblygu Technegol Ynni'r Fro yn parhau ar ôl y rhaglen bresennol;

d) creu llyfrgell o adnoddau i gynorthwyo grwpiau cymunedol wrth wneud cais am gymorth ar gyfer prosiectau cynhyrchu cymunedol;

e) gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod polisiau newid yn yr hinsawdd ac addysg yn cydnabod yn llawn rôl addysg ac ysgolion o ran cyflwyno newid ymddygiad, a sicrhau mwy o ddealltwriaeth o faterion ecolegol yn ein hysgolion.

f) sefydlu cronfa ynni cymunedol, yn seiliedig ar y rhaglen lwyddiannus Community Energy Scotland, i ddarparu cyllid drwy fenthyciadau i gymunedau lleol sy'n awyddus i sefydlu prosiectau ynni cymunedol, benthyciadau a fyddai'n cael eu dileu petai'r prosiectau'n aflwyddiannus; ac

g) ystyried cyflwyno rhaglen ôl-ffitio ledled y wlad i leihau'n sylweddol y defnydd o ynni yng Nghymru.

5. Yn nodi'r buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gellir eu cyflawni o fewn un prosiect cynhyrchu sy'n eiddo i gymunedau.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyllid cyhoeddus i Ynni Cymunedol Cymru i hwyluso prosiectau.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5530 fel y'i diwygiwyd

Derbyniwyd cynnig NDM5530 fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

c) ensuring that the advice and support offered by Ynni'r Fro Technical Development Officers continues beyond the existing programme;

d) creating a library of resources to support community groups in applying for support for community generation projects;

e) working with education providers to ensure climate change and education policies fully recognise the role of education and schools in delivering behaviour change, and bring more understanding of ecological issues into our schools.

f) establishing a community energy fund, based on the successful Community Energy Scotland programme, to provide loan finance to local communities wishing to set up community energy projects which would be written off if unsuccessful; and

g) considering rolling out a nationwide retrofitting programme to drastically cut Wales's energy consumption.

5. Notes the economic, social and environmental benefits that can be achieved within a single community-owned generational project.

6. Calls on the Welsh Government to provide Community Energy Wales with public funding to facilitate such community projects.

Result of the vote on motion NDM5530 as amended

Motion NDM5530 as amended agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.

17:54

Dadl Fer: Llais—Siarad ar ran Pobl sy'n Byw gyda Chlefyd Niwronau Motor yng Nghymru

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This item has been postponed.

That concludes today's proceedings.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:54.

Short Debate: Voice—Speaking Up Y for People Living with Motor Neurone Disease in Wales

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r eitem hon wedi ei gohirio.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

The meeting ended at 17:54.